A YDYW YN BOSIBL

Gwneyd y goreu

O'R

DDAU FYD?

Llyfr i Wyr Ieuainc.

GAN Y PARCH. THOMAS BINNEY.

DINBYCH:

CYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLV.

HYSBYSIAD.

Traddodwyd y ddarlith, yr hon sydd yma wedi chwyddo yn gyfrol, ar brydnawn y degfed o Chwefror, 1852, yn Neuadd Exeter, ger bron aelodau Cymdeithas Gristionogol Gwyr Ieuainc Llundain—Syr Edward N. Buxton, Barwnig, yn y gadair. O blegid afiechyd sydyn, yr oedd yr awdwr yn analluog i'w chyhoeddi gyda'r gyfres o ddarlithiau, o ba rai yr ydoedd yr olaf. Ymrwymodd, pa fodd bynag, i'w pharotoi i'r wasg mor fuan ag y byddai yn alluog; ond aeth llawer o fisoedd heibio cyn y gellid cynnyg ar hyn. Pan, o'r diwedd, y dechreuodd ysgrifenu, canfyddodd ei fod yn ddiarwybod yn helaethu ei gynllun; a theimlai y gallai, gyda phriodoldeb, wneyd hyn: o blegid gan fod y darn i fod yn gyhoeddiad ar ei ben ei hun, nid ydoedd yn cael ei gyfyngu gan y terfynau hyny a osodasid arno pe yr ymddangosai fel un ddarlith mewn cyfres o ddeuddeg. Fel hyn, heb ddim tebyg i amcanu at hyny yn mlaen llaw, fe ddaeth yn llyfr. Gan ei bod wedi ei dechreu, pa fodd bynag, fel darlith, y mae y drychfeddwl o anerchiad yn cael ei lefaru yn cael ei gadw i fyny; yr hyn a rydd gyfrif i'r darllenydd am gartrefwch rhai o'r cyfeiriadau, ac o'r defnydd gwastadol a wneir o ddulliau o ymadroddi rhydd a theuluaidd.

CYNNWYSIAD.

RHAN IV.

GWRTHDDADLEUON AC ATEBION.

Tudal.

RHAN V.

Y GWAHANOL DYBIAU AM FYWYD DYFODOL.

RHAN VI.

GEIRIAU YMADAWOL.

Y DDAU FYD.

RHAN I.

PENNOD I.

EGLURHADAU ARWEINIOL.

Y MAE y pwnc yr ymgymmerais â'r gorchwyl o'i drafod y prydnawn yma yn cael ei osod i lawr fel hyn :—"A YDYW YN BOSIBL GWNEYD Y GOREU O'R DDAU FYD?" Mae y ffurf yma o ymadroddi, chwi a sylwch, yn cymmeryd dau beth yn ganiataol. Cymmer yn ganiataol fod dau fyd—y presennol a'r dyfodol; ac fod dwy ffordd o fyned trwy y naill a'r llall—gwell a gwaeth. Mae yr ymofyniad yn cael ei godi oddiar y rhagdybiau hyn. A chaniatäu y rhai hyn, gan hyny, tybir fod rhyw un yn gofyn, "Pa un a ydyw yn bosibl i unrhyw ddyn, neu i ddynion yn gyffredin, wneyd y goreu o'r *ddau* fyd; neu o'r bywyd hwn, ac o'r nesaf hefyd?" Yr ydwyf i gyfarfod ac i ymdrechu ateb yr ymofyniad hwn.

Gyda golwg ar yr hyn a ragdybir gan y gofyniad, gellid sylwi, fod yn y naill a'r llall o'r ddau bâr o dybiadau, bwnc o ffaith, a phwnc o dyb. Y mae yn *ffaith* ein bod yn byw, y mae yn *dyb* llawer y byddwn fyw drachefn. Y mae yn *ffaith* fod y bywyd presennol yn beth tra gwahanol i wahanol bersonau; y mae yn *dyb* y rhan fwyaf ydynt yn rhagddysgwyl un arall, y bydd *hwnw*, hefyd, yn cael ei wahaniaethu yr un modd. Gallech ychwanegu at hyn, yr ystyrir yn gyffredin iawn y bydd *ail* sefyllfa dyn yr un olaf iddo—y bydd yn ddiddiwedd, yn sefydlog, yn anghyfnewidiol; y bydd yr oreu neu y waethaf y mae yn bosibl i'n natur fwynhau neu ddyoddef; ac y bydd yn dilyn *fel canlyniad* oddi wrth yr hyn a wnawn ac ydym *yn y* byd hwn.

Yr wyf yn galw yr holl bethau hyn, wrth gychwyn, yn faterion o dyb. Y cyfryw, pa un bynag ai iawn ai cyfeiliornus, yw y dybiaeth gyffredin gyda golwg ar berthynas dyn â'r dyfodol. Yn bresénnol, y mae yn ddigon dyweyd, y *gall* y dybiaeth hon fod yn wir. Fe all dyn ei gwadu, ond ni all ei gwrthbrofi. Gall wrthosod ffurf nacaol, yn erbyn ffurf gadarnhaol, o grediniaeth: gall gyfarfod eich "ïe"—yn hytrach, "ïe" y ddynoliaeth yn gyffredinol â'i "nage;" ond ni all wneyd dim chwaneg. Wedi y cwbl a all ddwyn yn mlaen o blaid tebygolrwydd ei athrawiaeth ei hun, bydd ganddo wedi hyny i addef, y *gall* y bydd trefn pethau, fel y gweithia ei hun allan, yn cadarnhau tybiaeth y credu, ac yn gwrthod ac yn profi yn gelwyddog dybiaeth y gwadu.

Wrth weled, gan hyny, ein bod mewn gwirionedd, fel pwnc o ffaith, mewn un byd, ac y gallwn o bosibl, ryw ddiwrnod, fod mewn un arall; ac wrth weled, yn mhellach, fod dwy ffordd, un well ac un waeth, o fyned trwy y byd hwn, ac y *gall* y bydd yr un ddeddf hon yn myned gyda ni i'r nesaf;—ar yr ystyriaethau hyn, mae yn rhaid addef fod yr ymchwiliad yn un o ddyddordeb dwfn, a bod ganddo hawliau ar ein sylw, na ddylid yn ysgafn eu dodi o'r neilldu.

Ond y mae arnaf eisieu i chwi sylwi, fod y pwnc *mewn modd arbenig yn ei gyfeirio ei hun at wŷr ieuainc.* Os ydyw yn bosibl gwneyd y goreu o'r ddau fyd, y mae nid yn unig yn bwysig i wybod hyny, ac i gael ein gosod ar yr iawn ffordd, ond y mae yn bwysig i gofio nad ellir gwneyd hyn ond tra y mae y "ddau" fyd o'n blaen. Mae y cyntaf y tu ol i'r hen. Beth bynag allant fod wedi ei wneyd o hono, mae hyny yn awr yn anghyfnewidiol. Gallai ei fod unwaith yn edrych "fel gardd Eden," gall ei fod yn awr yn "ddiffaethwch anrheithiedig;" ond beth bynag ydyw, y mae wedi myned ymaith ac o'u cyrhaedd, ac fe fydd y *ffaith*, fel y mae yn sefyll, yn ffaith dros byth! Hyd yn oed gyda golwg ar y canol oed, y tebygolrwydd yw, eu bod wedi cymmeryd camrau nad ellir eu tynu yn ol, neu wedi eu gyru i sefyllfaoedd o ba rai nad allant encilio. Os methasant a chymmeryd mantais ar amser a chyfleusdra, mae amser a chyfleusdra, gyda hwynt, ar ben. Mae eu ffawd wedi colli, neu y fath ffawd ag oedd unwaith yn eu meddiant. Y llanw llifeiriol a godai ereill i nofio, ac *a allasai eu codi hwythau*, ni chyfyd byth mwy. Nid allant

wneyd yr hyn unwaith a allasent wneyd, a rhaid iddynt ymfoddloni yn awr i aros lle y maent. Ond i'r IEUAINC, y mae bywyd eto yn ir ac yn newydd, ac yn eu dwylaw *hwynt* y mae yn ffurfiadwy a hyblyg. Y mae ganddynt hwy y prawf o fyw eto i'w ddechreu; ac y mae o ddyddordeb iddynt hwy, *mewn modd nad ydyw yn bosibl i neb arall*, i ddysgu pa fodd i'w ddechreu yn dda. Wedi methu yn hollol yn y prawf—wedi dyfetha a gwenwyno bywyd—wedi camddefnyddio a gwneyd y gwaethaf o'r byd sydd yr awrhon—os ydyw yn ddichonadwy eto sicrhau y nesaf, a thrwy ryw fodd neu gilydd wneyd y goreu o hono *ef*, gwneler hyny ar bob cyfrif, a bydded i'r hen, y drygionus, a'r truenus, y pechadur, a'r ynfyd, adgyweirio eu hamryfuseddau gystal ag y medront. Mae yn rhaid fod yn well, pa fodd bynag—os ydyw *hyny* yn bosibl, wneyd y goreu o'r bywyd *hwn* yn gystal a'r nesaf, peidio dyfetha y naill na'r llall, ond gwneuthur dedwyddwch y naill yn brophwydoliaethol o, ac yn rhagarweiniol i, ddedwyddwch y llall:—*os* gellir gwneyd hyn, mae yn rhaid fod yn dda ei wneyd. Ond yr ieuainc yn unig a *all* ei wneyd, neu a ellir ddysgu yn ymarferol i'w wneyd, os nad ydyw eisoes wedi ei sicrhau. Gyda golwg ar un byd, o leiaf, gall nad ydyw dichonolrwydd ereill yn werth dim. Gan yr ieuainc yn unig y mae y defnydd yn eu dwylaw, a'r cyfleusdra yn cael ei ganiatäu iddynt, i gynnyg gwneyd y goreu o'r ddau. Iddynt *hwy*, mae y cwestiwn o'n blaen yn meddu dyddordeb a phwysigrwydd sydd yn perthyn iddynt hwy yn gyfangwbl.

Maddeuwch i mi, am ychwanegu yn mhellach eto, tra y dangosir fel hyn fod y pwnc yn dyfod gyda phwys neillduol atoch chwi, fy mod yn teimlo yr ymchwiliad iddo yn fater o gyfrifoldeb difrifol i mi fy hun. Os gallaf lefaru yn y fath fodd, fel ag i osod ger bron yn dda ac yn ddoeth gylch a rhediad ein testyn mawr, ac i ddwyn gyda mi eich rheswm a'ch cydwybod; os gallaf ysgogi a chynhyrfu er daioni y cydgasgliad dirfawr yma o feddwl, sydd yn ieuanc, gweithgar, ac yn myned rhagddo—yn myned rhagddo, fel yr ydym ni yn credu, i ddau fyd—os gallaf lwyddo i'ch argyhoeddi o'r posiblrwydd i sicrhau manteision y ddau, ac i'ch cyffroi i'r penderfyniad o ymdrechu eu sicrhau, pwy a all ddyweyd beth allai fod canlyniadau gwaith y prydnawn yma, nid yn unig arnoch chwi, ond ar gymdeithas, ac ar y byd? Trwy fendith

Duw, heb yr hon ni all dim fod yn llwyddiannus, gallai rhai o honoch gael eich cadarnhau yn yr hyn oll sydd dda, ereill eu hattal a'u rhwystro oddi wrth ddrygioni, ac fel hyn, i'r graddau yna, gellid gwneyd llawer er ychwanegu dedwyddwch a rhinwedd personol; i'r un graddau hefyd, gwneid rhywbeth at chwanegu swm y dylanwad cymdeithasol hwnw, yr hwn sydd yn mhob oes yn gweithio yn ddystaw ar bob llaw, a'r hwn, wedi iddo unwaith gael ei greu, sydd yn myned yn mlaen yn ei ganlyniadau i oesoedd ereill, a thrwy amser oll. Y mae yn rhywbeth i allu llwyddo i berswadio *rhywun* i benderfynu chwilio am, ac amaethu daioni, a'u cynnorthwyo i wneyd felly fel y maent yn myned rhagddynt yn ddystaw hyd rodfeydd disylw a chyffredin bywyd; ond gall fod yn mysg y cannoedd a'r miloedd ydynt wedi ymgynnull yma rai eneidiau o gynneddfau cryfion a gallu mawr—wedi eu geni i ddylanwadu, i arwain, ac i orchymyn—a phe byddai i ddim ond un o'r cyfryw, a siarad felly, gael ei ffurfio a'i sefydlu gan destyn y prydnawn, gellid gosod nerth mewn ysgogiad a gweithgarwch nad ydyw yn bosibl i ni wneyd cyfrif o'i effeithiau. Byddai i ddyn cryf, penderfynol, eang-galon, wedi ei yru yn mlaen, o hyn allan, i sicrhau iddo ei hun y manteision a'r bendithion yr ydym yn myned i son am danynt, nid yn unig wneyd hyny ei hunan, ond deuai, yn eneidiau ereill, efallai dros y byd, ac i amseroedd pell, yn ddechreuydd amcan a bywyd tebyg i'r eiddo ei hun. Y mae yn werth ymdrech, ar fy rhan i, i amcanu sicrhau rhyw un o'r canlyniadau posibl hyn. Ni ddywedaf beth sydd yn angenrheidiol ar eich rhan chwi; canys yr wyf yn hollol sicr y caf y cydymdeimlad a'r tynerwch hwnw, yr hwn a'm cynnorthwya i wneyd yr ymdrech, ac a gydweithia er sicrhau ei llwyddiant.

PENNOD II.

"A YDYW yn bosibl gwneyd y goreu o'r ddau fyd?"—Yr ydwyf eisoes wedi dangos fod y gofyniad hwn yn rhagdybied y *ffeithiau* o fyd presennol, ac o'r gwahanol ffyrdd i fyned *trwyddo—a'r gred* o fyd arall, ac o'r tebygolrwydd o'i fod dan

ddeddf gyffelyb. Wrth reswm, nid oes un cwestiwn am sylweddolrwydd teimladwy y byd yr ydym yn byw ynddo. Yr ydym yma ar safle lled gadarn;—y ddaear werddlas a'r eigion ymchwyddawl yn ymestyn o'n hamgylch yn mhob man—y nefoedd ogoneddus gyda'i goleuni a'i thywyllwch, ei haul a'i ser, ei chymylau ymsymmudol, ei bwa sefydlog, glas, ac anfesurol, uwch ein pen. Yr ydym yn gwybod, hefyd, fod yma drefydd a dinasoedd, a thorfeydd o bobl; crefftau a masnach, llongau a chyfrifdai, ffermydd a gwinllanoedd, melinau a gweithfeydd; celfyddydwyr cywrain, cloddwyr, gwledychwyr; athrofeydd dysgedig, ysgolfeistriaid pentrefol, trinwyr tir, gweithwyr yn y llongbyrth—dynion, y rhai y mae eu "hymddyddan ynghylch eidionau," a dynion a allant fwynhau arucheledd cân, a rhagfynegu dyfodiad diffyg. Dyna gymdeithas gyda'i graddau, a diwydrwydd gyda'i gwobrwyon; mae yma drafferth, a chwys, a llafur blin, esmwythyd, digonedd, gwychder, a phrydferthwch. Mae yma awduron a milwyr, gorseddau a chrogbrenau, palasau a charchardai,—mae yma lyfrau a darluniau, pebyll a phyramidiau, llysoedd eglwysig, breninoedd, rheilffyrdd, ac alltudiaeth i ynys Norfolk. Mae yma hen eglwysi cadeiriol a senedd-dai newyddion, gorymdeithiau cyhoeddus, gwleddoedd dinasol, chwareuon gwledig, caethweision Groegaidd, annibyniaeth Americanaidd, y "seren ogleddol," cariad a phriodas, genedigaethau a bedyddiadau, afiechyd a marwolaeth! Mae yma bob math a phob amrywiaeth o dynged,—pob cyfnewidiad amgylchiadau a ellir ddychymygu, a phob ffurf a graddoliaeth cymmeriad, o'r dyn sydd wedi ei wisgo â'r prif rinweddau hyd y dyhiryn nad oes ganddo gerpyn o barch! Nid oes un ammheuaeth yn nghylch hyn oll, a deng mil o bethau yn ychwaneg. Yma y mae. Mae y peth i gyd yn gorwedd o'n blaen,—yn gorwedd yn y Llundain hon o'r eiddom, gyda yr holl sylweddolrwydd y gall byd sylweddol a chrwn ei roddi iddo, a chyda holl eglurdeb ac arliwiaeth darlunlen. Ac nid yn unig felly, nid yn unig y mae byd a bywyd yn ffeithiau mawrion, ond, i'r rhai a wyddant pa fodd i edrych arnynt, mae yr ymddangosiadau dyeithrol, cymmysglyd, a chyfnewidiol,—y golygfeydd diflanedig sydd mor gyflym yn dilyn eu gilydd; pob dygwyddiad, o'r mwyaf cyffredinol a chynnwysfawr i'r *lleiaf* a mwyaf unigol;—y maent oll yn

ymddangos fel yn cael eu penderfynu a'u rheoleiddio gan ryw ddeddfau sefydlog, digyfnewid, bythweithiawl, ac, i fesur mawr, olrheinadwy. Gallai fod y deddfau hyn ar amserau yn ymddangos fel yn cael eu rhwystro a'u hattal. yn cael eu troseddu, eu gwrthddywedyd, a'u gosod o'r neilldu; ond nid ydynt byth mewn gwirionedd yn peidio gweithredu. Pa un a ydyw dynion yn dewis gofalu am danynt ai peidio, y maent yn gofalu am danynt eu hunain. Y maent yn myned rhagddynt gan weithio ymlaen, yn dylanwadu ac yn gosod ffurf, ar beth, a pherson, tynged, a chymmeriad; yn malu allan eu canlyniadau, weithiau i syndod ac aruthredd yr edrychwyr, ond yn gyffredin gyda chymmaint o uniondeb eglur, ac mor berffaith o naturiol ag ydynt o sicr a manwl.

Yn awr, wrth edrych ar hyn oll, ni allwn lai na gweled, fel mater o ffaith syml ac eglur, fod rhai pobl mewn gwirionedd yn gwneyd peth da o'r byd hwn, ac fod rhai yn peidio. Gyda y cyntaf, y mae bywyd yn ddysglaer, llawen, llwyddiannus, dedwydd. Y maent yn gallu trefnu i weithio i fyny ei ddefnydd crai yn rhywbeth ardderchog, prydferth, a da. Gyda yr ail, mae y peth yn wahanol:—y mae bywyd yn eu llaw hwynt yn dyfod yn chwerwder ac yn faich: gesyd arno ei hun ymddangosiad o anferthwch gwrthdarawol; mae y peth i gyd yn fethiad truenus; maent yn trwsgleiddio yn mlaen—yn myned yn ddrylliau ac yn colli—yn eu poenydio eu hunain, yn gwisgo allan eu cyfeillion, ac yna yn "ewyllysio na fuasent erioed wedi eu geni." Mae y pethau hyn hefyd yn faterion o ffaith eglur, ac yn bethau sydd yn dygwydd bob dydd. Dyna lle y maent. Nid ellir eu gwadu. Y mae mor eglur ag fod yma fyd gwirioneddol a gweledig, fod dwy ffordd o fyned trwyddo. Nid y gofyniad o'n blaen, gan hyny, chwi a sylwch, ydyw, Pa un a ydyw yn bosibl gwneyd y goreu o'r bywyd *hwn*—neu o leiaf gwneyd peth goddefol neu drwyadl dda o hono? canys mae hyn yna yn cael ei ganiatäu a'i addef fel ffaith ragarweiniol,—ond Pa un a ydyw yn bosibl gwneyd hyn, ac, ar yr un pryd, sicrhau bendithion a manteision y nesaf? A allwn ni yn awr weithredu ar unrhyw egwyddor, yr hon, tra y darpara at ddefnydd a mwynhad un byd, a ddarpara ar gyfer, ac a sicrha ddedwyddwch y llall?

Ar y grediniaeth o ddau fyd, gallem feddwl am lawer o *dybiau*, a llawer math o bosibilrwydd. Tybir, er anghraifft,

fod yn bosibl gwneyd y gwaethaf o'r ddau;—myned drwy druenusrwydd presennol i un dyfodol,—troi y bywyd hwn yn uffern ragarweiniol. Eto, drachefn, tybir fod yn bosibl gwneyd y gwaethaf o hwn, trwy ynfydrwydd a phechod ei ddinystrio a'i ddyfetha, ac eto trwy drugaredd Duw ennill sefyllfan fanteisiol yn y nesaf, "cymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol," a sicrhau ar fod iddo gael ei dreulio ar gynllun gwell. Tybir fod yn bosibl gwneyd y gwaethaf o hwn trwy *rinwedd gwronaidd*—ei golli yn wirfoddol, ei ddiystyru, ei aberthu, ei daflu ymaith, a'i gyfrif fel dim, mewn gwasanaeth ffyddlawn i'r gwir a'r cyfiawn; ac, tra yn gwneuthur hyn, yn gwneyd y gwaethaf o'r byd presennol—sicrhau a gwneyd y goreu o'r nesaf—y naill yn cael ei wneyd yn bris y llall, neu yn cael ei roddi i fyny yn wirfoddol a llawen er ei fwyn. Ystyrir fod yn bosibl gwneyd y goreu o hwn (neu ymddangos felly)—cyrhaeddyd a lluosogi ei amrywiol fwynderau—ei fwynhau yn ei holl adnoddau a'i helaethrwydd —ond gwneyd hyn yn y fath fodd ag i wneyd y bywyd nesaf yn bris y mwynhad, y dyfodol fel hyn yn cael ei aberthu i'r presennol. Ystyrir fod yr holl ddewisiadau hyn yn bosibl. Ond yr ymofyniad gyda ni ydyw, Ai nid oes yna yr un dybiaeth arall, yr un posibilrwydd arall? a ydyw, mewn gwirionedd, yn anhebgorol angenrheidiol i'r naill fyd neu y llall gael ei aberthu; ynte, ai ni allai fod yn bosibl gwneyd y goreu o'r ddau? Ië, nid wyf yn gwybod na ddylwn hyd yn oed ymfoddloni i'w osod i lawr fel hyn, Ai ni ellid cymmeryd gafael yn y bywyd sydd yr awr hon yn ei ddefnydd crai, yn y fath fodd, a'i weithio a'i wau i fyny yn y fath ddull, fel ag i'w wneyd yn beth ysblenydd a phrydferth, yn unig fel meddiant presennol a thros dymmor?—y dyn yn ei deimlo yn llawenydd iddo gael ei eni, er na fyddai iddo yr un ailenedigaeth i sefyllfa uwch: ac, yn mhellach, Ai ni ellid gwneyd hyn oll ar y fath egwyddor, fel, a thybied *fod* ail sefyllfa, y gellid sicrhau a pharotoi ar gyfer manteision a dedwyddwch y sefyllfa hono hefyd?

Dyna yr ymofyniad. Yr wyf yn bwriadu rhoddi iddo, ar y cyfan, atebiad cadarnhaol. Yr wyf yn credu mewn gwirionedd fod cyfansoddiad pethau y fath, fod natur dyn mor ryfeddol, fod y byd a bywyd yn bethau mor brydferth a gogoneddus, a bod tuedd y deddfau yr ydym yn byw danynt

mor drwyadl o'n hochr, ond i ni yn unig osod a chadw ein hunain mewn cydymffurfiaeth â hwynt, fel, hyd yn oed pe na byddai yr un ail fyd, y mae yn werth llawer iawn i ni gael ein geni i hwn. Pe na byddai mewn gwirionedd yr un Duw arno, yr un nefoedd uwch ben, neu dragwyddoldeb yn mlaen, y mae pethau wedi eu cyfansoddi yn y fath fodd, fel y gallai dyn ei ystyried yn ddygwyddiad o'r fath fwyaf ffodus ei fod yn byw o gwbl; gallai droi defnyddiau y bryddest fechan hon o fywyd, os nad bob amser i arwrgerdd ardderchog, gan mwyaf i rywbeth o ddyddordeb a phrydferthwch; ac y mae yn werth iddo wneyd hyny, hyd yn oed pe na byddai un canlyniad i'r darn. Yr wyf fi yn credu, pa fodd bynag, y bydd un; ac anturiaf feddwl wrth ymgymmeryd â'r gorchwyl yn iawn, y gellid dadgan y ddwy ran o'r gwaith mewn cerdd ddyrchafedig a chynghaneddol. Tuag at ganlyniad llwyddiannus y prawf o fyw, pa un bynag ai ar y dyb mai y presennol yw eich oll, ai fod y dyfodol yn dynesu ac yn cael ei ragddysgwyl, a'ch byw chwithau o ganlyniad gyda golwg ar *hwnw*,—yn y naill achos neu y llall, yr wyf yn bwriadu argymhell yr hyn a ddeallwn wrth rinwedd —yr wyf yn bwriadu dangos, neu geisio dangos, mai dyma yr offeryn mawr i wneyd y goreu, pa un bynag ai o'r byd hwn, ai o'r llall, ai o'r ddau.

PENNOD III.

Yma, pa fodd bynag, rhaid i mi aros i wrandaw dwy wrthddadl, y rhai y mae y gosodiadau hyn, yr wyf yn canfod, wedi eu galw allan o fanau gwrthgyferbyniol. Yr wyf yn clywed lleisiau—lleisiau Ffolineb ac Athroniaeth, yr wyf yn meddwl—y rhai ydynt y naill fel y llall yn awyddus am gael eu clywed yn uniongyrchol, y naill a'r llall yn llawn awydd am daflu rhwystr a ddiddymai yr ymchwiliad ar ei gychwyniad, gan derfynu yr ymofyniad oll. Gwnewch le, gan hyny, i'r athronydd ac i'r ffŵl. Gadewch i'r ddau gael cyfleusdra a rhyddid ymadrodd. Dystawrwydd yn y llys! Sefwch yn mlaen foneddigion; gall yr hwn a ddewiso o honoch siarad

yn gyntaf.—Y ffwl a'i pïa; bydded felly.—Mae yr athronydd yn cael ei wthio o'r neilldu gan ei gydymaith trystfawr, er ei fod yn rhoddi ei ffordd iddo gyda gwên dirion o ragoriaeth ymwybodol. Rhaid i ni wrandaw yn gyntaf, gan hyny, dybygid, ar y "Thebiad dysgedig" hwn.—Da iawn.—Yn awr, syr, siaradwch yn mlaen.

"Wel, yr wyf yn meddwl dywedyd, os oes rhyw debygolrwydd na fydd un byd ond hwn, na Duw, na thragwyddoldeb; os nad oes enaid anfarwol mewn dyn, na dim i'w ofni mewn unrhyw sefyllfa ddyfodol sydd yn nesäu; os fel yna y mae y peth yn bod, ac os ydwyf finnau i ffurfio fy mywyd ar y dybiaeth yna, neu os gofynir i mi beth a wnawn ar y dybiaeth o fod y peth felly—yr un diafol, yr un uffern, angeu yn derfyn i fywyd oll, y byd yn llawn o'i bleserau a'i hyfrydwch, a'r bedd ar ei ddiwedd fel gorphwysfan dawel, byth i gael aflonyddu arno gan freuddwyd na deffro: os felly y mae, mae fy ateb yn barod; sef, Gadewch i ni gasglu a gwasgu grawnwin mwyniant, cymmerwn afael yn moddion hyfrydwch presennol, bwytawn ac yfwn, ac nac attaliwn ein teimladau oddi wrth ddim llawenydd—garlantau a gwin, gwragedd a chaniadau, plethgoronau a chofleidiadau—dyna y ffordd, ac ni all fod dim yn well nac yn ddoethach na hyn. Y mae heddyw yn eiddom, ac yfory meirw fyddwn; bedd dwfn, chwe troedfedd wrth ddwy, yw yr oll fydd yn aros i ni mewn ychydig amser; nid oes dim oddi tanodd, na dim y tu draw iddo: ar yr ochr draw, mae gwagder anfeidrol ac o'i fewn tragwyddol gwsg. Ond yma yn awr, y mae y ddaiar anadlog, y byd dysglaer, iechyd ac ieuenctyd, a chwpanau a choronblethi! Gadewch i ni fyw ynte, tra yr ydym yn fyw. Nid oes dim i'w ofni; nid yw hyd yn oed trosedd ond gwegi os heb ei ddarganfod; y mae pechod yn anmhosibl, ac y mae pleser yn hyfryd. Dyna fy nghredo i;—ei fwynhau yw fy rheol. Pe y bywyd hwn fyddai pob peth, gwnawn i fy ymarferiad gydweddu â fy nghred."

Nid oes genyf un ammheuaeth na wnaech; ac mae yn debyg genyf eich bod yn gwneyd, ïe yn awr, er eich bod yn cael aflonyddu arnoch gan ofnau anghysurus am y dyfodol. Y mae yn dra ffol, pa fodd bynag, siarad fel hyn. A thybied mai y bywyd hwn ydyw eich cwbl, paham y dylech ei daflu ymaith? Os nad oes ail fyd, nid yw hyny yn rheswm dros

beidio gwneyd y goreu o'r un presennol. A thybied mai breuddwyd yw y dyfodol, y mae y bywyd yma yn ddigon gwirioneddol—nid ydyw hwn yn freuddwyd. Dyma lle yr ydym, gyda natur a chymdeithas fel ffeithiau yn hanfodi; gyda 'n galluoedd meddyliol a moesol ein hunain, fel ffeithiau; gyda chyfundrefn o ddeddf yn yr hon yr ydym yn byw ac yn ymsymmud, fel ffaith fawr, yn rhwymo yn nghyd weithredoedd a'u canlyniadau, yn cyssylltu yn annattodol hau a medi—dyma holl helyntion bywyd, gyda'i ryfeloedd a'i fuddugoliaethau, ei ogoniant a'i waradwydd, oll yn gorwedd o'n blaen ac o'n hamgylch fel ffeithiau sefydlog,—oll, fel y cyfryw, yn unig y peth ydynt, a'r peth fyddant, pa un bynag a oes Duw ai peidio, pa un bynag a oes tragwyddoldeb ai peidio, neu nefoedd ac uffern ai peidio.—Dyma lle y maent. Yr ydym yn alluog i sylwi arnynt, i'w gwylio, i'w pwyso, i'w cymharu, ac i'w gwerthfawrogi. Paham na chymmerir hwynt fel y cawn hwynt? Paham na ddefnyddir hwynt yn ol eu natur priodol, ac yn ol ein dylanwad ninnau arnynt, gan weithio i fyny ddichonolion bywyd yn rhywbeth mawr—rhywbeth y gwyddom, oddi wrth ffeithiau o flaen ein llygaid, a all fod yn ardderchog ynddo ei hun, ac yn llawn o ganlyniadau dedwydd, tra y gall hyd yn oed y drafferth o'i gynnyrchu fod i'r gweithiwr gonest yn foddlonrwydd a llawenydd? Paham nad ymddygir fel hyn, yn lle ymdaflu i'r erlyniad ar ol pleserau corfforol yn unig, y rhai, mae yn debygol, a ddygant arnoch ddarfodedigaeth anamserol, ac a'ch gorphenant ymaith mewn ychydig flyneddau? *Nid* "gwneyd y goreu o fywyd" ydyw gwneyd *hyn*. Nid ydyw pa un a oes Duw ai peidio, yn effeithio dim ar y peth fel mater o ffaith. Fe fydd i'r llwybr a fwriedwch, ar unrhyw dybiaeth, weithio allan i chwi drueni a chwerwder. Yr wyf yn ailadrodd y gair *chwerwder*. Y mae eich natur *foesol* yn un o'r ffeithiau yn mysg y pethau sydd yn hanfodi. O ba le bynag y daeth—pa un a oedd yna Greawdwr dwyfol a deallus i'w rhoddi i chwi, ai peidio, yna y mae; y mae yn wirionedd mawr, ac nid ellir cael ymwared oddi wrthi trwy fabwysiadu unrhyw gasgliad o opiniynau.Ië, os nad oes mewn gwirionedd un Duw, nac un tragwyddoldeb yn bod, eto nid yw y teimlad a'r canfyddiad o'r cyfiawn a'r da, y canmoladwy a'r gwir. yn ddim llai gwirioneddol fel ffeith-

iau hanfodol o'ch mewn; ni fydd drygioni yn troseddu yn llai ddeddfau eich cyfansoddiad, nac yn cael ei ddilyn yn llai gan ei ganlyniadau priodol ei hun. Hyd yn oed pe byddai yn wahanol—pe deuech yn ddideimlad, a'ch "cydwybod wedi ei serio megys â haiarn poeth," eto fe fyddai i'r dull o fyw y soniwch am dano ddadsylfaenu a dinystrio eich nerth corfforol, dyfetha eich cymmeriad, eich maglu mewn tlodi, a'ch dwyn i fedd anamserol a gwaradwyddus! Yn awr, pa ham y gwnewch hyn oll? Pa ham y sethrwch eich natur eich hun, y troseddwch ei deddfau, y dyfethwch ac y dinystriwch hi, ac y gwnewch y gwaethaf oll o fyd ac o fywyd, yn lle eu cymmeryd a'u defnyddio fel creadur rhesymol, a'u gwneyd yn rhywbeth teilwng o ddyn? Os y bywyd hwn ydyw y cwbl, y mae genych reswm mwy dros wneyd y goreu o hono. Os nad oes dyfodol, y mae digon o sylweddolrwydd o amgylch y byd yr ydym yn byw ynddo, a'r bywyd a fwynhawn, a digon o bosibilrwydd i'w troi at amcan uchel ac ardderchog, i'ch rhwystro rhag dewis yn hytrach fywyd yr anifeiliaid. Os un byd yn unig sydd eiddom, a hwnw yr un presennol—er ei fod yn rhyfedd a dadgymmaledig mewn rhai ystyriaethau—y mae eto yn rhy sylweddol a gwerthfawr, yn ei ddichonolion, i ddyn *doeth* ei daflu ymaith yn ddifeddwl. Yr ydych chwi wedi siarad fel unrhyw beth ond hyny. Wedi yr hyn a ddywedasoch, gallwn feddwl mai y peth mwyaf priodol allech wneyd, fyddai cymmeryd ysnoden lydan o bapyr neu femrwn, a phaentio arni mewn maintioli teg, y tair llythyren *ff ŵ l*—eu dodi o amgylch eich het, cerdded allan o'r neuadd, myned ar hyd y Strand, ac i lawr Fleet street—ac, yn ngeiriau Solomon, "hysbysu i bawb pa beth ydych." Nid oes arnom ni, y rhai a wrandawsom arnoch, eisieu yr hysbysrwydd.

Yn awr yr ydym yn myned i wrandaw ar yr athronydd. Bydded i ni wneyd hyny yn barchus. A gawn ni glywed beth sydd genych *chwi* i'w ddywedyd?

"Y mae genyf hyn i'w wrthddadleu—*hyn*, syr—peth tra gwahanol i ddychymyg tlawd y breuddwydiwr truenus ydych newydd droi o'r neilldu—y mae genyf i ofyn, syr, a ydych mewn gwirionedd yn myned i ddysgu y gwŷr ieuainc hyn i fod yn dda a rhinweddol, *er mwyn yr hyn a allant gael trwy hyny?*—i ddechreu adeilwaith bywyd uchel ac ardderchog,

trwy osod i lawr fel y sylfaen, y tueddiad meddwl dirmygus a hunanol o'r cyfan? Tybiwn fy mod yn cymmaint a hyny oddi wrth un o'ch sylwadau, yn y soniech am argymhell 'rhinwedd' gyda golwg ar iad llwyddiannus y prawf o fyw; gan fwriadu dang geisio dangos, mai dyma yr offeryn mawr at wneyd y o'r naill fyd neu y llall. Beth! a ydych chwi o ddi bwriadu darostwng ymarweddiad — cymmeriad a n gwladgarwch a dyngarwch, gwirionedd a chyfiawnder sydd sylweddol neu addurniadol mewn dyn—a yd bwriadu eu darostwng i gyfrifiad truenus o'r hyn a d i fewn, naill ai yn y byd hwn neu yn y nesaf? Ai nid byth i fod yn ddim ond pedleriaid a marchnatwyr? daioni ei hunan i gael ei chynnyg ar werth? A ydy amser i gadw ein llygaid ar y brif ffawd, dros byth i d ein meddwl y testyn goruchel o ennill a cholli? A teimlad a serchogrwydd, gweithredoedd mawrion a m iau cariadus, hyd yn oed y cariad at eich gwlad, eich g neu eich mam—a ydyw y pethau hyn, a phob peth iddynt, i gael eu trin yn wastadol fel moddion da i arian—fel rhywbeth a allo, o bosibl, ddwyn swm gwe elw? A ydym i fod yn dragwyddol yn dyfeisio am yn cwynfan ac yn dihoeni am gael ein gwneyd yn dded yn gosod pethau yn nghyd, yn mantoli, yn pwyso, dyfalu yn nghylch canlyniadau, ac yn dewis yr hyn nygia y fantais oreu? A ydyw rhinwedd i fod yn fa —y nefoedd ei hunan yn beth i'w brynu? Ai nid oe ych mewn gwirionedd ddim i appelio ato ond hunan dim i'w osod ger ein bron ond y 'gornel,' neu y de *gingerbread?* Ai dyna y cwbl? Ai cynnulleidfa o ydym? Ai nid oes dim ardderchog, dim rhyddfrydig yn mywyd dyn?—dim arwraidd, uchelfrydig, hunan-a ol? A ydyw ei holl fawredd i gael ei lethu; ei holl oniaeth i fyned yn ddisylw; ei holl arucheledd a'i bry wch i ddiflanu fel tarth—dim i gael ei adael i ni ond rhyd dlawd, ddirmygus, a hurtaidd y cyfnewidfwrdd a'r fa yr egwyddor o wneyd oreu y gallom drosom ein hu Yr wyf, syr, yn diystyru darostwng rhinwedd i fuddi y gwir a'r teg i'r diogel a'r manteisiol. Gallai hyny y tro i'r oes ddiweddaf; gallai wneyd y tro i ganl

Paley a Bentham yn ein dyddiau ninnau; gallai fod yn ddigon cyfaddas gyda thwyll offeiriadol neu wledychiaeth; ond ni wna y tro i mi, nac i unrhyw ddyn y dyddiau hyn sydd yn hawlio yr enw athronydd. Yr wyf fi, syr, yr wyf fi yn rhinweddol o angenrheidrwydd; oddi ar ddarganfod ardderchogrwydd cynhenid daioni; oddi ar deimlo tyniadau a rhwymedigaethau dyledswydd:—yledswydd *fel* dyledswydd, yn sefyll o'm blaen, yn dangos y ffordd, yn sibrwd y gair—mae *hyna* yn llawn ddigon. Nid wyf yn gofyn cwestiynau; nid wyf yn gwneyd bargen; nid oes arnaf eisieu cyflog; nid wyf yn gofalu dim am ganlyniadau; nid wyf yn meddwl am y fath bethau; nid oes a fynwyf â hwynt; nid yw o un pwys i mi pa un a wyf yn ddedwydd ai peidio, yn y byd hwn neu yn y llall—y peth i mi yw bod yn iawn. Yr wyf *fi* yn gofalu am hyny; rhaid i fy nedwyddwch gymmeryd gofal am dano ei hun; os na wna, ni allaf fi yn wir ddim oddi wrtho. Fel nad wyf yn edrych am wobrau, felly yr wyf yn barod i beryglu pob peth mewn amser a thragwyddoldeb. Yr wyf yn dilyn rhinwedd er ei mwyn ei hun, a dewiswn fod yn rhinweddol, ac ymddwyn yn rhinweddol, hyd yn oed pe gwyddwn y cawn fyned i uffern am hyny."

Yn araf, fy nghyfaill anwyl, yn araf. Yr ydych yn myned yn gynhyrfus; ac o'r braidd, efallai, yr ydych yn pwyso eich geiriau yn ddigonol. I athronydd, yn wir, y mae eich brwdfrydedd yn hynod; eich prysurdeb a'ch byrbwylldra nid yw yn gymmaint felly. Boddlonaf fy hun yn bresennol â dim ond atebiad byr i'ch gwrthddadl. Ar y prif fater, gallaf eich gwneyd yn esmwyth ar unwaith. Gallaf eich sicrhau yn onest, fod genyf syniad llawer uwch am y natur ddynol, a syniad uwch hefyd am natur rhinwedd, am natur a ffynnonell rhwymedigaeth foesol, nag y darostyngwn bob ymchwiliad mewn perthynas i ymarweddiad at gyfrifiadau cyfyng hunanoldeb a mantais. Aroswch ychydig, ac efallai y canfyddwch y gosodwn i lawr ac yr esboniwn ein dadl yn y fath fodd, fel ag i wneyd eich gwrthddadl a'ch attregydd yn anghymhwysiadwy. Yn y cyfamser, caniatewch i mi awgrymu i chwi y pethau canlynol:—

Yn y lle cyntaf, heb fod yn rhinweddol o gwbl er mwyn ei ganlyniadau daionus a dedwydd, os ydyw yn dygwydd bod yn ffaith yn natur pethau bod y fath ganlyniadau

daionus a dedwydd mewn gwirionedd yn llifo oddi wrth rinwedd, ai nid ydych yn meddwl y gallai y *ffaith yna* gael ei chydnabod, yn unig fel y cyfryw, ac y gallem ymresymu arni, ac hyd yn oed appelio at ddynion ar ei sail, heb o gwbl ddarostwng athrawiaeth, na niweidio rhagorfreintiau rhinwedd? Yn yr ail le, tra yr ydys i addef fod achlysuron, yn ddiddadl, pan wneir gofynion celyd ar egwyddor—pan y mae hunan-aberthiad gwronaidd yn cael ei erchi gan ddyledswydd —pan y mae cosp, yn wir, yn ymddangos yn cael ei thynu arnom trwy ymlyniad wrth yr hyn sydd iawn—holl ogoniant a dedwyddwch bywyd i gael eu rhoddi i fyny—y byd i gael ei wrthod a gwneyd y gwaethaf o hono (neu o leiaf wneyd dim o hono)—tra, meddaf, yr ydys i addef fod y fath achlysuron yn ddiddadl yn dygwydd, ai nid ydys i addef hefyd eu bod mewn cymhariaeth yn anaml?—eu bod yn perthynu i adegau tra neillduol yn hanes yr hiliogaeth, ac yn dyfod gyda eu gorchymynion a'u rhwymedigaethau ar ryw nifer fechan fel o rai dewisol ac etholedig?Ië, a thra yr ydys yn addef yn mhellach, y dylai yr *egwyddor* a gynhyrfa i'r gwroniaeth hwn fod yn gorwedd wrth wraidd rhinwedd *oll*, yn mhob man, a phob amser, ac y dylai fod yn barod yn mhob dyn, pe byddai achos yn gofyn, i ddyfod allan ac ymgorffori mewn ymadrodd neu orchestwaith addas a phriodol, ai nid ydys hefyd i addef y gallai hyn fod, neu y gall fod—sef y gallai presennoldeb yr egwyddor fod mewn gwirionedd yn hanfodi yn mhob dyn rhinweddol, ac eto fod trefn gyffredin pethau y fath, fel yn gyffredinol, y mae aberthau mawrion, a gorbwysedd o ddyoddefaint, yn beth sydd *eithradol;* ac er fod dynion yn barod, fel mater o ffaith, i ddyoddef ac i farw dros rinwedd, ei fod yn dygwydd yn y fath fodd fel y mae pethau yn troi yn dda gyda y rhinweddol, ac yn well ar y cyfan gyda hwynt na chydag ereill? Ond yn y lle olaf, ac addef yr egwyddor nad ydyw dedwyddwch i'w ystyried fel amcan bywyd, na'r dymuniad am dano i'w wneyd yn gymhelliad i rinwedd—fod mantais a chyfrifiad i roddi lle i'r drychfeddwl syml a mawreddig o ddyledswydd, eto, ai nid ydych yn meddwl y gallai sylw doeth ar ganlyniadau hunangadwraeth, y meddwl am ein llwyddiant dyfodol ein hunain, y dymuniad am ddedwyddwch, yn wir, fel y perthyna i holl alluoedd ein natur, ac i holl barhâd, neu barhâd tebygol

ein bodolaeth; ai nid ydych yn meddwl y gallai hyn fod, er nad *y* cymhelliad—y cymhelliad llywodraethol a phenaf i weithrediad—eto yn un o'r cymhelliadau? ai nid ellid yn deg ei oddef a'i gyfiawnhau? ai nid allai yr ystyriaethau sydd yn ei gynnyrchu neu yn ei faethu, gael eu lle yn mysg y pethau sydd i'w hystyried, i'w pwyso, a'u cymmeryd i gyfrif yn nhrefniad bywyd? Gallai oll edrych yn bur dda, a swnio yn fawrwych, ardderchog, a hyawdl, i siarad am fod yn rhinweddol hyd yn oed pe byddai raid i chwi ddyoddef am hyny tros byth; ond yr ydych yn gwybod, dybygaf, na ellir meddwl y gall hyny fod. Oddi wrth yr hyn a ddeallwn hyd yn oed am gyfundrefn natur, prin y gellir dychymygu ei bod wedi ei chyfansoddi yn y fath fodd fel ag i ofyn i ddyn, o blegid ei gydymffurfiad â'i hamcanion uchaf, aberthu yn bwyllog, neu beryglu yn wirfoddol ei holl ddedwyddwch. Oddi wrth yr hyn a gredwn am y "byth-fendigedig," neu y "byth-ddedwydd" Dduw, ni allwn amgyffred iddo ef ei wneyd yn ammod ffyddlondeb iddo ei hun, fod i ni fod yn foddlawn i gael ein damnio fel gwobr ufudd-dod!—yn foddlawn i roddi i fyny bob meddwl am ein dedwyddwch personol i'r fath radd fel ag i gymmeryd i fewn y golled o hono yn awr a thros byth—aberthu y bywyd presennol, a dyoddef yn y bywyd dyfodol! Y mae y peth yn wrthun; nid ellir ei dderbyn, ac ni ddylid siarad am dano fel pe gallai ddygwydd; y mae yn anamgyffredadwy ar yr athrawiaeth uchaf a mwyaf haelfrydig o rinwedd. Ni allaf feddwl, gan hyny, nad yw yr ymofyniad o'n blaen yn eithaf priodol, ac y gellid myned yn mlaen gydag ef; a bod yr hyn a ddywedais wrth gyfeirio at y tir ar yr hwn y gall dderbyn atebiad cadarnhaol, yn berffaith ddiffynadwy. Ni all rhinwedd, pa mor uchel bynag y meddylia ein cyfaill am dani, neu pa mor fawreddig neu hyawdl bynag y siarado, gael ei deall fel yn gofyn neu yn cymmeryd i fewn fod i ni roddi i fyny ein dedwyddwch yn y ddau fyd. Gan fod yn rhaid i ni, wrth hyny, ystyried ei bod yn sicrhau dedwyddwch *un*, nid ydyw ar un cyfrif yn anaddas ymofyn, Ai nid ellid ei dilyn ar y fath egwyddor, neu ai nid allai hanfodi yn y fath ystâd, fel ag i ddyfod yn wasanaethgar i ddedwyddwch y *ddau*?

RHAN II.

ELFENAU CYFANSODDOL FFURF FODDHAOL A PHRYDFERTH O FYWYD YN Y BYD HWN:—AMCANDYB.

WEDI clirio y ffordd trwy benderfynu fel yma y materion rhagarweiniol hyn, y rhai ni ddylasent, efallai, ein dal mor hir, a'r rhai yn ddiau ni fuasent yn gwneyd felly oni buasai yr attalfa y cyfarfuom â hi, ni a awn rhagom yn awr at fater y cyfarfod. Wrth ymofyn, a ydyw yn bosibl gwneyd y goreu o'r ddau fyd, byddai yn gystal efallai, dechreu trwy geisio cael syniad cyffredinol yn nghylch *beth ydyw gwneyd y goreu o'r un presennol.* Beth neu pa faint sydd ddoeth neu iawn i ni gynnwys yn hyny?

Cyn cyfrif, pa fodd bynag, y pethau sydd yn myned i wneyd i fyny y syniad cyffredinol hwn, rhaid i mi gael cenad i esbonio nad wyf yn deall yr ymadrodd "gwneyd y goreu o'r byd," yn yr ystyr uchaf sydd yn bosibl iddo. Nid wyf yn cymmeryd arnaf ei ddefnyddio ond mewn ystyr gyfyngedig; nid ydys i feddwl fy mod yn myned i bentyru yn nghyd mewn un person, y mwynhâd o bob peth godidog a gwerthfawr mewn bywyd, pob meddiannau dymunol, a hyny hefyd yn yr helaethrwydd eithaf, ac am ysbaid maith, ac yna dywedyd wrth bob un o honoch y gallai hyn oll fod yn eiddoch chwi! Nid oes neb, dybygaf, yn dysgwyl fod y gofyniad yn meddwl, a ydyw yn bosibl naill ai i un dyn, neu i ddynion yn gyffredinol, uno ynddynt eu hunain y sefyllfa uchaf, y talentau mwyaf, yr athrylith ryfeddaf mewn bod, y swm helaethaf o feddiannau, y mwynhâd o bob peth a berthyna i foddhâd y meddwl, y nwydau, y teimladau, a'r galon; athroniaeth, enwogrwydd, gallu, ac felly yn mlaen; gogoniant Solomon, llwyddiant Alexander, gorchestion unedig Bacon a Shakespeare, gyda'r cyfoeth a briodolir i'ch gwŷr arianog, fel Coutts a Rothschild! Fe fyddai yn ynfyd cyssylltu syniadau fel y rhai hyn wrth y gair, fe fyddai yn annheg ein cylymu i lawr wrthynt yn ein hymresymiadau.

Y mae y gofyniad yn cael ei roddi mewn ffurf boblogaidd, ac mae ei drafodaeth yn cael ei fwriadu at wasanaeth y bobl. Nid yw yr iaith o'r fath fanylaf: ond yr ydym oll yn deall fod rhywbeth yn cael ei fwriadu i'w ddangos trwyddi a ellid ei gyrhaeddyd mewn bywyd cyffredin, ac eglurhâd pa un a allai fod o ddyddordeb a lles i ddosbarth o bersonau, nad oes un o honynt byth yn debyg, na byth yn dysgwyl bod yn freninoedd neu arwyr, yn Filtoniaid neu yn filiynwyr. Yr ydym, ynte, yn deall yr ymadrodd—"y posibilrwydd o wneyd y goreu o fywyd"—nid mewn ystyr mor gyflawn fel ag i fod yn chwerthinus i feddwl am dano, nac ychwaith yn y fath ystyr ag a'i gwnelo yn gyrhaeddadwy i ddim ond un neu ddau mewn oes neu ganrif, ond fel yr hyn a ellid ei wneyd â bywyd gan y cyffredinolrwydd o ddynolryw, fel ag i'w weithio yn rhywbeth da a dymunol, rhywbeth a'i gwnelo yn feddiant boddhaol a dedwydd, dysglaer a hoenus, allan o ba un y gellid cael gorbwysedd helaeth o fwynhâd, a hwnw hefyd o natur uchel a gwerthfawr. Os gwneir hyn gan rywun—os gwna ef yn ol ei sefyllfa, ei alluoedd a'i gyfleusdra, mi a ddywedwn ei fod yn gwneyd peth da o fywyd; a dyna ydwyf yn ei ddeall fod y gofyniad yn arwyddo: er y gallai ereill fod wedi eu gosod yn y fath amgylchiadau fel ag i ymddangos, o leiaf, yn gwneyd llawer mwy o hono. Yn awr, peidiwch a meddwl fod y cymmesuriad yma ar y pwnc naill ai yn osgoi y cwestiwn, neu y gwna atebiad, a dybir yn gadarnhaol, braidd yn ddim; nid yw fod y cwestiwn yn cael ei ofyn yn fy rhwymo i'w ateb yn gadarnhaol o gwbl. I roddi ateb iddo y naill ffordd neu y llall, mae yn angenrheidiol ei gymmeryd mewn rhyw ystyr eglur a dealladwy. Yr hyn y cyfeiriais ato, yr wyf yn meddwl, yw yr ystyr a roddai unrhyw ddyn teg a rhesymol i'r geiriau; ac mewn perthynas i eangder a chyrhaeddiad yr ateb a rodder iddo, hyd yn oed wedi ei gyfyngu fel hyn, chwi gewch farnu am hyny wedi i chwi osod yn nghyd ac ystyried a phwyso y pethau yr wyf yn myned yn awr i'w hadrodd.

Yn y drychfeddwl cyffredinol, gan hyny, o wneyd y goreu o fywyd neu o'r byd presennol, yr wyf yn cymmeryd i fewn y pethau a ganlyn:—

Gan mai arbenigrwydd mawr ein ystâd bresennol o fodolaeth yw ein bod yn byw mewn corff, a chan fod cymhwysder

a chyfaddasrwydd y corff yma at amcanion bywyd yn ymddibynu ar ei iachusrwydd a'i nerth—mewn un gair, ar IECHYD corfforol da—mi a ddechreuaf gyda hyn. Y mae wedi dygwydd mewn rhyw ychydig iawn o droion arbenig, fod dynion o gyfansoddiad corfforol egwan ac afiach wedi bod yn alluog i wneyd pethau mawrion. Yn gyffredin, pa fodd bynag, y mae iechyd da yn hanfodol i ddilyn yn llwyddiannus y gorchwyl o fyw. Y mae genyf feddwl mawr am egni a hyblygrwydd aelod a gewyn, nerth at weithio neu ddyoddef, ymenydd a chalon, ysgyfaint ac afu:—y cwbl mewn ystâd mor drwyadl nad ydyw dyn am amrantiad yn meddwl yn eu cylch; nad ydyw yn gwybod fod ganddo gylla, yn anymwybodol o nychdod, cur yn y pen a diffyg treuliad, ac sydd fel hyn yn gyfaddas nid yn unig at lafur corfforol maith a siriol, ond sydd yn fwy tebyg i feddu nerth ewyllys, galluogrwydd cyffredinol eang, gogwyddiad naturiol at feddwl sefydlog a chryf, a thuedd gynhenid i fod uwch law diogi, moethiant a mwynderau gwanychol. Y mae yn beth truenus pan nad ydyw bywyd ond rhyw un clefyd hir, neu pan y mae rhyw dlodi ymwybodol, neu rhyw wendid naturiol, neu rhyw dueddiad afiach, dirgelaidd, yn gorfodi dyn i fod bob amser yn meddwl am dano ei hun—yn gwahardd ffurfiad cynlluniau ac yn attal oddi wrth ymdrechion ac anturiaethau, pa rai, oni buasai hyny, y gallesid yn llwyddiannus eu mwynhau neu wynebu arnynt. Y mae iechyd da, nid yn unig yn bwysig i ddyn er gwneyd y goreu o fywyd, ond gellid ei ystyried fel yn cael ei gynnwys yn y goreu hwnw ei hunan. Y mae fod holl ranau y cyfansoddiad corfforol yn iach a da, yn gyfaddas at eu gwaith, ac yn gweithredu yn wastadol yn gyson â'u gilydd, nid yn unig yn gwneyd y corff yn wasanaethydd effeithiol a bywiog i'r enaid, ond y mae yn cynnyrchu yr ymwybodolrwydd hoew a phleserus hwnw sydd yn dilyn iechyd, a'r hwn o hono ei hun a wna i ddyn ei theimlo yn rhagorfraint iddo gael byw.

Yn nesaf at iechyd corff, yr wyf yn enwi yr iachusrwydd enaid hwnw sydd yn gynnwysedig mewn ysbrydoedd anifeiliaidd tawel a chyfunwedd. Y mae arnaf eisieu SIRIOLDEB, naturiol, dirodres, tawel, ac unffurf. Rhaid i'r meddwl fod yn esmwyth:—mae yn rhaid fod gorphwysiad a llonyddwch yno; rhyddid oddi wrth bryder, digalondid, a therfysg

meddwl; dim meddyliau fo yn gwisgo ac yn malu, yn bwyta i fewn i'r galon; ysbryd y dyn ddim yn suddo o dan lethiant a thywyllwch mynych neu wastadol. Nid ellir na gwneyd na mwynhau dim mewn bywyd, os ydyw y meddwl yn ddarostyngedig i gael ei rwygo a'i boenydio fel yma. Y mae yn anghymhwyso at ymegnïad, y mae yn dinystrio yni, yn gwywo gobaith, yn darostwng uchelgais, yn gwneyd i'r ewyllys fod yn anwadal, a'r farn yn betrusol; yn dychrynu ac yn brawychu, neu yn llethu ac yn dyfetha; y mae yn gwneyd dyn yn llwfr, yn llegach, yn ansicr, ac yn dda i ddim! Bod fel hyn yn ysglyfaeth i'r hyn sydd yn ysu ac yn syfrdanu, yn cythruddo ac yn llethu, ydyw cael bywyd wedi ei wenwyno a'i anrheithio yn gyfangwbl. Y mae ei oleuni wedi ei dywyllu, ei liwiau wedi diflanu, ei wenau a'i heulwen wedi eu llyncu i fyny a'u diffoddi. Yn lle bod yn cael ei gyflenwi â phethau prydferth a deniadol, y mae yn ddwl, yn ddiffrwyth, yn wag, ac yn anfuddiol! I wneyd y goreu o hono, neu fel rhan o hyny, y mae arnaf eisieu i'r byd ymddangos i ddyn mewn rhywbeth tebyg i haul-lewyrch. Y mae arnaf eisieu iddo rodio fel plentyn y dydd, ac nid fel peth yn ymlusgo ac yn yswatio yn y tywyllwch. Os na fydd bob amser neu yn fynych yn mysg blodau a gwyrddlesni, bydded iddo o leiaf gredu a llawenychu fod y fath bethau. Er gwaethaf cyfnewidiadau achlysurol oddi mewn ac oddi allan, y mae arnaf eisieu iddo fyned rhagddo gyda'r arwyddion o'i amgylch o sirioldeb llonwych; rhywbeth o ffurfafen las maboed, awyr dêr ddigymylau ei ddyddiau boreuol yn myned gydag ef trwy fywyd—"calon y plentyn o fewn calon y dyn." Y mae arnaf eisieu i'r boreu ei ganfod yn ddibryder, a'r nos ddisgyn heb ddwyn gyda hi anhunedd neu ddychryn. Bydded tywyllwch a goleuni yr un fath iddo ef; calon dawel, dangnefeddus, lawen, yn ei dueddu at, ac yn darparu "ei hymn foreuol yn ei thro, a'i deg brydnawnol gân."

Yna y mae arnaf eisieu DIGONOLRWYDD. Nid wyf yn meddwl *goludoedd*. Fel y dywedais wrthych eisoes, nid wyf yn chwilio am y goreu oll,—yr hyn a allai gynnwys ynddo ei hun yr uchder eithaf o bob peth, ac a allai fod naill ai yn rhywbeth afresymol neu anmhosibl ynddo ei hun, neu yn debyg o gael ei gyrhaedd ond unwaith neu ddwy mewn

can mlynedd. Y mae a fynof fi â bywyd cyffredin, â ffyrdd a moddion dedwyddwch cyffredinol, a'r fath bosibilrwydd ag a fo o fewn cyrhaedd y lluaws o ddynolryw, yn enwedig y fath ag a berthynant i'r dosbarth neu y dosbeirth yn awr o fy mlaen. Nid wyf gan hyny yn pwyso ar gyfoeth fel peth hanfodol i chwi wneyd y goreu o fywyd. Nid wyf yn cymmeryd cyfoeth i fewn i'r drychfeddwl—fel y deallir cyfoeth yn gyffredin. Nid wyf yn dymuno ar i bob un o honoch ganfod rhyw Galifornia fechan, neu gael cymynrodd wedi ei gadael i chwi, neu gael y gamp-wobr mewn chwareu-ddamwain, neu ddyfod ar draws unrhyw foddion arall o ddyfod yn sydyn yn gyfoethog, neu yn gyfoethog o gwbl. Yr wyf yn credu yn yr anghenrheidrwydd a'r priodoldeb o anghyfartaledd sefyllfaoedd. Yr wyf yn ei chyfrif yn iawn fod i ni feistriaid a gweinidogion, cyfoethogion a gweithwyr, rhai yn llafurio gyda'u hymenyddiau, a rhai yn llafurio gyda'u cefnau; un dyn â'i ysgrif-bin yn ei law, ac un arall â'i hod ar ei ysgwydd; penaethiaid ac israddolion, llaw gelfyddyd a phen gelfyddyd yn ei holl amrywion, gyda'u holl wahaniaeth o radd a chyflogau, sefyllfa ac amgylchiad. Yr wyf yn credu mai hyn yw trefn natur ac ewyllys Duw. Nid oes genyf ddim ffydd mewn unrhyw fath o gydfeddiannaeth neu gyfartaledd; o blegid pe byddai pawb hyd yn oed yn gyfoethog, fe fyddai pawb yn dlawd. Nid ydwyf, gan hyny, wrth ddigonolrwydd, yn meddwl cyfoeth. Wrth siarad gyda golwg ar y lluaws, nid wyf yn gofyn fel elfen yn y goreu o fywyd, neu at wneyd y goreu o hono, yr hyn a all berthynu yn unig i'r ychydig. Fy amcan ydyw dyfod o fewn cyrhaedd y mwyafrif, gan fy mod yn credu fod Duw yn ewyllysio i ddynion yn mhob gradd, ac mewn cyssylltiad â gwahaniaeth mawr mewn sefyllfa, fod yn alluog yr un fath i wneyd bywyd yn brydferth a dedwydd. Mewn trefn i hyn ynte—mewn trefn, yn wir, i ddyn wneyd unrhyw beth o fywyd—y mae yn bwysig i ddyn gael modd i fyw! I fod yn wir gysurus, rhaid i'r moddion yma fod yn gyfartal i'w sefyllfa yn y byd ac yn gyrhaeddadwy heb iddo gael ei ddarostwng i bryder gwastadol. Y mae cyfoeth, yr wyf yn addef, yn nerth; y mae yn rhoddi dylanwad mawr, yn diogelu rhag mân flinderau, yn dyrchafu ac yn sicrhau sefyllfa dyn, ac yn agor rhwyddineb i gynnyg ar, ac i ddwyn oddi amgylch bethau y byddo

ereill yn breuddwydio yn ofer yn eu cylch. Eto, yr hyn oll sydd yn eisieu at ddedwyddwch cyffredin, at wneyd bywyd yn beth da a dymunol, yw digonolrwydd; gan feddwl wrth hyny, adnoddau cyfaddas i sefyllfa y dyn, digonol i gynnal i fyny ei enw a'i barchedigaeth. Mewn cyssylltiad â hyn, i'r rhan fwyaf o ddynion, ni a osodwn y teimlad a'r ymwybodolrwydd o *fyned yn mlaen*, o lwyddiant a chynnydd, graddol, os mynwch, ond gwirioneddol a sicr. Yr ydym yn deall, gan hyny, nad ydyw gogoniant bywyd yn ymddibynu ar fod yn gyfoethog. Nid ydyw bod yn ddyn tlawd, mewn gwirionedd, mewn rhyw ystyr, ddim yn anghydweddol â mawredd: y mae y fath ddynion tlodion yn mhob graddau. Y mae *tlodi*, pa fodd bynag, yn llawn ystyr y gair—tlodi, fel y mae yn arwyddo dyryswch gwastadol, eisieu presennol neu ddyfodol, yn ddrwg mawr! Y mae yn beth ofnadwy i gael, ddydd a nos, y blaidd wrth y drws, a'r fwltur wrth y galon—fod pethau bob amser yn myned yn waeth; fod lle a sefyllfa yn dirywio; fod cylch y cymdeithion yn culhau ac yn cyfnewid, nes nad oes dim wedi ei adael o'r hyn ydoedd unwaith! Y mae rhwymedigaethau arianol, a deimlir neu a ofnir, gyda 'r ymwybodolrwydd o ddiffyg i'w gwynebu, yn rhywbeth fel uffern danllyd wastadol ar y ddaiar. "Yr hwn sydd yn cysgu yn rhy drwm, benthyced obenydd y dyledwr." Pan y mae tlodi wedi gwneyd ei oreu, y fath fryntni a'i dilyna—y fath aflendid a ffieidd-dra! Fel y mae yn fferu y serchiadau, yn dirwasgu y galon, yn darostwng yr ymarferion, yn dwyn yn fynych farweidd-dra a hurtrwydd ar y deall, a phob amser yn niweidio ac yn peryglu y cymmeriad! Ond yn mhell cyn cyrhaedd ei radd olaf, y mae tlodi yn fynych yn brofedigaeth ofnadwy i ddyn, pan yr hanfoda yn unig fel pwys neu anhawsdra arianol. I ddal drwg draw, i'w attal i ennill mantais neu ymwared bychan a byramserol, fe dry ei eiriau, ac fe gais dwyllo ei ddeall—fe ddywed hyn, ac fe addawa y llall—gan feddwl yr holl amser ei fod yn cadw o fewn terfynau gwirionedd a thebygolrwydd, er mewn gwirionedd ei fod yn twyllo ereill ac ef ei hun. Y mae yn ddywediad cyffredin, ac yn bur wir, y byddai pobl yn fwy dedwydd pe byddent yn fwy rhinweddol:—A! y mae yn wir hefyd, a dylai weithiau gael ei gofio, y byddai llawer yn fwy rhinweddol *pe byddent yn fwy* dedwydd. Y mae amgylchiadau

cysurus yn hynod o ffafriol i onestrwydd ac anrhydedd; y mae yn hawdd ymddwyn yn dda, pan y mae yn anmhosibl i ni gael ein temtio—y mae yn hawdd, ac nid ydyw o ryw haeddiant mawr iawn; nid yw mewn gwirionedd yn rhinwedd mawr yn neb o honom beidio lladrata. Ni feddyliech byth am ei ystyried yn glod i'n cadeirydd rhagorol yma, Syr Edward Buxton, na chafodd erioed ei brofi yn yr *Old Bailey* am ryw fân-ladrad; ac yn mhellach, ei fod, yn wir, mor rinweddol nad ydyw byth yn debyg o ymddangos yno. I rai dynion, wyddoch, fe fyddai gwneyd rhyw bethau yn waradwydd mawr, tra nad ydyw eu gwaith yn peidio eu gwneyd yn ddim rhinwedd. Y mae yn hawdd bod uwchlaw temtasiynau isel pan ellwch brynu a thalu am ba beth bynag fo arnoch eisieu. Gellir ymhyfrydu mewn, a thraethu syniadau ardderchog iawn, gellir coledd meddyliau uchel iawn am yr hyn sydd gyfiawn ac anrhydeddus, pan nad oes dim tebyg i ddyled, neu rwymedigaeth, neu fygythiad dinystr, i waethygu neu farweiddio y teimlad moesol. Y mae yn hawdd diystyru yr isel a'r gau, a gochel a chondemnio hoced ac amwysair, pan nad oes dim i wasgu allan o'r enaid y llef—"Fy nhlodi, ac nid fy ewyllys, sydd yn cydsynio!" Gellwch fod yn sicr, fod i ddigon ddyfod i mewn, yn beth campus iawn er mwyn cysur a chymmeriad; hefyd, nid ydyw llwyddiant gwastadol a chynnydd sefydlog mewn bywyd yn rhan ddibwys i chwi mewn gwneyd y goreu o hono.

Gan ein bod yn byw mewn cymdeithas, elfen bwysig arall mewn gwneyd y goreu o fywyd ydyw PARCH. Yr ydym wedi ein cyfansoddi yn y fath fodd, fel rheol gyffredin, nad allwn mewn gwirionedd fyned yn mlaen heb hyn. Nid yw o bwys beth fo dyn yn gredu neu yn ei anghredu; pa un a yw yn tybied fod Duw, ai peidio; byd dyfodol, ai peidio; nac yn wir, pa un a oes y naill neu y llall, ai peidio. Nid yw y *ffaith* o bwysigrwydd cymmeriad yn y bywyd hwn yn ymddibynu ar fod un arall, nac ar grediniaeth neillduol dyn mewn perthynas iddo. Yn annibynol ar hyn oll, y mae deddfau ein natur a chyfansoddiad cymdeithas y fath, fel nad ellir cyrhaedd na dwyn oddi amgylch unrhyw beth heb enw da. Y mae yn rhaid i ddyn gael ymddiried ei gymdeithion. Mae yn rhaid iddo fyw yn eu cymmeradwyaeth a'u parch. *Ni all oddef cael* ei adael gan bawb a safasant bob amser

wrth ei ochr; i gael cyfeirio ato bob dydd gan y bobl hyny o flaen pa rai y mae yn rhaid iddo ymsymmud, ac y bo yn rhaid iddo gyfarfod a gweithredu gyda rhai o honynt; i gael ei "anfon i Coventry" gan y cylch y perthyna iddo, neu i gael ei daflu ymaith trwy drais a'i wahardd i ddychwelyd! Ychydig iawn a all sefyll hyn. Hyd yn oed os nad oes Duw, yr hwn y mae ei wg i'w ofni, neu os na chredir fod un, y mae y dyn hyf yn fynych iawn yn cael tori ei ysbryd a'i ysigo gan wg cymdeithas. Nid oes braidd un dyn a all sefyll i fyny yn wyneb colli cymmeriad, pan y mae hyny yn cael ei gyfiawnhau gan ei ymwybodolrwydd ei hun; nid ydyw dyn wedi ei wneyd at hyn. Y mae y meddwl am gael ei ddrwgdybio yn ei flino—y mae y sicrwydd o gael ei ddiystyru yn ei arteithio. Y mae i ddyn orfod sefyll yn unigol ac ar ei ben ei hun, yn amddifad o gyfeillion, yn cael ei ochel neu ei ddiystyru, heb neb i gydymdeimlo âg ef neu i'w gynnal, yn gosp ofnadwy, ac yn ofnadwy rai gweithiau y terfynodd. Hyd yn oed pan mae dyn yn annheimladwy o gywilydd, ac wedi ymuno o'i fodd â'r rhai gwrthodedig a cholledig, nid ydyw y meddwl am ei amddifadrwydd—ei ddiffyg cymmeriad—wedi peidio cynniwair ar ei ol a'i aflonyddu. Dyna y Milwriad Charteris, er anghraifft—y cnaf penaf yn y canrif diweddaf—yn ddyhiryn diystyrllyd, dirmygedig, noeth, allan ac allan, drwyddo oll; dywedai hyd yn oed efe weithiau—"Mi a ddymunwn pe bai genyf gymmeriad; mi a roddwn ddeng mil o bunnau am gymmeriad!" Ac er ei fod yn ddigon o ddyhiryn i ychwanegu—fel i'n rhyddhau oddi wrth y drychfeddwl o'i fod yn teimlo dim cyfyngder *moesol* oddi wrth ei sefyllfa—"Mi a roddwn ddeng mil o bunnau am gymmeriad, *o blegid mi allwn wneyd ugain mil trwyddo.*" Y mae ei bryder, hyd yn oed gyda'r dattyniad yma, yn ddigon i brofi ac i arddangos gwerth y peth gyda golwg ar y byd yr ydym ynddo yn awr. Yn annibynol, pa fodd bynag, ar yr hyn a ellid wneyd trwyddo—yn unig mewn perthynas i ymwybodolrwydd dyn ei hun—y mae cymmeriad o'r pwysigrwydd mwyaf fel rhan hanfodol o ddysgleirdeb bywyd. Cael parch eich cyfeillion, ymddiried cymdeithas, edrych i fyny atoch, eich anrhydeddu, ymddiried ynoch—cael eich ystyried yn deilwng o hyn oll, a gwybod eich bod yn ei feddu—dyma barch, ac elfen arbenig iawn ydyw mewn gwneyd bywyd yn *brydferth a dedwydd.*

At yr hyn oll a ddygais yn mlaen, ni a ychwanegwn HENAINT TIRF. "Y mae henaint," medd Ossian, "yn dywyll ac anserchog." Nac ydyw, bob amser. Gallai fod felly yn mysg "tylwythau anwar, a barbariaid crwydrol," cyn iddynt dderbyn "elfenau gwybodaeth a bendithion crefydd." Ond y mae henaint, gyda ni, yn fynych, yn olygfa adfywiol a phrydferth. Y mae genym hen wŷr a hen wragedd sydd yn edrych mor deg a bywiog a'u hwyrion! Y mae yn hyfryd gweled dyn, yr hwn, wedi myned trwy raddau blaenorol einioes gyda pharch ac anrhydedd, sydd yn dynesu at yr olaf, ac yn myned trwyddi gyda boddlonrwydd a sirioldeb! Edrychwch arno! Y mae cryn lawer o amryw o'i briodolion arferol o'i amgylch eto:—nerth yn ei feddwl, newydd-deb yn ei deimladau, goleuni yn ei lygaid, ac egni yn ei aelod! Y mae yn adolygu yr hyn a aeth heibio heb boen ac heb gwynfan. Nid yw yn achwyngar, yn hunanol, nac yn ddyngasol. Nid ydyw yn dyrysu ac yn dychryn yr ieuainc trwy ddyweyd wrthynt am y "diffaethwch gwag erchyll" y maent wedi eu geni iddo, ac am y peth truenus y canfyddant fywyd i fod. Ni chafodd efe ef yn ddim o'r fath. Y mae y byd wedi ei brofi ei hun iddo ef yn lle hyfryd iawn, a bywyd yn daith ddifyrus, er yn bwysig. Ni throdd bywyd allan, efallai, y peth a ddysgwyliodd ac y breuddwydiodd am dano pan yn fachgen, neu hyd yn oed pan yn ddyn; fe ddaeth yn beth garwach, ond gyda hyny yn beth gwell a mwy ardderchog. Nid yw efe, gan hyny, yn amcanu cyffwrdd yn rhy erwin â breuddwydion y penboethiaid ieuainc o'i amgylch. Y mae yn gwrandaw arnynt gyda dyddordeb a phleser; weithiau gyda dystawrwydd arwyddocaol, ond serchog; weithiau yn ateb ac yn calonogi gyda chyd-deimlad hynaws. Nid yw yn dinystrio eu gobeithion a'u dysgwyliadau; o blegid tra y teimla y bydd iddynt, mae yn debyg, gael eu cyflawnu mewn ffordd fydd rywbeth yn wahanol i'r hyn a gynllunir, y mae yn teimlo hefyd y gallant gael eu cyflawnu, ac y gall bywyd fod i'w olafiaid y peth a fu iddo ef. Y mae ei ben gwyn yn goron gogoniant; ei enw yn beraroglaidd fel arogldarth. Y mae yn sefyll yn ganolbwynt cylch helaeth ac ymeangol o ddisgynyddion; y mae plant, a phlant y plant yn ymdyru o'i amgylch. Ni fu byw heb ymarferiad a chysur y serchiadau. Fe garodd ac fe briododd; cafodd wraig a chartref, meibion

a merched, gyda y gymmysgedd arferol o ofalon a mwynderau teuluaidd; ac y mae yn gyfoethog yn awr yn y bodau tlysion sydd yn llewyrchu o'i amgylch yn nghyflychwyr diflannol ei ddydd estynedig, y rhai ydynt ar unwaith yn addurno yr olygfa, ac yn ysgafnhau y galon. Y mae yn beth godidog i weled henaint wedi ei goroni a'i fendithio fel hyn; y dyn yn ddedwydd ynddo ei hun, yn ffyddlawn gyda'r byd, yn ddiolchgar am gael byw; yn edrych at a aeth heibio heb gywilydd, ac at a ddaw heb ofn; yn gadael ar ei ol, yn ei blant, y gwrol a'r deallus, y rhai ydynt yn cymmeryd eu safle ac yn gweithio eu ffordd mewn bywyd fel gwir flagur oddi wrth yr hen bren; eu rhai bach *hwythau* drachefn, fel hadblanigion tyner, yn tarddu i fyny, yn îr gan wlith eu bore cynnarol eu hunain, yn brydferth i lygaid yr hen ŵr, fel y maent yn dysgleirio yn ngoleuni ei haul prydnawnol! Ië, "coron yr henafgwyr yw eu hwyrion, ac anrhydedd y plant yw eu tadau." Bum lawer gwaith yn rhyfeddu uwch ben y dywediad yna o eiddo Solomon. Y mae yn gysson â natur hyd yn oed i'r llythyren; ac y mae yn dangos, fel y gwna llawer o bethau yn y Beibl, fel y mae dynoliaeth yn awr bron yr un peth ag ydoedd dair mil o flyneddau yn ol. Y mae y plentyn bach, neu hyd yn oed y llanc, yn edrych i fyny, gan ganfod yn ei dad y gwrthddrych penaf iddo ef ar y ddaiar—pob peth sydd yn tynu cariad, parch, ymddiried, anrhydedd; a dywed, gan ymfawrygu, wrtho ei hun ac ereill, "dyna tada"—"dyna fy nhad!" Mae yr hen ŵr yn edrych i lawr; ac wrth syllu ar ei ŵyrion, ymddengys fel yn dyfod yn wrthddrych serchogrwydd newydd. Y mae felly—a dyma ei olaf. Nid oes gan y galon yr un arall i'w fwrw allan; bywyd ddim yn ychwaneg i'w roddi. Y mae gyrfa y dyn wedi ei "choroni" a'i pherffeithio drwy hyn. Pa un ai, ei fod yn unig yn hoffi y drychfeddwl o fyned i lawr yn ei hiliogaeth, ac yn llawenychu yn ffrwythau cyntaf y llinach sydd yn myned rhagddi; ai adnewyddiad ei deimladau blaenorol ydyw—ffrydiad allan drachefn tuag at ei gynnrychiolydd newydd, ond gydag elfenau ychwanegol, y cariad a ffynnonai o amgylch cryd ei fab; beth bynag ydyw, y mae yn sicr fod y teimlad llawenychol yma a ddesgrifia Solomon yn mynwes yr hen ŵr fel yr edrycha ar blant ei blant.—"Dyma walch gwych!—Dyma fachgen fy mab!—A gwelwch yma, dyma eneth fach fy merch!

Bendith ar yr anwyliaid! Yr wyf yn berffaith falch o honynt!" Mae yn debyg iawn genyf eich bod, hen gyfaill, ac y mae pob un sydd yn meddu calon yn cyfranogi o'ch hyfrydwch. "Cyffyrddiad natur wna yr holl fyd yn un." Mewn palas neu fwthyn, llys neu bentref, y mae henaint gwyrddlas a chalonog fel hyn yn brydferth i'r llygad, ac y mae ei holl serchiadau, ac hyd yn oed ei fympwyon yn hybarch a chyssegredig. Nid byd salw, wŷr ieuainc, gallwch fod yn sicr, a all ddangos i ni esamplau fel hwn yna o'i gynnyrchion. Fe wneir peth go lew o fywyd pan ellir ei ddefnyddio, ei dreulio, a'i "goroni" felly.

Wrth ddwyn y cyfrifiad hwn i ben, y mae genyf i chwanegu yn mhellach, y cymmerwn i fewn, mewn cyssylltiad â'r hyn oll y cyfeiriais ato fel yn cydgyfranu at fywyd dymunol a dedwydd, AMAETHIAD Y MEDDWL, yn gystal a'r serchiadau; ac, o dan y cwbl, y mae arnaf eisieu *rhyw ffynnon a tharddle o gysur a nerth cyfartal i boenau a dirwasgiad tristwch anocheladwy.* Y mae genym ddeall a chof, chwaeth a dychymyg; yr ydym yn alluog i gyrhaedd gwybodaeth gyffredinol, i ffurfio cydnabyddiaeth â chelfyddyd, ac i fwynhau hyfrydwch oddi wrth y prydferth. Fe ellid chwanegu nifer ein drychfeddyliau braidd yn ddiderfyn; fe ellid gwelläu a pherffeithio yn rhyfeddol ein canfyddiad o'r hyn a saif o'n blaen mewn natur a chelfyddyd, sydd heb ei ddadguddio i'r llygad diddysg a diymarfer. Gwybodaeth, gyda'i gwireddau sylweddol, yn holl ddosbarthranau amrywiol gwirionedd; prydferthwch, gyda'i holl amrywiaeth o ffurfiau deniadol, fel y mae yn cael ei dangos yn ngweithredoedd Duw, yn lleferydd neu orchestion athrylith, mewn geiriau neu bethau, mewn barddoniaeth neu hyawdledd, mewn ysgrifen neu ymadrodd, mewn arluniaeth, cerddoriaeth, cerfiadaeth, a chân:—y mae y pethau hyn yn ffynnonau uchel o fwyniant personol; gallai dyfod i gyffyrddiad a chydnabyddiaeth â hwynt chwanegu yn fawr at brydferthwch bywyd. Nid wyf yn dywedyd y dylai un dyn ddyfod yn gydnabyddus â'r holl bethau hyn, neu fod dynion yn gyffredin i'w wneyd yn bwnc i wthio eu hymchwiliad neu eu caffaeliad mewn unrhyw ran i'r pellder eithaf; fe fyddai hyn mor afresymol ag a fyddai ei wneyd yn rheol fod yn rhaid i bob dyn fod yn gyfoethog. *Tra yn unig* yn gosod i lawr y ffaith fod gwybodaeth a

chwaeth, gwyddoniaeth, llenyddiaeth, a chelfyddyd, yn cyd-gyfranu i ddybenion uchel a boddhâd sylweddol, dymunwn gael fy neall yn unig fel yn dywedyd, y gellid rhoddi rhyw-faint o sylw iddynt, neu i'r naill neu y llall o honynt, gan y rhan fwyaf, yn gyssylltiedig â sylw priodol i'w gorchwylion angenrheidiol. Y mae yn rhaid i'r mwyafrif o ddigon o ddynolryw fod yn wastadol yn trin defnyddiau garw crefftau a masnachaeth; ond yn gyffredin gellid cyssylltu wrth y fath alwedigaethau rheolaidd a llafurus "lynu wrth ddarllen," yr hyn a luosoga ac a ddyrchafa fwynderau y dyn, ac a rydd y fath liw a gorpheniad i fywyd ag a chwanegant yn fawr ei urddas a'i brydferthwch. Ond cofier bob amser, pa fodd bynag, er gwaethaf yr oll a ellid uno yn helynt a sefyllfa y mwyaf ffafredig o farwolion, fod "drygau y mae cnawd yn etifedd iddynt"—y rhai fel etifeddiaeth rwymedig wrthi, y rhaid i holl gyfranogwyr dynoliaeth gyfranogi o honynt rywbryd neu gilydd, gyda mwy neu lai o waethygiad oddi wrth sefyllfa. Y mae yn anmhosibl attal neu osgoi dyodd-efaint. Y mae mewn rhyw ffurf, yn rhan dyn yn gyffredinol. Poen a siomedigaeth, tristwch ac aflwydd, cyfnewidiad a marwolaeth—rhaid dysgwyl i'r holl bethau hyn gyrhaedd at bob dyn. Y maent yn ymosod ar ei berthynasau, yn dynesu ac yn cyffwrdd âg ef ei hun. Y mae blinderau na all neb eu cyfattal; na ellir canfod yr achosion o honynt yn mysg y pethau y gallai y dyn ei hunan yn wirfoddol effeithio arnynt trwy fod rhywbeth ganddo wedi ei esgeuluso neu ei gyflawnu. Hyd yn oed o fewn cylch yr yrfa fwyaf llwyddiannus, mewn amgylchiadau lle nad ydyw dynion yn cyfarfod â dim cyf-newidiolrwydd sydyn, dim ergyd syfrdanol, neu ddyrnod hyd lawr, y mae eto ofidiau a drygau lluosog ac amrywiol, nad ellir eu gochel, y rhai y mae yn rhaid eu dyoddef, a'r rhai y dylid, gan hyny, barotoi yn ddigonol ar eu cyfer, a'u cyfarfod yn eofn. Y mae arnaf eisieu, ynte, y fath barotoad digonol, o ryw fath neu gilydd, fel y galler dangos allan yr eofndra gwrol hwn. Mi a ddymunwn, mewn bywyd prydferth a da, wrol-deb i ymgynnal dan ruthrgyrchoedd tristwch; i wrthdaflu, os gellir, fygythion perygl, neu i sefyll i fyny dan ymosod-iadau drygedd; i ymostwng gyda gweddeidd-dra ac urddas i'r anocheladwy; i ymdawelu yn y profedigaethau gwaethaf a chaletaf; *ac i wneyd y goreu* o'r cwbl i fwriadau uchel ac

amcanion ardderchog, gan ymgodi o ddyfnderoedd cyfyngder, ac ymddangos drachefn, wedi tywyllwch a dagrau, yn gryf, yn benderfynol, yn hawddgar. Beth bynag a ddygwyddo, gadewch i ni gael dyn a allo ei adferu ei hunan; yr hwn, wedi ei lethu a'i orchfygu am ennyd gan dristwch neu aflwydd, a ymeifl drachefn gyda llaw gref mewn dyledswydd a gwaith, a ä yn mlaen gyda cham heinif at ymdrechfa newydd, gan roddi ei galon i fyny yn ewyllysgar i gynhyrfiadau newyddion o hyfrydwch a llawenydd. Fel, gan hyny, nad all fod yn mhrofiad pob dyn ond cymmysgedd o dda a drwg, y mae arnom eisieu yn mhawb, mewn cyssylltiad â pha beth bynag sydd lwyddiannus a dedwydd, adnoddau tufewnol o gysur a nerth cyfartal i ofynion blinder a thrallod.

Gan osod yr holl bethau hyn yn nghyd, gadewch i ni weled beth a gawsom. Iechyd corfforol, sirioldeb meddwl, digon yn dyfod i mewn, llwyddiant mewn bywyd, parch sefydledig, dyddanwch y serchiadau mewn gwraig a phlant, amaethiad y deall a'r dychymyg a'r chwaeth, adnoddau tufewnol digonol ar gyfer amgylchiadau o ddrygedd anocheladwy,—oll yn cael eu meddu a'u dwyn yn mlaen am flyneddoedd, ac yn cael eu coroni yn y diwedd â henaint tirf, dysglaer, a dedwydd! Os gellir mewn gwirionedd gyfarfod â hyn oll mewn unrhyw ddyn, ymddengys y byddai y fath ffaith yn profi fod "yn bosibl" gwneyd rhywbeth sydd yn ddiammheuol dda, dedwydd, a dymunol, allan o ddefnydd crai y bywyd presennol. Fe allai y byd, ar y dybiaeth yma, ddyfod yn sicr yn lle na fyddo ar un cyfrif yn annyoddefol. Pa un bynag a oes un arall i fod, ai peidio, gallaf feddwl am ddyn mor foddlawn gyda myned trwy hwn yn y wedd yma, fel ag i fod yn ddiolchgar o galon am iddo gael ei adael i fyw, er na byddai ganddo un olwg am gael byw drachefn. Os nad oes Duw, gallai y dyn ryfeddu at fodolaeth ac ysgogiadau cyfundrefn, yr hon, rywfodd neu gilydd, a allai gynnyrchu bod fel efe ei hun, a bywyd fel yr eiddo ef,—a gallai gael ei ddigaloni gan y meddwl nad oes Un yn un lle, yr hwn y gall ddiolch iddo am ei fwynderau. Os oes Duw, bydded ddiolchgar! Bydded iddo ei garu a'i foli Ef am yr hyn a wnaeth, hyd yn oed pe gwelai yn iawn iddo beidio *gwneyd* dim ychwaneg. Nid oes genyf un syniad

fod y rhesymau dros grefydd a'r teimladau crefyddol i gael chwilio am danynt yn unig yn y ffaith o fyd arall, pan ydym yn byw mewn, ac yn meddiannu, byd fel hwn. Edrychwch ar y dyn o'n blaen. Yr oedd yn ddim; ni allasai haeddu dim; ac eto fe ddeffroes un bore, ac fe'i canfu ei hun yn fyw!—gyda y ddaear o dano, a'r nefoedd uwch ei ben; gyda bywyd o'i flaen; ac o'i fewn, y galluoedd a'r cymhwysderau i'w wneyd yn rhywbeth mawr a phrydferth. Y mae wedi dyfod yn hyn iddo. Felly y defnyddiodd y byd, ac felly y mwynhaodd ef. Os nad oes un arall, yn sicr nid allaf fi weled fod ganddo un achos i gwyno. Gallaf yn hawdd ddeall, y gallai ei fod wedi mwynhau bywyd yn gymmaint fel ag i ddymuno ei gael drosodd drachefn, a thybiwyf yn dra naturiol iddo gredu y caiff ef; ond pa un a gaiff ai peidio, nid yw ac nid all hyny gyfnewid dim ar y ffaith fod gan y byd hwn adnoddau sydd braidd yn ddiderfyn, o ba rai y mae efe wedi cael y fantais, ac am ba rai y dylai fod yn ddiolchgar. Ond, beth bynag a feddylier am y dyb neillduol hon, nid ellir gwadu y gosodiad cymmedrol ac ammodol â pha un y terfynwn y rhan yma o'n dadl; sef, os ydyw yn bosibl i'r holl bethau a enwasom gyfarfod a hynodi cyfran ddaearol unrhyw ddyn, yna fe fu yn bosibl i'r dyn hwnw wneyd y bywyd sydd yr awr hon yn rhywbeth trwyadl foddhaol. Fe wnaeth y goreu o hono; nid yn yr ystyr o wneyd yr hyn a ellid wneyd â drwg addefedig, ond o droi i'w ddefnydd goreu ddichonolion elfenol llawn o werth. Ond fe all yr hyn a fu yn bosibl iddo ef, fod yn bosibl i ereill. Yr hyn a wna un dyn, fe all un arall ei wneyd. Gallai fod yn dda gwybod pa fodd i'w wneyd. Tybed y gellir ei wneyd ar un egwyddor yn well nag ar un arall! A meddwl fod ail fyd, tybed y gellid ei wneyd yn gydwedd â gwneyd y goreu o hwnw hefyd! Fe allai y cawn weled y gellir.

RHAN III.

YR AMCANDYB YN CAEL EI GWEITHIO ALLAN YN YMARFEROL.

GAN belled, ynte, ag y mae yr ymofyniad o'n blaen yn dwyn cyssylltiad â'r bywyd presennol, gallai ymddangos fod mewn gwirionedd yn hollol bosibl i hwn, o leiaf, gael ei wneyd yn rhywbeth tra boddhaol, gan ei fod yn fater eglur o ffaith fod rhai dynion yn gallu gwneyd hyn o hono. Nid all fod un ddadl na ddarfu i'r pethau a enwasom gyfarfod dynion lawer gwaith. Yr ydym oll wedi canfod anghreifftiau o hyn. Nid yw y darlun a dynwyd ond yr hyn a a welodd y rhan fwyaf o honom wedi ei sylweddoli yn ffeithiau bywyd ymarferol. Gallwn hefyd ffurfio syniadau eglur iawn am y gwahanol elfenau sydd yn myned i gyfansoddi yr hyn a alwn—gwneyd y goreu o'r byd yr ydym yn byw ynddo. Y peth nesaf, ynte, i'w ystyried yw, Yn mha ffordd y mae yr elfenau gwahanol yma yn fwyaf tebyg o gael eu dwyn allan, neu eu cyrhaedd, gan ryw un yn neillduol? Cymmerwch, er anghraifft, ŵr ieuanc â'r byd o'i flaen,—llanc, o dan, neu yn tynu at ugain oed: yr ydym yn gofyn, Ar ba egwyddor y cychwyna y cyfryw un gyda 'r rhagolwg oreu, neu fwyaf tebygol, o lwyddiant?—sut y mae y prawf pwysig o fyw, gan belled ag y mae y bywyd hwn yn unig i'w ystyried, yn fwyaf tebyg o gael ei ddwyn yn mlaen gan y gŵr ieuanc hwn i ganlyniad dedwydd a boddhaol?

Yn awr, nid oes neb a all ammheu mai yr hyn a alwn yn rhinwedd, neu egwyddorion ac ymarferiadau moesol da, yw yr hyn, fel offeryn, a ä yn mhell iawn i sicrhau yr hyn a geisir; neu, o leiaf, na sicrheir, ac nad ellir sicrhau y peth hebddo. Gallai y rhinweddol beidio llwyddo gyda golwg ar yr holl bethau a enwasom; ond yn sicr ni lwydda neb ond y rhinweddol,—ni wnaeth neb erioed, ac ni wna neb byth. Nid yw o un dyben ammheu hyny. Y pwnc i'w ystyried

yn awr yw, nid, Pa un a ydyw rhinwedd yn hanfodol i ddyn yn rhesymol i wneyd y goreu o fywyd; ond, Pa le yr ydym i edrych am y rhinwedd? O ba le y tardda y rhinwedd a geisiwn, gyflymaf a mwyaf uniongyrchol? Ar ba dir y saif, i fod yn gryf a chadarn? Pa gymhelliadau a rydd iddi y fath nerth ac awdurdod, a'r fath reoleidd-dra sefydlog o weithgarwch, fel ag i wneyd y gwahanol bethau a enwasom, gan belled ag yr ymddibynant ar rinwedd, yn fwyaf tebyg o gael eu cyrhaedd neu eu cadw?

Yr ydym yn ei gymmeryd, chwi a welwch, yn fater o ffaith, mai rhinwedd a ddyrchafa ddedwyddwch dyn oreu; ond yr ydym yn awr yn chwanegu, fel mater o athrawiaeth, na ddylid ei geisio er mwyn hyn. Ni wnaiff y tro i gyfeirio hawliau rhinwedd at y manteision sydd ganddo mewn golwg; yn enwedig ni wnaiff y tro i ddyn fod yn ystyried ac yn gwneyd cyfrif o ganlyniadau tebygol pob gweithred o'i eiddo. Os bydd dyn yn myned fel hyn i benderfynu pob peth ar ei ben ei hun yn ei ymarweddiad, oddi wrth yr hyn a genfydd am duedd yr hyn a wna, yn mhob achos a ddyger o'i flaen, i ychwanegu ei les a'i ddedwyddwch, nid yn unig fe 'i gosodir yn agored i flinderau gwastadol trwy fod ei feddwl yn cael ei gymmeryd i fyny gyda chyfrifon isel, a thrwy ammheuaeth a phetrusder mewn amgylchiadau neillduol, ond fe fydd mewn perygl o wneyd llawer o gamgymmeriadau ymarferol mawrion. Y mae arnom eisieu i rinwedd, ynte, darddu oddi ar rywbeth a'i sicrha hi, yn annibynol ar y meddwl am yr hyn y mae hi i'w sicrhau. Y mae arnom eisieu i ddynion gael egwyddor o ufudd-dod o'u mewn, yr hon a gyfarwydda i, ac a ddirgymhella, foesoldeb, ar dir gwahanol i'w ganlyniadau buddfawr presennol. Y mae yn rhaid i ddynion fod yn rhinweddol, heb fod yn meddwl yn barhaus beth y mae rhinwedd i'w wneyd erddynt.

Yn awr, gellid cael yr hyn a geisir, yr wyf yn meddwl, mewn ymostyngiad i ewyllys Duw, *fel y cyfryw*. Fe ganiatâ pawb, os oes Duw, ac os gellir gwybod beth ydyw ei ewyllys mewn perthynas i'n hymarweddiad, fod yn rhaid ei bod yn meddu grym deddf; ac ychydig, dybygaf, a ammheuant ei bod yn meddu hyn, nid am y gallai fod canlyniadau yr hyn a fyddem i'w wneyd yn cael eu dadguddio ganddi, ond yn unig am ei bod yn mynegu beth oedd i'w wneyd. Fe

gadarnhëid yn fawr, pa fodd bynag, allu y ddeddf, os byddai ei dirgymhell trwy brofion yn perthyn i'r dyfodol a'r tragwyddol; gan ymgyweithasu, fel hyn, âg ymestyniadau uchaf yr enaid, a galw i ymarferiad egnïon ac ymdeimladau y bywyd ysbrydol. Gan fy mod yn credu yn y Beibl, yr wyf yn credu ei fod yn dadguddio i ni ewyllys Duw mewn perthynas i ddyledswydd dyn, a'i fod yn ei dadguddio yn y fath fodd fel ag i syrthio i mewn â'r hyn a ddywedais yn awr. Y mae genym yma, ynte, ddarpariaeth ar gyfer yr hyn y chwiliwn am dano—rhinwedd wedi ei seilio ar, neu yn llifo oddiwrth, ffydd grefyddol. Dyma yr hyn sydd arnaf ei eisieu, a'r hyn y dymunwyf ei ddirgymhell. Y mae y manteision o alw, mewn buchedd foesol, am yr hyn a argymhellir ac a faethir gan grefydd, yn amrywiol. Y mae rhinwedd, y pryd hyny, yn rhywbeth sydd yn llifo o angenrheidrwydd o helynt y dyn oddi mewn, fel y mae yr archwaeth foesol yn cael ei phuro a'i dyrchafu i gydymffurfiad â Duw, ac yn argymhell i ddaioni fel trwy rym greddf; neu, mewn goleuni arall, y mae yn rhywbeth sydd yn cael ei wneyd neu ei ddal mewn ufudd-dod i awdurdod, ac nid fel peth yn cael ei gymhell gan gyfrifon; neu, y mae yn rhywbeth sydd yn cael effeithio arno gan sylw, yn y pen draw, ar dragwyddoldeb i ddyfod, ac nid gan y meddwl am fantais uniongyrchol. Y mae y meddwl, wedi ei ddwyn dan ddylanwad teimladau a chymhellion a gynnyrchir gan yr hyn sydd wahanol i'r hyn oll a orwedd o fewn cylch pethau bydol a thymmorol, yn cael ei ddarostwng i ddeddf, yr hon y mae ei llais yn glir, yn benderfynol, ac yn unffurf; yr hon a'i cyfarwydda at yr hyn sydd iawn, nid at yr hyn sydd gyflëus; a'r hon a wrthesyd nerth egwyddor yn erbyn cynhyrfiad nwyd a golygusrwydd ymddangosiad;—egwyddor wedi ei gwreiddio mewn ffydd grefyddol—y ffydd hòno a gyssyllta y presennol â'r dyfodol, gorseddfainc Duw gyda mainc ei farn. Fe ganfyddir fod y ddeddf yma, pa fodd bynag, yr hon a sicrhâ rinwedd trwy gymhellion wedi eu tynu o oror uwch, ac o fyd arall, fel mater o ffaith, yn gweithio yn llesol gyda golwg ar y byd isod hwn, a bywyd presennol dyn.

Gadewch i ni, ynte, gymmeryd yr egwyddor grefyddol, a sylwi ar ei helfenau a'i gweithrediad. Ni a gynnwyswn ynddi y drychfeddwl am Dduw; ei lywodraeth ar y byd a

dyn; rhagluniaeth; y ddyledswydd, y priodoldeb, a'r fantais o weddïo; cyfrifoldeb dyn, gofynion y ddeddf ddwyfol, yr addewid o drugaredd yn yr efengyl, cynnorthwyon a dylanwadau yr Ysbryd Glân; gwasanaeth personol, teuluaidd, cyhoeddus; attaliad yr hyn a dybir yn anfoddhaol gan Dduw, amaethiad pa beth bynag a ddeallir ei fod Ef yn ei orchymyn neu yn ei gymmeradwyo, cadwraeth y cyssondeb rhwng y bywyd tufewnol a'r ewyllys ddwyfol trwy ymwneyd yn wastadol â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, a chyflawniad cydwybodol o weithredoedd crefyddol; y gocheliad oddi wrth bob peth sydd o natur bechadurus—oddi ar wrthneidiad greddfol calon wedi ei phuro, oddi ar gariad at ddaioni fel y cyfryw, oddi ar ofn digio Duw, oddi ar wrthwynebiad at yr hyn a anghymhwysai i'r nefoedd, oddi ar argyhoeddiad fod yn rhaid i bob peth drygionus, mewn meddwl, gair, a gweithred, gael ei ddilyn ryw ddiwrnod gan ganlyniadau cospawl, canlyniadau a fyddant yn niweidiol i burdeb natur ysbrydol dyn, ac yn elyniaethol i'w ddedwyddwch mewn sefyllfa uwch. Cymmerwch grefydd yn yr olwg gyffredinol yma arni:—mor gyffredinol, ag y gallwn yn iawn ei gwneyd fel i gynnwys yr elfen Gristionogol a dadguddiedig o gwbl—cymmerwch hyn, ac yr ydym yn dyweyd y cewch egwyddor a esyd rinwedd ar dir gwahanol hollol i gyfrifiad o fantais neu y meddwl am lesâd presennol. Y mae yn edrych yn uwch ac yn mhellach am rwymedigaeth a chymhelliad. Y mae y gorchymyn breninol ac awdurdodol yn dyfod o enau a mynwes Duw; ac y mae y galon yn cael ei dwyn i ystâd o gyd-darawiad â'r drychfeddwl o ddyledswydd, ac yn dyfod yn ddeddf iddi ei hun mewn perthynas iddo; tra ar yr un pryd, y mae dyn yn talu sylw i weithrediad sancteiddrwydd a phechod ar ei helyntion ysbrydol—y sefyllfa anfarwol a ddysgwylia mewn byd dyfodol. Yn awr, yr egwyddor yma, sydd gymmaint uwch yn ei chylch, a helaethach yn ei chyrhaeddiad, na'r hon a gyfyngir i ystyriaeth o fanteision daiarol;—hon, ni a ddywedwn, yw yr egwyddor fwyaf cyfaddas i sicrhau *rhinwedd y bywyd presennol;* neu, mewn geiriau ereill, i sicrhau y *peth* ar ba un y mae llwyddiant a dedwyddwch bywyd yn benaf yn ymddibynu.

PENNOD II.

Ni a geisiwn egluro hyn, trwy gymmeryd pob un o'r a enwasom o'r blaen, gan ddangos gweithrediad teb egwyddor grefyddol arnynt—ei gweithrediad, nid am dyn y dylanwadir arno ganddi yn meddwl am y peth ond fel canlyniad naturiol oddi wrth ei fod yn medd rywbeth arall.

"A ydyw yn bosibl gwneyd y goreu o'r ddau fyd ydyw yn bosibl dechreu trwy wneyd peth da o hwn ydym wedi gweled, yr wyf yn meddwl, fod. A yd bosibl sicrhau hyn, ynte, trwy sicrhau rhywbeth ar rhywbeth hwnw yn hanfodol i hyn, ond yn gofyn saf diysgog, a chadarnach cynnaliaeth, na'r dymuniad erlyniad ar ol, y daioni yma ei hun? Mewn egwyd ydym wedi dangos fod hyn hefyd yn bosibl. Ond yn dyweyd yn awr—rhoddwch i ni y gwrthddrych p wneyd y prawf arno, a ni a ddangoswn i chwi yn yn pa fodd y gellir ei wneyd, neu pa fodd y daw yn n oddi amgylch.

Rhaid i mi gael gŵr ieuanc, gyda chyfansoddiad c da, yn gorfforol a meddyliol, i ddechreu. Y mae fwyaf o'r hiliogaeth, chwi a wyddoch, neu o leiaf sydd yn byw i ddyfod yn ddynion, yn dyfod i'r byd ansawdd dda o ran iechyd corff, a chyda swm gwedd meddwl. Gadewch i mi gael gŵr ieuanc, ynte, o iec a synwyr cyffredin canolig, gyda rhyw radd o am a dysg, a moddion ganddo i ennill ei fywoliaeth. N yn sicr ddim yn afresymol iawn yn yr eirchion hyn. yn rhaid i ni, wrth reswm, ofyn am rywbeth, os y prawf i gael rhyw gyfleusdra i lwyddo. Nid wyf yn dysgu un i wneyd y goreu o fywyd, os bydd eisoe ei wenwyno neu ei ddyfetha. Ni chymmeraf i'm ll hyny, oferddyn neu ddyhiryn, hen bechadur adfeilied garn ffwl. Ni allaf weithio gyda'r fath ystwff; mae *wedi ei ddyfetha*, ac ni all un crochenydd wneyd dim

ond rhywbeth cydweddol â'i ansawdd. Ni chymmeraf, ychwaith, ddyn gwan ac anmherffaith mewn meddwl neu gorff, na hurtyn nac un methiant: gallaf gyfarwyddo rhywbeth yn feddyginiaethol i'r rhai hyn oll—rhywbeth i wella neu esmwythau; ond ni allaf wneyd un o honynt y math o ddyn sydd arnoch chwi eisieu ei weled, a thebyg i'r hwn y mae arnaf finnau eisieu eich gweled chwi. Gadewch i mi gael y math o ddyn a ddarluniais; dodwch ef yn fy llaw, ac yna gadawer i mi roi prawf arno.

Wel: mi a gefais fy nymuniad—gadewch i ni feddwl. Dyma fe; un tua'r un fath ag ydyw cannoedd o honoch chwi, sydd yn awr o fy mlaen! Gwr ieuanc, iach, diniwed oddi wrth ddrygioni neu drosedd gweithredol ydyw, wedi ei addysgu yn ol ei sefyllfa, o allu canolig, gyda synwyr cyffredin, ac mewn sefyllfa dda. Yn awr, yr wyf yn dodi o'i fewn fy egwyddor ysgogol a llywodraethol—ffydd grefyddol. Neu, mi a ragdybiaf ei bod ynddo. Yr ydym i'w ystyried yn "ofni Duw o'i ieuenctyd." Byddai yn dda iddo fod wedi cael ei hyfforddi yn ddoeth gan fam Gristionogol ddeallus, ac wedi tyfu i fyny dan ddylanwadau dedwydd cartref. Pa fodd bynag, dyma fel y mae yn awr—yn wr ieuanc, ac o egwyddor Gristionogol bendant, yn ffyddlawn o gydwybod i'r gwir, y teg, y cyfiawn, y pur, a'r canmoladwy; a hyn, am fod sancteiddrwydd (y gair Ysgrythyrol am rinwedd crefyddol) yn cael ei ofyn gan Dduw—yn cael ei faethu gan deimladau ac ymarferion duwiolfrydig—ac i gael dilyn ar ei ol fel peth parotoawl i fyd dyfodol. Chwi a welwch y gwr ieuanc yma gan hyny, yr hwn sydd yn cael ei yru yn mlaen a'i gynhyrfu fel hyn, yn ymddwyn yn y fath fodd fel ag i gadw, neu i sicrhau, a hyny fel trwy ganlyniad naturiol, y gwahanol bethau hyny a enwasom eisoes sydd yn gynnwysedig yn yr hyn a ystyriwn yn wneyd y goreu o fywyd. Efe a'u ceidw neu a'u sicrha hwynt, nid am ei fod bob amser yn meddwl am danynt—yn gweithredu gyda golwg arnynt—neu yn dyfeisio ac yn cynllunio er eu cyrhaedd, ond o blegid na all wrth hyny; gan ei fod, wrth fyw i'r amcan uwch, yn naturiol yn gwneyd yr hyn sydd o les gyda golwg ar yr un is. Fe wnaiff beth da o'r byd cyntaf i'r hwn y mae yn dyfod, o blegid ei fod yn ffurfio ei fywyd gyda golwg ar yr ail—"yn gweled yr Anweledig," ac "*yn edrych ar daledigaeth y gwobrwy.*"

Edrychwch arno gyda golwg ar iechyd. Wel, gyda chyfansoddiad sydd yn naturiol yn gryf, y mae yn myned yn mlaen yn y mwynhâd o'r fendith. Nid yw yn gwneyd dim i'w niweidio. Nid yw yn ffurfio arferion corfforol drygionus; nid yw yn ymfwynhau mewn dim gormodedd a'i gwanycha. Y mae yn sobr, yn gall, yn ddiwair—yn casäu meddyliau aflan, yn gwgu ar ymddyddan anmhriodol, ac yn gochel gweithredoedd anweddus. Nid yw yn feddwyn, nac yn lwth, nac mewn un ystyr yn gaethwas i fwyniant anifeilaidd. Nid yw yn hau yn ei gnawd hadau unrhyw afiechyd, trwy un math o loddest nac anghymmedroldeb. Nid yw yn dyfetha ei nerth nac yn gwanychu ei feddwl trwy erlyn ar ol difyrwch. Y mae yn byw mewn cydymffurfiad â holl ddeddfau ei gyfansoddiad; ac yn mwynhau, o blegid hyny, rymusder, hoewder, ac egni bywiog iechyd gwastadol. Ac y mae yn gwneyd hyn oll, cofiwch, nid am ei fod wedi astudio llyfrau ar gyfansoddiad dyn—nid am ei fod yn ddysgedig yn neddfau natur, neu yn gwybod yn wyddorol ddim yn eu cylch—ac nid am fod ganddo dueddiadau pur wrth natur, a'i fod, o ran ei gyfansoddiad uwch law yr hyn sydd isel a darostyngol—nac am fod ganddo hunan-anrhydedd a hunan-barch, ac na rydd ffordd i'r hyn sydd anweddus—nac am ei fod yn meddwl y gall wario ei arian i ddyben gwell, neu am nad oes ganddo arian i'w gwario—nac am fod ganddo ofn canlyniadau tebygol anfoesoldeb, sef dinystr i'w obeithion, neu "bydrni i'w esgyrn." Gallai yr holl bethau hyn gael eu lle yn ei feddwl, a'u gradd briodol bob un o ddylanwad arno; ond y peth penaf yw, ei fod yn byw fel y gwna, yn gweithredu ac yn gommedd gweithredu, oblegid fod ganddo "ofn Duw o flaen ei lygaid;" o blegid "nas gall wneyd y mawr ddrwg hwn a phechu yn ei erbyn Ef;" o blegid ei fod yn "cofio ei ddeddf ef a'i orchymynion," ac yn teimlo yn rhwym i dalu iddynt ufudd-dod dibetrus; o blegid ei fod yn sylweddoli yn ei feddwl y presennoldeb dwyfol, ac yn gweithredu fel ag i ennill dwyfol gymmeradwyaeth; o blegid ei fod yn gwybod fod Duw, yn y dadguddiad o'i ewyllys, yn gwahardd iddo, mewn geiriau pendant, "hau i'r cnawd," neu "roddi ei nerth i buteiniaid," "meddwi ar win, yn yr hwn y mae gormodedd," neu mewn unrhyw fodd "bechu yn erbyn ei gorff ei hun;" *am ei fod* yn cael ei orchymyn i fod yn "gymmedrol yn *mhob peth*," ac yn cael ei ragrybuddio nad "oes i'r putein-

iwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sydd ddelw-addolwr, etifeddu teyrnas Crist a Duw;" o blegid, pe byddai i nwyd neu athroniaeth anturio sibrwd iddo, nas gall fod fawr o niwed mewn ychydig o droseddu cymmedrol yn awr a phryd arall, clywir yn uniongyrchol lais o rybudd a cherydd, "Na thwylled neb chwi â geiriau ofer, o blegid o achos y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant anufudd-dod;" o blegid y mae "gras Duw, sydd yn dwyn iachawdwriaeth, yn ei ddysgu i ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol," i "fyw yn sobr," i "roddi o hono ei gorff yn aberth byw," gan ei gadw mewn "sancteiddrwydd ac anrhydedd;" o blegid fod ganddo o'i fewn, yn egwyddorion a serchiadau ei fywyd ysbrydol, y peth hwnw, i'r hwn y mae cnawdolrwydd yn adgas, yr hwn sydd yn elyniaethus iddo, gan yr hwn y mae ei ysgogiadau yn cael eu hattal, a themtasiynau iddo yn cael eu gorchfygu, a'r hwn sydd yn ddigon i wynebu enbydrwydd cydgyfarfyddiad chwant a chyfleusdra. Nid wyf yn dyweyd y bydd y dyn yn berffaith. O fewn rhyw derfynau fe fydd ffaeledd, gorchfygiad, troseddiad, ac afreoleidd-dra ynddo. Ond nis gall fod yn ddrygionus. Nis gall weithredu fel i ddinystrio neu niweidio iechyd. Nid am ei fod yn meddwl am hyny, neu am hyny yn benaf; ond o blegid fod ganddo grefydd, ac o blegid y bydd y ffydd grefyddol, sylweddoliad y dyfodol, fel egwyddor, iddo ef, yr hyn fyddai adgof am y mynedol i angel a fyddai wedi ymgnawdoli; yr hwn, pan i weithredu yn y corff fel dyn, a wnai felly, fel bod deallus, yn ol deddf ei fywyd uwch a blaenorol.

Felly gyda golwg ar *sirioldeb.* Pan nad oes afiechyd cynhenid neu ddygwyddiadol yn cynnyrchu iselder oddi wrth annhrefn y gewynau, neu ryw achos naturiol arall, y mae trueni meddyliol yn gyffredin yn ffrwyth rhyw ffurf o bechod. Gall trymder a phruddglwyf darddu o anffawd—enw arall yn fynych ar annoethineb, er nad bob amser: ond y mae "meddyliau afiachus" felly y rhan amlaf, o blegid fod eu perchenogion eu hunain wedi eu niweidio. Gellwch yn y cyffredin gael eich esgusodi am dybied, fod y dyn hwnw sydd wedi dyfod yn faich iddo ei hunan, i ddiolch am hyny iddo ei hun. Y mae yn debyg ei fod wedi brathu a chlwyfo ei gydwybod—gwenwyno neu lofruddio ei fywyd mewnol—ganlwyddo i *weinyddu niweidiau*; ond nid i achlysuro marwol-

aeth. Y mae ei gof wedi ei ystorio âg adgofion tywyll—yn llenwi y mynedol â lleisiau ceryddol, a'r dyfodol â ffurfiau bygythiol. Y mae wedi "caru angeu" a "gwneyd cam â'i enaid ei hun." Y mae wedi ei orchuddio drosodd â gwelïau crawnllyd. Oddi wrth hyn y tardd ei iselder, ei drymder, ei ing, a'i ddychrynfeydd; ei syrthni, neu ei anhunedd, ei dawedogrwydd, neu ei glebar; ei nosweithiau digwsg a'i fellditbion ar y dydd! "Ond y rhai anwir sydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid." "Ffoant heb neb yn eu herlid," a "thrwst deilen yn ysgwyd a'u herlid hwynt." "Brawychir hwynt â breuddwydion, dychrynir hwynt â gweledigaethau." Y peth distadlaf a mwyaf annhebyg a'u harswyda. Gall sain peroriaeth, llais plentyn, golwg ar brydferthwch ieuangaidd, chwerthiniad lodes ddiniwed, geiriau cân anghofiedig, crybwylliad am enw, cyfeiriad at le, adgofiad o destyn, pennill o hymn neu Salm—mil o bethau bychain nad yw neb yn meddwl am danynt, ddadymchwel yr euog âg ing, trwy ddadlenu tystiolaethau y cof, a galw allan ddrychiolaethau anobaith, trwy ollwng dyfroedd chwerwedd, a chynneu meddyliau tanllyd, fel pe byddai y galon wedi ei tharo â gwialen dialeddol, neu ei chau i fyny mewn fflam ffwrn. Ond y dyn sydd yn dechreu bywyd yn ofn Duw, ac yn myned drwyddo dan arweiniad egwyddor grefyddol—yn ufuddhau i hono, gan gael ei gadw a'i warchod ganddi—hwn? *nis gall* hwn fod yn agored i unrhyw beth fel hyn. Ni ddaw efe o fewn mil o filltiroedd iddo, na deng mil, na deng mil deng mil o weithiau! Yr ydym yn ei dybio yn cychwyn dan ddylanwad ffydd grefyddol, a'i fod yn gweithredu mewn cyssondeb ymarferol â hi. Bydd ei fywyd gan hyny, yn rhydd oddi wrth bechodau gwrthun, oddi wrth fai bwriadol, neu gamwedd dirgel. Ceidw ei chwaeth a'i arferion, yn gystal a'i egwyddorion, ef oddi wrth yr holl bethau hyn. Efe a "rodia gyda Duw," "ceidw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd;" ni wna ddim i feichio ei gydwybod, ac ni ddwg ddim o'i amgylch i aflonyddu ei heddwch. Ni fydd gan y dyn hwn farwor tanllyd ar ei galon—dim defnyniad parhaus o dân hylifol ar ei gnawd noeth! Ni faldordda *efe* byth yn nghylch "a ellwch chwi weinyddu *i feddwl afiachus?*" Ni wneir "iddo ef feddiannu pechodau

ei ieuenctyd." Byth "ni chryma efe ei ben fel brwynen;" y daw yn ofid ac yn ddirgelwch i gyfeillion pryderus, neu yr ofna wyneb dyn neu ddynes! Ni chaiff efe wybod dim am gythruddiad neu adgno meddwl—am ofni y nos, ac er hyny ysgoi y dydd. Efe a gwsg fel plentyn, deffry fel ehedydd, a bydd bob amser fel aderyn ar ei nyth neu ar ei aden. "Dyma ran y rhai a ofnant Dduw:" nid am eu bod yn byw gyda golwg ar hyn; ond am eu bod, oddi ar gymhelliadau uwch a chydag amcanion mwy dyrchafedig, yn trefnu eu bywydau yn ol rheolau yr Ysgrythyr, ac yn eu ffurfio ar wersi crefydd: o blegid hyn y mae fod gyrfa dyn da fel salm yn cael ei thraethu yn wastadol. Y mae yn gyfluniaidd a chynghaneddol, ac yn gweinyddu peroriaeth iddo ei hun ac ereill. Y mae yn sylweddoli ac yn egluro geiriau llawnion yr hen Lyfr mawreddus—"Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant dy gyfraith, ac nid oes dramgwydd iddynt;" "dy ddeddfau oedd fy nghân yn nhŷ fy mhererindod;" "o'u cadw y mae gwobr lawer."

Felly gyda golwg ar *ddigonolrwydd* a *llwyddiant mewn bywyd*. Mae yr holl rinweddau a argymhellir gan grefydd yn ffafriol i ddyn fyned yn llwyddiannus trwy y byd, ac hyd yn oed i'w lwyddiant ynddo, gan belled ag y mae hyny yn cael ei reoleiddio gan ddeddfau cyffredin, ac edrych am dano o fewn terfynau rhesymol. Yr ydym yn dodi o'r neilldu droion llwyddiannus sydyn, talentau neillduol, a chyfleusderau arbenig. Ar yr un pryd, ni ddylid anghofio mai yn anfynych y sicrhâ y cyfaddasrwydd goreu at fasnach lwyddiant trwyadl a sefydlog heb rinwedd; tra y gwna rhinwedd, yn gyssylltiedig â gallu canolig, ddyn fydd yn myned yn mlaen gyda cham sicr. Y mae yr arferion meddwl, ymadrodd, ac ymarweddiad, y mae y dyn crefyddol call, yn amaethu yn naturiol, oll yn ffafriol iddo ddal ei waith, i ennill ymddiried, gwellhau ei amgylchiadau, a myned yn mlaen; o leiaf, peidio myned yn ol. Beth bynag ydyw, ai meistr ai gwas—a beth bynag a wna, ai prynu ai gwerthu, cynllunio, ai gweithio cynlluniau allan, gweithio â'r pen ai a'r llaw, fe fydd yn gydwybodol, yn drwyadl, yn deg, yn gyfiawn. Fe ddylai fod yn weithgar ac egniol; o blegid y ddeddf y mae yn byw dani ydyw, "Pa beth bynag yr ymaflo dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl *egni*." Fe fydd yn gywir, yn fanwl, yn

hynaws, ac yn heddychol. Tra dan awdurdod, fe fydd yn ofalus am amser ac eiddo ei oruchwylwyr, yn wyliadwrus am eu manteision, yn eiddigus am eu cymmeriad :—fe fydd yn barod i wasanaethu a boddhau, fe ochel roddi tramgwydd; ni bydd yn siaradus a rhodresgar, nac yn hwyrdrwm a sarug; fe fydd ffyddlawn ei hun, ac fe ychwanega ffyddlondeb a pharch mewn ereill; fe wna ymdrech, heb rwgnach, i gyfarfod gofynion adeg o anhawsdra, a theimla mor dda ganddo sicrhau rhyw fantais i'w feistr a phe buasai y fasnach a'r oll a berthynai iddo yn eiddo ei hun. Y mae rhinwedd crefyddol yn ffafriol i ddiwydrwydd a chynnildeb, dyfalwch a rhagddarbodaeth. "Ac od oes neb heb ddarbod dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r diffydd." Fe ddylai masnachydd crefyddol fod yn ddoeth, yn ochelgar, yn llygadog; nid yw yn cael ei wahardd yn wir i fod yn hyf ac anturiaethus, o fewn terfynau diogel a rhesymol, i ychwanegu at wrthddrychau neu gangenau ei fasnach, i eangu neu gyfnewid ei gyssylltiadau; i newid rhyw beth yn ffurf dygiad ei fasnach yn mlaen, i roddi eiddo mewn rhyw anturiaeth a fernir yn ennillfawr, neu, mewn geiriau ereill, i geisio ychwanegu ei ennillion a "thrysori" erbyn yr amser a ddaw: ond, ni ddylai byth fyned—ac, a gweithredu yn unol â'i egwyddorion proffesedig, nid ä byth—i anturiaeth ryfygus a pheryglus; ni fydd iddo ddim a wnelo âg unrhyw beth a fyddo yn ammheus o ran ei foesoldeb; ni chroga lwyddiant neu ddinystr ar ddichonolrwydd ansicr; ni feiddia beryglu yr oll a fedd trwy "brysuro i fod yn gyfoethog."

Ni bydd gan ŵr ieuanc deallus a rhinweddol (i ddyfod yn yn ol drachefn at y dosbarth o fy mlaen) na drygau na ffoleddau, ni arfera wario ei gyflog ar bleserau drudfawr—mewn gwisg ac addurniadau, mewn chwareudai a lleoedd chwareuddamwain. Fe rodda yr amser a all hebgor at lyfrau—i ymgyrhaedd am wybodaeth gyffredinol, neu i feistroli egwyddorion masnach, ac ymbarotoi gogyfer â'r agoriadau a'r cyfleusderau a allant ddygwydd, at ddifyrwch diniwed, neu i gymdeithasu â chyfeillion a chydnabyddion parchus; i gael neu i wneyd daioni. Ni bydd mewn perygl o golli dim trwy oriau hwyr y nos, ni chynhyrfa ddrwgdybiau yn y bore trwy *ei lygaid trymion* a'i gerddediad llesg: ei ystwyrion a'i absen-

noldeb meddwl ni pharant i bobl dybied fod rhyw ffoledd neu rysedd wedi ei wneyd yn hurt a diddefnydd pan ddylasai fod â'i lygaid yn agored. Ni bydd dim camgymmeriadau gwarthus yn ei gyfrifon, dim angenrheidrwydd mynych am edrych drostynt. Ni bydd yn wastadol yn gofyn mwy o amser i wneyd i fyny yr hyn sydd yn eisieu. Ni bydd yn llygadrythu mewn syndod anwybodus, nac yn tewi mewn cywilydd ymwybodol, pan gyfeirir ato yn nghylch rhyw beth y dylasai, neu y gallasai wybod am dano; meistrolaeth drwyadl yr hyn, pe buasai yn ei wybod, a fuasai yn ei wneyd i fyny. Nid eir heibio iddo fel un anghymhwys ac analluog pan wneir cyfnewidiadau angenrheidiol mewn sefydliad, a agorant i'r profedig a'r cymhwys, yr hwn sydd wedi ennill sylw a chymmeradwyaeth, ddyrchafiad gradd ac ychwanegiad cyflog. Yr un modd fe fydd y gweithiwr a'r crefftwr, nad oes ganddynt fawr o feddwl, golwg, nac uchelgais am fod yn ddim arall, trwy ddiwydrwydd, dyfalwch, sobrwydd, a'r holl rinweddau ereill, y rhai y mae doethineb y byd yn arganmawl, ond y rhai y mae crefydd ar unwaith yn eu dirgymhell ac yn eu sicrhau, yn cadw mewn gwaith, yn ennill ymddiried, ac yn dyfod yn raddol i fod fel math o ddodrefnyn arosol o amgylch y lle: fe gaiff bethau yn gysurus a dedwydd gartref—côb am ei gefn, ac oriawr yn ei logell, bara yn y gegin, a llyfrau ar yr estyll; fe fydd ei deulu oll yn barchus yr olwg arnynt, a byddant bob amser yn yr addoliad ar ddydd gorphwysfa wythnosol y gweithiwr; fe dderbynia ei blant gan mwyaf ddygiad i fyny uwch na'u tad; ac, er y gallai ef beidio, y mae yn ail i sicr y bydd iddynt hwy, neu rai o honynt, godi i sefyllfa uwch mewn bywyd. Felly am y meistr:—y pendawd ieuanc, yn anturio i fasnach, fel cydymaith, neu ar ei ben ei hun; yr hwn y mae ganddo onestrwydd, anrhydedd, a pherffaith uniondeb; yr hwn sydd yn dangos gweithgarwch, medr, a gofal; yr hwn sydd yn gydwybodol yn cyfyngu ei dreuliadau personol; a'r hwn, beth bynag sydd ganddo i ymwadu âg ef ei hun, sydd yn ymdrechu cynnal ei anrhydedd masnachol; yr hwn, fel dyn sydd ar unwaith yn grefyddol a doeth, y mae ganddo gydwybod dawel, dwylaw glân, a phen clir;—wel, y mae yr holl bethau hyn yn meddu tuedd naturiol i'w gynnorthwyo yn mlaen, heb sôn am fendith Duw ar *ddaioni ymroddgar* a gwaith gonest. "Llaw y

diwyd a gyfoethoga." Ond y mae y fath beth a dyn diwyd, ond drygionus, yn gwneyd arian; ac, oddi wrth fod Duw yn attal ei fendith, yn eu casglu i gôd dyllog. Ac y mae y fath beth a "Duw yn rhoddi i ddyn allu i ymgyfoethogi;" yn "bendithio ei gawell a'i does;" yn ei ddwyn yn mlaen mewn sefyllfa ac anrhydedd; ac fel hyn, oes ar ol oes, yn adrodd chwedl, ac yn sylweddoli drachefn brofiad yr alltud Hebreig ieuanc; "Ac yr oedd yr Arglwydd gyda Ioseph, ac efe oedd ŵr llwyddiannus." Yn awr, cofiwch! nid wyf yn meddwl dyweyd fod daioni a rhinwedd crefyddol, bob amser, ac fel y cyfryw, i ddysgwyl llwyddiant bydol: y mae gan bethau ereill heb law rhinwedd—talentau, cyfleusdra, profiad, medr, ac felly yn mlaen—rywbeth i'w wneyd tuag at hyn. Ond yr wyf yn dywedyd—heb rinwedd, ni leshâ y *pethau ereill* o honynt eu hunain, neu ni leshânt yn barhaus a sefydlog; y gwna rhinwedd bob amser ddwyn dyn yn barchus trwy fywyd, ac, mewn ffordd gyffredinol, y gwellhâ ei sefyllfa; ac fel hyn, i ddybenion cyffredin, ac i fyny at rhyw bwynt neillduol, ei bod yn sicr o dderbyn ei gwobr.

Ond rhaid i mi ychwanegu yma, ac yr wyf yn deisyfu arnoch sylwi arno, y gwna rhinwedd hyn yn mhob dyn crefyddol o ddifrifwch trwyadl; nid am ei bod yn cael ei hamaethu gyda golwg ar hyn, ond o blegid ei bod y peth hwnw at ba un y mae y dynion yma yn cael eu tynu a'u dwyn yn mlaen gan deimladau a chymhellion o fath wahanol—gan ansawdd meddwl yn perthynu i fywyd mwy nefol, yn perthynu i gylch uwch nag unrhyw beth sydd yn gyssylltiedig â ffafr dyn, y dymuniad am ddyrchafiad, neu sylw uniongyrchol ar fanteision daiarol y bywyd hwn. Am y dyn sydd yn gweithredu mewn cydweddiad unffurf â chymhelliadau, ac â deddf ffydd grefyddol, *ni all efe beidio* meddu rhinweddau masnachol: gallai na bydd ganddo dalentau, neu ffawd anghyffredin, neu gyfleusderau campus—ond am y rhai hyn, y mae yn *rhaid* iddo eu meddu, ac y mae y rhai hyn ar unwaith yn ei amddiffyn ac yn ei yru yn mlaen, ac yn fynych ychwanegant y gwelliant sefydlog, sicrhânt y digonolrwydd cymmedrol, y rhai ydynt well na llawer cynnysgaeth ysblenydd. Yr wyf yn gwybod y tybir fod gan bobl grefyddol lawer iawn o dynu oddi wrthynt mewn taliadau a thanysgrifiadau at y sefydliad *neu at y gym*deithas yma neu arall. Beth! fe waria dyn

o'r byd fwy mewn un prydnawn yn fynych, wrth roddi dawns a swper, neu wrth groesawu cymdeithion i'r *opera*, nag a ofynir i lawer dyn crefyddol o'r un radd dalu am ei grefydd mewn blwyddyn. Coeliwch chwi fi! y gwirionedd, mewn mwy o ystyriaethau nag un, yw, nad oes dim mor ddrudfawr a phechod—dim mor hyspyddol a phleser. Gall fod gan y dyn nad yw yn gaethwas i'r naill na'r llall, dreuliadau ereill; ond, â phob peth arall yn gyfartal, efe yn gyffredin fydd wedi ei barotoi oreu i osod cyfoeth o'r neilldu, i ennill cred neu ddiogeliad, neu i gymmeryd cam yn mlaen o'i sefyllfa bresennol. Fe fydd dyfalwch i gynnal yn mlaen gyssondeb tufewnol â'r byd uchod, trwy ei gadw rhag ffoledd, a'i wisgo yn rhinweddau hwn, yn fynych yn gorchymyn, heb iddo ef amcanu atynt fel dyben eithaf, y llwyddiant a'r cynnydd y mae y deddfau sydd yn rheoleiddio cymdeithas yn gyssylltu, fel canlyniad naturiol, wrth ymarferion annhreulfawr a gwir werth. Ein cyfaill ieuanc yma, yr hwn sydd ar ddechreu y prawf o fyw, a'r hwn sydd benderfynol o'i ddwyn yn mlaen o'r amser yma allan yn ol yr egwyddorion ydym newydd eu hegluro—fe fydd iddo ef, nid wyf yn ammheu dim, ganfod yn ei brofiad ei hun wirionedd llawer o'r pethau y mae y Beibl yn eu dyweyd ac yn eu sicrhau wrth y dyn crefyddol, yn y byd yma. Y mae yn ei sicrhau, er anghraifft, y bydd y dyn "sydd yn edrych yn ddyfal ar ei anifeiliaid," yn eu canfod yn cynnyddu; fod y "neb a rodia yn uniawn yn rhodio yn ddiogel;" fod "perffeithrwydd ac uniondeb yn cadw dyn;" fod "llaw y diwyd yn rheoli;" y caiff yr hwn "sydd ddiesgeulus yn ei orchwyl sefyll ger bron breninoedd;" mai "gwyn fyd y gŵr a ofna yr Arglwydd, ac a rodia yn ei ffyrdd ef;"—ei fod yn "bwyta o ffrwyth ei ddwylaw;" "yn ddedwydd" yn ei deulu, gyda'i "winwydden ffrwythlawn" a'i "blanigion olewydd," a bod "pob peth a wnel yn llwyddo;" a bod doethineb ddwyfol—rhinwedd crefyddol ymarferol—wrth gynnyg i'r ieuainc ei gwobrau, yn estyn allan iddynt, i sefydlu eu dewisiad a bywiogi eu hymdrechion, "hir-hoedl yn ei llaw ddeheu, ac yn ei llaw aswy gyfoeth a gogoniant."

Felly gyda golwg ar *barch*. Prin y mae yn angenrheidiol profi y bydd i'r dyn y mae ei egwyddorion a'i ymarweddiad yr hyn a ddysgrifiwn, sicrhau hyn. Y ffaith yw, *nis gall* dynion o'r fath *yma beidio* meddu cymmeriad. Nid oes eisieu

iddynt hwy gynnyg deng mil o bunnau am dano. Byddai yn beth gwael, os gellid ei brynu o gwbl. Byddai yn rhy ddrud am ddimai. Gallech briaio cymmeriad trwy arian wrth roddi iawn am gabldraeth, gan gymmeryd eich arwain gan y dyb am niwed arianol wedi cael ei wneyd; ond nis gellwch ei brynu er unrhyw bris. Y mae parch fel cariad— "pe rhoddai ŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid hyny." Y mae yn rhaid iddo fod yn warogaeth wirfoddol cymdeithas i ardderchogrwydd gwirioneddol ac addefedig—neu nid ydyw yn ddim. Yn awr, y mae y dyn hollol iach-galon, sydd allan ac allan, yn drwyadl a chyflawn ddyn da, yn meddu ardderchogrwydd a gwir werth; ac fe ddaw, o angenrheidrwydd, i feddu parch. Ni weithreda efe *er mwyn* parch; ni bydd yn gyfiawn, yn onest, yn drugarog, er mwyn ennill barn dda cymdeithas; y mae ganddo resymau ynddo ei hun dros lynu wrth rinwedd, cryfach o lawer na'r rhai'n—rhesymau, hefyd, i fyny acw, yn llygad sylwgar Tad yn y nefoedd sydd i'w foddhau a'i wasanaethu, a wnaent iddo gyflawnu yr oll a wna, pe (a thybied fod hyny yn bosibl) na byddai un dyn ond efe ar y ddaiar. I'r graddau yr adwaenir ef, yn wir, ymddiriedir ynddo, perchir ef, anrhydeddir ef, siaredir yn dda am dano; ond, y mae efe yr hyn a achlysura hyn oll, heb i hyn fod y cymhelliad; ac fe ddewisa fod yr hyn ydyw, pe na byddai ganddo gydoeswyr, oddi wrth ba rai y gallai parch ddyfod, neu pe dewisent oll ei ommedd. Dywediad gwych ydyw hwnw o eiddo yr hen Pollonius wrth ei fab, â pha un y diwedd-gloa ei amrywiol fân gynghorion iddo:—

> "Uwchlaw y cwbl—Bydd wir i ti dy hun;
> Ac yna y canlyn, fel y nos y dydd,
> Na fyddi ffals i unrhyw enaid byw."

Da!—da iawn yw hwna! Hunan-barch—a chanlyniad ymarferol yr hyn y mae hyny yn ddysgu hefyd, eich bod yn drwyadl gyflawn a gwir tuag atoch eich hunain—a'ch rhwystra, wrth reswm, rhag bod yn anffyddlawn i ereill; o blegid fe fyddai hyny yn dwyn dianrhydedd arnoch eich hunain. Byddai gwneyd hyny yn hollol annheilwng o honoch, ac felly fe fyddai i chwi eich hunain yn anffyddlondeb a cham. Os aiff dyn, pa fodd bynag, yn uwch na hyn—os bydd *fyw "fel un* yn gweled yr anweledig," gan gymmeryd fel

rheol ei ymarweddiad "bydd wir o hyd i'th Dduw"—fe ganlyna, gyda mwy o sicrwydd eto nag oddi ar egwyddor Pollonius, "nas dichon fod yn ffals i unrhyw ddyn." Yr hwn y mae yr hyn sydd ddyledus arno iddo ei hun yn ddrychfeddwl uchaf ganddo, gall hwnw wneyd llawer o bethau o natur dra ammheus yn nghyfrif y dyn y mae ganddo y drychfeddwl uwch o'r hyn sydd ddyledus i Dduw; ac, yn ein hamserau hyn, y mae barn y cyffredin, er mor unochrog ydyw, gan mwyaf, neu yn y pen draw, o blaid yr hwn sydd yn dal at safon mwyaf dyrchafedig dyledswydd.

Y bydd i'r dyn, gan hyny, sydd yn byw dan ddylanwad ffydd grefyddol, ac yn gydweddol â'r dylanwad hwnw, "yn rhoddi ei ffrwyth yn ei bryd," sef y gwahanol rinweddau sydd yn gweddu i'w oes, ei sefyllfa mewn cymdeithas, a'r cyssylltiadau olynol a ddeil mewn bywyd—y bydd i'r fath ddyn feddu cymmeriad, a'i ddal, a chynnyddu mewn parch ac anrhydedd; dyma ydyw rhediad a thuedd naturiol pethau yn ein byd ni, er fod rhai pobl yn ei ystyried yn anghyflawn, ac er ei fod, yn sicr, yn ddadgymmaledig a diymadferth. Nid ydyw yr un dyn yn cael ei gamfarnu yn gyffredinol a pharhaol. Nis gellir camgymmeryd neu gelu yr un dyn yn hollol, pa un bynag ai da ai drwg fyddo. Bydd i'r naill, fel defnydd pydredig, a'r llall, fel enaint gwerthfawr, wasgaru yr hyn fydd yn sicr o'u bradychu. Os na bydd dyn mewn gwirionedd yn onest a chyfiawn, fe'i drwgdybir ac fe'i hadweinir, er mor olygus ei foesau, llyfn ei dafod, diniwed ei olwg, a medrus ei weithrediadau; a hyny weithiau yn gynt, o blegid ei gampusrwydd. Y mae rhyw beth yn taro rhyw un—y mae syniad anghysurus braidd yn anewyllysgar yn cael ei dderbyn i fewn—fe'i cedwir yn ddirgel: ond, pan y mae rhyw un arall yn awgrymu rhyw beth tebyg, y mae yn cael geiriau, ac yn y man canfyddir fod gan y peth letty mewn llawer o feddyliau; ac felly gweithia, nes y cenfydd y dyn ei hun tu hwnt i gamgymmeriad pa fodd y mae yn sefyll yn marn y cyffredin. Felly, os haedda dyn barch, fe'i caiff. Os na wyrodd erioed am fynyd oddi wrth yr hyn sydd iawn—os bu bob amser yn gydwybodol fanwl a gonest—wel, ni feddwl neb am ddyweyd fel arall. Os bydd dyn uwch law ammheuaeth, fel rheol gyffredin ni ammheuir ef; ni wna pobl na siarad am dano nac ymddwyn tuag ato fel un annheilwng o ymddiried.

Gan mwyaf, a braidd bob amser yn y pen draw, y mae dynion yn lled debyg i'r hyn y tybir eu bod. Nid peth hawdd, coeliwch chwi fi, ydyw ysgoi dynoethiad, os ceisiwch gael pobl i'ch cymmeryd am fwy nag ydych o werth. Yr wyf yn siarad am gymmeriad, nid am arian, er fod y gosodiad yn wir i raddau helaeth mewn perthynas i hyny. Nid peth hawdd, meddaf wrthych, ydyw gochel dadguddiad, os ymdrechwch i gael cymmeriad na pherthyn i chwi: y mae yn perthyn i ryw un arall; gan hyny, nid yw yn eiddo chwi. Yr ydych yn dwyllwr a lleidr; ac yr ydych yn byw ar bwys eiddo ysbeiliedig. Fe'ch tarewir yn fuan ar eich ysgwydd, ddyn ieuanc! Y mae gan gymdeithas ei heddgeidwaid moesol, yn gystal a'r rhai hyny gyda chotiau gleision a rhwymynau am eu harddyrnau. Y mae ganddi ei darganfyddwyr mewn dillad cyffredin, yn eich gwylio ac yn eich dilyn, pan yr ydych yn meddwl leiaf am hyny, y rhai nad yw yn bosibl i chwi eu hadnabod. Ond hwy a groesant eich llwybr, ac a safant o'ch blaen yn weledig a hollalluog, pan y daw yn amser gweithredu. Coeliwch fi! er gwaethaf eich rhagrith, ddyn ieuanc, fe'ch pwysir ac fe'ch mesurir, fe gymmerir eich maintioli, ac fe benderfynir eich lle, a chwi a ddeffrowch rhyw fore i'ch canfod eich hunan o flaen mainc barn y cyhoedd, a bydd y cwbl yn wybyddus a dybiech oedd yn guddiedig, neu o leiaf byddwch chwi yn cael eich trin fel pe byddai felly. Y ffordd oreu i gael cymmeriad, ydyw ei haeddu. Peth ofnadwy ydyw byw â rhyw beth yn crogi uwch eich pen, a allai ddyfod i lawr ar unrhyw foment. Gymmaint gwell ydyw bod heb ddim ofn—gwybod nad oes yna ddim i "ddyfod allan." "Y rhai cyfiawn sydd hŷf megys llew," tra mai "gwarth yw dyrchafiad ffyliaid." "Dyrchafiad" gwych, yn wir! Dyrchafiad y cyffion neu y crogbren! Yn awr, sylwch! nid oes dim damwain o amgylch hyn; neu o leiaf ond ychydig iawn. Na feddylied un dyn fod cymmeriad yn beth o ddygwyddiad neu fympwy; y gall syrthio ar yr anhaeddiannol a'r ffwl, yn lle chwilio allan y dyn doeth a rhinweddol. Y mae yn beth sydd yn cael ei reoleiddio gan ddeddfau sydd braidd mor bendant a'r rhai a reoleiddiant lanw a thrai y môr. Ychydig iawn sydd o "fyned heibio yn y dorf," yn awr, mwy nag a fydd yn y *dydd* diweddaf. "Y mae heddyw, hefyd, yn ddydd barn."

Os ydych yn haeddu cael meddwl yn dda am danoch, chwi a gewch: os nad ydych, ni chewch. Y mae y "cyfiawn" yn "adeiladu," mewn ffordd o ganlyniad naturiol, "enw da;" y mae yr ynfyd a'r drygionnus, yn yr un wedd, yn rhwystro ei adeiladaeth, neu yn ei "thynu i lawr â'i ddwylaw." Nis gellir wrth y peth, ac ni ddylid gofidio o'i herwydd. Nid yw y sicrwydd â pha un y mae gwaradwydd yn dilyn ffolineb, ond yr ochr arall i'r un ddeddf ag sydd yn rhoddi parch i'r haeddiannol.

Gall cymmeriad da fod o gynnydd araf—ond eto y mae yn cynnyddu. Gall ymgodi i uchder, hefyd, a chyrhaeddyd nerth, nad all dim athrod ei gyrhaedd neu effeithio arno. Y mae dynion yn Llundain,[1] y rhai, pe dywedid rhyw beth yn waradwyddus am danynt, nad ellid ei gredu—chwerthid am ei ben gan bawb a'u hadwaenant, ac ni roddid mwy o goel iddo nag i floedd "fod y dylif yn dyfod." Y mae ereill, hefyd, am ba rai na ddewisa dynion ddyweyd dim; ond gyda pha rai y cymmerant ddigon o ofal na bydd ganddynt ddim i'w wneyd. Sylwch! y mae yn eithaf posibl i gymmeriad da syrthio dan gwmwl am fyr amser. Nid wyf yn gwadu hyny. Gallai aflwydd ei gysgodi dros amser, neu ryw wyrni barn ei osod yn agored i'w feio. Gallai coeliwr digofus, cyfaill byrbwyll, y cenfigenllyd, y somedig, y maleisddrwg, draethu geiriau celyd, neu achlysuro, neu ledaenu drwgdybiau am dano. Ond os bydd dyn yn ddyn trwyadl—yn wir hyd asgwrn ei gefn—fe adymddengys ei gymmeriad eilwaith mor dryloew ag erioed, heb fod wedi ei bylu na'i anurddo gan y tywyllwch diflanedig. Ni chafodd un dyn, efallai, erioed ei ddrwgdybied, ei gondemnio, neu ei ochelyd, yn gyffredinol, heb fod i raddau, mwy neu lai, yn haeddu hyny. Fe fydd i'r dyn sydd yn rhodio yn y goleuni, ac yn cael ei fywiogi gan gynhyrfiadau ffydd grefyddol, ymdrechu byw fel ag i "ryngu bodd Duw;" ac fel canlyniad hyn, ond heb fyw er ei fwyn, fe sicrhâ barch ac ymddiried ei gyd-ddynion. Mewn gwlad fel yr eiddom ni, lle y mae tyb y cyhoedd, barn foesol gyffredinol cymdeithas, yn cael ei bywiocäu, ei phuro, a'i dyrchafu gan yr efengyl, fel ail ganlyniad o fodolaeth Cristionog-

[1] Y mae Mr. Binney, yn enwi Llundain, am mai yno y traddodai y ddarlith: gellid dyweyd yr un peth, efallai, am bob tref yn Nghymru.

aeth a'r eglwys yn ein mysg, *dyma y rheol.* Gallai fod rhai eithriadau gwirioneddol, a llawer o rai ymddangosiadol iddi, yn ol fel y mae pethau yn myned; ond yr ydym yn ail adrodd ac yn dal allan mai dyma y *rheol.* Nid wyf yn ammheu dim na fydd i'n cyfaill ieuanc, yma, ei chanfod felly yn ei achos ei hun. Wrth weithredu, fel y tybiwn fod yn rhaid iddo, yn ol y gallu cynhyrfiol a osodasom ynddo, fe sicrhâ ymddiried, fe gyrhaedda barch, fe gaiff safle ddiogel fel masnachwr, ac fe'i hanrhydeddir yn fawr o blegid ei ragoroldeb personol. Bydd i'r Ysgrythyrau eu hunain, y rhai a ddyrchafant ei olygiadau, ac a burant ei gymhellion, drwy ddadguddio iddo y ffaith o fyd arall, ac effeithio arno drwy ei ddylanwadau, gefnogi amaethiad eu rhinweddau crefyddol eu hunain yn hwn, oddi wrth ail ystyriaethau o'u heffeithiau daionus, naturiol, ac uniongyrchol; yn enwedig fel y maent yn nglŷn wrth enw da. "Canys yr hwn sydd yn gwasanaethu Crist yn y pethau hyn" (yn mysg ereill, yn y rhinweddau masnachol) "sydd hoff gan Dduw, *a chymmeradwy gan ddynion.*" "Trwy wneuthur daioni gostegwch anwybodaeth dynion ffolion." "A phwy a'ch dryga chwi, os byddwch yn dilyn yr hyn sydd dda?" "Ymgedwch rhag pob rhith drygioni,—na chabler eich daioni chwi." "Na ddiystyred neb chwi." Bydded i bob un a fyddo yn "wrthwyneb" i chwi "gywilyddio," heb ganddo ddim drwg i'w ddywedyd am danoch chwi." Y mae yr hyn a ddywed pobl am danoch, sylwch, i'w deimlo yn bwysig. Gallai peidio gofalu am hyny, fod yn wroniaeth mwyaf egwyddor, neu yn galedwch mwyaf ynfydrwydd—yn fawrfrydigrwydd merthyr, neu yn hyrtrwydd asyn. Os ydych yn ymroddgar o galon i ddilyn yr iawn a'r gwir, ewch yn mlaen, heb sylwi ar ddirmyg neu waradwydd; gwnewch eich dyledswydd, a gadewch i'r byd siarad; peidiwch a gofalu beth a ddywed pobl. Ond os na waeth genych chwi beth fyddo barn y cyffredin, am eich bod yn hollol ddiofal am eich cymmeriad, ac yn benderfynol o fyned yn mlaen yn eich ffordd eich hunain, er gwaethaf pob peth a ellir ei feddwl neu ei ddyweyd—wel, yna yr ydych yn un o'r ffyliaid hyny y gellid eu "pwyo mewn mortar, heb i'w ffolineb ymadaw â hwynt." Y mae fy nghyfaill, yma, yn gwybod yn amgen nag y teimlai neu y *gweithredai* felly. Y mae efe yn gwybod fod ei Destament

Newydd yn fynych yn son am werth "gair da,"—bod yn "dda eu gair,"—ac "yn cael gair da." Y mae hyd yn oed yn dyweyd y dylai esgob, nid yn unig fod yn "ddiargyhoedd" ynddo ei hun, ond hefyd yn "cael tystiolaeth dda *gan y rhai oddi allan*,"—gan gymdeithas yn gyffredinol, ac hyd yn oed y Cenedloedd eu hunain, *y byd* fel y mae ar wahân oddi wrth yr eglwys. Gyda golwg ar bethau ereill sydd yn cadarnhau cyssylltiad parch gyda theilyngdod a gwerth, ac yn sicrhau y bydd i gymmeriad gwirioneddol adymddangos yn y diwedd, heb dderbyn dim niwed, ar ol camddealltwriaeth byr, fe genfydd lawer o ddywediadau i'w gyfarwyddo a'i gefnogi. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd." "Y cyfiawn hefyd a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfder." "Nac ymddigia o herwydd y rhai drygionus, ac na chenfigena wrth y rhai a wnant anwiredd. Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda: Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd; dysgwyl wrtho, ac *Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y goleuni, a'th farn fel hanner dydd*."

Felly gyda golwg ar *hen ddyddiau*. Y mae y ffordd yn mha un y defnyddia y dyn da ei gorff a'i enaid, ei galon a'i gydwybod;—yr egwyddorion a'r ymarferiadau ydynt ffafriol i gymmeriad; y ffordd ymarferol sydd fanteisiol i gysur, digonolrwydd, a llwyddiant; yn sicr, y mae yr holl bethau hyn yn meddu tuedd uniongyrchol, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, i gynnyrchu hirhoedledd. Gallai yr hwn y mae ganddo gyfansoddiad da—a gadael allan ddamweiniau—yn gyffredinol, fyw cyhyd ag y dewiso. Y mae holl ddeddfau ein natur, pan yn cael eu parchu ac ufuddhau iddynt, yn gweithio o'n plaid; y maent wedi eu bwriadu i wneyd hyn—i chwanegu cynnydd a pherffeithrwydd, i roddi nerth, cadernid, bywiogrwydd, grym, iechyd, parhâd—y fath barhâd ag a ddichon berthynu i gyfansoddiad anianyddol fel yr eiddom ni. Y mae afiechyd yn annhrefn, yn ddyryswch, yn attalfa, yn haint; gallai bywyd gael ei beryglu tywy ddygwydd, ei derfynu mewn eiliad trwy ddamwain, ac felly yn mlaen. Yn awr, dichon na ellid ysgoi fflachiad mellten, neu ddianc rhag tymmestl ar y môr, neu orfyw gwrthdarawiad ar y rheilffordd. Rhaid gosod drylliad a niwed oddi wrth bethau allanol, a marwolaeth oddi wrth ryw achosion anwybyddus, *neu allan o gyrhaedd* ein dylanwad, allan o'r ym-

ofyniad. Yna yr ydym yn dyweyd yn ol holl ddeddfau natur na fydd y dyn trwyadl rinweddol, ac o ganlyniad, rheolaidd a chymmedrol, yn debyg o fyrhau ei oes trwy hau hadau afiechyd ynddo ei hun, neu achlysuro dyryswch yn ei gyfansoddiad. Fe fydd ef yn fwy galluog nag ereill i wrthsefyll haint—i fyned heb ei niweidio gan un adwyth wenwynllyd, dirgelaidd; ac ni fydd yn agored i rai damweiniau sydd yn fynych yn angeuol; sef y rhai na ddygwyddant byth ond i'r anystyriol, y ffol, a'r rhyfygus. Fe ymgynnalia, hefyd, yn well ac yn hwy, dan draul ac erthwch, a blinder bywyd. Yna, yn ol y dybiaeth, fel y mae ein cyfaill yn mwynhau tangnefedd crefydd, gobaith yn nhrugaredd ac ymddiried yn ngharedigrwydd tadol Duw; fel, yn mhellach, y mae yn byw "heb ofalu," heb feddyliau pryderus maluriol; a hyny o blegid dylanwad ei ymddiried mabaidd, fel un yn byw trwy ffydd, a'r ffaith o fod ei foddion yn gyfartal (neu wedi ei wneyd yn gyfartal) i'w ddymuniadau cymmedrol; ac yn mhellach eto, fel yr ydym yn tybied ei fod yn haeddu ac yn mwynhau parch, ac heb achos gan hyny o gywilydd neu ofn, neu un o arteithiau meddyliol y drygionus; o blegid yr holl bethau hyn, fe fydd ei fywyd tufewnol yn dawel a chyfunwedd, yn llifo yn mlaen yn ddystaw a siriol, heb ei gynhyrfu gan bleserau terfysglyd, na'i aflonyddu gan ofalon ysol. Y mae hyn oll yn fanteisiol i fywyd; i fynediad rheolaidd y peiriant;—ei fynediad am amser maith heb ymddrylliad peryglus neu attalfa. Blyneddau a effeithiant arno; ychydig a ddyoddefa oddi wrth ddim arall. Pan ddechreua ffaelu, fe fydd hyny yn effaith adfeiliad naturiol—treuliad oddi wrth ymrwbiad gwastadol y rhanau—y coll ysgogiad yn yr olwynion, yr eisieu ystwythder yn yr aelodau—yr oll yn ganlyniad anocheladwy ei weithgarwch dibaid, ddydd a nos, dros dymmor terfynedig bywyd dyn.

Y mae y rhai drygionus yn meirw yn fuan. Y maent yn disgyn fel cysgodion, neu yn treiglo fel adfeilion a malurion i'r bedd, yn fynych pan yn hollol ieuanc, braidd bob amser cyn cyrhaedd deugain oed. Nid ydyw y drygionus "yn byw hanner ei ddyddiau." Y mae y byd ar unwaith yn cadarnhau y gwirionedd, ac yn rhoddi y rheswm am dano trwy alw pobl benrhydd yn "ddynion cyflym;" hyny yw, y *maent yn byw* yn gyflym; y maent yn treulio eu deuddeng

awr mewn chwech, yn myned trwy y cwbl cyn hanner dydd, ac yn syrthio o'r golwg ac i dywyllwch, tra y mae ereill yn ngloewder a gogoniant bywyd. "Eu haul a fachluda tra y mae hi yn ddydd." A gallasent wrth hyny. Y mae llawer un yn marw yn mhell cyn y byddai raid iddo. Eich dynion athrylithgar, fel Burns a Byron; i'r rhai, pan yn afradlawn a phenrydd, y mae dwy ar bymtheg ar ugain mor angeuol; a'ch "ser gwibiog," distadl, a dienw, a ddyfethant eu hieuenctyd mewn pleserau cnawdol;—*ni allant* fyw yn hir. Rhaid iddynt farw yn fuan. Y maent yn defnyddio cymmaint o agerdd nes y maent yn chwythu i fyny y pair. Y maent yn rhedeg mor gyflym, nes y mae y tân yn myned allan o eisieu cynnud. Y mae y peiriant yn cael ei ddinystrio gan frys rhyfygus, a threuliad cyflym. Ni all dim eu gwaredu. Ni all eu cyfansoddiad naturiol ddal yr ymdrech a osodant arno; tra y mae agwedd eu meddyliau yn fynych y fath, fel y bwytäai yr enaid trwy sylwedd y corff mwyaf pybyr, ac y gwnai iddo ei hunan ddiangfa allan o uffern wastadol ei feddyliau ei hun. Ond y mae pob tebygolrwydd o blaid tynged wahanol i'r da. Y mae heddwch a boddlonrwydd, ffydd grefyddol a rhinwedd crefyddol, yn gynnifer o feichnïwyr dros fywyd hir. Ni fydd i'r hwn sydd yn byw fel ydym yn tybied, fyned trwy y byd yma ychwaith fel hen lanc drygionus neu hunanol. Y mae gwyryfdod, mewn rhai amgylchiadau, yn ardderchog a rhinweddol; ond y tebygolrwydd yw y bydd i ddyn diwyd, parchus, a llwyddiannus, gael tuedd a chyfleusdra i ufuddhau yn ddoeth i gymhelliadau ei natur, a'i gylchynu ei hun â mwynderau teuluaidd. Fe "ŷf ddwfr o'i bydew ei hun," ac fe "ymlawenha gyda gwraig ei ieuenctyd." Hi a fydd iddo "fel ewig gariadus, ac fel iyrches hawddgar." Hi a fydd "fel gwinwydden ffrwythlawn ar hyd ystlysau ei dŷ; ei blant fel planigion olewydd o amgylch ei ford." Y mae iechyd a rhinwedd mewn rhieni, yn fynych yn trosglwyddo, fel etifeddiaeth i'w plant, gyfansoddiadau iachus a thueddiadau da. Fel hyn, ynte, y mae ein cyfaill yn myned yn mlaen trwy fywyd. Y mae yn cyrhaedd hen ddyddiau calonog a thirf. "Ei feibion a ddaw i anrhydedd," ac y mae yn byw i'w gweled; ei ferched a "wnant yn rhinweddol;" y mae yntau yn fyw i lawenychu ac i'w "galw yn wynfydedig." Y mae ei ŵyrion yn bloesgsiarad ei enw, ac yn dringo o gylch

ei liniau, fel blodau tyner yn tarddu ac yn chwyfio o amgylch gwraidd y dderwen. Yn awr, y mae hyn oll *yn bosibl*, wyddoch, o blegid y mae yn dygwydd mewn gwirionedd—y mae i'w weled yn weithredol yn ein cylchoedd ni ein hunain. Y mae yn dra thebyg i fod fel hyn efo gwrthddrych ein prawf, yr hwn sydd i fyw, o hyn allan, i feithrin pob rhinwedd teilwng, a than ddylanwad ffydd Crist. Wrth bob dyn o'r fath, y mae y Llyfr yn dyweyd, "Digonaf ef a hir ddyddiau, a dangosaf iddo fy iachawdwriaeth;" ac y mae yn dysgrifio sefyllfa cymdeithas, pan fydd cymdeithas, yn dduwiol a rhinweddol, trwy ddarlun fel hyn:—"Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; Hen wŷr a hen wragedd a drigant eto yn heolydd Ierusalem, a phob gŵr a'i ffon yn ei law o herwydd amlder dyddiau. A heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn a genethod yn chwareu yn ei heolydd hi."

Ac felly hefyd, yn y lle olaf, mewn perthynas i *ddiwylliad y meddwl*, ac i *adnoddau tufewnol er cyfarfod trychineb achlysurol, neu dristwch anocheladwy*. Y mae crefydd ei hunan yn ddygiad i fyny. Lle mae y drychfeddwl Cristionogol, priodol o weinidogaeth addysgawl, yn cael ei ddwyn allan, a dynion yn cyfarfod yr eglwys er addysg reolaidd yn gystal ag i addoli, y mae yn rhyfedd meddwl y fath wahaniaeth fydd, gyda golwg ar ymddadblygiad meddwl, rhwng dau ddyn (yn enwedig dynion tlodion), y naill o arferion anghrefyddol, a'r llall o arferion crefyddol. Y mae y dyn crefyddol yn dyfod o angenrheidrwydd yn feddyliwr a a darllenwr. Y mae efe yn ymresymwr ac yn athronydd yn ei ffordd; o blegid y mae yn dyfod yn dduwinydd, ac yn dysgu dilyn cadwyni o ymresymiad, yn gystal ag ymfwynhau yn nheimladau duwioldeb. Y mae yn dyfod i wybod rhyw beth am hen hanesiaeth, ysgrythyrol a phaganaidd; am ddygiad allan y gwirionedd trwy oruchwyliaethau olynol; am seiliau llwyddiant cenedlaethol; deddfau y llywodraeth Ddwyfol; egwyddorion athroniaeth foesol. Y mae yn fyfyriwr llyfr sydd wedi ei gyfaddasu i eangu a dyrchafu y meddwl, i'w lenwi â syniadau mawrion, i'w gynhyrfu at amcanion ardderchog, i arfer y crebwyll, i gadarnhau y farn, ac i ddysgu gwir athroniaeth bywyd; y mae wrth ei astudio yn cyrhaedd nerth meddwl, oddi wrth yr ymdrech a ofyna rhai *rhanau o hono*; yn cyrhaedd craffder a gochelgarwch, wrth

gymharu yn amyneddgar ymadrodd âg ymadrodd, y rhai sydd yn deongli ac yn agweddu y naill y llall. Y mae teimladau ac ymarferiadau crefydd, natur addoliad, ac iaith y Beibl, oll yn meddu tuedd gref i alw allan y teimlad o'r prydferth, ac i barotoi at ganfyddiad y mawreddig mewn natur a'r perffaith mewn celfyddyd. Hyd yn oed, pa fodd bynag, pe na byddai hyn yn bod, ni all dyn crefyddol, meddylgar, a deallus, beidio a chael ei feddwl wedi ei gryfhau yn gyffredinol trwy ymarferiad gwastadol y galluoedd y mae myfyrdodau crefyddol yn eu bywiocäu i weithgarwch. Ond dylid sylwi yn mhellach, y bydd i'n cynllun o ddyn, oddi wrth yr hyn a wna o fywyd, ac a fwynha o hono, ddyfod i gael hamdden; ac y bydd yn alluog i'w gylchynu ei hun â'r hyn y gall moddion digonol eu gorchymyn, ac y mae arfer yn gyffredin yn awgrymu i'r llwyddiannus. Gall chwanegu ei lyfrgell—ac y mae'n debyg y gwna; gall eangu ei adnabyddiaeth â'r dysgedig ac â'r dillynaidd, a chwanegu yn fawr ei wybodaeth trwy ymddyddanion; a gall wellhau ei chwaeth trwy y pethau hardd a phrydferth a gyfarfyddant ei lygaid yn y darluniau ar ei barwydydd, ac yn y trefniadau yn ei ardd. Gwn yn eithaf da fod yn bosibl iawn i rinweddau sylweddol y bywyd crefyddol gael eu hamaethu a'u cynnal, heb gael eu dilyn gan wybodaeth a chwaeth. Gwn, hefyd, ei fod yn ddigrifwch cyffredin, i gyfeirio at rai pobl lwyddiannus a goludog fel rhai delffaidd ac anwybodus;—gyda llyfrau yn eu llyfrgelloedd na ddarllenir mo honynt byth, a cheinion o'u hamgylch nas gallant eu gwerthfawrogi. Nid oes a fynwyf fi â hyn. Y mae yn ddigon i mi fod yn bosibl i grefydd a llenyddiaeth gael eu huno—i'r dyn sydd yn byw erbyn byd arall, ganfod hyfrydwch yn nghelfyddydau a gwyddorion y byd hwn. Nid yw y ddau beth yn anghydweddol;—*gellir* eu huno. Gwn am anghreifftiau o ddynion mewn masnach, dynion crefyddol, yn gweithio ac yn ymdrafferthu, yn derbyn ac yn rhoddi, trwy ystod maith o lwyddiant graddol; ac ar hyd yr holl ffordd, yn darllen ac yn dysgu ac yn cael hyfrydwch yn ngwahanol lwybrau llenyddiaeth gyffredinol. Ac mi chwanegaf yn mhellach, mai anfynych yr adnabum ddyn crefyddol gwir gall yn ymddyrchafu mewn bywyd, heb sylwi, pa mor ddiffygiol bynag fyddo ei ddygiad i fyny ar y dechreu, fod ei feddwl yn agor i wybodaeth ac yn gwella mewn

chwaeth; ei fod yn cael gwaith a hyfrydwch mewn llyfrau; ac yn dra mynych, ei fod i ryw fesur yn gallu gwerthfawrogi yr ymadroddion a'r gorchestion hyny o eiddo athrylith sydd yn gorwedd yn y pellder mwyaf oddiwrth y bwrdd cyfnewid a'r ariangist.

Y mae gan y dyn crefyddol, hefyd, ei adnoddau priodol ei hun i'w gynnorthwyo i ymgynnal dan ergydion trychineb neu i sefyll i fyny dan flinder cyffredin. Pa beth bynag a feddwl ereill am ei ffydd, y mae y gwrthddrychau yr edrycha atynt, a'r dylanwad a weithreda, yn wirioneddau iddo ef. Y mae yn ymddiried mewn rhagluniaeth dirion—yn credu fod pob peth yn cael ei reoli gan ddoethineb a chariad—ac nad all dim ddygwydd iddo ond yn ol ewyllys ei Dad nefol. Pan wedi ei daflu i lawr gan ryw ddyrnod sydyn, neu yn cael ei alw i ddyoddef yr hyn sydd yn dygwydd i ddynoliaeth, yr hyn y mae yn rhaid i bawb rywbryd neu gilydd ei ddyoddef, ni raid iddo ef ymostwng iddo fel i ganlyniad gweithrediad peiriant yn unig;—nid ydyw i'w ystyried ei hun fel aberth dan draed haiarnaidd deddfau mater, neu fel digrifwch dygwyddiad anwadal neu ddamwain gyffredin. Iddo *ef*, "y mae Duw a farn ar y ddaiar"—bod llywyddol a breninol, â meddwl a chariad, bwriadau ac amcanion ganddo; yr hwn a reola bob peth "yn ol cynghor ei ewyllys ei hun;" ond ewyllys yr hwn ydyw, fod "pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu Ef." Y mae yn cyfeirio pob dygwyddiad at y rheswm Goruchaf, y dealltwriaeth Anfeidrol, gan gredu ei fod Ef, yr hwn y meddylia am dano felly, yn gyfiawn, yn garedig, ac yn drugarog. Y mae yn dysgwyl manteision moesol oddi wrth ei brofedigaethau, gan gredu eu bod yn cael eu gweinyddu yn fwriadol. Y mae yn cael cynnaliaeth mewn gweddi at Dduw yn y nef, a dyddanwch mewn ymostyngiad i'w ewyllys ef ar y ddaiar. Y mae yn ymwybodol o nerth dwyfol yn tarddu o obaith a ffydd, o grediniaeth fod "dyoddefiadau yr amser presennol" yn union y peth sydd arno eu heisieu i'w addasu at ei fywyd uwch a thragwyddol, ac "nad ydynt yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni." Y mae yn "ddiogel ganddo" nad all dim "ei wahanu oddi wrth gariad Duw yr hwn sydd yn Nghrist Iesu;"—nad all dim ddygwydd y tu hwnt i allu *ffydd ei oddef*, neu yn ormod i adnoddau crefydd roddi

esmwythdra dano. Ond nid yw yn angenrheidiol ymhelaethu ar hyn. Gwyddoch oll fod y Testament Newydd, yn mhob tudalen, yn cyflwyno i'r dyn sydd yn ei gredu, resymau dros dawelwch yn nghanol cyfnewidiadau bywyd—oddi wrth y sicrhad am gynnaliaeth bresennol, dylanwad bendithiol drygfyd a thrallod, doethineb y cerydd, ei amcan moesol, a'i ganlyniadau yn y pen draw. Gwyddoch, hefyd, gyda phob teimladau naturiol a meddyliau teilwng, fod y grediniaeth, y gobeithion, y cynhyrfiadau, a'r ymestyniadau a berthynant i'r bywyd dwyfol, yn ymgymmysgu yn meddwl y Cristion, y rhai a amwisgant drallod â phriodoliaethau uchel, ac a roddant iddo y cymmeriad o ddolen euraidd rhwng y ddaiar a'r nef. "Na thralloder eich calonau:" "Digon i ti fy ngras i; canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." "Ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchasom hwy; onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw? Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent fel y gwelent hwy yn dda; eithr hwn er llesâd i ni, fel y byddom gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef."

Yn awr, nid ydwyf yn son yn bresennol am wirionedd Cristionogaeth, nac yn amddiffyn argyhoeddiadau ei dysgyblion. Digon i fy amcan uniongyrchol i, yw dywedyd fod Cristionogaeth yn wir *i'r hwn sydd yn ei chredu*, a sicrhau fod y grediniaeth o'i heffeithiau allanol *yn* cynnyrchu y teimladau tufewnol tybiedig hyny, ac yn tywallt hefyd y nerth hwnw oddi fewn, o ba un y dyweda dynion da wrthym fod ganddynt brofiad ymwybodol. Pa un a yw Cristionogaeth yn wir ai peidio, nid dyna y pwnc yn awr. *O blegid* ei bod —ac o blegid ei bod yr hyn ydyw—ac o blegid y cymmerir hi am hyny, y credir ac yr ymddiriedir ynddi, ac y dygir hi allan yn drwyadl mewn calon a bywyd—*o blegid hyn*, y mae ei dysgybl cysson yn ein golwg ni yn cael ei gyflenwi âg adnoddau digonol ar gyfer pob amgylchiadau cyfyng. Nid all gael ei ddadymchwel gan ymosodiad sydyn, na'i lethu, er iddo gael ei syfrdanu gan ddyrnod. Ni bydd iddo gael ei "lyncu gan ormod tristwch," na'i adael heb etifeddiaeth, hyd yn oed pe byddai ei un fydol wedi ei dinystrio oll:—mae "ganddo iddo ei hun olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus." Fe all y Cristion, o blegid fod ei ffydd yn wirionedd iddo ei

hun, ddyfod allan o drallod blin heb ei lethu ac heb gwyno; gall ail ymddangos yn ei gylch o ddyledswyddau, gyda gwynebpryd tawel ac egni heb ei leihau, gan deimlo fod ganddo adnoddau, fod ganddo drysorau tufewnol o dawelwch a nerth. Fe ellir gwneyd gwaith eto, er y gallai fod rhai wedi eu cymmeryd ymaith y byddai eu presennoldeb a'u cyfeillach yn ysgafnhau llafur; ac fe ellir mwynhau y ddaiar, er y gallai fod ei golygfeydd iddo ef wedi colli rhai o'u deniadau. Iddo *ef*, y mae y cwmwl duaf "yn arianaidd oddi fewn;" gall trallod "aros dros brydnawn," ond "heuir goleuni mewn tywyllwch," ac "erbyn y bore y bydd gorfoledd." Y mae ffydd grefyddol, fel yr hanfoda yn meddwl y Cristion, wrth edrych ar gyfnewidiolrwydd a thonau bywyd, a gwrando ar ei furmur, yr hwn a ymddengys yn gymmysglyd, yn canfod yn llawer sicrach na dim arall, fod creadigaeth fawr Duw, er fod ei hysgogiadau yn ddirgelaidd ac weithiau yn frawychus—

"yn dwyn
Tystiolaeth ddilys am ddirgelion cudd;
Am lanw a thrai, a byth-barhaol nerth;
A heddwch yn y canol ar ei sedd
Yn nghanol cyffrawd sydd heb iddo lan."

O'r heddwch yna y mae ei gwrthddrychau yn gyfranogion, —y "*tangnefedd Duw*, yr hwn sydd uwch law pob deall."

Fel nad wyf yn trin gwirionedd Cristionogaeth, felly nid ydwyf yn trin y mater cydberthynasol o wirionedd neu gyfeiliornad y gred anffyddol; sef atheistiaeth, neu lëygaeth, neu naturiolaeth athronaidd, neu beth bynag y gelwir hi. Ni ddadleuaf yn erbyn yr hyn y gall ei hamddiffynwyr ddyweyd am sefyllfa dufewnol eu meddwl mewn trallod, ac am eu hadnoddau profiadol o heddwch a nerth. Gallaf feddwl am ddyn, pan yn drallodedig, yn foddlawn i dderbyn esmwythder mewn gwybodaeth; yn foddlawn i gael ei resymau dros dawelwch yn yr hyn a elwir cysuron athroniaeth; yn eithaf ewyllysgar i gael ei gyfyngu am ddyddanwch ac esmwythâd dan ddrygau bywyd, at gyfeillion llenyddol, neu at bleserau boneddigaidd, cyfeillach, cydwledda, masnach, difyrwch; gallaf hyd yn oed feddwl y gallai esmwythäu ei deimladau cynhyrfus (os gedy efe iddynt gael eu cynhyrfu) a thawelu neu yru ymaith ei ofnau a'i bryder (os dewisa gael hyny), trwy feddwl am bob peth fel yn sefydledig ac anochel-

adwy; trwy gredu ei fod yn greadur angenrheidrwydd a thynged, heb na bai na chyfrifoldeb yn perthyn iddo; a thrwy gyfarfod gyda dideimladrwydd penderfynol ac ystyfnig yr hyn a osodir arno gan y peiriant mawr a galluog sydd, gyda difaterwch perffaith ac angenrheidiol—a hyny heb na chynllun, nac amcan, na bwriad—yn ei falu rhwng ei olwynion nerthol ac anwrthwynebol! Yr wyf yn cydnabod ac yn addef hyn oll. Fel hyn, ac fel hyn, fel mater o ffaith, y gall dysgyblion natur deimlo ac ymresymu! Da iawn! Bydded felly! Yr oll yr ydwyf yn bresennol yn ei gadarnhau ydyw—fod gan y dyn o ffydd grefyddol, yr hwn hefyd, fel mater o ffaith, sydd yn teimlo ac yn ymresymu fel y dysgrifiasom—boed ef gam neu gymhwys, doeth neu ffol, athronydd neu ynfytyn, wrth gredu, gobeithio, ac ymddiried fel y gwna, *o blegid ei fod* yn credu ac yn gobeithio felly—ei fod yn sefyll ar well tir o ddigon, gyda golwg ar drallod. Y mae wedi ei arfogi yn well nag ereill ar gyfer brwydr bywyd, ac wedi ei barotoi yn well at droad y llanw, os daw i'w erbyn. Fe fydd yn debycach o ymgynnal os gorchfygir ef, neu adfeddiannu y maes, mewn dull teilwng o ddyn, yn gyfaddas i gymmeriad un yn hòni cael ei gydnabod fel bod deallgar a rhesymol, a chanddo ar ei ysgwyddau ben yn meddwl, ac o fewn ei fynwes galon fyw.

Ni a gydgrynhöwn i fyny y ddadl, gan belled ag y daeth, mewn ychydig eiriau. Wrth edrych, fel yr ydym yn tybied, gyda rhywbeth tebyg i olwg glir ar y gwirionedd pwysig o fywyd dynol—cyfrif dichonolion mawrion y byd yr ydym yn byw ynddo—sylwi ar gyfansoddiad y defnydd crai, o'n mewn ac oddi allan i ni, â'r hwn yr ydym i weithio yn ystod ein deng mlynedd a thrigain—a gweled pa beth a ellir ei wneyd gan rinwedd gyda golwg ar iechyd, sirioldeb, llwyddiant, cymdeithas, ac felly yn mlaen, heb anghofio drygfyd a allo ddygwydd, ac adegau cyffredin o dywyllwch a dagrau—a gosod hyn oll o'n blaen, yr ydym wedi dyfod i benderfyniad, ac yr ydym wedi ei fynegu. Y penderfyniad hwnw ydyw, mai y meddwl am yr Anweledig, yr Anfeidrol, a'r dyfodol fel eu dadguddir i ni yn y dadguddiad Cristionogol—mewn geiriau ereill, mai ffydd grefyddol, gyda'i chymhellion goruwchnaturiol a'i hamcanion uchddaiarol — a'ch cynnysgaetha oreu â'r rhinwedd hwnw a sicrhâ, yn sicr, fwyaf o fanteision bywyd; ac a'ch galluoga oreu i gyfarfod y drygau a allant

ddygwydd i'ch rhan. Yr ydym fel hyn yn meddwl :
ech mewn dwy ffordd gael eich cynnorthwyo gan yr egv
a argymhellwn. Gallai fod yn fanteisiol i chwi *yn wei*
i wneyd y goreu o fywyd, drwy eich cynnorthwyo i'w v
yn rhywbeth unffurfiol prydferth ; ac, yn chwanegol a
gallai eich dysgu i wau i ffurfiau teg hyd yn oed ei e
tywyllaf a mwyaf dyryslyd.

RHAN IV.

GWRTHRESYMAU AC ATEBION.

Y MAE rhai o honoch, yr wyf yn ofni, heb eich boddlon
wyf yn tybied y gallaf glywed rhywbeth fel murmur dy
wrthwynebiad neu anghrediniaeth. Byddai yn well
ei siarad allan. Yna dyna ddau ŵr yn codi i wneyd
un yn ymddangos fel gwr crefyddol, sobr ; y llall y
ddangos fel adfail o ddyn, âg iselder ysbryd yn ei o
gwarthnod ar ei ael. Yr wyf yn eithaf ewyllysgar i wr
ar y ddau, ac i wneyd yr hyn a allaf i roddi ateb neu
had. A allaf ofyn i'r cyntaf pa beth a ewyllysia ddw
mlaen? "Byddai yn ddrwg genyf gael fy ystyried yn
neu yn feiddgar, ond rhaid i mi ddyweyd yn onest,
mod yn ofni eich bod yn camarwain y gwyr ieuainc
Gwrandewais eich gosodiadau a'ch rhesymau, yr w
gobeithio y gallaf ddyweyd yn ddiragfarn ; ac y mae y
ddangos i mi eich bod yn debyg o gynnyrchu argra
ammheus, ac y gallech fod yn rhoddi i'ch gwrandawyr
iadau sydd braidd yn gyfeiliornus am grefydd a b
Am eich esboniad ar grefydd, ni ddywedaf fawr, er f
ddrwg genyf ganfod math o wagder a chyffredinolrwy
amgylch eich iaith sydd yn bob peth ond boddhaol ;

yn wir, brofi yn dra thwyllodrus; y mae yn anmherffaith yn ngosodiad allan byneiau sylfaenol mawrion; ac arweinia fi braidd i ammheu a ydych yn dal yn briodol at yr hen awduron, ac a ydych yn iach yn ol y 'gyffes.' Heb ddal ar hyn yna, pa fodd bynag, rhaid i mi ddyweyd eich bod yn ymddangos i mi yn meddu barn sydd lawer yn rhy dda am y byd ac am ddyn. Yr ydych yn gosod gormod yn nwylaw y dyn ei hun. Ymddengys eich bod yn meddwl fod y byd yn lle hyfryd iawn; ac yr ydych yn siarad am fywyd fel peth mawr a phrydferth, mewn ffordd: ond rhaid i mi gyfaddef na chefais i ef felly. Yn fy meddwl fy hun, yr wyf yn tybied yn sicr eich bod mewn rhai pethau yn eglur gyfeiliornus. Chwi a galonogech y gwŷr ieuainc hyn i edrych yn mlaen at fywyd gyda gobeithion uchel, fel pe byddai yn rhywbeth y gallent ei fwynhau yn ddirfawr; yn lle dyweyd wrthynt pa beth ydyw mewn gwirionedd, gan eu parotoi at eu somedigaethau chwerwon, a'u dysgu mai eu dyledswydd gwastadol fydd diystyru ei hudoliaethau, a bod yn barod i'w adael. Ymddengys eich bod yn gadael yn ddisylw, os wyf yn eich deall yn iawn, y diystyrwch â pha un y mae Cristionogion i drin y byd; pa fodd y maent i gael eu croeshoelio iddo, a'i ddirmygu, ei sathru dan eu traed, a chofio fod ei 'ddull yn myned heibio,' fod bywyd yn fyr, 'na ddygasom ddim i'r byd, ac na allwn ddwyn dim allan ychwaith,' ac os 'bydd genym ymborth a dillad,' y dylem 'ymfoddloni ar hyny,'—gan gael ein cynnal a'n boddloni gyda'r gobaith a'r dysgwyliad am etifeddiaeth yn yr wybrenau. Heb law hyn, yr ydych yn anghofio fod hunanymwadiad i hynodi Cristionogion; eu bod dan rwymau o fyned yn erbyn natur, o ladd a marweiddio y cnawd, gan 'ddiosg corff pechod,' 'tynu allan y llygaid,' ac felly yn mlaen; ac hefyd fod crefydd yn fynych yn sefyll ar ffordd ein manteision bydol; y gwna cydwybod orfodi y Cristion i wneyd yr hyn na wna ereill, ac i beidio gwneyd yr hyn sydd i ereill yn ennillfawr. Fe fydd ffyddlondeb i Dduw weithiau yn peru iddo fforffedu nodded neu sefyllfa, colli cwsmeriaeth neu gyflog, gyda drygau bydol ereill; ac, mewn achosion arbenig, gallai ofyn ymostyngiad i garchariad neu farwolaeth. Yr wyf yn methu gweled beth sydd a fyno Cristionogion â gwneyd y goreu o'r byd. Yr hwn 'sydd yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw.'

Braidd nad awgrymech chwi y gallem fyw ar delerau pur gyfeillgar efo'r ddau! A ydyw mewn gwirionedd yn bosibl, ynte, wedi y cwbl, 'gwasanaethu Duw a Mammon?' Y mae genym awdurdod uchel dros anghredu hyny. Ond yr ydwyf yn gwadu y gosodiad, fod rhinwedd crefyddol, wrth edrych yn gyffredinol, yn llwyddiannus mewn bywyd. Yr ydwyf yn ammheu y ffaith. Mi a adwaenais lawer o rai mwyaf 'rhagorol y ddaiar'—dynion gostyngedig, duwiol, diargyhoedd,—y rhai nad allent byth ddyfod yn mlaen; byddai pob peth yn methu gyda hwynt; ni fyddai yr un fasnach y cyffyrddent â hi, neu y cynnygient arni, un amser yn llwyddo. Fel meistriaid, byddai eu hanturiaethau bob amser yn methu; hyd yn oed fel gweision, ni fyddent byth yn codi neu byth yn uchel. Na, na, syr! y mae y byd yn Ddyffryn Achor, yn lle dagrau a beddau, yn enwedig i'r cyfiawn; 'Trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas Dduw.'"

Yr ydych yn sicr wedi llwyddo, fy nghyfaill anwyl, i ddwyn yn mlaen gyhuddiad lled arswydus. Nid ydwyf yn synu yn hollol ato, pa fodd bynag. Yr wyf yn meddwl fod rhai pethau a ddywedasoch yn dra thebyg o ddyfod i feddwl llawer un: ac er nad wyf yn hyderus fy mod yn alluog i ateb pob gwrthddadl, ac i esbonio neu symmud pob anhawsderau, mi a ymdrechaf yn onest i wneyd yr hyn a allaf, ac felly rhoddaf i chwi y fath foddhâd ag a fydd yn fy ngallu.

Gan belled ag y mae a fyner â fy nghyfundrefn grefyddol, rhaid i mi ailadrodd y dymuniad a wnaethym o'r blaen mewn perthynas i fy ngolygiad ar rinwedd. Aroswch! Chwi a ganfyddwch, ysgatfydd, ein bod yn nes i'n gilydd nag y meddyliwch yn bresennol. Yr oedd genyf amcan mewn golwg wrth ddefnyddio iaith ydoedd yn hytrach yn gyffredinol a chynnwysfawr nag yn fanwl dduwinyddol. Yn y man, efallai y deuwn i ganfod ein hunain ochr yn ochr; er, pa fodd bynag y gellwch chwi a minnau gytuno yn sylweddol yn ein golygiadau, y mae yn dra thebyg na fydd fy null o ymadroddi o gwbl yn hollol y fath ag a syrth i fewn â'ch geiriadaeth hoff ac arferedig chwi. Ni fydd i ni, pa fodd bynag, yr wyf yn gobeithio, ymrafaelio yn nghylch hyny. Yn y cyfamser, gadewch i mi ddyweyd cymmaint a hyn mewn dau air:—yn union fel y mae arnaf eisieu ffydd grefyddol, er

mwyn i rinwedd gael enaid ynddi; felly y mae arnaf eisieu yr elfen efengylaidd, fel y byddo i ffydd grefyddol gael ynddi "ysbryd a bywyd." Saif llinach gwahanol ranau ein cyfundrefn, gan hyny, yn debyg i hyn:—y ffurf efengylaidd o syniadau Cristionogol, a gynnyrcha y ffydd grefyddol hono oreu, yr hon a gynnal yn fwyaf effeithiol y rhinweddau hyny, pa rai, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, a sicrhant y pethau hyny, a gydgyfranant i foddlonrwydd ac addurniant bywyd. Yn awr, foneddigion, yr wyf yn cyfrif hona yn gyfundrefn deg, a'i hystyried fel y cyfryw. Fel damcaniad, mi a'i hymresymais allan, yn fy nadl flaenorol. Ond yr wyf yn awr yn sicrhau, mewn atebiad i fy nghyfaill yma, fy mod yn credu ei bod yn cael ei chadarnhau yn ddigonol gan ffeithiau, fel y cyfiawnhâ yr oll a argymhellais ac a amddiffynais: hyny yw, yr ydwyf i gael fy neall fel yn dadgan fy nghred, fod rhinwedd crefyddol, didwyll, a chysson, *fel rheol gyffredin, mewn gwirionedd, yn gweithredu yn llesol i ddynion gyda golwg ar y byd yma.* Yr ydwyf yn credu hyn yna. Yr wyf yn ei gredu er gwaethaf yr hyn y gellir ei feddwl sydd fel yn sefyll yn ei erbyn oddi ar rai testynau o'r Ysgrythyr sydd yn ymddangos yn wrthwynebol, ac oddi ar rai ffeithiau mewn bywyd sydd yn ymddangos fel yn ei wrthbrofi.

Ef allai y caniatâ ein cyfaill i mi ddechreu yr hyn sydd genyf i'w ddyweyd mewn atebiad i'w wrthddadleuon, ac yn gadarnhâd i fy nghred fy hun, trwy ofyn iddo gwestiwn neu ddau. Allaf fi? Gallaf. Da iawn.

"A ydych chwi mewn masnach?"

"Prin y gallaf ddyweyd fy mod mewn masnach yn awr. Mi fum, ac yr ydwyf eto, yn talu ychydig o sylw iddi; ond y mae yn llawer tebycach i chwareu na gweithio."

"Nid ydych yn byw wrth y masnachdy, ef allai?"

"O'r anwyl! nac ydwyf; ac ni fum er's blyneddau. Yr wyf yn byw ychydig o ffordd o'r dref, ac yn dyfod iddi tua phedwar neu bum niwrnod o'r chwech."

"A fyddwch chwi yn gyru i'r dref mewn cerbyd?"

"Pur anfynych. Byddaf fynychaf yn cymmeryd yr *omnibus;* y mae yn galw am danaf bob bore, pa un bynag a fyddaf yn dyfod ai peidio. Weithiau, byddaf yn cael y ceffyl allan, gyda'r gerbydan, ond nid yn fynych; bydd fy ngwraig a'r genethod, y rhan amlaf, yn cymmeryd hono."

"Y mae genych wraig a phlant, felly?"

"Y mae yn dda genyf ddywedyd fod; ac ni fendithiwyd un dyn erioed, yr wyf yn meddwl, â gwell gwraig; ac ni chafodd neb fwy o gysur a boddlonrwydd yn ei blant."

"A ydynt i gyd gartref gyda chwi?"

"Nac ydynt i gyd. Mae rhai wedi priodi, ac yn gysurus iawn. Y mae fy mab henaf yn y fasnach; ac y mae fy ail fab yn Nghaergrawnt. Y mae dwy o fy merched wedi ymsefydlu—un yn wraig cyfreithiwr parchus, a'r llall yn wraig masnachwr llwyddiannus yn y ddinas; ac y mae gan y naill a'r llall ddau neu dri o blant anwyl. Yr oeddwn yn cydfyned â chwi yn hollol yn nghylch yr hen ŵr hwnw y soniech am dano:—yr oeddych yn iawn yn y fan hono, rhaid i mi ddywedyd."

"Yr ydych, wrth reswm, yn proffesu crefydd—y mae eich geiriau a'ch ymddygiad yn dangos hyny—yr ydych yn perthyn i ryw eglwys Gristionogol?"

"Yr ydwyf, mae 'n wir, wedi bod yn gymunwr yn yr un eglwys am ddeugain mlynedd. Yr oedd genyf rieni duwiol, er fy mod wedi eu colli yn fore. Ni welais fy nhad erioed; ond fe fu fy mam byw nes y gadewais yr ysgol—ei delw yw y peth gwerthfawrocaf o fewn fy nghof. Cefais fy ngadael fy hun yn y byd, pan ond yn ddeuddeg oed, heb na brawd na chwaer, nac un perthynas agos; ond gallaf ddyweyd yn wirioneddol, yn ngeiriau y Salmydd, 'Pan oedd fy nhad a fy mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyniodd.' Daethym i Lundain yn ieuanc iawn. Fe'm gosodwyd mewn man lle y derbyniais garedigrwydd; ac mi a benderfynais, trwy gymhorth Duw, y gwnawn yr oll a allwn i roddi boddlonrwydd. Fe'm cadwyd oddi wrth ffolineb a phechodau ieuenctyd; daeth crefydd hefyd i fod yn arferiad ac yn fywyd—daethym yn gymunwr, a deliais y cyssylltiad yna o hyny hyd yn awr."

"Yr ydych, y mae yn debyg, yn swyddog?"

"Ydwyf."

"Yn henuriad?"

"Yn rhywbeth tebyg."

"Yr oeddwn yn meddwl felly. Diolch i chwi. Dyna ddigon."

Yn awr, foneddigion, yr ydwyf yn dra rhwymedig i'n cyf-

aill—ac yr ydych chwithau, yr wyf yn sicr, yn teimlo yn rhwymedig iddo hefyd—am y dull tirion iawn yn mha un yr atebodd fy ngofynion; ac, yn wir, am iddo ganiatäu eu gofyn iddo, ac am eu hateb o gwbl. Ond fe faddeua i mi, yr wyf yn hyderu, am ddyweyd ei fod yn rhoddi esampl i ni o anghyssondeb arbenig—er nad ydyw, fe allai, yn bur bwysfawr—yr hwn sydd i'w gyfarfod yn fynych yn mysg pobl grefyddol. Y maent yn siarad ac yn meddwl am fyd a bywyd, yn ol dosbarth neillduol o ymadroddion Beiblaidd, y rhai a glywant yn feunyddiol; ond rhaid i chwi beidio edrych i'w hanes neu i'w harferion hwy eu hunain am esboniad ymarferol ar y testyn. Sylwch! nid ydynt yn ffuantus, nac yn *ymwybodol* anghysson—y maent yn berffaith uniawn yn yr hyn a ddywedant—ond y maent yn syrthio, mewn rhai pethau, i ormodiaeth dduwiol; ac heb feddwl hyny, y maent yn dra defosiynol o unochrog.[1] Ni chafodd ein cyfaill yma y byd yn ddyffryn wylofain, nac yn ddim tebyg, er iddo ddechreu bywyd mewn tawch neu niwl a gododd oddi wrth ei le genedigol, a'i drallod boreuol. Fe ymddangosodd yr haul yn fuan uwch ei ben, ac y mae wedi cael diwrnod hir a dysglaer. Cychwynodd yn dda, a daeth yn mlaen yn llwyddiannus. Ni chollodd *ef* sefyllfa na chyflog o blegid ei grefydd—nid ydoedd o gwbl yn anhawdd iddo ef gadw cydwybod, neu ddilyn ei argyhoeddiadau. Yr oedd ei arferion adnabyddus, ef allai, yn hytrach yn cynnorthwyo nac yn rhwystro ei gynnydd. Fe gafodd, y mae yn ymddangos, ddyrchafiad cysson mewn bywyd. Fe aeth i fasnach; llwyddodd pethau; ennillodd eiddo; y mae baich gwaith yn awr oddi ar ei feddwl yn llwyr—y mae cynnyrchion ei ddiwydrwydd yn ddiogel yn yr ariandai. Y mae yn byw mewn neillduedd, rywle efallai ar gyffiniau tref Llundain; y mae yn cadw cerbydau, a rhywbeth yn ychwaneg; y mae ganddo dŷ da, wedi ei lenwi a'i ddodrefnu drwyddo oll; meibion yn cychwyn mewn masnach, lle y mae efe wedi gadael, neu yn ymbarotoi at y galwedigaethau dysgedig. Fe gafodd ei ferched, y mae yn bur debyg genyf, eu dwyn i fyny yn dda, ac y maent yn sicr, yn rhinweddol a diwylliedig—yn darllen, y mae yn debyg, rai o ieithoedd y cyfandir, heb law yr eiddynt eu hun-

[1] Arferir y geiriau "duwiol," a "defosiynol," mewn gwatwareg radlon.—CYF.

ain. Y mae ei feddwl yn esmwyth am weddill ei oes. Ni all fod byth mwy yn poenus bryderu am ymborth at y diwrnod sydd yn myned heibio iddo, beth bynag y mae wedi bod; o blegid nid ydyw methdaliad gwladol yn agos, ac heb hyny ni all gael ei ddarostwng i eisieu neu ofn. Ni all un o ddygwyddiadau cyffredin rhagluniaeth effeithio arno ef. Yn sicr, nid wyf yn meddwl y gallai fod ei groeshoeliad i'r byd ar un adeg yn hynod o arteithiol; neu na fu bywyd iddo yn ddim ond peth llawn o ddagrau a thrallod, o ba un yr ydoedd yn wastadol yn ocheneidio am ddianc! Y mae yn gwybod yn eithaf da—a bu yn fynych, yr wyf yn sicr, yn llawenychu yn y meddwl—nad yw y Salm a ddysgodd pan yn fachgen—y gyntaf a adroddodd wrth ei fam—yn ddim mwy na llai, mewn gwirionedd, na dysgrifiad o'r hyn a fu un byd iddo ef, ac o'r hyn a obeithia am y nesaf:—

"O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd;
A minnau a breswyliaf byth
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd."

Nid oes genyf un ammheuaeth na wna. Nid wyf yn ammheu ychwaith, na bu efe byw gyda gofal didwyll am ei fynediad i mewn yn y pen draw i'r byd uchod, er na bu mewn un modd yn ddiofal am wneyd peth da o hwn; ac fe lwyddodd hefyd, gyda golwg ar gasglu a mwynhau.

Beth ynte ydyw yr eglurhâd ar hyn oll? Pa fodd y mae nad ydyw crefydd yn dysgu pobl i groeshoelio eu hunain yn y fath fodd, fel ag i wneyd y bywyd yma yn beth mor resynol a thruenus ag y dywed llawer o honynt ei fod? neu pa fodd y mae y gallant *fod* yn Gristionogion—ac hyd yn oed yn henuriaid a diaconiaid—os nad ydynt yn gwneyd felly?

Y mae yr eglurhâd, yr wyf yn meddwl, i'w gael yn hyn:—Fod yr Ysgrythyrau yn cynnwys tri neu bedwar dosbarth o ymadroddion sydd yn dysgrifio bywyd dynol fel y mae i'w weled mewn gwahanol olygiadau, a phrofiad a dyledswydd yn eu perthynas â gwahanol bethau, gwahanol ansoddion yn yr un peth, gwahanol raddau cymdeithas, a gwahanol fathau o amgylchiadau; ac nad ydyw llawer o ddynion da yn gwahaniaethu yn ddigonol rhwng y pethau hyn, a'u bod hyd yn oed yn gwaethygu rhai o honynt, tra yn colli eu golwg ar *ereill.* Y canlyniad ydyw, eu bod yn syrthio yn fynych i

wrthddywediad ac anghyssondeb ymddangosiadol—weithiau i gamgymmeriadau ymarferol pwysig. Y mae yn wir, er anghraifft, fod y Testament Newydd yn cynnwys llawer o ddysgrifiadau o'r dyoddefiadau a'r gorthrymderau, y poenau, a'r peryglon, i ba rai y mae Cristionogion yn agored o herwydd eu ffydd; yr hyn sydd ganddynt i'w dyoddef am dderbyn o honynt y gwirionedd, glynu wrtho, ac ufuddhau i eirchion cydwybod a dyledswydd: y mae'n hollol anmhosibl, yn wir, i *fod* yn Gristionogion, ond ar y ddeddf ddealledig —"a phawb sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu a erlidir." Y mae, hefyd, yn cynnwys llawer o ddywediadau cryfion am y pangfeydd a'r arteithiau cyssylltiedig â "chroeshoelio y cnawd;" yr ymdrechion a ofynir i "farweiddio y chwantau" sydd yn byw ynddo ac yn gwrthod marw; y gwrthwynebiad sydd i'w ddal yn erbyn pethau y mae y dyn wedi dyfod arno "gywilydd o'u plegid;" a'r priodoldeb o "roddi i gyfiawnder a sancteiddrwydd yr aelodau oeddynt weision i aflendid ac anwiredd." Ond wedi hyny y mae hefyd yn son am dangnefedd a llawenydd bywyd duwiol; fel y mae yr hwn sydd yn ei feddu yn myned i orphwysfa; fel y mae ei holl natur yn cael ei gostegu a'i thawelu, ac yn ufuddhau yn ewyllysgar i egwyddorion a thueddiadau y rhan oreu o hono. Ond y mae yr Hen Destament, heblaw ei fod yn dirgymhell ffydd grefyddol ac ofn duwiol, yn ymhelaethu ar duedd y rhinweddau a achlesant i chwanegu llwyddiant bydol y dyn da; a darlunia fel y mae bendith Duw, nid yn unig yn cyfranu i'w gysur a'i foddlonrwydd, ond mewn llawer o amgylchiadau yn ei goroni â chyfoeth ac anrhydedd. Yn awr, nid wyf yn credu fod un gwrthddywediad yn hyn oll, nac fod Bacon yn rhoddi i ni yr iawn ddeongliad trwy ddywedyd, "fel mai llwyddiant oedd addewid yr Hen Destament, adfyd ydyw addewid y Newydd." Gallai hyna ymddangos ar y dechreu fel llafar yr oracl:—mewn cipdrem frysiog ar yr hyn a orwedd ar wyneb y ddau Destament, gallai ymddangos fel dadganiad o'r wir egwyddor sydd i'w chymhwyso at y naill a'r llall. O'm rhan i, pa fodd bynag, yr ydwyf yn ammheu hyn yn fawr. Yr wyf yn tybied, yn hytrach, fod yn rhaid i ni fyned yn ddyfnach i'r mater, ac edrych dros y pwnc oll mewn goleuni gwahanol i'r hyn all ddeilliaw i ni oddi ar

flaen diareb, os ydym i gael syniad cywir am *y berthynas naturiol a fwriadwyd i fod rhwng crefydd a bywyd dyn yn y byd hwn.*

PENNOD II.

NID allaf wneyd mwy, yn bresennol, na rhoddi i chwi fras-lun o ymofyniad byr ar y testyn yma; ac felly eich gosod, fel y tybiwyf, ar yr iawn gyfeiriad. Dechreuwn, ynte, trwy dybied fod cymdeithas oll wedi ei thrwytho yn drwyadl â'r elfen Gristionogol, a bod holl ddarluniau y prophwydi wedi eu sylweddoli, y rhai a gyfeiriant at sefyllfa *oes berffaith gyfiawn a chrefyddol.* Pe byddai pob dyn, pob cenedl, cymmydogaeth, a theulu, yn rhodio yn y goleuni—yn byw yn ol llythyren y ddeddf, ac ysbryd yr efengyl; pe byddai pob gweithrediadau a phob ymddygiad, yn holl ranau bywyd mewn oed, yn cael eu rheoleiddio gan gymhellion pur ac amcanion teg; a phe byddai y genedl sydd yn codi yn cael ei "maethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd," a thrwy ei ddylanwad graslawn ef, yn cael ei dwyn yn mlaen yn raddol, o fabandod ac ieuenctyd, i fod yn wŷr a gwragedd sanctaidd a rhinweddol; pe byddai hyn yn bod, y mae yn hawdd gweled nad allai o bosiblrwydd fod nac erlidigaeth na dyoddefaint yn achos crefydd, nac unrhyw ing mawr ac ofnadwy wrth ddiosg yr hen ddyn, a'i groeshoelio gyda'i wyniau a'i chwantau; o blegid, fe fyddai pob peth mewn cymdeithas o ochr gwirionedd crefydd a rhinwedd crefydd; ac yn y person unigol, ni chai y cnawd byth ddyfod yn ddyn y byddai eisieu ymdrechu âg ef yn ei bybyrwch a'i gryfder; attelid ei dyfiant, llethid ef tra yn wan, ac yn raddol rhoddai le i'r bywyd ardderchocach hwnw, yr hwn a ddygid allan ac a gadarnhëid trwy fywhâd natur oreu dyn gan ddylanwad o'r nef—Ysbryd yr Arglwydd yn disgyn fel y "gwlith boreuol" ar yr enaid, gan ddysgu y galon ieuanc i garu sancteiddrwydd a chasâu pechod. Yn awr, nid oes dim yn afresymol yn y dybiaeth hon; o blegid fe fu yn mhob oes bersonau, y rhai oeddynt, fel dynion, yn wastadol yn cael eu dwyn i weithredu drwy amcanion a thueddiadau y bywyd crefyddol; a'r rhai, wedi "ofni yr Arglwydd o'u mebyd"—neu hyd yn oed,

fel y mae Efe yn dyweyd fod hyny yn bosibl, "wedi eu sancteiddio o'r groth"—a gawsant arbed yr arteithiau o hunangroeshoeliad, trwy oruchafiaeth foreuol egwyddor oddi fewn, amaethiad chwaeth bur, a gwarchglawdd amddiffynol arferion rhinweddol. Wrth reswm, gallwn feddwl fod yr hyn sydd wedi bod yn ffaith, eilwaith a thrachefn, mewn gwahanol bersonau, yn ffaith hefyd mewn cymdeithas yn gyffredinol. Ond, hyd yn oed pe tybiem fod y syniad a daflasom allan mewn perthynas i sefyllfa bosibl dynolryw yn afresymol, gellir, er hyny feddwl am dano, fel y gellir meddwl am unrhyw syniad, pa mor afresymol bynag, pan ei defnyddir yn unig i'r dyben o egluro gwirionedd, ac felly i gynorthwyo yn nirnadaeth ymresymiad.

Chwi a sylwch, gan hyny, fel y dywedasom—Pe meddyliem am oes berffaith gyfiawn a chrefyddol, na byddai lle i erlidigaeth neu ferthyrdod, nac i fod yn agored i ddirmyg, nac i ddyoddefiadau a cholledion bydol, o herwydd crefydd; ac ni byddai yn y rhai fyddent wedi eu dwyn i fyny yn ngoleuni ac awyrgylch y fath oes, ac wedi eu moldio yn raddol i fod yn gydweddol â hi, un angenrheidrwydd am y cyfyngderau a'r ymdrechion celyd y tybir eu bod yn perthyn i'r hunan-ymwadiad a ofynir gan Gristionogaeth. Ond yn awr, mae arnaf eisieu i chwi sylwi yn nesaf—*y deuai, yn y fath oes a hono, weithrediad naturiol a phriodol holl ddeddfau daionus llywodraeth Duw i'w llawn chwareu;*—tueddai pob peth i weithio allan ddaioni i ddyn, tra y byddent hwy ac yntau yn gydwedd âg ewyllys Duw—pob peth naturiol, moesol, cymdeithasol,—pob peth yn y person unigol ac mewn cymdeithas,—beth bynag a effeithiai ar iechyd, sirioldeb, cymmeriad, ac felly yn mlaen;—fe ddeuai y tueddiad yma allan—a byddai i'w weled yn mhob man, ac yn mhob dyn. Fe fyddai drychfeddwl mawr Duw,—er mwyn yr hwn y mae wedi gwneyd pethau, a'r hwn y mae y gwneuthuriad hwnw yn gyfaddas i'w ddwyn allan, ac a ddygid allan pe cai chwareu teg a gweithrediad dirwystr,—byddai i hwn gael ei gorffori mewn *ffaith*, a hono yn ffaith gyffredinol, deimladwy, ac eglur.

Ond tra, ar y llaw arall, nad ydyw gwirionedd Duw, ffydd grefyddol, a rhinwedd grefyddol yn bodoli ond mewn ychydig eneidiau, yn nghanol oes eilunaddolgar, ddrygionus, lygredig, *watwarus; a thra y mae yr ychydig* hyny i wynebu y byd,

i dystiolaethu i'w erbyn, i'w warthnodi a'i geryddu, ac i ymdrechu gwneyd dychweledigion o'i bentwr o anifeleidd-dra anwybodus, o'i ddifaterwch coeg-athronaidd, ac o'i gnawdolrwydd llednais a choethwych—wrth reswm hwy a wnant hyn ar eu perygl, y perygl o bob peth; a rhaid iddynt fod yn foddlawn ar ddyoddef yn wrol, ac ar y gobaith am yr hyn sydd i ddyfod, yn lle mwynhau dim tebyg i fywyd daiarol dedwydd a llwyddiannus. I'r graddau, hefyd, y llwyddant i gyfleu elfenau goleuni a phurdeb mewn meddyliau beilchion a chalonau cnawdol, i gynhyrfu a chyffroi yr hyn, efallai, sydd wedi bod yn hir yn cysgu, ac i alw at eu dyledswydd y rhai ydynt wedi ymgynnefino â rhysedd dilyffethair y cnawd a'r diafol; wel, fe fydd yna ddechreuad ymdrech a brwydr, a chyfyngder tost;—yr angenrheidrwydd am hunan-fuddugoliaeth a hunan-groeshoeliad, am wrthwynebu chwantau, a dirdroi arferion, gyda phethau ereill o'r un natur; pa rai, prin y bydd yr iaith gryfaf ar y ddaiar, na dychymyg ffrwythlonaf dyn, yn alluog i gael geiriau a ffugrau i'w dysgrifio yn briodol. Yn mhellach eto:—I'r graddau y dynesir at yr agwedd yma ar bethau mewn unrhyw oes,—i'r graddau y mae y rhai sydd yn glynu wrth wirionedd a sancteiddrwydd yn y lleiafrif, "yn nghanol cenedlaeth wyrog a throfaus,"—i'r graddau y maent i sefyll allan fel "tystion dros Dduw" mewn gwrthwynebiad i awdurdod, arferiad, neu opiniwn,—i'r graddau hyny y byddant yn agored i ryw beth fydd yn cyfranogi o natur erlidigaeth, mewn egwyddor neu ffurf, cyffelyb i'r hyn a ddyoddefwyd gan eu rhagflaenwyr. I'r graddau, hefyd, y bydd tueddiadau naturiol cryfion i ddrygioni heb eu dadwreiddio yn fore, neu heb eu darostwng drwy ddysgyblaeth dda a gras Duw; neu y bydd dynion yn rhoddi lle i duedd a themtasiwn, ac yn ffurfio arferion gorthrymus o bechod, ac i'r graddau y bydd i neb o'r cyfryw "ymddeffro i ewyllys Duw," ac ymdrechu cyrhaedd rhyddid a phurdeb bywyd sanctaidd; fe fydd iddynt hwy frwydrau a hunanymwadiad, a chroeshoelio y cnawd, mewn ffurfiau tost iawn —weithiau o hir barhad, ac yn fynych yn dyfod yn gyfryw nad ellir eu darlunio ond yn unig drwy yr ymadroddion cryfaf, a'r ffugrau mwyaf bywiog y gall iaith fforddio, neu y mae yr Ysgrythyr yn eu cyssegru.

Ond tra y mae hyn oll yn wir, y mae yn wir hefyd, mai

i'r graddau y mae *unrhyw gyfran o gymdeithas* wedi ei thrwytho â'r elfen Gristionogol, ac i'r graddau *y mae person unigol yn byw, yn symmud, ac yn bod ynddi*, i'r graddau yna y bydd ei fod yn grefyddol yn syrthio i fewn â barn y cyhoedd yn ei gylch o fywyd, ac yntau wrth reswm a ddianc rhag pob peth tebyg i ddyoddefaint neu erlidigaeth yn achos ei grefydd. I'r graddau, hefyd, y bydd dyn wedi ei ddysgyblu yn deilwng, yn dyfod yn fore dan ddylanwad egwyddorion da ac ymestyniadau rhinweddol, yn "cofio ei Greawdwr yn nyddiau ei ieuenctyd," yn rhoddi ei hunan i fyny i ddylanwadau sancteiddiol, yn yfed i fewn ysbryd o ffyddlondeb sefydlog ac ymroddgar i ddyledswydd, yn amaethu chwaeth bur, ac felly yn dwyn allan yn ymarferol y drychfeddwl o ufudd-dod,—y mae yr ufudd-dod yna ei hunan yn dyfod yn fore yn arfer sefydlog, ac yn cael ei nerthu a'i gadarnhau bob dydd: wel, i'r graddau yna y daw hunan-ymwadiad yn llai lai, nes, yn lle bod yn boenus iddo wrthsefyll drygioni, fe fydd yn boenus dyfod yn agos ato—yn anhawdd, neu yn anmhosibl i bechod, mewn unrhyw ffurf wrthun neu amlwg, ei ddwyn ei hunan ger bron yn y fath fodd fel ag i fod yn demtasiwn. Ac yn mhellach:—I'r graddau y bydd y ddau beth yma yn cyfarfod yn hanes dyn,—ei fod ef yn fore yr hyn a ddysgrifiasom, a chylch y gymdeithas y try ynddi y fath ag a ddysgrifiasom—i'r graddau hyny yr achubir y dyn hwn oddi wrth bob peth tebyg i ddyoddefaint allanol yn achos ei grefydd, ac oddi wrth ymladd tu fewnol o blegid ei rinwedd. O fewn cylch ei gymdeithas grefyddol, a thrwy ei feddiant personol o sancteiddrwydd, fe genfydd mewn ereill, ac fe brofa ynddo ei hun, weithrediad hyfryd a bendithiol ar helyntion dynion y drefn hono ar bethau, yr hon, mewn oes berffaith gyfiawn a chrefyddol a weithredai yn hyfryd a bendithiol ar y cwbl oll.

Ond y mae hyn, yr ydym yn dal, *i raddau helaeth yn bod yn awr, gyda nifer fawr o'r rhai sydd yn gwneyd i fyny y dosbarth crefyddol.* Y goreuon o bob eglwys—y cymmeriadau mwyaf sefydlog, trwyadl, a chysson, y dynion mwyaf defnyddiol a theilwng o ymddiried—ydynt yn gyffredinol y rhai a ddygwyd i fyny, a ddysgyblwyd, ac a ffurfiwyd o'r dechreu dan ddylanwad crefydd. Dynion yw y rhai hyn, na fuant erioed *yn ymarferol* ddrygionus neu anfoesol; y

rhai a wnaethpwyd yn fore yn ddysgyblion i'r Arglwydd, ac a ddysgyblwyd yn fore yn yr eglwys—yn enwedig yn "yr eglwys yn y tŷ;"—a'r rhai, pa mor hwyr bynag mewn cymhariaeth ydoedd cyn i rai o honynt sefyll allan yn weithgar ac ymroddgar fel Cristionogion, a gadwyd bob amser oddi wrth arferion gwrthun, a phechodau ysgeler. Yma ac acw, gall fod ambell un hynod, a fuasai gynt yn bechadurus neu benrydd; ond yn gyffredin, y mae yr arweinwyr yn ein holl gymdeithasau crefyddol mawrion yn ddynion o nodwedd gwahanol. Chwi a ganfyddech, ped adwaenech hwynt, eu bod gan mwyaf wedi dechreu eu gyrfa grefyddol *yn ddynion ieuainc;* eu bod wedi penderfynu yn fore, trwy ddewisiad gwirfoddol, i aros yn y ffordd yr arweiniasid hwynt ynddi; eu bod wedi cael eu bywhau a'u dwyn yn mlaen gan ddylanwadau o'r nef, ac na buant "anufudd i'r alwedigaeth nefol;" eu bod wedi gweddïo am gael eu "cadw rhag drwg fel na'u gofidier," ac iddynt gael eu "gwrandaw yn yr hyn a ofnasant." Hwy a gadwyd oddi wrtho! Yr Arglwydd a "gyfarwyddodd eu camrau;" ac hefyd "ni wnaethant anwiredd, hwy a rodiasant yn ei ffyrdd ef;" yr oeddynt fel hyn yn cael eu cadw bob amser rhag *myned* iddi hi—fel morwr llongddrylliedig, yr hwn y mae yn rhaid iddo, er yn wan, yn noeth, ac yn llesg, ymdrechu drwy y tonau, pa rai a fynent ei dynu yn ol drachefn i'r peryglon y mynai eu gochelyd. Yn awr, gan belled ag y mae gwneyd rhyw beth gwerthfawr o'r bywyd hwn yn dibynu arnom ni ein hunain, *dynion fel hyn* yw y dynion i'w wneyd; o blegid y mae deddfau rhagluniaeth, heb eu hattal yn eu gyrfa uniongyrchol a naturiol gan droseddiadau naturiol, moesol, na chymdeithasol, yn gyffredin yn gweithio i raddau lled helaeth o'u plaid. Anaml y gwyddant ddim am erlidigaeth oddi allan; a dim llawer, ychwaith, am gyfyngder a chroeshoeliad wrth ddiosg yr hen ddyn. Y mae y gymdeithas y maent yn byw ynddi yn rhwystro y cyntaf; a'u harferion a'u cymmeriad boreuol eu hunain yr ail. Nid teimlo bywyd yn faich annyoddefol y maent, gan feddwl am ddim ond am gael myned ymaith o ryw ddiffaethwch gwag erchyll o fyd, gwael a thruenus—na: camgymmeriad ydyw i gyd! Yn lle hyn, "llef gorfoledd sydd yn mhebyll y cyfiawn." Gellwch eu clywed yn diolch i *Dduw am fod* "eu llinynau wedi syrthio iddynt mewn lleoedd

hyfryd, a bod iddynt etifeddiaeth deg." Y maent yn gyffredin yn ddynion cryfion, cysurus, a da arnynt. Un a ddywed, "Iraist fy mhen âg olew; fy phiol sydd lawn." Un arall a etyb, "Mi a fûm ieuanc, ac yr ydwyf yn hen; eto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i hâd yn cardota bara." Ac yna, hwy a'u teuluoedd a ymunant mewn anthem fel hon:—"Tydi yw ein Duw, a thydi a ogoneddwn ni; *Duw ein tadau*, a ni a'th ddyrchafwn di."—"A'th gynghor y'n harweini."—"Dy ddeddfau yw ein hyfrydwch a'n cân."—"Dygaist ni allan hefyd i le diwall."—"Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd; Efe a'n tywys ni hyd angeu."

PENNOD III.

YMA, chwi fyddwch gystal a sylwi, fel y gwna iawn ddeall cyssylltiad yr Hen Destament a'r Newydd, gynnorthwyo i argymhell i'ch sylw, ac yr wyf yn gobeithio i'ch cadarnhau yn yr athrawiaeth yma am fywyd crefyddol. Er mwyn i chwi ei ddeall yn haws, ymdrechaf i osod y mater o'ch blaen drwy gyferbynu dwy ran fawr y gair Dwyfol: ond nid ydyw y drychfeddwl yn ddim mwy na chynnorthwy i amgyffred y gwirionedd yn fwy clir.

Yn yr Hen Destament, gan hyny, yr ydych yn cael gwaredigaeth dymmorol y bobl o'r Aipht, y pregethiad o efengyl genedlaethol gan Moses, y sylfaen yn cael ei gosod a'r cynllun yn cael ei roddi o lywodraeth grefyddol; ac yna yr ydych yn cael hanes brwydr a rhyfel, blyneddoedd meithion o gymmysgedd ac annhrefn, lle nad oes dim yn myned yn mlaen yn dawel a naturiol, nes yr ydych drachefn yn cael y llwythau wedi eu sefydlu a'u gosod yn eu lle: yn y diwedd, yr ydych yn cael gwladwriaeth gyflawn, reolaidd, wedi ei dwyn allan, gyda'i llywodraeth sefydledig, a'i gwahanol raddau yn gofalu am y gorchwylion bydol a berthynent i'r naill a'r llall—mewn cyssylltiad â threfniant Dwyfol o grefydd, wedi ei fwriadu er achles a maeth i rinwedd ar sail *ffydd*. Y mae cyfnod *ffurfiadol*, a'i alw felly, y genedl a'r eglwys Iuddewig—cyfnod Iosuah, y Barnwyr, a blyneddoedd cyntaf y freniniaeth—*yn un lawn o ymrafael, dyoddefaint, dadl*,

ac erlidigaeth :—*dadl*, yn mha un cleddyfau a gwaewffyn ydynt y profion a'r cyfresymau; math o resymeg erwin, ac heb fod yn bur gyfiym neu lwyddiannus chwaith:—*erlidigaeth*, yn yr ystyr o fod dan y Philistiaid, neu wrthwynebwyr ereill; y bobl heb feddu diogelwch i fwynhau dim, yn agored i golli ar unrhyw fynyd gynnyrchion eu llafur trwy gael cipio ymaith drwy gryfder ffrwyth eu meusydd, eu tyddyn, a'u gwinllanoedd;—ac fel hyn yn cael eu hamddifadu, a siarad felly, o'r cyfleusdra i brofi gweithrediad buddfawr deddfau naturiol; o blegid i'r un graddau braidd ag y maent yn ffyddlawn i'w dyledswydd ac i'w Duw, y rhaid iddynt fod yn barod i aberthu eu bywydau mewn brwydr, neu yn ewyllysgar golli eu rhyddid, neu gymmeryd eu "hysbeilio o'r hyn sydd ganddynt." Ond, pa fodd bynag, pan y mae pethau wedi eu sefydlu, a threfn fawr rhagluniaeth Duw yn cael gweithredu yn briodol; y pryd hyny, yr ydym yn cael, wedi ei ddwyn allan a'i osod o'n blaen, ddyn crefyddol ac ysbrydol dedwydd Llyfr y Salmau, a dyn rhinweddol llwyddiannus Llyfr y Diarebion. Y mae y prophwydi, hefyd, a'u hystyried fel pregethwyr—yr hyn oeddynt i'w hamserau eu hunain, er fod ganddynt weinidogaeth hefyd yn perthyn i'r dyfodol—y y maent yn wastad yn cynghori eu gwrandawyr i fyw yn grefyddol a rhinweddol, yn ol eu goleuni a'u rhagorfreintiau fel pobl Dduw; ac y maent yn eu sicrhau, y canfyddant, yn ol deddfau y gyfundrefn foesol sydd yn eu gorchuddio ac yn eu cylchynu, mai "da fydd i'r cyfiawn, canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwytânt," ac mai "drwg fydd i'r anwir, canys gwobr ei ddwylaw ei hun a fydd iddo." Hyny yw, fe fyddai i ddrychfeddwl cyntefig Duw, mewn perthynas i'r byd ac i ddyn, gael, ar y cyfan, ei weithio allan; fe fyddai dygwyddiadau yn syrthio i chŵyl naturiol; pan fyddai rhinwedd moesol wedi ei ddwyn allan trwy grefydd, ceid gweled, tra yr ydoedd dadguddiad o'r eglwys yn hyrwyddo amaethiad rhinwedd, fod y rhinwedd ei hunan, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, yn dyfod i'w meddiannwyr yn iechyd a chyfoeth, yn ddiogelwch ac anrhydedd. I'r graddau y mae unrhyw oes yn llygredig ynddi ei hun, neu yn agored i oresgynwyr eilunaddolgar estronol, y mae yn rhaid iddi ddyoddef ac ymladd, a medi ffrwyth sefyllfa annhrefnus;—sefyllfa yn mha *un y gallai*, wrth reswm, fod yn ddrwg ar y goreu; o blegid

yn y fath amserau, y mae yn rhaid i'r diniwed ymostwng i ddyoddef gyda'r euog, a'r rhinweddol a'r gwladgarol yr un modd, a hyny yn unig o herwydd eu bod yn rhinweddol a gwladgarol. Nid ydyw y cyfryw, pa fodd bynag, yn cael eu gadael heb ad-daledigaeth briodol. Ond i'r graddau y byddo cymdeithas yn dynesu at y cymmeriad o oes gyfiawn a chrefyddol, addewir iddi bob amser, neu fe'i dysgrifir fel yn mwynhau, cynnyrchion hyfryd y drefn ddaionus a osododd Duw ar bethau. Y mae dyn newynllyd, ymladdgar, delffaidd, aflonydd, dyoddefol, amserau y Barnwyr, ac adegau cyffelyb, yn rhoddi lle i ddinesydd arafaidd, llonydd, rhadlawn, trefnus, Llyfr y Diarebion; yr hwn sydd yn rheolaidd yn ei bresennoldeb yn y deml, diwyd yn ei orchwyl, llwyddiannus yn ei helynt, o barch yn mysg yr henuriaid, gyda merched yn gwneyd yn rhinweddol, a gwraig y mae ei dŷ ganddi wedi ei addurno "â charpedau," a'i "gwisg" ei hun yn "sidan a phorphor."

Yn awr, yn y Testament Newydd, yr ydych yn cael hanes yr hyn ydoedd yn *eithafnod*, nid cenedl, ond y byd; y ffaith ddadguddiedig o brynedigaeth ysbrydol wedi ei gyflawnu er mwyn dynolryw; yr ydych yn cael dadguddiad o ffurf olaf ac uchaf gwirionedd nefol, yn nghyd â galwad ar ddynion i ymarfer y ffydd grefyddol fwyaf ymroddgar ac egnïol; ac yr ydych yn cael y drychfeddwl o, a dechreuad sefydliadau eglwysig, y rhai a fwriedir i bob cymdeithas dros y byd. Nid ydych, mewn gwirionedd, pa fodd bynag, yn yr epistolau—ac edrych ar eu perthynas âg amser oll—yn gallu myned yn mhellach nag egwyddorion cyffredinol, a brasluniau a dechreuad y pethau y bwriedir i'r egwyddorion hyn eu llywodraethu. Yr ydych, hyd y diwedd, braidd, yn nghanol brwydrau a dadleuon, dyoddefaint ac erlidigaeth, ymdrechfa ac aberthiad, gyda holl helyntion ereill oes ymladdol a ffurfiadol, lle y mae trefn yn ymryson â dyryswch, a'r hyn sydd wir ac ysbrydol yn ymladd â'r hyn sydd wrthwynebus; gan geisio darostwng y byd, a gosod agwedd arno a'i dwg yn y diwedd i gyssondeb llawn âg egwyddorion sefydlog, a deddfau cyntefig y llywodraeth Ddwyfol. Amcan yr efengyl ydyw dwyn pob dyn i wybodaeth o Dduw, "drwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu;" lefeinio cymdeithas yn gyffredinol â chrefydd ac â chyfiawnder; uno dynion yn nghyd mewn

un ysbryd; er, efallai, dan wahanol ffurfiau o gydgorfforiad cymdeithasol—fel addolwyr neu eglwysi; fel y gallo "pob sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb," yn gwbl oll, trwy ddylanwad ffydd ysbrydol, yn cael ei maethu yn wastadol gan ymarferion crefyddol, lwyddo yn mhob man,—fel y gallo y cenedloedd gael eu rhwymo yn nghyd mewn heddwch a chydgordiad, a phob dyn yn mhob cylch a dosbarthran o fywyd gorffori ynddo ei hun wirionedd ac effeithiau ffyddlondeb i Dduw. I'r graddau, gan hyny, y cyflawnir yr amcan yma o eiddo Cristionogaeth, pa mor anmherffaith bynag, mewn unrhyw bobl—neu mewn unrhyw ddosbarth neu ran o bobl, fel ag y mae ei hysbryd a'i harferion yn cyfansoddi ysgogydd a nerth, ffurf a mynegiad eu bywyd moesol, —i'r graddau yna y bydd wedi ei ddwyn allan yn eu plith, nid yn unig grefyddwr defosionol ac ysbrydol yr Hen Destament, gyda ei gyfnewidiolrwydd tu fewnol, cawodydd a heulwen, yn myned yn mlaen yn raddol hyd "hanner dydd;" ond hefyd ei ddyn y byd, teilwng, cysson, uniawn, a llwyddiannus, yr hwn nid ydyw un amser, yn ymwybodol, yn ddim ond efrydydd deddfau, ac yn wneuthurwr gorchymynion Duw. O ran y cyfryw, fe fydd pethau gan mwyaf yn cymmeryd eu rhedfa eu hunain. Fe fydd cyfansoddiad moesol a deddfau y greadigaeth yn cyrhaedd eu hamcan, ac yn egluro eu dyben. Pan heb eu rhwystro, hwy a weithiant allan ddaioni i'r gwir a'r ffyddlawn; fel o dan oruchafiaeth yr elfen Gristionogol, yn y person unigol ac mewn cymdeithas, y deuir i weled, mewn perffaith gyssondeb â'r hen brofiad Hebreaidd, fod "duwioldeb yn fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd." Fel hyn, lle priodol y Salmau a'r Diarebion, a'r Prophwydi hefyd, gan belled ag yr oeddynt yn ddysgawdwyr ac argyhoeddwyr y bobl—y lle priodol iddynt hwy, yn hanes naturiol y bywyd Cristionogol, ydyw *ar ol* yr epistolau—*ar ol* y darganfyddiad o'r gwrthddrychau hyny o ffydd, y mae yr efengyl yn ddadguddio fel ei neges i ddynolryw. Pan y mae unrhyw gymdeithas o ddynion, o dan ddylanwad egwyddor grefyddol, fel y mae yn cael ei ffurfio a'i bywhau gan syniadau Cristionogol, gan "wadu annuwioldeb a chwantau bydol," yn "byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd," *fe'u dygir* i gydgyfarfyddiad âg amgylchiadau a helynt y

bobl dduwiol ac uniawn dan yr oruchwyliaeth flaenorol. Fe'u sicrhëid hwynt, mai ffordd naturiol trefn rhagluniaeth ydoedd, *daioni i'r daionus*—a phrofasant ynddynt eu hunain gyflawniad yr addewid. Y mae yr un ddeddf yn dal eto. Ni ddaeth yr efengyl i gyfnewid honyna. "Gall y nef a'r ddaiar fyned heibio, ond nid ä yr un iod nac un tipyn" o gyfundraeth ddwyfol Duw o *gyfraith* a threfn *heibio* byth. Y mae Cristionogaeth wedi ei bwriadu i ddwyn dyn, trwy ddylanwadau mwy nefol, a chymhellion cryfach nag oedd adnabyddus o'r blaen, i gydymffurfiad ymarferol â chyfansoddiad annirymedig creadigaeth Duw, fel y gallo y cyfansoddiad hwnw roddi iddo yn awr, fel ar ol hyn, yr hyn a rydd bob amser pan fydd ei ammodau gofynol wedi eu cyflawnu.

PENNOD IV.

Y MAE hyn oll, chwi a sylwch, yn cael ei ddwyn allan yn gyflawn gan brofiad ein cyfaill, yma. Fe gafodd ei enaid ieuanc ei fagu a'i faethu gan dduwioldeb ei fam. Trwy ras Duw fe dderbyniodd argraffiadau oddi wrth y llygaid a'r gwefusau hyny, a chafodd fantais oddi wrth ei gweddïau a'i dagrau, na adawyd i ddim wedi hyny eu dinystrio. Tyfodd i fyny fel Timothëus; y ffydd yr hon a "drigodd yn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice," a ymddangosodd yn fuan ei "bod ynddo yntau hefyd." Fe'i cydnabyddwyd yn fuan yn aelod cyflawn yn yr eglwys. Yr oedd bob amser yn nglŷn â dynion yn ofni Duw; yr ydoedd yn byw gyd a'r cyfryw; gwasanaethodd hwynt; sylwyd arno ganddynt; ymbriododd yn eu plith; ymsymmudodd yn eu canol fel un o honynt hwy eu hunain. Ni bu raid iddo erioed ddyoddef unrhyw flinderau mawrion o blegid ei grefydd; a chyda golwg ar yr hunan-ymwadiad ofnadwy y sonia am dano, yr wyf yn lled-ammheu na wybu erioed ddim llawer yn ei gylch,—o leiaf, nid yn yr ystyr o "ddiosg corff pechod," a "thynu y llygaid allan," a "thori ymaith y dwylaw," &c.: nid am nad oedd ganddo gymaint o lwgr gwreiddiol ynddo a rhywun arall, ond o blegid fod hyny wedi ei gymmeryd yn ei wendid—wedi ei lethu a'i orchfygu yn ei ysgogiadau cyntaf; ni fu ef o gwbl dan "arglwyddiaeth" drygioni, nwyd

a chwant, fel ag i ffurfio y fath arferion o bechod ag yr oedd cael ymadawiad oddi wrthynt, "pan ddaeth ato ei hun," yn gyffelyb i flingo yn fyw, yn rhwygo y croen oddi ar y cnawd, a'r cnawd oddi ar yr esgyrn. Dim o'r fath beth. Yr oedd ganddo archwaeth ac egwyddorion o'r dechreu, oeddynt yn ei gadw rhag hyn oll. "Nid eisteddodd gydag oferwyr, ac nid aeth i mewn gyda dynion rhagrithiol." "Golchodd ei ddwylaw mewn diniweidrwydd," ac fe'i "hattaliwyd oddi wrth bechodau rhyfygus." Nid oedd y pethau fuasent yn demtasiynau anorchfygol i ereill, yn demtasiynau o gwbl iddo ef; yr oeddynt yn hytrach yn ennyn ffieiddiad a dychryn. Fe'i darbwyllwyd, efallai, unwaith, heb wybod beth yr ydoedd yn ei wneyd, i fyned i neuadd chwareudŷ; ni wnaeth ei frithwaith ymdonog o ddigywilydd-dra a gwarth ond ennyn dychryn ynddo, a diangodd allan gyda theimlad o frawychdod a ffieidd-dra. Nid ydwyf fi fodd yn y byd yn credu yn y syniadau anghymmedrol am y dyoddef a'r hunan-ymwadiad a ofynir gan rinwedd, yn eu hamgylchiad hwy, yr wyf yn meddwl, y rhai a ddygir i fyny yn dda, ac a ddeuant yn fore yn feddiannol ar ffydd grefyddol ac ymarferiadau teilwng. I'r cyfryw, y mae hunan-ymwadiad yn dyfod yn fuan y ffordd arall: ac felly, mewn ffaith, y mae mewn gwirionedd yn y diwedd i'r rhai drygionus. Peidiwch a meddwl nad ydyw hyn yn ddim ond mwysair, neu chwareu ar air. Yr wyf yn dywedyd wrthych, os oes arnoch eisieu gweled hunan-ymwadiad, y gellwch ei ganfod, a hyny yn ei ffurf fwyaf dychrynllyd ac ofnadwy, yn y dyn drygionus a phenrhydd. Y mae natur foesol y cyfryw ddynion yn gymmaint rhan o honynt eu hunain, ag ydyw eu synwyrau a'u chwantau; ac os dewisant foddhau a phorthi y naill, y mae yn rhaid iddynt ymwadu yn gyfangwbl â mwynderau y llall. Rhaid iddynt roddi i fyny, gan hyny, holl ddyddanwch y gydwybod, yr oll a ddeillia oddi wrth foddhad y teimladau moesol a chrefyddol. Ac y mae y gwahaniaeth yma i chwi, wŷr ieuainc, i sylwi arno a'i gofio, rhwng y ddau fath o hunanymwadiad a arferir, y naill gan y rhinweddol a'r llall gan y drygionus. Y mae y rhinweddol yn ymwadu yn y rhan hono o'i natur, yr hon pan y mae unwaith wedi ei gorchfygu sydd yn peidio ag aflonyddu; y mae yn raddol yn encilio o'r *ymgyrch* anghyfartal, pan wneir iddi deimlo ei bod yn cael ei

dwyn yn mlaen o ddifrif calon; i fesur mawr y mae yn *marw;* ac y mae hyn, sylwch, yn cael ei wneyd trwy i'r dyn ddewis yn hytrach fwynderau, y rhai a barhânt i foddhau po hwyaf y mwynheir hwynt,—craffder y teimlad a'r canfyddiad o hyfrydwch yn cynnyddu gydag ymfwynhad, mynychiad, a blyneddoedd. Y mae gan y dyn drygionus i orchfygu, yr hyn yn sicr a ellir ei ddystewi, a thros amser yn wir a all ymddangos fel yn farw ac wedi ei gladdu—ond yr hyn sydd bob amser yn agored i ddeffro i fyny drachefn i fywyd newydd, ac i ddyfod yn mlaen â'i fryd ar ei ddialedd; a gwna hyn, oddi ar ddewis yn hytrach fwynderau, y rhai y mae eu tuedd naturiol i beri iddo ddiflasu a galaru arnynt; y rhai ydynt yn peidio boddhau po fwyaf yr ymfwynheir ynddynt; y rhai sydd yn parhau i gael galw am danynt gyda chwant chwanegol yn ol y graddau y maent yn colli eu gallu i roddi boddhad,—a'r dyn, drwy yr holl amser, yn pentyru ar ei natur foesol, drwy y gweithredoedd hyny y rhai ydynt wedi dyfod yn hytrach i ffieiddio nag i foddhau, yr hyn sydd yn gorwedd yno, fel cymmaint o bŷg a defnyddiau hylosg, y rhai y gallai dim ond un wreichionen o feddwl ysbrydol ar unrhyw fynyd gynneu yn fflam. *Yna* y dynoethir, yn nghanol y llosgfa, yr holl deimladau moesol hyny a ymddangosant fel wedi marw, ond a allant fel hyn amddiffyn eu bywyd, a hyny hefyd gyda llymder teimlad cynnyddol, a braidd goruchnaturiol.Ië, *dyma* i chwi hunan-ymwadiad mewn gwirionedd! Y rhan *oreu* o'ch natur wedi ei chroeshoelio;—nid oes dim croeshoeliad yn debyg i hyn yna. Yn awr, am ein cyfaill yma, nid yn unig nid all wybod dim am hyn; ond ni wybu erioed am ymdrech angeuol wrth fŷnu ennill y feistrolaeth ar y rhan waethaf o hono ei hun. Fe wnaed y peth, trwy gymhorth Duw, pan oedd efe yn *ŵr ieuanc;* ac wedi unwaith cael y llaw uchaf, fe'i cadwodd. Wrth fwrw ei goelbren yn mysg duwiolion, a chymdeithasu gyda dynion da, yr ydoedd yn cael ei gylchynu â dylanwadau, y rhai oeddynt oll o'i blaid. Yr oedd ei ffordd i'r byd yn raddol yn ymagor; ac aeth yntau i mewn, a rhoddodd ei hun i'r gwaith a ganfyddodd yno, fel dyn da, sefydlog, a diwyd—ofn Duw yn cadw ei galon, a'i "berffeithrwydd a'i uniondeb" yn cryfhau ei ddwylaw. Ac felly, fe ddaeth pethau yn mlaen yn dda gydag ef. Fe rodiodd yn ei dŷ â dyhewyd cynhes y Salmau

yn ei enaid, ac mewn cymdeithas â moesoldeb y Diarebion yn ei ymarweddiad. Yr effaith ydyw, ei fod wedi canfod bywyd yn dra hyfryd, a'r byd yn beth go lew o dda, er ei fod weithiau yn siarad am y naill a'r llall mewn ymadroddion y creda yn ddiffuant y rhaid eu bod yn iawn, o blegid iddo eu clywed mor fynych gan "y gweinidog;" ond y rhai na buasai ei brofiad ef, ond ei adael iddo ei hun, yn ei dueddu yn naturiol i'w defnyddio.

PENNOD V.

Yr ydwyf yn dal yn ddiysgog ynte, fod yr hyn a dynasom allan fel athrawiaeth, ac a ddilynasom fel dadl, yn cael ei brofi gan *ffeithiau*—ffeithiau yn sefyll yna, o flaen ein llygaid, yn eglwys weledig y Duw byw. Y *mae* crefydd, fel rheol gyffredin, yn cynnyrchu y rhinweddau, ac yn achosi yr ymarweddiad, pa rai, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, sydd yn gweithio y defnydd o ba un y mae bywyd yn cael ei wneyd yn rhywbeth dedwydd a llwyddiannus. Y mae y dynion duwiol, ardderchog, dyngarol, y rhai ydynt nerth ac atteg[illegible] ein sefydliadau crefyddol, mi a ddywedais wrthych eisoes, yn ddynion o'r fath yma. Y maent, gan mwyaf, wedi deilliaw o'r eglwys ei hunan—yr oeddynt ynddi, ac o honi, fel *gwŷr ieuainc*. Ond yr oeddynt, drwy yr holl amser hefyd, yn byw ac yn gweithio yn y byd; ac y mae llawer o honynt wedi gwneyd hyny gyda llwyddiant arbenig. Y maent yn byw mewn mwynhâd o bob peth sydd gysurus—*rhai*, mewn llawer o'r hyn sydd orwych ac ysblenydd. Ac nid oes dim niwed yn hyn—dim yn anghysson âg egwyddor Gristionogol. "Darparu pethau onest," neu *addas* "yn ngolwg pob dyn," ydyw, i ddyn fyw mewn cymdeithas yn y fath fodd, fel ag beidio tynu sylw drwy y naill eithaf na'r llall. Y mae ei dŷ, ei drefniadau, a'i dreuliadau gwastadol, i fod y fath ag a fyddo yn gymhwys i'w feddiannau a'i radd, yn ol arfer y dosbarth y mae yn byw ynddo, ac yn ol yr hyn a ddarperir gan welliadau yr oes hono yn mha un y mae yn byw. Nid ydyw i fod yn rhwysgfawr, ac i dynu sylw trwy ymddangosiad *thraul*; ond nid ydyw ychwaith i fod yn isel a budr, neu y

ormod ar ei ben ei hun, yn enwedig i'r fath raddau fel nad allo neb ymweled âg ef gyda boddlonrwydd neu gydymdeimlad. Ni ofynir i ddynion Cristionogol daflu eu harian oll i gronfa gyffredin, na pheidio gwneyd dim â hwy ond eu cyfranu, na gwrthod y cysuron neu y dillynion sydd yn gyfaddas i'w cyfoeth. Ni ddarfu i ymdoriad sydyn cydfeddiannaeth ar ddyddiau y Pentecost barhau yn hir, na gweithio yn bur dda ychwaith. Yr oedd yno amgylchiadau neillduol yn arwain iddo, a dybenion ar y pryd i gael eu hateb drwyddo; ond nid yw, ac ni fwriadwyd ef i fod, yn gynllun i ni. Yr ydym yn canfod y cyfoethog, yn gystal a'r tlawd, wedi hyny yn yr eglwys. Nid ydynt yn cael eu gorchymyn ychwaith i *beidio* bod yn gyfoethog trwy roddi pobpeth i fyny i gronfa yr eglwys, ac i beidio cael eu *cydnabod* fel cyfoethogion, trwy ymwrthod â pha beth bynag a addurnai ac a ddynodai eu sefyllfa; ond yn unig i beidio "*ymddiried* yn eu golud;" a "gwneuthur daioni," a bod yn barod i "gyfranu" yn ol eu meddiannau, fel goruchwylwyr daionus a ffyddlawn Duw. Yr ydwyf yn credu yn hollol yn y priodoldeb i'r cyfoethogion roddi yn helaeth ac yn foneddol at achosion cyhoeddus mawrion; ond nid yw yn angenrheidiol, ac ni fyddai yn ddoeth, iddynt beidio gwneyd dim arall â'u harian. Y mae ffyrdd ereill i "wneuthur daioni a chyfranu," heb law hon. Y mae yn gymmaint dyledswydd ar y rhai y mae ganddynt arian eu *gwario*, ag ydyw yn ddyledswydd y rhai nad oes ganddynt i ymdrechu cael rhai; ac y mae yn well i'r olaf gael eu gosod ar waith gan y cyntaf, ac felly *ennill* yr hyn a dderbyniant, na'i dderbyn am ddim. Ni ofynir i ddynion, yn ein hoes ni o'r byd, ac yn sefyllfa cymdeithas yn y dyddiau hyn, gyfyngu eu treuliadau, a ffurfio eu harferion yn ol defod rhyw gyfnod blaenorol; ac nid oes reswm ar y ddaiar, pa ham y dylid dysgwyl i *Gristionogion*, pan yn gyfoethog a llwyddiannus, wneyd hyn, neu eu hystyried yn foethus a bydol os na wnant.

Am nad oedd unwaith garpedau, na lleni, na chadeiriau *rosewood*, na darluniau prydferth, i'w gweled yn nhai dosbarth penodol (neu yn mhellach yn ol, yn wir, yn nhai *neb*), nid yw hyny yn rheswm pa ham y dylid ei ystyried yn ddrwg eu cael yn awr. Nid ydyw y gallai bwrdd ffawydd ateb dybenion bwrdd yn gystal ag un mahogani, yn un rheswm na

ddylai fod gan ddyn crefyddol ddim ond ffawydd. Nid oes dim rhinwedd mewn glynu wrth haiarn, os gall dyn fforddio cael rhywbeth gwell. Nid oedd unwaith ond un ddynes yn holl lywodraeth Lloegr â chanddi fforc arian, neu bâr o hosanau sidan. A ydyw pawb, gan hyny, i fyned yn ol at amser y frenines Elizabeth, a neb i feddwl am feddu neu ddefnyddio yr hyn ydoedd unwaith mor arbenig yn eiddo iddi hi! Y ffaith ydyw, y mae gwelliadau llaw-weithyddiaeth wedi gosod cysuron a cheinion yn nghyrhaedd masnachwyr, crefftwyr, a gweinidogesau, na ddarfu i'ch boneddigion a'ch boneddigesau yn yr amser gynt erioed freuddwydio am danynt. Nid oes dim niwed i'n gwragedd neu i'n merched gael dau neu dri o ŵnau sidan ar draul ar unwaith, os ydyw ein moddion yn caniatau hyny, er y gallai eu hen neiniau fod yn foddlawn ar ddim ond un yn eu hoes. Yr un modd, y mae gwelliadau yn y celfyddydau cain a dynwaredol yn dyfod â llawer o bethau i gyrhaedd y dosbarth canol, nas gellid meddwl am danynt, ac nas gellid eu cyrhaedd, gynt gan yr uchaf. Ond y mae y deddfau sydd yn rheoleiddio yr holl bethau hyn yn cofleidio cymdeithas *i gyd gyda'u gilydd;* ac nid oes angenrheidrwydd i Gristionogion, fel y cyfryw, i ddychymygu eu bod i fyw is law neu tu hwnt iddynt. Byddai cystal iddynt, ar ryw olwg, wrthod defnyddio y rheilffyrdd. Os ydyw Duw yn "rhoddi i ddyn allu i ymgyfoethogi," yn y pedwerydd canrif ar bymtheg yma o'r eiddom, yn mha un y mae defnyddiau wedi dyfod yn rhad, ac wedi eu gweithio yn wahanol bethau o ddefnyddioldeb a phrydferthwch—ac yn dyfod yn y ffurfiau hyn yn y fath fodd o fewn cyrhaedd y lluaws, fel ag i fod yn feddiannau cyffredinol ac arferol—wel, ni ddylid ystyried fod y dyn dan sylw, pa mor ysbrydol a chrefyddol bynag y bo, yn gwneyd o'i le trwy wneyd defnydd o fanteision y dydd y mae yn byw ynddo. Os *gall* gadw cerbyd, *cadwed* un; a bydded iddo ei *alw* yn gerbyd; ac nid ceisio twyll-berswadio ei enaid, trwy ei ddysgrifio, fel y Crynwr, yn ddim ond rhyw "gyfleusdra lledr." Y peth mawr ydyw, fod i'r Cristion fod yn alluog i'w gyfiawnhau ei hun i'w gydwybod ei hunan, ac yn ngolwg Duw. Os ydyw yn gyfiawn ac ystyriol gyda golwg ar ei ofynion personol, a'i berthynasau tlodion, ac os ydyw yn gwneyd, mewn cymmwynasgarwch uniongyrchol a chyhoeddus yr hyn sydd gyfaddas mewn ystyr lawn a theg i'w

feddiannau, ni chaiff ddim niwed, ac ni ddylid meddwl ei fod yn pechu, trwy ei gylchynu ei hun â'r hyn sydd arferedig gan ei ddosbarth. Po fwyaf cydnabyddus y bo dyn â llawer o'r pethau hyn, mwyaf cyffredin ydynt yn ei olwg, a lleiaf yn y byd y meddylia yn eu cylch, neu y teimla eu bod yn maethu unrhyw feddylfryd peryglus—ar yr un pryd, hefyd, gall yr awyrgylch a gynnyrchant effeithio arno, yn ddiarwybod iddo ei hun, ac mewn amrywiol ffyrdd, er da yn hytrach nag er drwg. Y mae ffeithiau, yr wyf yn credu, i'r rhai a all eu gweled yn eu goleu priodol, yn bodoli o'n hamgylch yn amgylchiadau a sefyllfa llawer o ddynion da a chyhoeddus yn y byd crefyddol, y rhai sydd yn cadarnhau ac yn egluro yr oll a ddywedais. Hwy a wnaethant eu ffordd trwy rinwedd—rhinwedd fel y mae yn cael ei faethu gan grefydd. Y mae ganddynt yn eu dwylaw y moddion i addurno bywyd, ac y maent yn ei addurno; ac nid ydyw neb sydd yn eu hadnabod yn ammheu eu Cristionogaeth, nac yn credu eu bod yn cael eu niweidio trwy y defnydd a wnant o'r hyn a ddaeth iddynt drwy ei fendith Ef, "yr hwn sydd yn helaeth yn rhoddi iddynt bob peth i'w mwynhau."

PENNOD VI.

YR ydwyf fel hyn yn cadw at yr hyn a ddygais yn mlaen—fod genym brofion digonol, mewn ffeithiau yn hanfodi o'n hamgylch, fod crefydd, fel rheol gyffredin, ar y cyfan, yn gweithredu yn ffafriol i ddyn yn y byd hwn. Yr ydwyf yn dal at hyn, er gwaethaf llawer o'r hyn a ymddengys fel yn gweithio i'w erbyn. Gyda chyfeiriad byr at rai o'r eithriadau hyn, mi a ddygaf i derfyniad y rhan hon o'r ddadl.

Yr ydwyf yn dal at y gosodiad, hefyd, er yr angenrheidrwydd, ar adegau neillduol (fel y dangosais i chwi o'r blaen), a'r hyn a all fod i rai yn angenrheidrwydd ar unrhyw adeg, *i bersonau orfod colli pob peth o herwydd eu hargyhoeddiadau crefyddol.* Mewn amgylchiadau o'r fath, wrth reswm, rhaid rhoddi y byd yma i fyny—meddiannau, gobeithion, sefyllfa, rhyddid bywyd—ymadewir â'r cyfan. Y mae y cyfryw ddynion yn cael eu galw i "fedydd gwaedlyd"

—rhaid iddynt ddyoddef er mwyn i ereill gael eu llesäu; y maent yn cwympo wrth ymdrechu â'r hyn sydd yn rhedeg yn groes i ewyllys Duw a dedwyddwch dyn: ond wrth wneyd felly, tra y daliant at eu hunionderb, er colli eu dedwyddwch, y maent yn prysuro i'r byd ddyfodiad yr agwedd hono ar bethau, yn mha un y bydd yn bosibl uno yr ymwybodolrwydd o'r naill gyda y meddiant o'r llall. Hyd yn oed mewn amgylchiadau felly, gellir cael mwy mewn gwir foddlonrwydd personol trwy yr aberthiad nag a ellir gyrhaeddyd hebddo. Oddi wrth ansawdd eu meddwl, fe fyddai i ferthyron ymddwyn yn wahanol i'r hyn a wnant, yn fath waethaf o hunanladdiad mewn bod—hunanladdiad eu natur foesol ac ysbrydol:—"Pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd, a'i cyll." Gyda golwg ynte ar eu rhan yn y "bywyd sydd yr awr hon," byddai yn waeth ar y rhai a erlidir, pe—yn lle cael eu claddu mewn daiargell, neu eu gwarthnodi yn y cyffion, neu eu hysbeilio o'u meddiannau, neu eu crogi, neu eu llosgi—pe y cydsynient i fyw, er wedi eu hamgylchu â holl foddion daiar, os ar draul eu ffyddlondeb iddynt eu hunain, i wirionedd, i gymdeithas, ac i Dduw. Yr wyf yn addef nad allant wneyd y goreu o'r byd hwn fel mangre mwynderau dynol cyffredin; y maent yn ymwrthod â'r drychfeddwl yn gyfangwbl—y maent i fyw mewn diystyrwch, ac i farw mewn gwarth. Ond nid oes dim o'r pethau hyn yn effeithio arnynt; y mae ganddynt adnoddau tufewnol o *ad-daliad* digonol, nid yn unig yn y gobaith o wobr ddyfodol, ond yn y melus fwyniant o'u profiad presennol,—"O blegid fel y mae eu dyoddefiadau yn amlhau, felly trwy Grist y mae eu dyddanwch hwynt hefyd yn amlhau."

Yr ydwyf yn dal at y gosodiad hefyd, *er y camgymmeriadau a'r eithafion y syrthiodd llawer iddynt ar wahanol amserau gyda golwg ar natur y bywyd crefyddol, a'r ffurfiau uchaf o rinwedd dwyfol.* Fe dybiwyd fod perffeithrwydd ysbrydol i'w gael trwy ddiosg bywyd o bob peth a fyddai yn gyfaddas i'w brydferthu a'i addurno—trwy ffoi i'r diffaethwch; ymneillduo i ogofeydd; byw ar ben colofn neu graig; ymwrthod â chymdeithas, ymborth cyffredin, a gwisgoedd cysurus; trwy adael y corff dan blygion o fudreddi, wedi ei oresgyn gan bryfed, a'i anurddo â doluriau adgas a ffiaidd! *O dan y drychfeddwl* o gael eu parotoi i leoedd o anrhydedd

yn y sefyllfa nesaf, y mae dynion wedi bod yn gosod eu cywreinrwydd dan dreth i wneyd y sefyllfa bresennol yn afluniaidd, yn dywyll, ac yn anrheithiedig. Y mae y natur wedi bod yn cael ei threisio, rheswm ei ddiorseddu, a'r bwystfilod aflanaf ar wyneb y ddaiar eu hanrhydeddu a'u mawrhau, fel pe byddai y rhinwedd mwyaf haeddiannol mewn dyn, a'r olygfa brydferthaf oll yn ngolwg Duw, i'w canfod mewn rhyw adyn budr, yr hwn, mewn crys o rawn, llau, a brynti, a anmharchai ei Wneuthurwr trwy wgu ar ei roddion, ac a wnai yr oll a allai i brofi fod deddfau y byd o'u lle. Yr ydym hefyd, er ffurfiau tynerach meudwyaeth, yn dal at ein cred, ac er y mynachlogydd a'r abattai, rhoddiad etifeddiaethau mawrion i'r eglwys, a'r ymwadu â'r byd—yn yr ystyr o ymneillduo yn llythyrenol oddi wrtho, gan y diniwed a'r ieuanc; y cyssylltu y syniad o rinwedd uwch wrth wyryfdod na phriodas; ymprydiau dibaid; ffiangellu y corff; gyda'r holl bethau ereill o ommedd a gorchymyn, trwy ba rai y dywedir fod cyrhaeddiadau ysbrydol dyrchafedig yn cael eu sicrhau—a hyny gan y rhai sydd fel hyn ar unwaith yn proffi gwirionedd y Beibl, a'u gwrthwynebiad uniongyrchol hwythau i'w ysbryd. Fe "ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau cythreuliaid [neu athrawiaethau yn nghylch addoli y meirw]; yn dywedyd celwydd mewn rhagrith....yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddi wrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd. O blegid y mae pob peth a greodd Duw yn dda, ac nid oes dim i'w wrthod." "Na thwylled neb chwi....wrth ei ewyllys, mewn gostyngeiddrwydd....wedi ymchwyddo yn ofer gan ei feddwl cnawdol ei hun....[gan orchymyn i chwi] na chyffwrdd; ac na archwaetha; ac na theimla. Yr hyn bethau sydd ganddynt rith doethineb mewn ewyllys-grefydd a gostyngeiddrwydd, a bod heb arbed y corff, nid mewn bri i ddigoni y cnawd." "Canys i ychydig y mae ymarfer corfforol [dyoddefaint corfforol] yn fuddiol: eithr *duwioldeb sydd fuddiol i bob peth,* a chanddi addewid *o'r bywyd y sydd yr awr hon,* ac o'r hwn a fydd. *Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad,* o herwydd..y Duw byw, yr hwn yw Achubydd pob dyn [*eu Cynnalydd daionus a'u Cyfaill,* yn darparu ar gyfer

ac yn ymhyfrydu yn eu dedwyddwch], *yn enwedig y ffyddloniaid.*"

Nid ydym yn cael ein siglo gan ffurfiau tynerach eto o gamgymmeriad yn ein plith ein hunain. Yr ydym yn cofio amgylchiadau, yn mha rai, o dan gyffroad crefyddol mawr, yr oedd dynion yn rhoddi i fyny sefyllfaoedd parchus ac ennillfawr, i ddyfod yn genadon cartrefol, neu yn bregethwyr o ryw fath neu gilydd. Fe wnaed ebyrth mawrion iawn fel hyn, ac fe'u gwnaed o ran ymddangosiad er mwyn crefydd; ond er hyny, nid oeddynt na doeth nac angenrheidiol, ac fe ddaeth y canlyniadau yn bob peth ond ffafriol i gysur, cymmeriad, neu ddefnyddioldeb y bobl oedd yn gwneyd felly. Nid ydyw ffydd grefyddol, mewn amgylchiadau o'r fath, i'w hystyried fel achos y blyneddoedd hyny o boen meddwl, somedigaeth chwerw, a chywilydd angerddol, y rhai a ddeilliasant mewn gwirionedd oddi wrth gam farn, gwendid dealltwriaethol, brwdfrydedd byrbarhaol, neu—rywbeth gwaeth. Merthyrdod gwirfoddol, ebyrth heb eu heisieu, "rhedeg heb gael anfoniad," chwareu yr arwr—pan mai eich dyledswydd briodol yw aros yn ddystaw yn eich galwedigaeth, a gwneyd yno y fath ddyledswyddau ag a osododd Duw arnoch—mae y pethau hyn yn fynych yn dwyn trallod a thrueni ar y rhai a dwyllir ganddynt, a gwaradwydd ar grefydd, yr hon a *ymddengys* fel y peth a'u harweiniodd ar gyfeiliorn. Fe ddylai y bai syrthio, pa fodd bynag, ar y dynion eu hunain, ac nid ar yr hyn y maent hwy yn camddeongli ei amcanion a'i gymhelliadau. Yr un modd, fe adwaenwyd pobl grefyddol ragorol, er mwyn peidio "cydymffurfio â'r byd," yn ymadael â'u llestri arian a'u darluniau, yn tynu i lawr y lleni o'u hystafelloedd goreu, yn codi i fyny eu carpedau, yn trawsffurfio eu dodrefn o ba beth bynag oedd hardd i rywbeth gwael ac isel a thlawd; ac yn lle ymwisgo yn deilwng o'u gradd, yn ymddilladu yn y fath fodd, fel ag i ymddangos yn fwy tebyg i lafurwyr, neu ferched mewn gwasanaeth. Nid ydyw y fath eithafion byth yn parhau, fel mai yn anaml y gwna eithafion o unrhyw fath. Yn fynych fe ddygwyddai gwrthweithiad poenus a phruddaidd, sydd yn gwneyd mwy o niwed na'r gwastraff blaenorol. Nid ydwyf yn credu y dylid beio crefydd am y naill beth mwy na'r llall. Ni ofynir i'w *deiliaid, er* mwyn bod yn wir iddi *hi*, fod yn anffyddlawn i'w

sefyllfaoedd rhagluniaethol mewn cymdeithas. Mae peidio cydymffurfio â'r byd yn gynnwysedig yn ansawdd y serchiadau, yn yr ychydig a feddylir am ddim a berthyna iddo, neu a berthyna i addurniant y sefyllfa a ddaliwn ynddo, yn llawer mwy nag mewn ymwrthod yn llythyrenol â'r pethau allanol sydd yn arfer bod yn gyssylltiedig â'r sefyllfa hono, ac mewn cael siarad am danom fel rhai wedi ein gwneuthur ein hunain yn greaduriaid hynod rhagor pawb. Yr wyf yn cofio am ddyn a'i hystyriai yn gydymffurfiad pechadurus â'r byd i ddefnyddio brŵs dannedd!—yr oedd hyny yn "rhodio mewn oferedd," ac yn gosod mwy o ofal nag oedd yn briodol ar yr hyn a berthynai i gorff gwael a darfodedig! Adwaenwn un arall a wisgai ei wallt wedi ei gribo yn wastad dros ei dalcen, fel yr hyn a welwch yn narluniau William Huntingdon—yr ydwyf yn cofio fod y dyn hwnw yn dal fod taflu y gwallt oddi ar yr ael, neu ei osod yn ol, yn "ymladd yn erbyn Duw;" o blegid, tra yr oedd arno Ef eisieu iddo fyned un ffordd, fod y dyn yn gwrthwynebu, ac yn mynu ei gael i fyned ffordd arall! Nid ydyw crefydd i gael ei chyhuddo o gynnyrchu y naill na'r llall o'r ffoleddau hyn, mwy na'r camymddygiadau gwaeth hyny a enwasom o'r blaen—y mwyaf gwrthun o ba rai braidd nid ydynt ond yn ddadblygiad llawn o'r *egwyddor* a orwedd wrth wraidd fy nwy anghraifft[1] o feudwyaeth Protestanaidd.

Yn yr un modd, yr ydwyf yn meddwl na ddylid beio ar grefydd *o blegid trwstaneiddiwch, ffaeliad, a diffyg llwyddiant y gwŷr da hyny y cyfeiriodd ein cyfaill atynt.* Y mae yn ymddangos ei fod wedi adwaen llawer o "rai rhagorol y ddaiar," na allasent un amser ddyfod yn mlaen—na lwyddasant fel meistriaid, ac na chodasant erioed yn bur uchel fel gweision. Felly yr adwaenwn innau: ond nid crefydd y gwŷr hyny a'u rhwystrodd. Adwaenwn rai felly mewn sefyllfaoedd, yn mha rai, â phob peth arall yn gyfartal, y buasai eu crefydd yn pwyso o'u plaid, ac yn gwneyd gwasanaeth iddynt. Y ffaith yw, y mae y math o ddynion y cyfeiriwyd atynt yn gyffredin yn gyfryw, pa un bynag a oes ganddynt grefydd ai peidio, na lwyddant byth mewn unrhyw beth. Y maent yn ddynion araf, dwl, ond o egwyddor dda: yn drwm, braidd, yn

[1] Y brawychu rhag y brŵs dannedd, a throi y gwallt oddi ar yr ael!

y ddau ben—y pen a'r traed yr un modd yn ymddwyn fel pe byddent yn cael eu pwyso i lawr gan rywbeth yn eu hattal. Y maent yn amddifad o fedr, craffder, egni, ac uchelfrydedd. Maent yn edrych ar bethau fel pe byddai eu llygaid wedi eu gwneyd o wydr; ac y maent yn ymaflyd ynddynt fel pe na byddai ganddynt fysedd ar eu dwylaw. Nis gellir dysgwyl iddynt, mewn adeg o bwys, fyned trwy orchwyl gyda medrusrwydd a hwylusdod. Hwy a gollant y *post*, o blegid nad allant ysgrifenu heb wella eu pin; ac änt yn hamddenol hefyd o amgylch y gorchwyl, er fod hyd yn oed yr olwg ar y peth yn gofidio ac yn cynhyrfu y rhai sydd yn hiraethu am weled y bachgen ymaith efo'r llythyr. Gallai y fath yma o ddynion fod yn rhai da iawn,—duwiol iawn. Yr wyf yn gwir gredu y peth. Nid ydwyf yn ammheu hyn. Ond ynfydrwydd i gyd ydyw priodoli eu diffyg llwyddiant a'u cynnydd mewn bywyd, *i'w crefydd*. Y maent yn onest, yn deilwng, yn gydwybodol; y maent yn ddynion ysbrydol, sanctaidd, ac ardderchog; ond nid ydynt wedi eu cyfaddasu i ddyfod yn mlaen, yn ffurf uchaf y peth, neu yn ystyr eangaf y gair. Y maent yn llwyddo yn well fel gweision;—gyda'u dyledswyddau wedi eu penodi, eu galluoedd yn cael eu cyfarwyddo, a'u cyflog yn sicr. Nid ellir ymddiried iddynt i fod yn oruchwylwyr a meistriaid—â chynlluniau ganddynt i'w ffurfio, ac anturiaethau i fyned iddynt, a dulliau o ddwyn gwaith yn mlaen i'w dewis neu i'w dyfeisio. Y maent yn sicr o ffaelu yn hyn yna oll. Ond hwy a wnaent felly, pe byddent mor amddifad o grefydd ag ydynt o fedrusrwydd. Y ffaith yw, nad ydyw crefydd, wrth aileni, sancteiddio, a gwneyd dyn yn "greadur newydd," yn ei wneyd yn ddyn naturiol gwahanol i'r hyn oedd o'r blaen—er ei bod yn ei wneyd yn un ysbrydol trwy dywallt iddo egwyddor Ddwyfol o fywyd. Fel dyn, fe fydd yn well ac yn fwy dyrchafedig mewn ystyr foesol, ond ni bydd yn wahanol mewn talent, athrylith, neu hyfedredd gwreiddiol, i'r hyn ydoedd o'r blaen. Fe fydd yn well, ond nid yn gampusach dyn. Dylid sylwi, gan hyny fod y dynion aflwyddiannus y cyfeiriodd ein cyfaill atynt, gan mwyaf yn gyfryw o herwydd eu hamddifadrwydd naturiol o ryw un neu ragor o'r priodoliaethau meddwl a chymmeriad hyny, ar ba rai y mae llwyddiant yn ymddibynu; a'u *bod yn rhwymedig* i'w crefydd, nid am aflwyddo cymmaint,

ond am beidio gwneyd yn llawer iawn gwaeth. Nid yw hi yn ffynnonell yr hyn sydd ddiffygiol ynddynt, ond yr hyn sydd dda. Heb grefydd, gallasent fod yn anonest ac yn anfoesol, yn gystal ag yn hurt. Felly, yr ydych yn gweled, wrth gyferbynu diffyg naturiol âg egwyddor ysbrydol, mai crefydd, wedi y cwbl, sydd yn eu galluogi i ddyfod yn mlaen yn gystal ag y maent. Y maent yn myned trwy y byd yn bobl deilwng a pharchus; yn llenwi yn anrhydeddus sefyllfaoedd israddol yn nheulu mawr y ddynoliaeth; tra y gallasent gael eu llusgo i lawr yn y fath fodd gan ddiogi eu natur, pe na buasai ganddynt grefydd i'w bywhau a'u dyrchafu fel dynion Duw, fel ag i haeddu eu troi i'r heolydd fel rhai anonest ac anffyddlawn—i grwydro a newynu fel gwibiaid gwrthodedig.

PENNOD VII.

WRTH derfynu yr atebiad yma i fy ngwrthddadleuydd, gadewch i mi ymdrechu rhag cael fy nghamddeall. Nid ydwyf, chwi a ddeallwch, yn gwadu y gwirionedd na'r ddyledswydd o hunan-ymwadiad fel rhinwedd Cristionogol; nac fod gan bob Cristion frwydr fawr i'w hymladd, ymdrechfa galed a difrifol i fyned drwyddi, mewn trefn i gadw meistrolaeth arno ei hun, neu fwynhau yr ymwybodolrwydd o fod yn ddyn crefyddol cysson. Yr wyf yn barnu fod ympryd crefyddol achlysurol, a dulliau ereill o gospi y corff, yn fuddiol. Nid ydwyf am roddi yr esgus lleiaf dros dreulio yr oes mewn cylch o anifeiliaeth gysurus, dawel, a chyfrifol. Ond fy meddwl yw hyn,—fel nad ydyw bydolrwydd yn gynnwysedig mewn "arfer" y byd fel yr ydym yn myned drwyddo, ond mewn ei wneyd yn *ddyben* i ni; felly nid ydyw coelgrefydd yn gynnwysedig mewn defnyddio moddion i ddarostwng y cnawd a chwanegu daioni, ond mewn gwneyd y moddion hyn yn *ddybenion*,—priodoli rhinwedd i'w defnyddiad yn unig, a myned yn mlaen fel hyn i briodoli rhinwedd uwch i'r gormodedd o honynt. Ymadewir oddi wrth wir ysbryd y bywyd Cristionogol bob amser pan gyssylltir pwysfawredd wrth ffurfiau a moddion, fel pe byddent ar unwaith yn sylwedd ac yn ddyben; a phan drosglwyddir y *drychfeddwl o* ardderchogrwydd oddi wrth y cyrhaeddiad

ysbrydol ei hunan, i'r arwydd a'r broffes allanol o ymestyn ar ei ol. Dyma ydyw ffynnonell y ffoleddau gwrthun, y rhai, yn mhob oes, a anffurfiasant yr eglwys fwy neu lai. Y mae yn beth mor hollol ddrwg, fel y mae, nid yn unig wedi bod yn niweidiol yn allanol, trwy arwain yr anwybodus i gamgymmeriad a chyfeiliornad, ond meithrinodd hefyd ysbryd mor falch, bydol, a rhwysgfawr ag a fu erioed mewn cyssylltiad â phalasau a phorphor, dan yr ymddangosiad o'r meudwyaeth ffieiddiaf. Gyda golwg ar *gadwraeth* y bywyd Dwyfol, fe fydd i bob dyn doeth wylio yn feunyddiol ar ansawdd ei galon, fe geisia "roddi ei serch ar y pethau sydd uchod, ac nid ar y pethau sydd ar y ddaiar," ac yn mhob peth fe arfera gymmedroldeb gwastadol—tra, er amaethiad a chynnydd yr hyn sydd ysbrydol, y gall, yn achlysurol, ymarfer gweithredoedd o hunanfarweidd-dra ac ymattaliad. Fe wybydd, sut bynag, pa fodd i ystyried y pethau hyn, a phob peth cyffelyb, fel moddion, a moddion yn unig; ac fe gofia fel y maent hwy, ac ymarferiadau tebyg iddynt, yn newid eu cymmeriad ac yn colli eu hamcan pan yn cael eu gwneyd gyda rhwysg, neu yn cael eu gwerthfawrogi er eu mwyn eu hunain. Y mae doethineb rhyfeddol yn ngeiriau Crist, pan ddywed wrthym, "os ymprydiwn," am "eneinio ein pen, a golchi ein wyneb," ac ymddangos mewn cymdeithas yn debyg i'n cymmydogion, fel "nad ymddangoso i ddynion" beth yr ydym yn ei wneyd. Yn yr un ysbryd, y mae Efe yn ein rhybuddio rhag cyhoeddi ein helusenau â llais udgorn, ac yn gorchymyn i ni gyflawnu ein defosiynau personol, nid yn y fath fodd fel ag i gael ein "gweled gan ddynion," "yn y synagog neu yn nghongl yr heol," ond yn neillduedd dirgelaidd ein hystafelloedd. Fe fuasai llawer o "seintiau" y diffaethwch a'r domen, er eu hymwadiad proffesedig â'r byd, wedi eu somi yn fawr pe na buasid wedi sylwi arnynt, eu rhyfeddu, a siarad yn eu cylch. Y mae rhai pobl, hyd yn oed yn awr, na chyfranant at ysgol, os na bydd y plant oll wedi eu gwisgo yr un fath;—fel ereill, nad allant ddyweyd eu gweddïau heb aflonyddu cymmydogaeth trwy ganu y clychau bob bore am wyth o'r gloch. Fe dâl dyn crefyddol, doeth, gostyngedig, sylw i helyntion ei fywyd ysbrydol, heb geisio tynu sylw trwy ei elusenau, ei weddïau, *na'i boenau.* Gall fyw yn bur debyg i ddynion ereill—ac

edrych yn bur debyg iddynt hefyd. Gall beidio "anffurfio ei wyneb," neu fod yn "wyneb-drist." Gall y byd feddu gwres a dysgleirdeb iddo ef yn gystal ag i ereill; gall ymgymmysgu yn mhlith dynion mewn gwisg briodol, ac wedi "eneinio ei ben;" ac eto, yr holl amser, gall fod brwydr *o'i fewn*, ac ymdrech wastadol, ymwybodol, fwriadol, i fod ac i wneyd *yr hyn a ddylai*, "megys yn ngwydd Duw." Nid ydyw crefydd, yn ei gweithredoedd a'i hymarferiadau, i fod yn unig orchwyl unrhyw ddyn—na dynes chwaith. Y mae wedi ei bwriadu i wneyd pob gorchwyl, a phob ffurf o fywyd, yn grefyddol. Ac os gwna hyn, yna, fel rheol gyffredin, fe lwydda gorchwylion, ac fe fydd bywyd yn hardd.

Ond yr oedd yna ddyn arall, yr hwn a safai i fyny yr un amser a'n cyfaill, gan ewyllysio dywedyd rhywbeth. Os ydyw yma eto, ac o hyd yn yr un meddwl, gallaf yn awr wrandaw pa beth sydd ganddo i'w ddywedyd.

"Nid wyf yn gwybod fod genyf ryw lawer iawn i'w ddyweyd;—neu yn hytrach, nid wyf yn gwybod y gallaf ddyweyd, neu y gallaf fy ymddiried fy hun i ddyweyd yr oll a deimlaf y fynyd yma. Ni chafodd yr hyn y codais i'w ddywedyd yn sicr ei ateb gan yr araeth hirfaith sydd newydd derfynu. Yn wir, yr ydych yn hytrach wedi chwanegu at fy anfoddlonrwydd dechreuol. Mi a godais, syr, i'r dyben o erfyn arnoch feddwl rhyw ychydig am y truenus a'r gresynol; ac nid myned yn mlaen gan chwerwi ein trueni, trwy siarad am y byd, ac am fywyd, mewn ffordd sydd yn sicr yn seinio fel sarhâd; a'r hon, yn lle cael ei gwrandaw gyda dim tebyg i gydymdeimlad, a deimlir ac a wrthodir gyda digofaint tufewnol. Ond nid oes genyf obaith yn awr. Ymddengys fod eich efengyl—os oes genych un—wedi ei bwriadu, nid i'r tlawd, ond i'r cyfoethog; nid i garpiau, blinder, trueni, cnofeydd meddwl, ond i'r dedwydd a'r llwyddiannus,—i bobl mewn amgylchiadau esmwyth neu gyfoethog—boneddigesau a boneddigion, mewn gwisgoedd gorwych a menyg *kid!* Gellir siarad yn burion yn nghylch—'os oes gan ddyn hyn, ac os gwna y llall; os dechreua fywyd fel yma, ac os â yn mlaen fel arall; y gellid, yna, edrych am ganlyniadau fel ar fel!' Ymddengys eich bod yn anghofio, syr, y fath nifer raid gychwyn *heb eich ammodau*. Nid oes genych *ddim i'w ddyweyd*, mae'n ymddangos i mi, wrth y cyffredin a'r

tlodion! Ai ni chlywsoch erioed fod myrddiynau yn y byd y mae yn rhaid iddynt fyned drwyddo, o'r dechreu i'r diwedd yn ennill eu bara drwy chwys eu gwyneb,—na wyddant am ddim ond gwaith—gwaith—gwaith parhaus? Sut yr hoffech chwi ymboeni, fel y mae yn rhaid i lawer ymboeni, mewn mwngloddiau a meusydd priddfeini, tai gwydr a llongbyrth, melinau a gweithfeydd? Ai ni ddarllenasoch chwi erioed 'Gân y Crys?' Ai ni fuoch chwi erioed yn bresennol mewn cyfarfod o law-weithwyr, dynion o benau cryfion, dwylaw celyd, a meddwl deallgar,—llafurwyr medrus, y rhai ydynt yn darllen ac yn ymresymu, ac yn traethu, ambell dro, araeth hyawdl; a'r rhai, er hyny, nad allant byth godi uwch law sefyllfa gweithwyr? *Mawredd* a *phrydferthwch* bywyd, yn wir! Gwagedd i gyd! Beth? y mae y byd yn llawn o'r gorthrymedig a'r truenus, yr andwyol a'r colledig? Nid allaf fi weled dim ynddo ond trueni ac anghyfiawnder, gorthrwm a cham. Gallai fod yn gymhwys i bobl mewn iechyd da—pobl gall, gryfion, lwyddiannus—y rhai a fuant bob amser mewn amgylchiadau ffafriol, ac na chawsant ddim anhawsder i fyned yn mlaen;—gallai wneyd y tro i'r cyfryw i eistedd a gwrandaw darlith yn nghylch 'codi' a 'llwyddo,' a'r holl bethau yna; ond y mae arnaf fi eisieu gwybod beth sydd genych i'w ddyweyd wrth y gwan a'r llesg, yr analluog a'r anffodus, yr anwybodus, yr un a niweidiwyd, yr amddifad, y trallodedig, yr andwyol—yn fyr, wrth y deng mil o ffurfiau a mathau o drueni sydd yn llenwi y byd? Prydferthwch? Mawredd? Fel pe gallai y fath eiriau fod mewn gwirionedd yn briodol i fywyd fel yr eiddom ni! A oes rhywbeth mawr mewn dyn meddylgar, ardderchog, gydag enaid anfarwol o'i fewn, yn treulio ei holl ddyddiau mewn gwneyd creiau, nodwyddau, neu binau, neu mewn llifio haiarn, neu falu gwydr, neu nyddu cotwm, neu adeiladu muriau, neu lifio coed neu geryg, neu werthu ysnodenau, caws, neu ganwyllau? Pa arddunìant sydd o amgylch cigydd, neu werthydd tripa, neu ferfa y cylchwerthydd, neu siop y canwyllwr, neu hyd yn oed mewn rhai o ffurfiau uwch eich prynu a gwerthu isel a thlawd. Mawredd? Prydferthwch? Prydferthwch y ddeddf yma a'r ddeddf arall, y soniwch am dano! A oes unrhyw ddeddf fwy cyffredinol na marwoldeb? Edrychwch ar *farwolaeth;* —*marwolaeth,* nid fel yn amgylchiad yr hen ŵr boddlawn a

dedwydd, ond ar farwolaeth yr ieuanc, y prydferth, y diwylliedig; y briodasferch yn ei gwisgoedd priodasol, a blodeu ei morwyndod; y fam ieuanc yn oriau cyntaf ei llawenydd somedig; y galluog, y diwylliedig, yr athrylithgar, a hyny prin wrth gychwyn ar redegfa uchelfrydedd! Ewch a phrofwch effaith eich athrawiaeth ar ryw gwpl ieuanc, yn eistedd wrth ochr cryd gwag, a phlentyn marw! Beth? y mae y byd yn llawn o'r cyfryw bethau! Y mae llefau ac ocheneidiau yn dyrchafu yn wastadol o galon dynoliaeth, yn llenwi yr awyr, ac yn gwneyd i'r holl ddaiar yru llef ddychrynllyd i glust Duw!—sut bynag y gall dynion fel chwi, neu gymdeithas yn gyffredinol, fod yn fyddar neu yn ddifater i'r lleisiau sydd yn myned drwyddi. Gallai fod yn dlws neu yn farddonol i siarad neu ganu (fel y clywais unwaith yn rhywle) am yr awr brydnawnol yn cael ei gwneyd yn gynghaneddol gan furmur gweddïau plant bach. Ond edrychwch ar y plant yma pan y maent yn ddynion a merched! *Meddyliwch am hyny*. Pa nifer o honynt a ddymunant na fuasent erioed wedi eu geni! Pa sawl un o honynt a andwyir—a gauir i fyny yn eich carcharau, yn reddfol mewn drygioni—a fyddant yn gwibio ar yr heolydd, mewn gwisgoedd gwychion neu gadachau! Pa sawl un, heb ddinystrio yn weithredol eu gobeithion, a cholli eu sefyllfa, a änt, er hyny, yn llwythog drwy fywyd gyda baich dychrynllyd o ofid a phechod;—a'r ymwybodolrwydd dirgelaidd o ynfydrwydd boreuol, er gwaethaf adferiad a llwyddiant wedi hyny, yn pwyso ar eu heneidiau, ac yn difa ymaith hyd yn oed fywyd eu bywyd! Ond, gwaethaf o'r cwbl, dyna y trueiniaid tlodion, y rhai yr oedd ganddynt unwaith—a hyny hefyd, efallai, yn y radd uchaf a'r mesur mwyaf helaeth—y pethau yna a ofynwch chwi ar gychwyniad dyn yn y byd, mewn trefn iddo wneyd y goreu o hono; ond hwy a'i gwastraffasant oll—dinystriasant eu hiechyd, andwyasant eu cymmeriad, gwariasant eu heiddo, ac y maent yn sefyll yn mysg eu cymmydogion wedi eu gwarthnodi fel rhai colledig, drygionus, ac euog! Beth a all eich athrawiaeth foneddigaidd wneyd iddynt hwy? Sut y mae y byd yn ymddangos, dybygech chwi, i'r cyfryw? Beth a all fod iddynt hwy—beth allant wneyd o hono? Mi a ddymunwn wybod hyny? 'Prydferthwch rhinwedd!'—'daioni i'r daionus;'—'*defnyddioldeb* yr arferiad ragorol yma

ac arall yn wir!' Wel, y mae y mwyafrif yn ddrwg! Pa ddyben yw siarad fel yma? Nid all fod o un lles i neb. Y mae 'fel mwg i'r llygaid,' a 'finegr ar nitr,' neu fel 'canu caniadau' i'r trist a'r trallodedig. Nid yw ond yn brochi ac yn pigo, yn symbylu ac yn ennyn digofaint. Yr ydwyf yn gwybod hyn wrthyf fy hun. Yr ydych wedi sefyll yna am y ddwy awr yma, ac wedi ein dodi oll yn yr artaith fwyaf llem. Yr ydych wedi bod——."

"Yn awr, aroswch am fynyd, fy nghyfaill—esgusodwch fi am eich rhwystro: ond gan i chwi gyfeirio *atoch eich hun*, fel wedi hyspyddu eich cyhuddiadau yn erbyn deddfau natur a sefyllfa cymdeithas, caniatewch i mi ofyn i chwi anghofio am fynyd yr hyn y bûm i yn ei wneyd, a dyweyd wrthym ryw beth am yr hyn y buoch chwi yn ei wneyd. Rhowch i ni frasddarlun o'ch hanes. Yr ydych yn dyweyd eich bod yn druenus;—ac yn sicr yr ydych yn edrych felly. Cychwynasoch yn anffortunus, efallai, yn ngyrfa fawr eich bywyd: mi dybiaf y gallai fod pob peth wedi troi yn eich erbyn. Gadewch i ni glywed, Pwy ydych? Pa le y ganed chwi? Beth fuoch yn ei wneyd â chwi eich hunan? Dywedwch wrthym. Cymmerwch eich amser, ac ewch o amgylch y gwaith yn eich ffordd eich hun; yn unig, beth bynag a wnewch, dywedwch yr hanes yn gyflawn a gonest."

"Wel—mi wnaf. Fe'm hystyrir yn feius, wrth gwrs; ond yr ydwyf yn llawer mwy o wrthddrych tosturi na bai. Ni niweidiaf byth, o'm bodd, un creadur byw. Ni fûm yn elyn i un dyn erioed, er y gallaf fod i mi fy hun. Nis gallaf ddyweyd yn iawn fy mod wedi cychwyn yn wael;—o blegid er mor isel ydwyf yn awr, fe'm ganwyd o deulu da. Yr oeddwn yn fab i foneddwr; a chystal Cristion, hefyd, ag a anadlodd erioed. Yr oedd fy nhad yn ŵr parchus a duwiol—yn ŵr o ddyngarwch cyhoeddus enwog: yn wir, yr oedd ei amser yn cael ei dreulio mor gysson gyda gwahanol gymdeithasau, fel mai anfynych y gwelem ni, y plant, ef adref. Yr oeddym, pa fodd bynag, yn wrthddrychau llawer o weddïau. Yr oedd fy mam yn neillduol o garedig a thirion; bob amser yn esgusodi neu yn cuddio ein beiau; a phob amser yn cyfryngu rhwng pob un o honom ag unrhyw beth tebyg i gerydd neu anfoddlonrwydd. Fe'm dysgwyd *mewn ysg*ol ddrudfawr ac enwog. Dysgais yr ieithoedd, a

rhif a mesur; yr oeddwn yn gampus a blaenllaw tu hwnt i lawer; yr oeddwn yn hoff gan y meistriaid; yn eilun fy nghyd-ysgolheigion; dewisid fi i adrodd mewn arholiadau blyneddol, a dyddiau cyhoeddus, a chawn bob amser gyflawnder o ddifyrwch, ac arian llogell. Fel gŵr ieuanc, canfyddais yn fuan fy mod yn un o sylw cyffredinol. Canwn yn dda; yr oeddwn yn ddynwaredwr gwych; ac yr oedd fy ymddangosiad a fy moesau yn gyfryw nad allwn lai na gweled eu bod yn ddengar. Dechreuais fywyd gyda phob mantais o'm tu. Yr oedd genyf gyfeillion, perthynasau, a gobeithion hefyd o'r radd uchaf. Buasech chwi yn meddwl y gallaswn wneyd unrhyw beth. Camgymmeriad hollol ydyw! Yr oedd ereill, lawer llai eu manteision, bob amser, ryw fodd, yn fwy ffodus na mi. Yr wyf yn sicr na wn sut yr oedd; ond, yr oedd pob peth yn myned o'u lle; ni lwyddais mewn dim. Ymollyngodd fy ysbryd. Nid allasai neb ymgynnal dan yr hyn oedd genyf fi i ymgynnal dano. Ymegnïais yn naturiol i ddianc o honof fy hun, ac yr oedd yn dda genyf gael gwneyd hyny yn nghyfeillach cymdeithion cydymdeimladol a thirion. Ond fe'm temtiwyd i fyned yn mhellach nag y bwriedais. Ni fwriadwn ddim niwed; ond arweiniodd y naill beth i'r llall, nes y llethwyd fi yn gwbl gan ddyled, ac y maglwyd fi yn drwyadl gan afradlonedd. Esgeulusais fy ngwraig — creadures dyner a phrydferth! Andwyais fy mhlant; deliais i suddo yn is is, fel yr oedd cynnorthwyon yn darfod, a chyfeillion yn cilio, ac amcanion yn methu, nes myned heb ddim ond fy nhalentau naturiol, a'r rhai hyn rywbeth yn waeth o'u gwisgo. Mae arnaf gywilydd dyweyd;—ond, mi genais mewn tafarnau; rhoddais ddynwarediadau o ddynion cyhoeddus; eisteddais fel rhithfarnwr; bu yn dda genyf wneyd swllt oddi wrth chwerthiniad ynfydion! Ië, syr; myfi—mab boneddwr, gŵr angyles, anwylfab ei fam; yr hwn y sylwid arno, y perchid, ac y cerid ef unwaith yn y cylch y troai ynddo gyntaf,—gwneuthym *i hyn yna!* Dywedais wrthych fod fy nhad yn ŵr crefyddol. Clywais bob peth yn nghylch crefydd er yn fachgen. Mynychwn le addoliad cyfrifol. Yr oedd yr athrawiaeth a ddysgid yn berffaith gywir; ond nid ymddangosai fel yn cael ei bwriadu i mi. Gadawai yr argraff arnaf bob amser, nad allai fod gan yr ieuanc ddim i'w wneyd â hi. Canfydd-

ais fy mod wedi fy ngeni mor hollol ddrwg, fel nad allwn wneyd dim i mi fy hun; a chredai fy nhad a fy mam, yn y modd mwyaf diffuant, nad allent hwythau wneyd dim i mi ychwaith! Deuais o hyd i'r syniad, fod yn rhaid i mi yn gyntaf fod hyd yn oed yn waeth nag oeddwn, cyn y gallwn fod yn well; ond wedi i mi dyfu i fyny, a bod yn fwy pechadurus, y gallwn fyned, fel yn wyrthiol, 'o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw.' Os oeddwn i gael fy *achub*—o blegid yr unig syniad a dderbyniaswn am grefydd, oedd, ei bod yn rhywbeth i achub pobl rhag myned ar ol hyn i uffern—os oeddwn i gael fy achub, meddyliwn y cawn fy nhroi, ac yna y cyfnewidiai y dröedigaeth yma fi mewn mynyd; ac, *wedi i hyn gael ei wneyd*, y byddwn ddiogel byth! Nid ymddangosai i mi o ddim pwys pa gymmaint neu pa leiaf o euogrwydd a dynwn arnaf fy hun; o blegid tybiwn y gellid ei ddileu mewn amrantiad, gan fy ngadael mor bur a thangnefeddus ag angel; os nad, yn wir, braidd yn fwy felly. Mi a'i clywsais yn cael ei ddywedyd, mewn gwirionedd, mai 'po fwyaf y pechadur, mwyaf y sant;' po fwyaf o anwiredd oedd yn cael ei symmud ymaith, mwyaf y deilliai gogoniant i Dduw, a chryfaf fyddai y prawf i'r dyn ei hun, ac i bobl ereill, fod gwir dröedigaeth wedi cymmeryd lle. Y mae yn sicr i mi gamddeall y dysgawdwr, a chamddeongli a chamgymhwyso y ddysgeidiaeth. O leiaf, ni chefais yn fy mhrofiad yr hyn yr arweiniai fy syniadau anaddfed fi i'w ddysgwyl. Pechais mewn gobaith; ond yn lle fy nghanfod fy hun yn cael fy nal gan drugaredd, yr wyf wedi fy rhoi i fyny i anobaith. Ymdrechais yn ddiweddar i ddarllen y Beibl; ond nid oes dim ynddo ond taranau a fflamau. Pa le bynag yr agoraf ef, ymddengys fel yn bwrw ymaith frwmstan a mwg. Byddaf yn edrych am yr adnodau yr ydwyf yn cofio eu clywed,—geiriau yn crynu gan dynerwch, ac yn llifo drosodd gan gariad. Yr wyf yn methu eu canfod. *Nid ydynt yno.* Nid oes ond y rhai hyny yn unig yno, sydd yn mynegu digofaint, ac yn llwythog o ddychryn. Atolwg, peidiwch a myned yn mlaen i siarad fel y gwnaethoch heno. Nid ydyw bywyd yn werthfawr. Nid yw y byd yn brydferth. Gellwch ddywedyd felly, os dewiswch, wrth y dedwydd a'r ffodus. Gallai wneyd iddynt hwy. Ond yr hyn sydd arnaf fi eisieu *ei wybod yw*, beth sydd i'w wneyd â'r rhai na chawsant ddim

modd i fwynhau bywyd; neu â'r rhai a'i gwastraffasant ac a'i dyfethasant! Sut y gellwch chwigymmodi y truenus â'u rhan; neu gymmodi yr andwyol a'r colledig â hwy eu hunain?"

"Y mae yn debyg fel y dysgwyliais. Y mae yn ddrwg iawn genyf drosoch; ond rhaid i mi ddywedyd fod eich *ymarweddiad* yn rhoddi i ni yr allwedd i'ch barn. '*Ffolineb dyn a wyra ei ffordd ef; a'i galon a ymddigia yn erbyn yr Arglwydd.*' Y mae y frawddeg Ddwyfol yna yn dadguddio ffynnon yr oll braidd a ddywedasoch. 'Mor ddoeth y mae Duw wedi cyfaddasu ein dyledswydd i'n natur, fel y mae ufudd-dod i'w orchymynion yn ddedwyddwch i ni ein hunain.' Felly y dywed doethion y dwyrain. A gellwch fod yn sicr, fy nghyfaill, pan y mae y meddwl oddi fewn yn ddedwydd—yn ddedwydd oddi ar ufudd-dod, o herwydd ei fod mewn cyssondeb â threfn y gyfundraeth sefydledig yn nghreadigaeth Duw—y mae ganddo lygad i ganfod y da a'r prydferth yn mhob peth o'i amgylch. Ond, pa fodd bynag, pan y mae dynion wedi dadgymmalu a dinystrio eu hunain yn hollol trwy anufudd-dod, yna dechreuant gwyno o herwydd eyfansoddiad y byd; nid allant weled dim ond trueni, na chlywed dim ond wylofain; o blegid y maent yn gweled delw eu trueni eu hunain yn cael ei adlewyrchu oddi wrth bob peth o'u hamgylch; ac ni chlywant, ar bob llaw, ddim ond adsain eu cwynfanau. Y mae yr allanol a'r tufewnol yn ddrychau y naill i'r llall. Yr hyn *gdych*, a welwch. 'Y pur o galon, a welant Dduw.' Mae y duwiol yn ei ganfod Ef yn mhob man: ac y mae Efe yn edrych yn serchog arnynt drwy bob peth. Y mae y rhai tywyll eu heneid yn canfod yn y greadigaeth eu cysgod eu hunain;—nid all yr ysbryd chwilfrywiedig ond adlewyrchu prydferthwch allanol mewn ffurfiau mor anghywir a drylliedig ag ef ei hun. Yr ydych yn gwybod, wrth reswm, fod yn hollol ammhosibl i mi ateb yn ddigonol eich holl wrthresymau. Goddefai amryw o'r materion a awgrymasoch sylw helaeth, a byddai yn dda pe gellid cael amser i'w hymresymu yn fanwl. Ond, pa fodd bynag, gan eu bod oll efallai yn dwyn perthynas, mwy neu lai, â'r mater sydd dan sylw heddyw, mi a daflaf allan ryw un meddwl neu ddau, ar rai o'r llawer o faterion a daflasoch yn eich cyffro mor anmhriodol at eu gilydd."

PENNOD II.

MI a ddymunwn i chwi, yn gyntaf, ddeall eich bod, i ryw fesur, wedi rhagflaenu yr hyn y bwriadwn gyfeirio ato i orphen y ddadl at yr hon y dymunwn alw sylw y gwŷr ieuainc hyn. Wrth esbonio hyn, a dwyn allan fy amcan fy hun, chwi a'm cewch yn cyfarfod â rhai o'ch meddyliau. Wedi gwneyd hyn, mi a sylwaf yn fyr ar eich syniad tywyll ac anghywir am fywyd.

Gan belled ag yr aethym, chwi wyddoch, y mae y mater, ar fy egwyddorion i, yn sefyll fel hyn:—Mae bywyd yn alluog i gael ei wneyd yn rhywbeth hollol foddhaol, *os* bydd pethau fel a'r fel wedi eu cyrhaedd neu eu gwneyd. Y mae crefydd yn uniongyrchol yn tueddu at ddiogeliad, amaethiad, neu wneuthuriad effeithiol y pethau hyn:—gan hyny, y mae crefydd yn ffafriol i ddyn wneyd y goreu o fywyd. Yn awr yr oeddwn yn meddwl chwanegu at y ddadl yma, un arall, —math o attodiad, neu ymresymiad cyflenwol. Safasai yn debyg i hyn:—*Ond*, y mae llawer o'r hil nad oes ganddynt byth y pethau a ofynir, neu gyfleusdra i wneyd y lleill, ac y mae ereill yn colli cyfoeth a chyfleusderau trwy ynfydrwydd a phechod;—o ganlyniad, nid ydyw rhai byth yn cael cyfle i lwyddo, ac y mae ereill yn ei daflu ymaith; gall fod un dosbarth yn cael ei ddal yn ol gan yr hyn sydd allan o'i gyrhaedd, a'r llall yn deffro i drueni ac ofn a achoswyd ganddo ef ei hun: *gan hyny*, y mae eisieu rhywbeth i gyfarfod âg amgylchiad y dosbeirth hyn—y naill a'r llall o honynt—os ydyw bywyd i gael ei droi i unrhyw gyfrif o gwbl, yr hyn ni ddarparwyd, hyd y gellir gweled, ar ei gyfer yn ein hymresymiad blaenorol. Yr ydwyf yn canfod y rhywbeth hwnw, pa fodd bynag, yn yr un egwyddor ag y mae y ddadl hono yn ei chydnabod ac yn ei hargymhell—sef, ffydd grefyddol. Yr un peth hwn, yr hwn, o'i groesawu yn fore ac ufuddhau iddo yn gysson, sydd yn maethu y rhinweddau a agorant adnoddau ac a weuant i brydferthwch ddefnydd bywyd,—y ffydd yma yw yr unig beth a ysgafnha sefyllfa y y truenus trwy ei dyddanwch, ac a dawela gydwybod yr euog drwy ei gobeithion.

Coeliwch chwi fi, wŷr ieuainc, po fwyaf yr ystyrioch y peth, cliriaf yn y byd y gwelir fod yr egwyddor grefyddol yn mhob ffordd yn ffafriol i fanteision dynoliaeth yn y bywyd hwn. Y mae yr un felly, pa un bynag a ydyw dynion yn dyfod yn feddiannol arni yn fore neu yn hwyr—fel parotoad i'r frwydr, neu pan y maent yn llesg ac yn archolledig wedi eu gorchfygu. Rhaid i mi roddi i chwi yma, pa fodd bynag, a dymuno arnoch sylwi arnynt, rai o briodolion y bywyd crefyddol yn chwanegol at y rhai a welsom eisoes.

Y mae ar y natur ddynol, yn unig fel y cyfryw, eisieu crefydd; a'i heisieu hefyd o'r dechreu, fel trefniant o bryn-edigaeth a thrugaredd, maddeuant a gras: ond, gall nod-weddau gwahaniaethol gwir grefydd, fel eu heglurir yn dufewnol mewn dynion, heb ddinystrio ei hunrhywiaeth hanfodol yn neb, wahaniaethu yn lled fawr mewn gwahanol bersonau, oddi wrth yr amser a'r amgylchiadau dan ba rai y maent yn dyfod yn grefyddol. Gallai fod yn ddigon i ni gymmeryd *tri* dosbarth. Y mae crefydd, mewn rhai, ynte, yn debyg i *rywbeth yn tyfu yn raddol*,—fel rhywbeth ydoedd bob amser o'u mewn; o blegid nid allant fyned yn ol gyda sicrwydd eglur, at unrhyw amser pan *nad* ydoedd ganddynt. Mewn ereill, y mae yn debyg i *gyfnewidiad* tyner a graddol, trwy ba un, wedi dyfod i oed, y mae arfer-ion crefyddol allanol, a rhinweddau bydol, yn cael eu cyf-newid yn ddiarwybod i ffydd ymroddgar, a sancteiddrwydd nefol:—gallai na bydd y dyn yn ymwybodol o'r cyfnewid-iad *fel y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen;* ond gall deimlo y cyfnewidiad yn sicr yn ei effeithiau. Mewn ereill, drachefn, y mae yn debyg i ddiangfa o longddrylliad, neu rhag ffrydiau tanllyd mynydd llosgedig, neu fel adferiad o wallgofrwydd, dychweliad i fywyd, rhyddhad o garchar, maddeuant o dan y gollfarn, dystawrwydd a thawelwch ar ol cenllysg a thymmestl, llygedyn o oleuni wedi dydd tywyll, tymmestlog, a chythryblus. Ond yn yr holl amgylchiadau, sylwch, y mae crefydd wirioneddol, fywiol, Gristionogol, yn hanfodol yr un—yr un o ran y pethau a gredir ac y gobeithir am danynt, a'r dylanwadau ysbrydol sydd yn eisieu ac yn cael eu mwynhau. Gwahaniaetha, fel y dysgrifiasom, mewn gwahanol bersonau, yn rhai o'i nodweddolion, o herwydd amser ac *amgylchiadau;* ac fel y gwna hyn, felly hefyd y gwa-

haniaetha *yn ei heffeithiau presennol.* I rai y mae yn dyfod (fel y mae ein holl ymresymiad yn dangos) fel yr hyn sydd yn cadw rhinwedd a dedwyddwch;—yr egwyddor, yr hon, hyd yn oed o ddechreuad eu bywyd, sydd yn eu gyru yn mlaen ac yn eu cyfarwyddo yn y fath fodd, fel y mae eu holl daith fel y goleuni, "yn llewyrchu fwyfwy hyd hanner dydd." I eraill, y mae yn ffynnon newydd o foddlonrwydd a gorfoledd, yn ddeffroad i amgyffred pethau ysbrydol, yn ddylanwad gallu Dwyfol ar y galon,—yn gyfnewidiad nad yw yn effeithio yn gymmaint ar weithredoedd ac ymarferiadau allanol y dyn, ond sydd yn tywallt i fewn o dan y cwbl fywyd tufewnol, yr hwn er nad yw yn eu cyfnewid yn gymmaint i lygaid dynion, eto sydd yn rhoddi iddynt gymmeriad hanfodol newydd yn ngolwg Duw. I ereill, drachefn, y mae fel maddeuant disymmwth o dan gollfarn, fel dychweliad o bell, gwellhâd, diangfa, adferiad, y mae yn iechyd, heddwch, a bywyd wedi gwahanglwyf ffiaidd, orwydriadau afradlawn, gwrthryfel ymarferol, darostyngiad hyd lawr, gobeithion gwywedig, meddiannau wedi eu colli, ac ing, a wylofain, a thrallod mawr.

Oddi wrth hyn, chwi welwch, yr ydym yn dal yn ddiysgog at ein mater cyntaf, ac at ein gosodiad chwanegol. Y mae ffydd grefyddol yn gweithredu yn y fath fodd ar y rhinweddau sydd yn ffafriol i'r bywyd hwn, fel y mae gan y dyn crefyddol—un yn cychwyn fel y cyffryw—y gobaith tecaf o wneyd y goreu o hono: ond os ydyw bywyd yn wag, neu os daw yn fain—os bydd afiechyd, anwybodaeth, tlodi, neu aflwydd, yn anghymhwyso dyn i wneyd defnydd o hono, neu ddrygioni ac afradlondeb yn dinystrio ei adnoddau, etc., ffydd grefyddol ydyw yr unig beth a all gyfarfod dynoliaeth yn yr amgylchiadau darostyngedig neu anobeithiol hyn, a chyfranu iddi y cynnorthwyon y mae ei hangenion yn gofyn. Y mae efengyl Crist yn dwyn gorphwysfa i'r blinderog, gobaith i'r siomedig, goleuni i'r anobeithiol, cysur i'r galarus, hyfrydwch a llawenydd i'r rhai sydd wedi eu hesgeuluso a'u hanghofio. Gwna hyn drwy y sicrhad nefol a rydd o gariad a gras; ei dadguddiad o drugaredd, o gydymdeimlad Iesu, o Dduw yn dad, o'r "tŷ sydd o'r nef" gyd â'i "lawer o drigfanau," ei dangnefedd parotöedig, a'i groesaw profedig! Yn *mhob achosion*, lle yr ymddengys fod rhyw ddiffyg gwreiddiol *neu ddrygioni* mewn bywyd yn gorbwyso, neu lle y mae

bywyd yn dyfod mor druenus fel y mae ei ddysgleirdeb yn cael ei dywyllu, a'i holl obeithion a'i ddysgwyliadau eu dinystrio, nid oes un modd yn ddichonadwy i wneyd dim o hono, ond trwy daflu arno lewyrch bywyd arall, a dwyn yr enaid i orphwysfa yn Nuw, trwy y dadguddiad o'i drugaredd a'i gymmeriad ef yn Nghrist. Felly hefyd yn mhob achosion o bechod mawr, o ddrygioni, o drosedd, o gamweithrediad hirbarhaol neu ysgeler, nid oes ond yr efengyl yn unig yn ddigonol i'w cyfarfod. Er na wna Duw wyrth i wrthweithio canlyniadau drwg-weithredoedd dynion, a'u hystyried fel troseddau o ddeddf natur, y mae wedi gwneyd hyny yn ngwaith prynedigol Crist, yr hwn a all dori ymaith ganlyniadau ysbrydol o thragwyddol y gweithredoedd hyny, a'u hystyried fel *pechodau*, neu fel troseddau o ddeddf uwch. Crefydd yn unig, crefydd y Beibl, a all son am faddeuant gyda hyder a chyssondeb, gan alw i edifeirwch gydag awdurdod Un sydd yn barod i faddeu. Trwy ddadguddio sylfaen a phosiblrwydd trugaredd, trwy addaw a pharotoi ar gyfer adnewyddiad ysprydol, a thrwy droi y pechadur o gyfeiliorni ei ffordd, gall brydferthu y byd presennol i'r rhai gwaethaf o'i feddiannwyr, ac yn ei ymddangosiadau gwaethaf, trwy y gobaith sydd yn cymmeryd gafael ar, a'r sancteiddrwydd sydd yn parotoi ar gyfer y byd a ddaw.

Fel hyn, yr ydys i edrych ar grefydd mewn dau oleuni gyda golwg ar y mater dan sylw. Gwelsom hyn o'r blaen, mewn perthynas i un cymmeriad yn unig,—y dyn da boreuol a gwastadol. Yr ydym wedi dyfod yn mhellach yn awr, ac wedi cymmeryd ereill o fewn cylch y ddadl. Gall crefydd gymmeryd y gwr ieuanc, a'i ddwyn i "lwybrau hyfrydwch a heddwch," gall beri i'r byd ddyfod iddo yn "wlad hyfryd," a bywyd yn yrfa o lwyddiant ac anrhydedd: a gall gymmeryd y truenus a'r trallodedig, yr andwyol a'r gwaradwyddus, y rhai sydd wedi eu gorchfygu gan ddygwyddiadau, neu eu darostwng ganddynt eu hunain—y dyn sydd wedi syrthio trwy ddrygfyd allanol, neu yr ynfyd sydd "wedi ei lenwi â'i ffyrdd ei hun"—gall gymmeryd y rhai hyn, a gall ddadguddio a chynnyg iddynt yr hyn nad all dim arall ddadguddio neu gynnyg, yr hyn, mewn amgylchiadau fel yr eiddynt hwy, a all yn unig rwystro bywyd rhag dyfod yn faich, neu attal yr hysbysiad *fuasai yn dadgan y* "Buasai yn well i'r dyn hwnw *pe nas ganesid ef.*"

PENNOD III.

ODDI wrth y gosodiadau hyn, y rhai a gynnwysant yr hyn a fwriedais er y dechreu ei ddwyn yn mlaen, chwi a ganfyddwch nad oeddwn mor ddifater yn nghylch helynt trwm yr euog a'r truenus ag y meddyliai ein cyfaill adfydus yn ei gamgymmeriad. Fe gyfarfyddwyd â rhai o'i gwynion, o ran sylwedd, drwy yr hyn yr wyf newydd ei ddyweyd. Y mae un peth arall, pa fodd bynag, a gymmerais i fewn ar y dechreu i fy nghynllun yn fy meddwl, a chyfeiriaf ato yn awr. Wrth wneyd hyny, yr wyf yn meddwl y cyfarfyddaf â dau neu dri yn chwaneg o sylwadau fy nghyfaill.

Dygwch yn eich meddwl, ynte—neu, os dewiswch, llosgwch i'ch eneidiau y gwirionedd hwn. Can belled ag y mae a fyner â'r bywyd hwn—gyda golwg ar ei helyntion cymdeithasol a bydol, gall dynion ddwyn eu hunain i'r fath amgylchiadau *nad ellir gwneyd dim iddynt o gwbl;*—dim, gan unrhyw ffurf o grefydd o ddadguddiad Dwyfol, neu gan unrhyw swm o grefyddoldeb fel gallu tufewnol. Dynion, y rhai sydd wedi cael manteision, wedi mwynhau cyfleusderau, wedi bod drachefn a thrachefn, efallai, mewn sefyllfaoedd lle y gallasent wneyd unrhyw beth—dynion felly, yn gwneyd llongddrylliad o honynt eu hunain, yn colli eu cymmeriad, yn pellhau eu cyfeillion, yn esgeuluso neu yn camddefnyddio eu talentau, yn sefyll o'r diwedd wedi eu darostwng gan ddrygioni, neu eu gwarthnodi gan droseddau, yn amddifaid o gyfrifoldeb, yn annheilwng o ymddiried, yn cael eu gochel gan eu cymdeithion blaenorol, ac yn foddlawn eu hunain i blygu eu pen ac osgoi adnabyddiaeth—beth yn y byd a ellir ei wneyd iddynt?—beth a ellwch chwi ddyweyd wrthynt gyda golwg ar wneyd y goreu o fywyd, neu droi y byd mewn rhyw ystyr i fantais? Dim! Cawsant eu cyfle, a chollasant ef. *Gallasent* wneyd yn dda, ond ni wnaethant. Gan hyny, nid allant yn awr. Rhaid iddynt gymmeryd canlyniadau eu ffolineb, a phenderfynu dysgwyl am ei effeithiau anocheladwy. Nid all neb eu cynnorthwyo. Y maent yn ddynion wedi eu cwbl andwyo, gan belled ag y mae a fyner â'r byd hwn; ac, fel y cyfryw, rhaid iddynt fyned *i'w beddau!* Nid ydyw yn ddichonadwy eu gosod eilwaith

yn y sefyllfa o ba un y maent wedi syrthio; nid all fod un dychweliad i'w gobeithion a'u cyfleusderau, na llestr mor drwsiadus ag oedd unwaith yn eu meddiant, nac awel mor ffafriol ag oedd yn chwythu unwaith! Nid allant adennill parch neu ymddiried. Ni allant byth mwy godi i gyfrifoldeb, neu gael eu derbyn drachefn i'r cylch yr oeddynt gynt yn troi ynddo. Tywalltasant wenwyn i gwpan bywyd, a rhaid iddynt fyned yn mlaen gan ei yfed hyd y diwedd. I'r fath ddynion, yr wyf yn gwybod yn eithaf da ei fod yn boenus i glywed am "brydferthwch rhinwedd;" yn frath cleddyf hefyd i gael eu hadgofio am ei "defnyddioldeb," gyda golwg ar lwyddiant a chynnydd yn y byd. Gallaf ddeall hyn yna yn eithaf,—heb o gwbl addef anmhriodoldeb y fath destynau o ymddyddan *fel y cyfryw*, neu na allant byth gael gwrandawiad ewyllysgar neu groesaw calon oddi wrth neb. Crefydd, fel meddyginiaeth ysbrydol i enaid wedi ei andwyo, a dim arall, a all yn unig gyfarfod âg amgylchiad y dynion hyn. Gall eu hadferu fel pechaduriaid at Dduw; a gall eu cysuro gyda'r gobaith o fywyd gwell, fel y dangosasom eisoes; ond gyda golwg ar y bywyd *hwn*, y mae pob peth drosodd gyda hwynt. Nid all ffydd grefyddol ei hunan, er mor gynnyrchiol ydyw yn ei pherthynas â rhinwedd, wneyd ond ychydig neu ddim iddynt wrth yr hyn a allasai y rhinwedd yna unwaith ei sicrhau. Pe byddent yn awr yn cael duwioldeb apostolion, a ffydd merthyron—pe byddai eu rhan dufewnol, ysbrydol, yn dyfod mor bur a phrydferth ag eiddo y sant enwocaf a anadlodd erioed, nid atebai un dyben, neu ni fyddai ond y peth nesaf i ddim. Gallai hyn yna oll eu cymhwyso yn bur effeithiol i'r nefoedd, ond byddai yn analluog i adferu iddynt y safle y maent wedi ei golli a'i fforffetio ar y ddaiar. Gallai eu gwneyd yn wrthddrychau o ddyddordeb dwfn i "Gristionogion da," a'u hargymhell i'w tosturi, eu cydymdeimlad, a'u gweddïau;—gallai sicrhau iddynt gardod o elusen rhyw eglwys, neu agor iddynt ddrws rhyw nawddle i'r angenus; ond dyna fyddai y cwbl! O hyn allan, rhaid iddynt "gerdded yn araf eu holl flyneddoedd yn chwerwder eu henaid." Rhaid iddynt fod yn foddlawn i sefyll o'r neilldu, i fod yn ddystaw, i fod yn ddisylw, i siarad ychydig—hyd yn oed am eu crefydd. Y mae gan bob peth ei bris; ac fe ganfyddir, rywbryd neu gilydd, fod Duw a

natur yn fanwl am fynu y tâl. Ni all yr andwyol ochel canlyniadau cymdeithasol a thymmorol eu gyrfa gynt. Rhaid iddynt eu cymmeryd gyd â'u holl chwerwder, eu dyoddef heb gwyno, ac ymgrymu iddynt fel cosb anocheladwy. Ni ellid eu hysgoi ond trwy gyfryngiad gwyrth; hyny ydyw, trwy annhrefniad trefn y greadigaeth: trwy ddodiad heibio y deddfau, y rhai yn unig sydd yn gwneyd cymdeithas yn ddichonadwy neu yn ddiogel. Pe byddai i'r drygionus ddianc yn ddigosp fe ddinystrid y ffydd hono yn nghanonau sylfaenol bodolaeth a rheolau sefydledig dyledswydd, yr hon sydd yn rhoddi i rinwedd hyder a gobaith.

Y mae yr un egwyddor yn gymhwysiadol, mewn rhan, at yr amgylchiadau hyny yn mha rai y mae dynion a fuont yn fore yn anfoesol, diofal, neu wastraffus, yn dyfod i feddwl yn well, a thrwy ras Duw, nid yn unig yn cael eu diwygio yn eu hymarferiadau allanol, ond yn cael eu "gwneyd yn gyfranogion o'r dduwiol anian." Y mae rhyw derfynau, o fewn pa rai y mae adferiad yn bosibl. Gall dynion, y rhai sydd wedi eu niweidio eu hunain yn fawr mewn cymmeriad, cyfrifoldeb, ac mewn meddiannau, droi oddi amgylch, a dyfod wed'yn yn sefydlog, yn llwyddiannus, yn barchus, ac yn grefyddol; ond hwy a ddygant i'w canlyn, er hyny, yn eu meddyliau eu hunain, ac yn fynych yn meddyliau ereill hefyd, am amser maith, efallai ar hyd eu hoes, rai o effeithiau eu hymarweddiad cyntaf. Gall Duw faddeu pechodau mawrion, ac anfoesoldeb ymarferol;—gall y dyn ddyfod yn wir edifeiriol, a chael ei "adnewyddu" yn drwyadl "yn ysbryd ei feddwl;" gall gael "gobaith da trwy ras," a sefyll allan, mewn cymdeithas ac yn yr eglwys, fel un nodedig a theilwng o'i efelychu yn mhob rhinweddau cymdeithasol a theuluaidd; ond gall ddwyn gydag ef i'r bedd, ïe, ar yr enaid sancteiddiedig yna o'i eiddo, greithiau a llosgiadau, effeithiau tânau ieuenctid, nodau ac adgofion pechodau boreuol, y rhai a gadwant y gallu o wneyd eu hunain yn deimladwy trwy felltenu ac ymsaethu yn sydyn trwy y galon,—yr hyn, mae'n debyg, na chollant byth. Nid ammheua y dyn faddeuant ei Dad, ac nid ofna am ei ddiogelwch ei hunan yn y pen draw, ond ni chaiff byth ymwared o rai o'r canlyniadau naturiol a ddeilliant oddi wrth ei "anwiredd mawr"—byth, cyhyd ag *y bydd efe byw!* Gofelwch na bo i un o honoch chwi, wŷr

ieuainc, gellwair â phechod, fel pe byddai yn beth dibwys, yn beth i'w gyflawnu un mynyd, ac i'w anghofio y nesaf. Gofelwch na syrthioch i'r camgymmeriad o dybied y bydd y cwbl yr un peth yn y diwedd, pa bechodau bynag a gyflawno dyn, os bydd iddo ond yn unig ddyfod i gael maddeuant gan Dduw, a chael golchi yr euogrwydd o honynt ymaith. *Ni* fydd felly;—ni fydd felly yn sicr yn y byd hwn, nac efallai yn y nesaf chwaith. O ran anghofio pechod,—gellwch *chwi* ei anghofio, ond gellwch fod yn sicr na bydd i bechod eich anghofio chwi. Na: gallwch fod yn sicr y bydd i'ch pechod eich "cael allan." Gellwch ei gyflawnu yma, yn Mrydain, a myned i'r ochr arall i'r byd; gellwch ei gyflawnu tua'r cyhydedd neu'r pegynau, a dyfod adref, a chael eich dyddanu am flyneddoedd gyd a'ch cysuron teuluaidd; ond fe fydd i bechod, yn enwedig unrhyw drosedd mawr a rhyfygus, er i chwi geisio ffoi oddi wrtho a'i anghofio, eich erlyn fel ei gyflawnydd, fel yr oedd gwaith ei ddwylaw yn erlyn Frankenstein,—fe arogla eich llwybr, fe ddaw i fyny atoch, a saif o'ch baen, ac fe dadoga ei hun arnoch, gan hawlio cydnabyddiaeth â chwi, a hyny hefyd mewn ffordd na oddef i chwi ei wadu, ac fe wasga allan o honoch y llef dreiddgar a chwerw hono! "*Yr wyt yn gwneuthur i mi feddiannu camweddau fy ieuenctyd!*"

PENNOD IV.

YMA, gallwn gyfeirio yn uniongyrchol at yr hanes trist yr ydych newydd ei glywed. Y mae yn cynnyg amryw o bethau i sylwi arnynt, y rhai sydd yn dwyn cyssylltiad agos â thestyn y ddarlith hon. Fel y mae gwaethaf, pa fodd bynag, y maent yn gyfryw ag a gymmerent ddarlith neu ddarlithoedd iddynt eu hunain. Ond ni wnaf ond taflu cipolwg frysiog drostynt.

Yr oedd tad ein cyfaill, y mae yn debyg, yn ddyledus i grefydd am ei godiad a'i sefyllfa mewn bywyd; ac yna, yr oedd manteision ei sefyllfa efallai yn fagl i'w fab! Y mae yn rhyfedd mor fynych yr ydym yn gweled yr hyn a ennillir gan y tad yn cael ei golli gan y mab; ac nid yn unig felly—nid

yn unig y mae un genedlaeth yn codi a'r llall yn syrthio—ond, tra y mae un yn codi *trwy rinwedd*, a thrwy rinwedd crefyddol hefyd, y mae y nesaf mewn olyniaeth yn syrthio trwy bechod, a thrwy bechod yn cael ei gynnyrchu gan wobrau bydol ei ragflaenydd! Y mae i bob effaith, pa fodd bynag, ei achos; ac, yn y fath amgylchiadau, rhaid i ni nid yn unig edrych ar y ffaith o fod y tad yn gweithio yn benderfynol, ac yn byw yn galed, gydag amcan o'i flaen sydd yn galw allan ei egnïon, ac fel hyn yn sicrhau y pethau hyny eu hunain sydd yn meddalu ac yn darostwng ei fab, trwy attal ei ymegnïad, a'i ryddhau oddi wrth yr angenrheidrwydd anhyblyg o weithio—ond rhaid i ni edrych ai nid all fod yna ryw achosion penodol, yn rhywle neu gilydd, mewn rhyw gyfeiliornad, gwendid, neu fai, a rydd gyfrif am y cyfnewidiad. Nid ydys i feddwl fod cyfansoddiad pethau y fath, fel y mae rhinwedd un dyn i gael ei wobrwyo â'r hyn fydd yn anocheladwy yn ddinystr un arall; neu fod yr eglwys, drwy fendith Duw ar ei helyntion tymmorol, i ddyfod yn famaeth i'r byd! Nid ydym wedi cael ein bwriadu, yn sicr, i gylch sydd yn wastad yn dychwelyd fel hyn! Eto, y cyfryw, yr wyf yn ofni, y mae'n rhaid i fywyd fod yn fynych mewn dwy genedlaeth olynol, os na bydd y rhai sydd yn llwyddo yn deall fod pob rhwymedigaethau yn chwanegu gyda'u llwyddiant; a pha fodd y mae yn ddyledus arnynt i roddi i'w plant y fath ddysgyblaeth a meithriniad ag a'u galluogant i *ddal gafael* yn y manteision i ba rai y cawsant eu geni. Y mae yn gofyn cymmaint o rinwedd i'w dal, ag i'w cyrhaedd, er nad o'r un natur; ac O! fe ddygwydd yn fynych fod yr hwn sydd ganddo un dosbarth o rinweddau, ac sydd yn ymddyrchafu trwy eu hymarferiad, yn analluog i ddysgu y llall i'w fab, neu yn esgeulus o'r ddyledswydd, neu yn cael ei ddenu oddi wrth y cyflawniad llawn ac effeithiol o honi.

Yma, yr ydych yn gweled, y mae tad ein cyfaill, yn foneddwr Cristionogol, a'i amser yn cael ei gymmeryd i fyny yn gymmaint gan y gwahanol sefydliadau, i ba rai y mae ei gymmeriad crefyddol wedi ei ddwyn, fel y mae braidd yn estron i'w blant ei hun! Yna, dyna ei fam, yn annoeth o anwesog: hi dybia ei hun yn ddim ond yn serchog a thyner yn yr hyn a wna, ac eto y mae'n dyfod, drwy hyny, yn anghyfiawn tuag at ei gŵr a thuag at ei meibion. Gellir

gweled yr esgeulusdra, yr eisieu, neu y llacâd yma mewn dysgyblaeth—yr absennoldeb o, neu y gwrthwynebrwydd yma i ddylanwadau cartref ambell dro yn nheuluoedd pobl dda iawn. Nid allant fod yn unman byth, pa fodd bynag, heb eu canlyniadau. Ni ddylai yr hwn sydd wedi llwyddo i wneyd un peth, byth anghofio y gall ei blant fod yn analluog i wneyd peth arall mor hawdd, a'r peth arall hwnw, efallai, mor anhawdd ynddo ei hun, ac wedi ei gylchynu âg anfanteision a themtasiynau mwy. Ond i gadw hyn bob amser yn y meddwl, a gweithredu yn benderfynol yn ei ol, y mae yn gofyn mwy o ddiysgogrwydd, hunanymwadiad, hunanfeddiant, golygiadau eangach, a chydweithrediad a chydymdeimlad mwy cyflawn mewn rhieni nag sydd yn gyffredin; ac nid ydys i ryfeddu, os bydd i ni yn awr ac yn y man weled y canlyniadau yn y fath amgylchiadau a'r un o'n blaen. Y bachgen gartref—yn canfod ei fod wedi ei eni i gyfoeth a *moethau*, â chanddo bob amser, pan yn yr ysgol, fwy o arian nag a ŵyr beth i'w wneyd â hwy; ac wedi hyny, pan yn ŵr ieuanc, yn myned i mewn i gymdeithas, gyda'i ffordd oll wedi ei hagor a'i llyfnhau o'i flaen, a gwyrddlesni a blodau ar bob llaw—y mae hyn oll yn beryglus o'r dechreu! "Digonedd o fara," amgylchiadau esmwyth, ysbrydoedd uchel, tipyn o falchder, tipyn o weniaith, cyfeillion uchel, gwahoddiadau mynych—beth! gall y pethau hyn, lle na bu dysgyblaeth drwyadl, a lle y mae eisieu meddwl dwfn, egwyddor sefydlog, a rhinwedd boreuol cryf, arwain yn raddol i'r canlyniadau mwyaf trychinebus a dinystriol! Ni ddywedodd ein cyfaill truan yma un peth am dano ei hun na chyfarfyddais âg ef yn weithredol, drachefn a thrachefn, mewn bywydau tebyg. O ran hyny, mi a allaswn ddyweyd ei ystori drosto, ac yn wir un llawer gwaeth, trwy ddim ond dodi yn nghyd bethau a allwn eu dwyn i fyny o adgofion cysglyd y cof, yn mha un y gorwedda yn gladdedig weddillion lawer o'r hyn a welais ac a adnabum.

Eto drachefn, gyda golwg ar yr hanes *crefyddol*, os gellir ei alw felly, a glywsoch—y mae yn dra gresynol! ond bûm yn gydnabyddus â llawer o ffeithiau cyffelyb. Y mae crefydd, yr wyf yn ofni, wedi bod yn cael ei harddangos yn ormod gan arweinyddion efengylaidd poblogaidd yr eglwys fel pe buasai yn beth yn unig erbyn y byd nesaf, neu i sicr-

hau i ni dragwyddoldeb dedwydd; ac yn unig i ddynion mewn cyflawn oed, ac wedi dyfod yn bechaduriaid cyflawn, yn lle fel wedi ei bwriadu hefyd i *rwystro* hyn—yn cyfaddasu ei hunan at y plentyn, y llanc, a'r gŵr ieuanc, ac yn treiddio drwy ei natur ysbrydol, ac yn ffurfio ei fywyd tufewnol yn y fath fodd, fel ag i'w "gadw oddi wrth ddrwg fel na'i gofidier." Fel mater o ffaith, pa fodd bynag—er gwaethaf yr hyn a ellid ei amddiffyn yn ddamcanol, neu ei ddysgu yn boblogaidd, fel mewn ymddangosiad yn cadarnhau crediniaeth wahanol, yn enwedig mewn amserau o adfywiad crefyddol, ac mewn cyssylltiad â diwygiad sydyn y drygionus—*nis gall* crefydd ei hunan, a dysgawdwyr crefydd, ddim trin pechaduriaid mawrion, yn yr amserau hyn ac yn y wlad yma, fel y gallent mewn rhyw adegau blaenorol, ac fel y gallant yn awr yn mysg tylwythau cynfrodorol Ynysoedd y Môr Tawel. Adwaenwn bersonau, y rhai a eisteddasant yn Tahiti, a gwledydd cyffelyb, â gwragedd o'u hamgylch, y rhai oeddynt iddynt hwy yn wrthddrychau o ddyddordeb dwfn a serchogrwydd Cristionogol—pob un o ba rai oedd yn brysur yn ceisio cyfrif i fyny pa sawl un o'i phlant a lofruddiasai! Yn Lloegr, buasai y fath ferched yn cael eu halltudio neu eu crogi. Ni buasai hyd yn oed gweinidogion—er y gallasent ymweled â hwynt yn y carchar, ac ymddyddan a gweddio gyda hwynt, a gobeithio y goreu erddynt, er gwaethaf eu hysgelerder—byth yn dyfod i'w hystyried yn ddychweledigion hawddgar a dyddorol, gan eu derbyn i'w tai fel eu cyfeillion, neu eu cynnyg am dderbyniad i gymundeb eglwysig. Ac eto, y mae mor wir yn awr ag yn y dechreu, ac mor wir yma ag yn mysg ein gwrthdroedwyr, fod "gwaed Iesu Grist yn glanhau oddi wrth bob pechod"—fod yr efengyl yn cyhoeddi maddeuant i'r "penaf o bechaduriaid:" ac er i bechodau dyn fod yn "goch fel y porphor a'r ysgarlad," gall ei enaid ddyfod "can wyned a'r gwlan neu yr eira." Y mae y *gwirionedd* yr un, ond y mae gwahaniaeth mawr o ran argraff y genadwri, y gallu o'i derbyn, ac hyd yn oed o ran ei golwg a'i hystyr i'r person ei hun, rhwng un dyn—yr hwn sydd wedi ei osod yn y fath fodd, fel y mae bob amser wedi bod o fewn ei chyrhaedd, a'r hwn a ddylasai gael ei attal oddi wrth ddrygioni trwy ei dylanwad—a dyn arall, na chlywodd *am dani* o gwbl, nes i anwybodaeth ac eilunaddoliaeth ei *suddo a'i* drochi mewn trachwant a gwaed.

Edrychwch fel yr ymddengys y Beibl yn siarad wrth y dyn truenus ac annedwydd hwn; a chymmerwch chwithau, wŷr ieuainc, rybudd oddi wrtho! Nac anghofiwch byth, y bydd y Beibl i chwi yr hyn yr ydych chwi iddo ef. Chwi a ganfyddwch ynddo yr hyn a ddygwch iddo:—"A'r trugarog y gwnai drugaredd, â'r gŵr perffaith y gwnai berffeithrwydd, â'r glân y gwnei lendid, ac *â'r cyndyn yr ymgyndyni.*" "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Pob dyn a osodo i fyny ei eilunod yn ei galon, ac a ddelo at y prophwyd, myfi yr Arglwydd a atebaf yr hwn a ddelo *yn ol lluosogrwydd ei eilunod.*" Y mae yma egwyddor gyffredinol, sydd yn gymhwysiadol at bob amgylchiad, ac yn cael ei chadarnhau bob amser ac yn mhob man—egwyddor, yn wir, sydd yn gweithredu gyda golwg ar bethau ereill yn gystal a'r Beibl, er mai ato ef yn unig yr ydym yn ei chymhwyso yn awr. Nid yw y dyn da, wrth ddarllen y Beibl, byth yn sylwi ar yr ymadroddion sydd yn dychrynu ereill. Gyda golwg ar y rhai hyn, y mae efe yn darllen y Beibl fel y mae y plentyn bach yn ei ddarllen gyda golwg ar yr ymadroddion y mae y llygredig a'r aflan yn eu gwatwar neu eu gwyrdroi: nid yw efe yn eu gweled, nid yw yn eu deall—nid oes ganddynt genadwri nac ystyr iddo *ef.* I'w lygaid ef, y mae pob tudalen wedi ei orchuddio â llewyrch tyner, â goleuni dwyfol, digrifwch, a dysglaerdeb. Os egyr ef yn ddygwyddiadol, y mae yn sicr o gael ei gyfarch gan ryw addewid fawr, rhyw air cyfoethog o ddyddanwch a nerth, neu o weled rhyw ddarlun o wynfydedigrwydd y cyfiawn, neu ryw belydryn dysglaer o ogoniant y nef! Nid all wrth hyny—y mae greddf ynddo ei hun yn canfod y gair—bywyd dirgelaidd yn y geiriau eu hunain, yn gwneyd iddynt sefyll allan yn arbenig a llewyrchiadol. Yr un modd, y cynhyrfus a'r dychrynedig—y pechadur wedi ei gyffroi gan adgof o'i bechodau, ei enaid wedi ei gythryblu gan chwantau aflan, a'i gydwybod wedi ei duo gan euogrwydd ofnadwy—iddo ef, nid ydyw y llyfr yn ymddangos ond fel cenadwri o ddigofaint: y mae pob colofn wedi ei hargraffu â llythyrenau o dân, y mae pob sill yn ymddangos yn llem fel saeth—mor aethlawn a phe byddent wedi eu blaenllymu â gwenwyn, a'u cyfaddasu yn unig i drywanu ac archolli! Nis gall *gael hyd* i'r adnodau y tybia ei fod yn eu cofio! Nid ydynt yno! Pan yr edrych am

danynt, y rhai dychrynllyd yn unig sydd yn neidio i'r golwg, ac yn ymddangos yn ofnadwy ac yn fyw! Yn awr, y mae hyn oll yn berffaith naturiol. Fe ddadguddia y Beibl ei hun i chwi yn ol ansawdd eich meddwl: fel yr wyf newydd ddywedyd, chwi a gewch, pan ewch ato, yr hyn a ddygwch. Mewn amgylchiadau cyffredin, mor wahanol fyddai yr un llyfr i un a fo yn ei agor newydd ddyfod o ganol ei aflendid, ag i un arall yn dychwelyd o gyflawnu rhyw weithred o drugaredd neu hunanaberthiad! Gallai y dyn, wedi ei frawychu a'i ddychrynu gan deimlad o euogrwydd, ddyfod i gael ei esmwythdra trwy wir alar am bechod; gallai ei galon gael ei thyneru trwy edifeirwch; a phan yn cael ei dawelu a'i gyfarwyddo gan ddylanwad grasol, fe egyr ei lygaid at yr hyn ni welai o'r blaen—fe genfydd y pryd hyny fod y Beibl yn orlawn o ymadroddion cariad, a bod ganddo leisiau o dynerwch i'w ennill a'i dawelu, yn gystal ag o ddychryn i'w gyffroi a'i frawychu. Y mae yn briodol yma, pa fodd bynag, i mi eich rhagrybuddio fod yn eithaf posibl, yn enwedig gyda'r rhai sydd wedi mwynhau a chamddefnyddio manteision crefyddol, i'r llyfr barhau yn ddystaw hyd y diwedd, neu beidio traethu dim ond ei daranau arswydlawn—gwrthod llefaru, oddi eithr mewn geiriau yn dadgan collfarniad, ac yn cynnyrchu anobaith. Os na "wnewch y goreu o fywyd," trwy rinwedd boreuol, gellwch yn y *fath fodd* wneyd y gwaethaf o hono, fel, nid yn unig i wneyd eich amgylchiadau tymmorol ynddo yn hollol anadferadwy, ond i osod eich helynt ysbrydol tu draw i obaith. Gellwch ddyfod yn ddideimlad, a'ch "cydwybod wedi ei serio megys â haiarn poeth;" gellwch fod wedi eich colli a'ch andwyo mor hollol trwy bechod, ac wedi eich "caledu trwy ei dwyll," fel ag i fod yn anmhosibl i chwi "ymadnewyddu drachefn i edifeirwch," neu wrandaw geiriau, neu gredu cenadwri trugaredd a gobaith. Y mae yn drist meddwl y fath wahaniaeth a all fod ryw ddiwrnod rhwng dau o honoch chwi, wŷr ieuainc, sydd yn eistedd yn nghyd yna, ochr yn ochr, ar yr un fainc, a rhwng y rhai nad oes dim gwahaniaeth canfyddadwy yn awr! Beth! gellid meddwl am ddau ddyn y Salm gyntaf fel rhai yn frodyr i'w gilydd—ïe, yn efeilliaid! Y maent yn cychwyn yn nghyd o'r un groth, ac oddi ar yr un gliniau. Y mae gyrfa y naill yn ddaioni a goleuni, gwyrddlesni a

llawenydd; y mae yn ddoeth a "gwynfydedig," "a pha beth bynag a wnel, efe a lwydda." Y mae y llall yn "rhodio yn nghynghor yr annuwiolion, yn sefyll yn ffordd pechaduriaid, ac yn eistedd yn eisteddfa y gwatwarwyr;" y mae yn myned tu draw i bosiblrwydd ei adferu, nad ydyw yn gymhwys i ddim ond i gael ei yru ymaith "fel us o flaen y gwynt"—yn cael o'r diwedd ei gondemnio "yn y farn, ac yn cael ei gau allan o gynnulleidfa y rhai cyfiawn!" Y ddau fachgen yna—ac yn feibion i'r un fam!

PENNOD V.

Gyda golwg ar yr wrthddadl fy mod yn cyfeirio fy sylwadau at y cyfoethogion yn hytrach nag at y tlodion—fy mod yn esgeuluso y dosbeirth gweithiol, fy mod yn anghofio y trueni sydd yn llenwi y byd, a fy mod yn cau fy llygaid ar iselder hanfodol helyntion dynion—i hyn oll, nid allaf ond ateb trwy ychydig iawn o eiriau brysiog. Gyda'r rhai hyn, mi a derfynaf y ddadl, gan belled ag y bwriedir iddi ddwyn perthynas â'r byd hwn, a thrwyddynt mi a gymmeraf gipolwg ar athroniaeth trist a phruddaidd ein cyfaill truan o fywyd.

Byddwch gystal a sylwi ynte, i mi gael fy arwain i gyfeirio at lwyddiant bydol a chynnydd mewn bywyd o dan y ffurfiau penodol hyny yn *mha rai y gellir eu deall oreu gan wŷr ieuainc fel chwi.* Fel yr ydwyf yn anerch y rhai sydd yn rhwym gyda gorchwylion dinas fawr, y rhai a allant godi i sefyllfaoedd o gryn ymddiried, ac o elw cyferbyniol, neu ddyfod hyd yn oed yn feistriaid, a chyrhaedd cyfoeth, yr ydwyf, wrth reswm, yn llefaru wrthych mewn iaith, a chyda chyfeiriadau cyfaddas i'ch amgylchiad. Yr wyf yn eithaf gwybyddus, yr wyf braidd yn meddwl, o fodolaeth a phwys pob math o lafur a thrafferth, ac o'r ffaith fod tyrfaoedd o fodau dynol nad allant byth fod yn ddim ond gweithwyr. Ond nid ydwyf ar un cyfrif yn dueddol i feddwl fod llafur corfforol cysson yn sefyllfa o fywyd mor ofnadwy o ddrwg, nac i addef nad ellid cymhwyso fy athrawiaeth at ddynion sydd yn rhwym yn y galwedigaethau mwyaf cyffredin. Pe

buaswn yn anerch cynnulleidfa o lafurwyr, cyfarwy anghyfarwydd, gallaswn ddangos, dybygaf, fel y gal arferion a'r rhinweddau a feithrinir gan grefydd, gallasai crefydd ei hunan, yn ei holl ddylanwadau, eu yn fawr yn eu cylch mewn bywyd, a thueddu at eu d *yndlo* neu allan o hono. Hyd yn oed gyda golv gweithiwr, o allu meddyliol gwreiddiol, gydag athr chwaeth, ac arferion llenyddol, credwyf y gallesid y gallai, trwy aros yn ei "alwedigaeth," gan ddysg feddwl, a defnyddio ei allu yno, fwynhau mwy o dde wch, a gwneyd mwy o ddaioni, na thrwy fyned y iddi, ac ymroddi yn gyfangwbl at lenyddiaeth. A yn berffaith sicr, beth bynag fyddai ei dalentau, neu benodol ei feddwl, y byddai i wir grefydd weith ffafriol ar ei alluoedd a'i helyntion, a thaflu o am fywyd, ac ar ei amgylchiadau, yr hyn a dueddai i dd ac i brydferthu y naill a'r llall.

O ran y trueni sydd yn y byd, y mae yn rhy wir fo o hwnw. Yn ein plith ni, pa fodd bynag, yn sefyll ennol pethau yn y deyrnas hon, y mae y nifer f amgylchiadau *gwaethaf* o wir gyfyngder, naill ai hachlysuro neu eu gwaethygu yn ddirfawr gan y dy ei hun. Na ato Duw i mi eu cau hwynt allan o deimlad a chynnorthwy o blegid hyny. Dymunwn ddangos, y buasai cyfansoddiad pethau, dan ba un y wedi ein gosod, yn rhwystro llawer o'r trueni y gall blegid, pe buasai dynion yn caniatau iddo; ac yr yd gweled eisoes fod dyddanwch a gobaith i'w cael drygfyd anocheladwy. Y mae ein cyfaill, sut by camgymmeryd yn fawr wrth feddwl fod y dynion syd angenrheidrwydd i ymdrafferthu a gweithio, o bleg yn annedwydd, neu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eidio neu eu gorthrymu gan ereill. Y mae hwn yr cyffredin gyda'r segur a'r afradlawn, "carwyr pl "creaduriaid penrhydd o'r fath isaf;" ond nid ydyw Y mae dedwyddwch wedi ei wasgaru yn llawer mwy nag y dychymyga y lluaws. Nid ydyw y rhan ddynion ddim yn teimlo yr eisieu, nac yn ocheneid meddiant o orwychder a danteithion na fwynhasant Gellid clywed meibion llafur yn canu wrth eu gw

ferched hefyd; tra y bydd llawer, yn fynych, yn mwynhau cymmaint o foddhad ar orpheniad rhyw orchwyl anhawdd, ag a fwynhäai bardd, areithiwr, neu wladweinydd llwyddiannus. Y mae dedwyddwch dynol yn ymddibynu ar i chwi fod yn gysurus *yn* eich sefyllfa. Gellid achosi y trueni mwyaf trwy ddim ond cyfnewid yn sydyn ddosbarthiadau cymdeithas, ac felly eu dodi mewn cylchoedd newyddion iddynt! Y mae yn anhawdd dywedyd pa un a deimlai ei hun waethaf allan—neu, efallai, *nad ydyw* yn anhawdd dyweyd—pa un ai y boneddig yn trin y ffust, neu yn dilyn yr aradr, ynte y gwledychwr pentrefol wedi ei wneyd yn weinidog y llywodraeth, y cobler yn arglwydd, neu y lleban yn esgob!

Yr oedd ein cyfaill yn hyawdl yn nghylch marwolaethau anamserol, ac yn llym (fel y tybiai ef), yn nghylch y diffyg o arddunant mewn rhyw alwedigaethau, megys eiddo y ciggydd a'r cylchwerthydd. Ni all dim, gellid meddwl, gyfiawnhau i ni son am "brydferthwch y byd," neu "fawredd bywyd," o blegid fod rhai plant yn meirw, a bod yn rhaid i rai dynion gyffwrdd â budreddi! Credwyf fod y fath syniadau yn bur gyffredin, a bod llawer o bobl yn eu hystyried yn bur deg. Nid oes un ddadl ychwaith na bu i ddysgrifiadau dibrisiol hyawdl neu grefyddol o fyd a dyn, gan foesolwyr a duwinyddion, dueddu yn fawr i fagu y syniadau hyn. Yn awr, nid wyf yn meddwl y dylid eu cefnogi. Nid wyf yn credu ein bod yn cymmeryd y ffordd iawn i wella dynion, trwy beri iddynt ocheneidio uwch ben—efallai diystyru—y lle y maent ynddo, a'r dyledswyddau a osodwyd iddynt. Fe'm gogwyddir i feddwl na thueddai dim yn fwy i ychwanegu ansawdd fwy iachus, a chryfach teimlad moesol a chrefyddol yn ein plith, na chydnabod yn ddiolchgar y daioni sydd mewn llawer o ffurfiau o ddrygioni, a'r dwyfol a allai orwedd o dan yr ymddangosiadau iselaf o fywyd daiarol.

Yr ydwyf yn hoff o blant—yr wyf yn eu hystyried yn farddoniaeth y byd, blodau ieuengaidd ein haelwydydd a'n cartrefi—dewiniaid bychain, gyda'u "swynyddiaeth naturiol," yn galw allan trwy eu swynion yr hyn a ddifyra ac a gyfoethoga boh graddau, ac a wastatâ wahanol ddosbarthiadau cymdeithas. Er mor fynych y dygant gyda hwynt bryder a gofalon, a'u bod yn peri tristwch a gofid, gwael iawn yr äem yn mlaen hebddynt. Meddyliwch yn awr beth pe na byddai

dim i'w weled byth yn un man ond dynion a merched wedi tyfu i fyny! Fel y buasem yn hiraethu am weled plentyn bach! Y mae pob baban yn dyfod i'r byd fel prophwyd awdurdodedig—rhagredegydd a chyhoeddwr newyddion da—swyddogaeth yr hwn ydyw, "troi calonau y tadau at y plant," a throi yr "anufudd i ddoethineb y cyfiawn." Y mae plentyn yn meddalu ac yn puro y galon, yn ei chynhesu, ac yn ei thoddi trwy ei bresennoldeb hynaws; cyfoethoga yr enaid trwy deimladau newyddion, a deffroa o'i fewn yr hyn sydd ffafriol i rinwedd. Y mae yn belydr o oleuni, yn ffynnon o gariad, yn ddysgawdwr nas gall ond ychydig wrthsefyll ei addysgiadau. Y mae babanod yn ein galw yn ol oddi wrth lawer o'r hyn sydd yn cynnyrchu hunanoldeb, yn rhewi y serchiadau, yn hagru y moesau, ac yn caledu y galon; y maent yn peri i gartref ddysgleirio, yn dyfnhau cariad, yn cryfhau ymegnïad, yn cyfranu dewrder, ac yn bywiocau ac yn dal i fyny anwylderau bywyd. Byddai hwn yn fyd ofnadwy, yr wyf fi yn meddwl, pe na byddai wedi ei addurno â phlant bach; *ond*, byddai yn un llawer mwy ofnadwy, *pe na byddai plant yn meirw!* Fe frawychai llawer, mae'n ddigon tebyg, wrth yr haeriad yma. Efallai ei fod yn wir, pa fodd bynag, er hyny.

Yr wyf yn gwybod yn eithaf da fod marwolaeth ynddo ei hun yn beth tra arswydus; ac yr ystyrir fod marwolaeth *anamserol* yn "ddirgelwch,"—rhywbeth i ymostwng iddo, fel peth anmhosibl i'w gyssoni â'r drychfeddwl o ddoethineb a chariad llywodraethol,—i alaru o'i blegid fel drygioni digymmysg, yn fynegiadol yn unig o ddigofaint Duw a thrueni dyn! Yn awr, yr wyf yn dal yn hollol fod marwolaeth yn *gospedigaeth.* Yr wyf yn credu ei fod yn ganlyniad ac yn brawf o'r cwymp. Yr ydwyf yn credu ei fod yn ffordd i ymadaw o'r ddaiar *a ddygwyd i fewn gan bechod*—poenus, dychrynllyd, tywyll—yn lle y trosglwyddiad dysglaer a gogoneddus hwnw a fuasai, mae'n debyg, yn aros rhinwedd llwyddiannus. Chwi a welwch yn dda sylwi, gan nad allasai yr un byd o faintioli terfynol barhau i fod yn drigfa sefydlog anfarwolion, nifer pa rai fuasai yn wastadol yn cynnyddu,—a chan yr ymddengys mai deddf fawr pob dealldwriaeth ydyw gwelliant a chynnydd—mai y tebygolrwydd yw, na *fwriad*wyd dyn erioed i'r byd yma yn unig; fe fuasai

ymadael o hono yn ddeddf ei greadigaeth; ond, pe buasai yn aros yn ei ffyddlondeb i Dduw, fe fuasai yr ymadawiad hwnw yn cymmeryd lle wedi i lawn berffeithiad ei natur *yma* ei gymhwyso i ymddyrchafu yn ngraddfa bodolaeth, a buasai hyny yn dyfod fel gwobr ac anrhydedd, efallai, gyda gorwychedd gweledig a chyhoeddus,—cyd-gyfarchiadau llawen y rhai a adawsid ar y ddaiar yn cymmysgu â chroesaw a chynghanedd a chaniadau yr ysbrydion dyrchafedig hyny, i breswylfa ogoneddus pa rai y buasai y dyn yn esgyn. Fe ddarfu i bechod, sut bynag, droi y cwbl o chwith. Yn lle hyny, yr oedd yn rhaid i ddynoliaeth "ymadael oddi yma" trwy ddychwelyd i'r pridd;—myned i lawr i'r glyn tywyll, a myned heibio fel hyn at y dyfodol ofnadwy—yr anwybyddus mawreddig!

Gan fod marwolaeth, ynte, a'i ystyried fel y cyfryw, wedi dyfod yn ddeddf drwy ba un yr oedd preswyliad dyn yn y byd yma i gael ei ddwyn i ben; a chan fod dynoliaeth wedi cyfnewid yn hollol ei chymmeriad a'i hamgylchiadau,—gan roddi pwysigrwydd newydd i berthynasau bywyd, a chan osod argraff o ansicrwydd, a dyweyd y lleiaf, ar y dyfodol, —gan mai fel hyn y mae pethau yn bod, yr oedd yn angenrheidiol, *i wneyd bywyd ei hunan yn oddefadwy i ddyn*, i'r ddeddf sefydlog, gyffredinol, gael ei lleddfu a'i thymmeru gan ddwy ereill. Hyny yw, yr oedd yn angenrheidiol i farwolaeth gymmeryd lle yn y fath fodd, fel ag i beidio bod yn *ddadguddiad* clir, pendant, a chyhoeddus o'r *dyfodol* hwnw, i ba un yr oedd pob dyn yn myned; ac fel y byddai i ddynion fyw yn hollol ansicr gyda golwg ar y pryd y byddent feirw. Ac addef fod y ddeddf wreiddiol yn gospedigaethol, fe fyddai pa beth bynag a'i tymmerai yn y ddau ystyr yma o natur *esmwythâd caredig.* Y mae yr esmwythâd yma yn cael ei ganiatau i ni. Y mae y peth cyntaf yn cael ei roddi yn y ffaith fod marwolaeth yn dygwydd *i bawb fel eu gilydd*;—a'r ail, yn ei fod yn dygwydd *i bob oedran.* Beth bynag all cymmeriad dynion fod—pa mor bosibl bynag ydyw i unrhyw ddyn gyrhaedd cymhwysder i sefyllfa uwch (ac y mae hyny, fel yr yr ydym ni yn credu, mewn modd arbenig, yn bosibl yn awr trwy Grist)—eto, y mae *pawb* yn meirw, ac, fel rheol gyffredin, dan y cyffelyb amgylchiadau o boen a dyoddefaint, ac yn bur gyffredin, hefyd, gyda theimladau

cyffelyb iddynt eu hunain ac i'r rhai sydd yn byw ar eu hol. Nid oes y fath wahaniaeth rhwng gwely angeu y crefyddol a'r bydol, oddi eithr mewn rhai amgylchiadau, ag a feddylfai rhai; ac y mae bob amser y fath anwybodaeth mewn perthynas i'r marw, ag sydd yn ei wneyd yn bosibl i'r byw obeithio. Gan belled felly ag y mae a fyner â *phethau amgylchiadol* marwolaeth,—rhagredegwyr a gweinyddwyr a chanlyniadau uniongyrchol, sef afiechyd, poen, ymddattodiad, a llygredigaeth; y rhai yn mhob oes a fuant yn ddefnyddiau areithiau cynhyrfiol, neu yn destynau odlau a chaniadau o alar,—gan belled ag y mae a fyner â'r pethau hyn, y maent yn gynnyrchion caredig deddf dymmerol, â pha un y darfu i Dduw yn ei ddaioni leddfu llymder y gosp gyntefig.

Y mae yr un egwyddor yn dal gyda golwg ar farwolaeth anamserol. Gall pawb o honoch weled, y buasai deddf gyffredinol fuasai yn terfynu bywyd dan bob amgylchiadau ar ddydd penodol yn boenus ac annyoddefol; buasai yn gwenwyno bywyd o'r dechreu i'r diwedd, ac efallai yn ennyn ac yn cynhyrfu penrhyddid a thrachwant. Y mae yn bwysig i ddedwyddwch a rhinwedd, fod dyn heb wybod pa bryd y mae i farw. Ni ellir cyrhaedd yr amcan yma, pa fodd bynag, ond trwy i farwolaeth ddygwydd ar bob mynyd trwy yr holl ysbaid a ganiateir i ddyn;—hyd yn oed mewn amgylchiadau anghyffredin, megys marwolaeth cyn gadael tarddell a ffynnon bywyd, neu farwolaeth yn cael ei hoedi y tu hwnt i bob anghreifftiau gwybyddus neu gyffredin,—nid ydyw y rhai hyn yn ddim ond gweithiad allan yr un ddeddf. I sicrhau, gan hyny yr amcan a fwriedir—i osod dynoliaeth dan y drefn fwyaf graslawn a charedig sydd yn awr yn bosibl—fel y gallo dynion fyw yn y fath fodd fel ag i *fwynhau* bywyd, o herwydd eu bod heb wybod am ei derfyniad—o herwydd hyn, y mae babanod a phlant yn meirw; y mae ieuenctyd a morwynion yn meirw; y mae y gwr ieuanc o gynneddfau ysblenydd, a'r ferch ieuanc deg a diwylliedig, yn meirw; y mae y briodas-ferch yn ei dydd o hyfrydwch crynedig, y fam yn ei hawr o lawenydd newydd, a'r cadarn yn ngogoniant ei nerth,—o herwydd *hyn* y maent yn meirw. Y maent yn meirw,—*fel y byddo i bawb sydd yn fyw*, fyw yn mlaen dan yr ymwybyddiaeth dedwydd na wyddant *pa bryd y maent hwythau* i feirw. Y mae yr holl hil yn medi *llesâd o* farwoldeb anamserol. Y mae tanbeidrwydd a dy-

gleirdeb bywyd oll yn gyssylltiedig wrth feddau plant. Y mae y rhai sydd yn meirw yn fore, neu yn nghanol eu dyddiau, yn mwynhau y fantais tra y byddant byw. Ond fe fyddai y ddeddf yn cael ei throseddu, ac fe fyddai yn anghysson ac annaturiol, pe byddai *rhieni* yn *sicr* nad allai un plentyn ar un cyfrif farw nes y byddai yn ddiwrnod oed, neu yn fis, neu yn flwyddyn, neu ddwy flynedd, neu yn ddeg:—i fod yn drwyadl garedig, rhaid i'r ddeddf gael ei chario allan i'r pellder eithaf, a dyfod i weithgarwch o'r fynyd gyntaf y byddo bywyd yn bosibl. Hyn yw yr achos fod babanod yn meirw;—y maent yn meirw trwy weithrediad ail ddeddf o'r fath garedicaf, wedi ei dwyn i fewn i deri gerwindeb y gyntaf! Ac y maent yn meirw *er llesâd yr hiliogaeth.* Cymmerir ymaith eu bywydau, er mwyn sicrhau dedwyddwch y byd. Yr oeddwn bron a dyweyd—a gallwn ei ddyweyd a siarad *mewn cyffelybiaeth*—y gellid tybied fod baban yn ei arch yn edrych at ei rieni wylofus fel "Crist marw" bychan! Y mae wedi marw yn ddirprwyol,—i sicrhau mantais dymmorol i'r byd, fel y bu Crist farw yn ddirprwyol i sicrhau iddo waredigaeth ysbrydol. Y mae y naill yn marw, i ni beidio gwybod pa bryd y byddwn ni feirw; fe fu i'r llall farw fel y gallem wybod fod ein "Prynwr yn fyw." Trwy y naill ffaith, fe'n dysgir i oddef bywyd; trwy y llall, fe'n dysgir i farw mewn gobaith, ac i edrych yn mlaen at adgyfodiad y meirw. Bydded fod coron o ogoniant, ynte, yn cylchynu yr ael deg yma—ael y baban bach yma, sydd yn gorwedd yn oer ac yn farw yn y fan hon, ar lin ei fam! Fam druan! y mae dy dristwch yn fawr! Wyla yn mlaen;—gad i'r dagrau poethion ffrydio allan;—nid yw yn amser i siarad wrthyt yn awr. Ond yn bur fuan ti a ddeui i ddeall, pa fodd, trwy dy fywyd, y buost ti yn medi manteision *a ddaethant i ti trwy farwolaeth babanod pobl ereill;* a thi a ddysgi ymdawelu yn yr hyn sydd mewn gwirionedd yn weithrediad un o'r trefniadau caredicaf a osododd Duw. Y mae marwolaeth dy blentyn, *fel bod dynol,* yn deilliaw o bechod; ond y mae ei farwolaeth *fel plentyn* yn cymmeryd lle, am ei fod yn un o'r dosbarth a ddewiswyd o'r hiliogaeth—nad ydyw yn rhan nac yn neges iddynt fyw i *weithredu a mwynhau,* ond yn unig i farw,—ond er hyny, i farw er llesâd yr holl hiliogaeth, dros y byd oll!

Gyda golwg ar ffurfiau isel a chyffredin o fywyd, mi a fynwn i chwi ddeall ein bod i edrych am wir fawredd, nid mewn unrhyw ymddangosiad allanol, ond yn yr egwyddorion a allant lenwi, neu orwedd o dan bob ffurfiau allanol. Nid yw glanhäwr esgidiau, neu fanwerthydd, yn hynod o fawr fel y cyfryw; ond gallai fod yn fwy mewn cymmeriad nag arglwyddi neu freninoedd, fel y mae mewn gwirionedd yn fwy yn ei briodolion hanfodol fel dyn nag unrhyw seren neu haul, neu na'r holl heuliau a ser wedi eu dodi yn nghyd. Fe all ef *amcanu* ufuddhau i Dduw. Gall ef *fwriadu* gwneyd yr hyn a wna—yr hyn nid all yr un o'r cyrff planedawl; ac fe all fwriadu gwneyd *yn iawn;* bod yn gywir a chyfiawn; ac fel hyn gyflwyno ufudd-dod gwirfoddol i'r deddfau cyffredinol hyny o drefn foesol a berthynant i bob dealltwriaeth, ac hefyd iddo Ef yr hwn a'u sefydlodd hwynt. Gallai y bachgen bach yn y fan yna, gyda'i frŵs du a'i siaced goch, er gwaethaf budreddi ei orchwyl, feddu yn yr ystyr uchaf "ddwylaw glân;" ac er gwaethaf ei wisg arw, gallai fod ganddo, yn curo o dani, galon gwron. Edrychwch yn unig ar yr hogyn! Beth a ddygwyddodd iddo? Y mae gŵr boneddig, trwy gamgymmeriad, wedi rhoddi iddo bunt rhwng dau ddarn ceiniog, ac y mae newydd ganfod y peth! Fe red i ffordd oddi wrth ei gwsmer sydd yn dysgwyl wrtho, â ar ol y cyntaf—fe'i gwel yn y dyrfa, estyna iddo y darn aur, a dychwel at ei waith drachefn, gyda gwyneb gwridgoch, a mynwes guredig, wedi cael gollyngdod oddi wrth faich a allasai ei orthrymu, ond gydag ymwybodolrwydd a chydwybod sydd yn ei lanw â goleuni. Bendith ar y plentyn! Yn awr, fy machgen, gweithia yn mlaen! Y fath loywder wyt ti yn osod ar y fotasen yna! Ond yr wyt yn gwneyd dy waith *yn onest* mi welaf;—yr wyt *yn drwyadl* yn mhob peth. Dyna ryw beth! Yn awr, foneddigion, peidiwch a gofalu sut y siarado dynion nad ydynt yn gweled ond ffurfiau allanol pethau. Y mae y bachgen yna, wrth gyflawnu y weithred iawn yna, wedi taraw ar linyn sydd yn ymestyn trwy yr holl greadigaeth, yn cyffwrdd pob dealltwriaeth moesol, yn ymweled â phob byd, yn dirgrynu ar hyd ei holl barhad, ac yn trosglwyddo ei ddirgryniadau hyd yn oed i fynwes Duw! Y mae mwy o ogoniant, i lygaid bodau o urdd uwch, yn *gorphwys* ar y siaced goch yna, ac yn cael ei daflu oddi wrth

y fotasen yna sydd wedi ei gloewi yn onest, nag sydd i'w weled yn mhersonau neu weithrediadau llawer sydd yn gweithredu dros genedloedd, ac sydd wedi eu gwisgo mewn porphor. Atolwg, dysgwch ddeall fel y mae gan bob gwaith elfen ysbrydol ynddo; fel y mae gan y peth distadlaf ar y ddaiar ochr ddwyfol; fel y mae pob ffurfiau amserol yn cynnwys hanfodion sydd i fod yn dragwyddol. Beth bynag ydyw iselder galwedigaeth dyn, gall ei chyflawnu a'i dilyn ar egwyddorion sydd yn gyffredin rhyngddo ef a Michael neu Gabriel, neu rai o ysbrydoedd uchaf y nefoedd. Pe buasai angel yn dyfod i'r ddaiar, i fyw a gweithio yn nghyffelybiaeth dyn, ac yn y naill neu y llall o amrywiol alwedigaethau dyn, ni ofalai nemawr pa un a osodid ef i lywodraethu teyrnas, ai i werthu tripa. Fe weithredai ar yr un egwyddorion yn union, pa un bynag a wnai. Fe ddywedir yn yr Efengyl, gyda symledd a phrydferthwch anghymharol, fod y dysgyblion ar ol edrych y bedd ar fore yr adgyfodiad, wedi myned ymaith drachefn i'w cartref. Oddi wrth fyfyrio ar y rhyfeddod fwyaf mewn bod,—oddi wrth gyffyrddiad uniongyrchol â hi braidd, dychwelasant i'w tai ac at helyntion arferol bywyd cyffredin. Fel hyn y mae, fel y mae y Dr. Arnold, yr wyf yn meddwl, yn sylwi yn rhywle, mai meddyliau mawrion, yn gorwedd o dan ac yn rhoddi bywyd i ddyledswyddau bychain, ydyw gwir ddrychfeddwl Cristionogaeth ymarferol. Gallech gofio mai wrth gaethweision y llefara yr apostol pan yn dyweyd y byddent wrth wasanaethu eu meistriaid, "nid â golwg-wasanaeth fel boddlonrwydd dynion, ond fel gweision Crist;" trwy beidio "darn-guddio, ond dangos pob ffyddlondeb da;" trwy beidio "gwrth-ddywedyd," ond bod yn ddystaw gyda'r rhai "gwrthwynebus;" ac hyd yn oed cymmeryd eu "cernodio," yn "dda eu hamynedd"—dyrnodiau y gellid eu rhoddi am ddim cam, ond mewn nwyd a digofaint;—trwy wneyd a dyoddef hyn oll *ar yr egwyddor* o ffyddlondeb i Dduw, ac er mwyn boddhau eu Meistr Dwyfol,—fe ddywedir wrthynt y byddent yn "*addurno* athrawiaeth Crist;" y byddent yn gymmeradwy ganddo Ef, yr "hwn nid edrych ar yr ymddangosiad;" ond yr hwn, gan edrych ar holl *ffurfiau* bywyd fel pethau bychain, sydd yn sylwi ar yr hyn sydd oddi fewn, yn mhob dyn yr un fath, pa un bynag ai "caeth ai rhydd." Yn sicr i chwi,

wŷr ieuanc, y mae ffordd i edrych ar bethau, sydd yn eu gwisgo â phriodoliaethau uchel a gogoneddus, er gwaethaf pob peth a all ymddangos yn isel yn ein galwedigaethau, neu yn wael ynom ein hunain. Yn sicr i chwi hefyd, y mae deall pethau, a meddwl am danynt fel hyn, yn ffafriol i ansawdd meddwl iachus. Crist, ar orsedd ei Dad, gyda nefoedd a daiar yr un fath o dan ei lygad—eu holl breswylwyr ar waith gyda'u gorchwylion gwahanol ac amrywiol—yn sicr i chwi, nid ydyw Efe yn edrych yn gymmaint ar ddefnydd unrhyw weithred, mewn dull o ddyweyd, ag ar feddwl y gweithredydd; nid at y peth a wneir, ond at y rheswm a'r rheol y telid sylw iddynt wrth ei wneyd. Lle y gwelir fod *egwyddor iawn* yn cael ei chydnabod ac ufuddhau iddi, y mae *bywyd dynol*, dan unrhyw o'i ffurfiau iselaf a thlotaf, yn ngolwg ein hanwyl Arglwydd, *yn beth mor fawr a phrydferth* a bywyd yn yr wybrenau!

RHAN V.

Y GWAHANOL DYBIAU AM FYWYD DYFODOL.

WEDI i ni yn awr egluro a phrofi yr athrawiaeth a amddiffynwn, gyda golwg ar y ffordd sicraf i wneyd peth da o'r bywyd hwn, yr ydym yn dyfod yn mlaen at yr ymofyniad gyda golwg ar y parotoad diogelaf erbyn y nesaf. Nid oes ynom ddim petrusder yn nghylch yr atebiad sydd i'w roddi i hyn. Ffydd grefyddol—yn enwedig fel y rheoleiddir ac y ffurfir hi gan yr Efengyl;—ffydd grefyddol, yr hon, fel y gwelsom, sydd mewn ffordd o ganlyniad naturiol yn ffafriol i'r rhinweddau a droant y byd hwn i'r fantais oreu,—canfyddir mai yr un egwyddor yna, yr ydym yn credu, sydd yn *cyfansoddi* ein sicrwydd penaf am gael myned i mewn yn *llwyddiannus* i un dyfodol.

Ond y mae ein hathronydd, mi welaf, yn codi i siarad. Fe ewyllysia eto ddyfod â rhywbeth yn mlaen; neu efallai ei fod yn myned i'n hysbysu pa argraff a wnaed arno gan ein dadl flaenorol.

"Nid wyf yn myned i wneyd dim o'r fath beth. Y mae yn llawn ddigon o lafur i wrandaw, am ddwy awr neu dair, ar yr hyn nad ymddengys wedi y cwbl ei fod yn cael ei gredu hyd yn oed gan rai o'ch Cristionogion eu hunain! Yr ydych wedi cael mwy o anhawsder gyda hwynt, yr wyf yn meddwl, na chyda mi. O leiaf, nid atebasoch i mi ond mewn rhyw ddull anuniongyrchol; ond gyda'r gwrthddadleuon crefyddol, bu raid i chwi ddyfod i gyfarfyddiad uniongyrchol, ac ymafael â hwynt am amser maith. Ni ddywedaf pa un a ddarfu i chwi fy moddloni ai peidio. Yr wyf yn foddlawn i addef, yn wir, i chwi osod y mater mewn goleuni newydd neu ddau, a pheri iddo ymddangos braidd yn fwy rhesymol nag y dysgwyliaswn i chwi allu gwneyd. Yr wyf yn tybied eto, pa fodd bynag, fod fy athrawiaeth i o rinwedd yn llawer mwy anhunanol na'r eiddo chwi; o blegid nad oes genyf, yn llythyrenol, ddim dysgwyliadau. Nid wyf yn edrych am ddim. Gyda golwg ar ddiolchgarwch am yr hyn yr wyf yn fwynhau, nid wyf yn credu fod hyny nac yn angenrheidiol nac yn bosibl. Nid wyf yn trafferthu dim arnaf fy hun gyda diolchgarwch,—o blegid nid oes genyf un i fod yn ddiolchgar iddo. Yr wyf yn cymmeryd a allaf gael; yr wyf yn cael a allaf; yr wyf yn ymostwng i'r gwaethaf, neu i'r hyn nad ellir ei wella; a—dyna'r cwbl. Dyna fy athroniaeth i;—ac yr wyf yn meddwl mai athroniaeth bur resymol ydyw—yn enwedig i greaduriaid mor berffaith ddisylw ag ydym ni, y rhai ydym yma heddyw, ac i ffordd yfory; y rhai y mae eu dechreuad yn ddirgelwch, eu bywyd yn freuddwyd, a'u symmudiadau yn unig o dywyllwch i dywyllwch, neu o ddim i ddim.

'Pob dyn ddaw i'r byd yn dlawd ac yn llwm,
Fe ä drwyddo yn drist a'i ofal yn drwm,
'R ol treulio ber oes ar y ddaiar, efe
A ymâd—*nid oes neb a ŵyr i ba le!*'

"Ni chlywais i ddim erioed, na barddoniaeth na rhyddiaith, yn fwy gwir na hyn yna. Yr ydych yn cael athroniaeth gyflawn dyn a bywyd mewn pedair llinell. Gwn yn burion y

gallai y pwnc ymddangos yn wahanol;—ac ar amserau, *fe fydd* yn ymddangos felly hyd yn oed i mi. Byddaf y pryd hyny yn meddwl mor ryfedd ydyw y cynneddfau dynol, byddaf yn meddwl am brydferthwch a gogoniant y byd, am y moddion sydd genym i gyrhaedd gwahanol fwynderau, ac am y pwysigrwydd sydd mewn gwneuthur y goreu o'r presennol, gan nad allwn wybod dim am ddim arall. Pa olygiad bynag, er hyny, y gallaf deimlo ar fy nghalon ei goledd, ymddengys crefydd yn anghysson âg ef. Y mae naill ai yn chwanegu at drueni gwreiddiol y natur ddynol, trwy ei dychrynfeydd dychymygol, neu yn tynu oddi wrth bob peth sydd yn gwneyd bywyd yn fawr, yn wych, neu yn gyfaddas i'w fwynhau. O leiaf, yr ydwyf fi wedi teimlo hyn bob amser hyd yma. Pe gallwn gredu, fel yr ymddengys eich bod chwi yn credu, gallwn ddyfod efallai i feddwl yn wahanol. Ond nid wyf yn deall eich Cristionogaeth fodd yn y byd. Naill ai yr ydych wedi cael rhyw eiriad newydd arni, neu yr ydwyf fi wedi bod mewn camgymmeriad, neu yr oedd y llyfrau yr wyf fi wedi bod yn arfer eu darllen yn ei chamddarlunio yn gyfangwbl. Meddyliais bob amser ei bod yn rhywbeth gul, isel, a gwael;—nad allai oddef dim tebyg i chwaeth, gwyddor, celfyddyd, neu lenyddiaeth; ei bod yn cuchio ar fwyniant cymdeithasol, yn darostwng uchelgais, yn groes i bob golygiadau teilwng ar fywyd, ac yn anghefnogi ac yn gwahardd gwneyd y defnydd goreu o'r manteision sydd yn ein cyrhaedd tuag at fwyniant presennol. Fe siaredid am grefydd bob amser yn fy nghlyw i, a dysgrifiwn hi bob amser i mi fy hun, fel math o ddrychiolaeth, wedi ei gosod i fyny gan freninoedd ac offeiriaid, i ddychrynu pobl i waseidd-dra yn y byd hwn, trwy weithio ar eu hofnau o ddamnedigaeth yn y nesaf. Ond nid äf, sut bynag, i brofi gwirionedd na geudeb y golygiad yma. Ond yr ydwyf yn dymuno dyweyd rhywbeth, yr hyn, efallai, na ddygwyddodd ddyfod i'ch meddwl chwi, gyda golwg ar yr anmhosiblrwydd o fod sefyllfa ddyfodol o gwbl. Wrth reswm, os penderfynir hyny, dyna derfyn ar bob dadl yn nghylch parotoad iddi,—o leiaf i'r rhai sydd yn gweled mai felly y mae y peth.

"Dyna y peth y cyfodais i'w ddyweyd;—er fy mod wedi cael fy nenu i wneyd sylwadau ereill. Y mae arnaf eisieu *dyweyd* gair ar afresymoldeb y drychfeddwl o fod sefyllfa

ddyfodol o gwbl;—a'r gair hwnw mor bendant, fel y bydd yn rhaid i chwi addef nad ellir dysgwyl i mi, o leiaf gyda fy ngolygiadau presennol, wrandaw, ond gyda gwên, ar unrhyw beth yr ydych yn awr yn myned i'w ddwyn yn mlaen.

"Gallaswn sylwi, yn wir, nad ellwch wneyd dim o neb a ŵyr sut i feddwl mewn gwirionedd; o blegid nid ellwch ond ailadrodd y dwyllresymeg arferol mewn perthynas i'ch testyn. O leiaf, nid oedd yr holl ymresymu Cristionogol a glywais i arno erioed, yn ddim yn y byd ond ymresymu mewn cylch. Rhydd y pregethwr yn gyntaf ddysgrifiad o Baradwys y Testament Newydd; ac yna ä yn mlaen i ddangos mor union a sicr yr arweinia *llwybr y Testament Newydd i Baradwys* iddi! Wel, nid oes dim ymresymu mewn peth fel yna. Pa ddyben dyweyd wrthym fod y nefoedd yn lle fel a'r fel, gan gymmeryd eich golygiadau o'r llyfrau Cristionogol; ac yna dyweyd, *gan hyny* crefydd y llyfrau hyny ydyw y parotoad goreu iddi. Mae hyny yn wir pe *caniateid* ei drychfeddwl ei hunan am y dyfodol! Fe fuasai unrhyw ffwl o brophwyd, a fuasai yn dyfeisio nefoedd i'w mwynhau ar ol hyn, yn meddu digon o synwyr i wneyd i fyny ryw beth cyfaddas iddi, wrth ddyfeisio ei grefydd, yr hwn fuasai i gael sylwi arno yma. Ni fyddai yr hwn, pe b'ai ganddo ddau beth i'w dyfeisio, ond tlawd yn wir, mewn medr, a dall mewn amcan, os nad allai rywfodd eu gwneyd yn gymhwys i'w gilydd. Ond, nid ellwch lai na gweled nad oes dim grym yn y fath gymhwysder i'r hwn sydd yn credu nad oes, ac nad all fod un nefoedd o gwbl. Y mae y ddau syniad—y Baradwys, a'r llwybr iddi—yn sefyll neu yn syrthio yn nghyd; a chan nad ydyw y naill yn ddim ond darn o waith dychymyg, mae y llall wrth reswm yn myned yn ddim. Pa mor gywrain bynag y byddont wedi eu cymhlethu mewn cyfundraeth ddamcanawl, neu ddarlith o ddamcaniaeth bur, fel pwnc o ffaith, nid oes yn sicr ddim cyssylltiad rhyngddynt. Nid ydyw y naill, yn lle bod yn arwain i'r llall fel parotoad iddo, yn ddim mwy na llai na pharotoad sydd yn arwain i ddim.

"Ond nid wyf yn aros ar hyn;—er y gwn, yn mlaen llaw, nad ellwch ymarbed rhag syrthio i'r twyllresymiad. Y mae hyny, sut bynag, yn perthyn i chwi—nid i mi. Yr hyn sydd arnaf eisieu ei amlygu yw, y sail ar ba un y dymunaf ym-

wrthod â thalu y sylw lleiaf-i ddim a ellwch ddyweyd am fyd arall. Hyny, mewn geiriau eglur, yw hyn:—Nid wyf yn credu fod Duw; ac os nad oes Duw, nid all mewn un modd fod un bywyd dyfodol i ddyn. Pan gofleidiwn, syr, y gwirionedd mawr am dragwyddoldeb y greadigaeth, a thaflu ymaith y twyll anferth o Dduwdod *personol*, wel, wrth reswm, y mae syniadau am fywyd arall, anfarwoldeb dyn, sefyllfa ddyfodol, a'r holl bethau yna, yn diflanu yn llwyr, neu ryw beth gwaeth. Gallech arbed i chwi eich hunan y drafferth o ddyweyd dim chwaneg—o leiaf o'm rhan i. Yn wir, yr wyf yn meddwl mai y peth doethaf allem oll wneyd yn awr, fyddai myned adref. Gadewch i ni waghau y neuadd, diffodd y goleuni, a gwneyd ein hymadawiad, a gadael y lle mawr yma i ddystawrwydd a thywyllwch—delw a rhagflaeniad y tawelwch diadsain, a'r tywyllwch tragwyddol, i ba rai, *yn ddiddadl*, y byddwn yn myned yn y diwedd. Nid oes Duw—ac heb Dduw nid ellwch addaw dim i ni."

Nid ydwyf mor sicr o hyny. Nid ydyw mewn un modd mor eglur ag yr ymddengys eich bod yn tybied, os nad oes Duw, nas gall fod sefyllfa ddyfodol. Mae eich rhesymeg, fy nghyfaill, mor ddiffygiol, yr wyf yn ofni, a'r hon y tybiech braidd yn rhy fyrbwyll fy mod i am fyned i'w defnyddio. Yr wyf yn foddlawn i addef fod rhywbeth unwaith yn yr hyn a ddywedech. Cyn i wirionedd Cristionogaeth gael ei sefydlu, trwy ryw foddion arall, fe *fuasai* yn rhywbeth tebyg i ymresymu mewn cylch, i gymmeryd yn gyntaf ei drychfeddwl hi ei hun am nefoedd, ac yna profi mai yr hyn yr oedd *hi* yn ei ddangos oedd y ffordd oreu yno. Neu i osod y peth yn wahanol, ac efallai yn well, fe fyddai dyweyd — gan fod rhyw lyfr, a gredir gan rhyw ddosbarth o bobl, yn cyssylltu priodoliaethau fel hyn ac fel hyn wrth fyd dyfodol, yna, mai y parotoad a orchymyn efe erbyn y byd hwnw ydyw parotoad goreu DYN erbyn bywyd arall:—buasai hyn yn gasgliad rhy eang o lawer. Gallaf ddeall yn burion, na fuasai grym yn hyn i un ag yr oedd ei olygiadau yn gyfryw a'r eiddo chwi; er y gallaf ddeall hefyd pa fodd, i gredadyn difrifol—un a ddaethai, trwy ffordd arall o feddwl at yr argyhoeddiad fod y llyfr yn ddwyfol,—gallaf ddeall, meddaf, pa fodd y gall *yr hyn* oedd yn ddirym gyda chwi, yn gynhyrfiol iddo ef, a *chael ei* deimlo fel yn gweinyddu iddo galondid a dyddan-

wch. Coeliwch chwi fi! y mae eich gosodiad a'ch casgliad yn llawn mor anmherthynasol â'u gilydd, ag ydyw eiddo y pregethwyr y dywedwch i chwi rai troion eu clywed. Mae yr eiddoch chwi yn gorwedd yn nghyd ochr yn ochr, mewn llawer o feddyliau, yr wyf yn addef,—ond nid oes gwir berthynas rhyngddynt er hyny i gyd. Y mae rhai sydd yn gwrthod y ddau, yn meddwl y byddai y naill yn deilliaw o'r llall—*nad allai* yn sicr ddim bod bywyd dyfodol, pe na byddai un Duw. Y mae y rhai a ddywedant eu bod yn *credu* nad oes un Duw, yn dyweyd hefyd eu bod, am y rheswm yma, yn credu nad oes bywyd dyfodol. Ystyrier fod y naill nacâd yn cynnwys y llall o angenrheidrwydd. Ni ddywedaf—yr hyn, yr wyf yn ofni, mewn rhai amgylchiadau, a ellid ei ddywedyd—fod y naill yn cael ei fabwysiadu er mwyn y llall; gan fod yr ail yn cael ei ddymuno, fod y cyntaf yn cael ei gredu.

Ond yn awr, fy nghyfaill, gan i chwi fod mor dda a dangos pa linell o ymresymiad *nad* wyf i'w defnyddio, er nad oedd genyf un bwriad i'w defnyddio, er i chwi feddwl na allai un dadleuydd Cristionogol wneyd dim arall; a chan, yn mhellach, y cymmerwch eich lle yn ngwaelod isaf pob anghredíniaeth, ni fyddai yn anaddas, efallai, i ddisgyn atoch gan ddechreu gyda chwi eich hun. Yr wyf yn meddwl y byddwn drwy hyn yn dechreu yn y pen. Y mae eich athrawiaeth yn un o'r rhai mwyaf pendant a ellir ei dychymygu. Gesyd o'n blaen y nifer leiaf sydd yn bosibl o ddefnyddiau, gan sicrhau wrth ddechreu nad allwn wneyd dim â hwynt. Y mae y greadigaeth fawr yma, mae'n wir—ond nid oes un Person adnabyddus ynddi yn fwy na ni ein hunain. Oddi eithr rhyw ffurfiau dirifedi o fater, ar ddulliau heuliau a ser, y rhai a breswylir, efallai gan fodau bywiol a sylweddol cyffelyb i ni ein hunain, ac yn farwol, mae'n debyg, a'u bywydau efallai o barhâd byrach neu hwy na'r eiddom ni, ond oll yn cael eu cau i fewn rhwng y ddau ddystawrwydd—y tywyllwch o ba un y daethant, ac i ba un y maent yn myned—oddi eithr y pethau hyn, nid yw yr eangder diderfyn ond gwagder mawr. Ni fu erioed *Greawdwr* iddynt, na neb sydd yn eu *llywodraethu*—un Meddwl nac Ysbryd, gyda'i gynllun blaenorol, ei fwriad yn cael ei ddwyn i weithrediad, a'i amcan eithaf mewn golwg ganddo: ac, o blegid hyny, y mae

yn anmhosibl y gall fod bywyd dyfodol i ddyn. Dyna eich golygiad chwi. Da iawn. Gadewch i ni ddechreu, ynte, gyda hyn yna. Ni a ddisgynwn gyda chwi i'r lle y sefwch arno; ac, wrth aros yno, gan ymdrechu treiddio i'r tywyllwch tew—yn isel i lawr fel y gallem fod yn y dyfnder anmhlymiadwy—ni a gawn weled ai nid allwn ddarganfod, fel yr edrychwn i fyny, ryw bwynt dysglaer, digon i feithrin gobaith, neu i'w wneuthur, o leiaf, yn ormod o antur i haeru yr anmhosiblrwydd hollol o fyd arall. Wedi ennill un cam, gallem gynnyg un arall. Efallai y gallem lwyddo! Ac yna, pwy a ŵyr nad allwn ganfod ein ffordd i'r fath uchder ag a all roi golwg i ni "ar ogoniant, anrhydedd, ac anfarwoldeb," yn ymestyniad mawreddig yr eangder o'n blaen: a'r hwn all fod hefyd yn gyfryw ag a all—i olwg eglur rheswm pur, ac i ymwybodolrwydd dedwydd ffydd oleuedig—gysylltu ei ddarganfyddiadau o ddaioni dyfodol â rhywbeth presennol; sef bywyd tufewnol a rhinweddau dwyfol yr egwyddor Gristionogol.

PENNOD II.

"NID oes un Duw; a chan hyny, nid all fod bywyd dyfodol i ddyn." Yn awr, yr wyf yn ammheu hyn yna. Nid wyf yn meddwl fod y naill beth yn canlyn mor anffaeledig ac angenrheidiol oddi wrth y llall. Wrth gymmeryd y dybiaeth yna, gallai fod bywyd dyfodol yn annhebygol; er fod llawer o dybiau hyd yn oed yn erbyn hyny:—ond ei fod yn eglur ac yn hollol anmhosibl, sydd yn gasgliad tra byrbwyll a hyf.

Gellid cyfarfod y gosodiad mewn ffordd debyg i'r hon y mae Foster, yn ei "Draethodau," yn cyfarfod y dyb Atheistaidd ei hunan. Nid all un dyn *wybod* nad oes un Duw, neu nad oes mewn un man brawf diymwad o'i fodolaeth a'i briodoliaethau ef; o blegid fe fyddai raid iddo fod yn gydnabyddus nid yn unig â'r byd hwn a'i holl ffeithiau, ond â phob un arall, a'u holl ffeithiau hwythau. Rhaid iddo wybod pob peth, a gwybod am bob bod yn mhob lle trwy gylch *eang y bydysawd* anferth hwn: ac os na bydd yn gwybod *felly, nid* all fod yn *sicr* nad allai fod, yn rhywle, brofion o

law ddwyfol, trwy ba rai y byddai hyd yn oed iddo ef gael ei argyhoeddi. Y mae yr un anhawsder yn sefyll ar ffordd gwadiad o fywyd dyfodol, ond ei fod yn meddu grym cadarnach a mwy penderfynol; o blegid yn lle gyru yr anghrediniol i drychwilio bydoedd ereill nad ymwelodd â hwynt, i ymofyn am brawf a ddichon efallai hanfodi, y mae yn ei gymmeryd ac yn siarad âg ef lle y saif,—yn gofyn iddo ystyried yr hyn sydd yn gorwedd o'i amgylch, ac uwch law iddo, a myfyrio ar y ffaith o'i fodolaeth ei hunan.

Y mae y peth yn gorwedd mewn ychydig o gwmpas. Mae natur a dyn yn sylweddau sicr. Rhaid i ammheuaeth bendant—y dyb sydd yn dadansoddi yr holl fyd allanol i ddrychfeddyliau tufewnol y meddwl ei hunan—rhaid, meddwn, hyd yn oed i hyn *gael* meddwl â pha un y gweithia—bodolaeth wirioneddol, yn mha un y gall drychfeddyliau hanfodi. Er na byddo dynion ereill yn ddim ond argraffiadau arno, neu syniadau a gynnyrchir ganddo, rhaid iddo ef ei hunan, o leiaf, fod yn rhywbeth—a chael rhywbeth yn *bodoli* yw yr oll sydd arnom eisieu. Ni thybiwn, pa fodd bynag, fod ein cyfaill yn amddiffynydd i'r gyfundraeth hon; er y gellid, ar ei sail hi, wneyd y ddadl y cyfeiriwn ati yn gryfach nag ar y dybiaeth o fyd sylweddol. Gan fod natur a dyn, ynte, fel y dywedasom, yn sylweddau sicr; gan hyny, wrth reswm, y *maent yn bodoli*. Ond gan eu bod, rhaid fod y gallu hwnw, beth bynag y gallasai fod, trwy ba un y cynnyrchwyd hwynt, neu trwy ba un eu cynnelir—Damwain, Dygwyddiad, Angenrheidrwydd, Trefn Dragwyddol pethau, neu rywbeth arall y dewiswch ei alw—y peth hwnw, yr hwn, rywfodd neu gilydd, a fu yn alluog i'w dwyn i fodolaeth, rhaid ei fod yn alluog hefyd i'w cynnal mewn bodolaeth barhaus:—rhaid addef fod yr hyn ydoedd ddigonol i ddwyn dynion i fodolaeth o gwbl, yn alluog hefyd ar gyfer parhad eu bodolaeth, hyd yn oed dan ffurfiau newyddion, mewn amgylchiadau gwahanol, ac mewn byd arall. Gwn yn eithaf da ein bod ni, ïe, nyni, y rhai ydym yn credu yn Nuw, yn credu fod terfynau i'w hollalluogrwydd. Y mae pethau nad all Efe eu gwneyd, o blegid y cynnwysent anghyssondeb anianyddol. Wrth reswm, y mae yr un terfynau i'r hyn a roddodd ddechreuad i'r greadigaeth, beth bynag ydoedd, os rhoddwyd dechreuad iddi; neu i alluoedd hanfodol y greadigaeth, os oedd hi yn

dragwyddol. Ond yr ydwyf yn gwadu fod yr hyn yr ydyn ni yn ei amddiffyn yn bresennol yn beth sydd yn myned y anianyddol tu hwnt i alluoedd natur. Y natur hono syd yn rhwymo yr holl fydoedd yn nghyd mewn un gyfundref fawr, sydd yn peri trosglwyddiad goleuni o'r naill i'r llall, a sydd yn taenu yn mysg y cyfan yr hyn sydd yn cynnal per thynas ddirgelaidd, ond eto wirioneddol, rhyngddynt oll y natur hono, gyda'r hon nid oes y fath beth a dyfethdod, a' hon nad yw byth yn dyddymu un gronyn o fater, ond yr hon yn nghanol pob cyfnewidiadau yn ffurfiau pethau, sydd yn cynnal mewn bod ac yn bytholi yr hyn a gyfansodda eu han fod; wel, y mae yn rhaid fod yn *bosibl* i hona fytholi *meddwl* a chynnal mewn bod yr hyn y rhaid hyd yn oed i'n cyfail yma ei addef, sydd yn meddu teithi ardderchocach na din a berthyna i ronynau eithaf ac elfenol *pethau*. Nid all fod yn sicr, gan hyny, nad oes bywyd dyfodol yn nghadw iddo, er tybied nad oes Duwdod personol yn Greawdwr ac yn Llyw odraethwr. Gallai fyw ar ol hyn, a bod yn berffaith wy byddus mai yr un bod deallgar, sydd yn meddwl ac yn teiml yn awr, a fydd y pryd hyny, er i draws-symmudiadau a chyf newidiadau mawrion gymmeryd lle. Beth! y mae yn wel edig i ni, y fynyd yma, gan belled ag y gallwn ei weled *ef* gwbl, mewn diwyg allanol o fater, pob gronyn o'r hon syd yn wahanol i'r hyn a wisgai, a'r hyn a alwai ei hunan, neu e gorff, ddeg neu ugain mlynedd yn ol. Y mae ei ymwybod olrwydd yr un—y mae *efe* yn parhau i fodoli; y mae ei go ei gydwybod, a chymdeithasiadau ei feddwl, oll yn myned yn mhell tu hwnt i'r amser pan oedd y gronyn henaf o'i gyfan soddiad corfforol yn chwyfio yn y meusydd, yn ymsymmu yn y dolydd, yn ehedeg yn yr awyr, neu yn nofio yn y môr Yr oedd yr hyn sydd ganddo yn awr fel trosglwyddydd e ewyllys, cyfrwng teimlad, y ddolen a'i cyssyllta â phetha allanol, ychydig flyneddau yn ol, yn rhywbeth oedd i ddyfod —rhywbeth nad *ydoedd* yr hyn *ydyw*, ond yr hwn, fel y cyf ryw, oedd i *fod*, neu i ddyfod y peth hwnw, er i'r meddwl yr ymwybodolrwydd, sydd yn byw ac yn gweithio drwyddo aros yr un—yr hyn ydoedd, yn ei wybodaeth, yn ei gof, a yn ei hunaniaeth moesol, yr un a'r hyn, yn iaith Paul, sydd yn y cyfamser, wedi ei "ddiosg" a'i "arwisgo" dra chefn.

Yn awr, yr oll a ofynwyf oddi wrth ein cyfaill yma, gwrthddrych y cyfnewidiad rhyfedd ond diammheuol hwn, ydyw, addef fod yr un gallu ag sydd yn ddigon i *hyn*,—yn ddigon i ddwyn allan fel hyn, yn yr un person, gyfnewidiad allanol, gan gadw yr hyn sydd oddi fewn, neu ei hunaniaeth hanfodol, yr un,—a'r hwn, rywfodd neu gilydd, sydd wedi dwyn i fod, neu sydd yn rheoli y sêr, gyda'r oll a berthyn i fodolaeth bywyd trwy y greadigaeth i gyd,—yr wyf yn gofyn iddo addef, y dichon y *gallai* yr un nerth yma, beth bynag ydyw, gynnwys yn ei gynllun rhyfeddol,—neu, yn hytrach, feddu y modd i weithio allan, heb ei *gynllunio*,—*fytholiad* neu *barhad* ymwybodolrwydd dyn pan mae ei gorff yn cael ei gyfnewid *yn sydyn*, yn gystal a phan y cyfnewidir ef yn raddol, o ronyn i ronyn. Cofiwch! nid wyf yn gofyn iddo ddyweyd fod hyn yn gredadwy, neu yn debygol, neu yn hawdd i'w amgyffred; neu yn ddim o'r fath yna; nid ydwyf yn gofyn ond iddo addef ei fod yn *bosibl*, y *gallai* fod:—a thybiwyf y gallwn chwanegu, y gallwn ei herio i'w wadu,—ei herio i sicrhau fod y peth yn anmhosibl, neu y gellid profi ei fod felly trwy unrhyw fath o ymresymu. Yn wir, hyd yn oed ar ei dybiaeth ef—nad oes dim yn y bydysawd ond nerthoedd tragwyddol ac angenrheidiol, yn dall gynnyrchu eu canlyniadau anocheladwy—yr ydwyf yn barod i ddal, fod, nid yn unig yn bosibl y gallai fod i ni fywyd dyfodol, ond yn dra thebygol y bydd. Oblegid, sylwch!—nid oes un reddf, mewn un creadur, trwy natur oll, heb rhyw wrthddrych cydweddol yn cyfateb iddi:—y mae yn y ddynoliaeth, dros y byd, y rhagddysgwyliad greddfol, neu y syniad am fywyd dyfodol; yn awr, gan nad ydyw natur byth yn twyllo, gan fod ganddi bob amser ystyr yn ei hawgrymiadau a'i chynhyrfion, pa un bynag a ydyw dynion yn cael gafael *yn fanwl* ar ei arwyddocâd ai peidio, y mae yn debyg iawn, fod rhywbeth neu gilydd, beth bynag allai fod, yn cyfateb i'r awgrymiad greddfol yma o eiddo dynoliaeth, yr hwn, mewn amser a ddaw, a ddygir allan yn unig fel rhan o drefn dragwyddol ac angenrheidiol pethau,—os *dyna* ydyw ffynnon pob peth. Dadl debyg i hon, yn cael ei seilio ar ffaith gyffelyb, ydyw, mewn gwirionedd, un o'r rhai cryfaf mewn amddiffyniad i'r dybiaeth o Dduw personol. Nid ydwyf fi yn pwyso ar y naill na'r llall. Ond yr wyf yn haeru,—ac yn beiddio neb i

wadu,—y *gallai* y peth fod, fod gan beiriant mawreddog a galluog y byd, yr hwn sydd yn weithredol wedi dwyn allan fywyd a meddwl, yn y ffurf o ddealltwriaeth rhesymol a chrefyddol a elwir *dyn*;—*gallai* y peth fod, meddaf, fod gan y peiriant yma, yn unig fel y cyfryw, nerth digonol o'i fewn i ddwyn allan iddo fodolaeth *barhaol* mewn sefyllfa arall;—tra y bydd efe yn parhau yn hanfodol yr un bod, yr un i bob amcan a dyben, yn dal ei gof a'i ymwybodolrwydd dynol, ac yn dwyn gydag ef, pa le bynag yr ä, y wybodaeth o ffeithiau ei fodolaeth presennol, a chanlyniadau ei brofiad yn y byd hwn.

PENNOD III.

WEL, ynte, a thybied, neu addef, y posiblrwydd noeth, dansoddol, o hyn, gadewch i ni ymofyn pa fath fywyd y mae genym reswm i feddwl fyddai yr ail fywyd yna o eiddo dyn; yr hwn, yn ol y dybiaeth, a *allai* fod yn eiddo iddo, ar y gred Atheistaidd, neu y gwadiad o Dduw personol?

Ymddengys i mi y byddai ail fywyd dyn, neu ei ail ffurf o fywyd, ar y gred yma, yn cael ei ddynodi gan ddau beth. Yn gyntaf, trwy iddo barhau i fod dan lywodraeth yr un deddfau yn hollol ag sydd yn ei gylchynu yma, gan belled ag y goddef ei sefyllfa; ac yn ail, trwy i'r bywyd ei hunan fod yn chwanegiad, neu yn alluog o fod felly, ar yr un presennol. Ni a ddysgwyliem iddo fod yn fywyd yn yr un bydysawd; ond dysgwyliem iddo gael ei ddynodi gan gynnydd, neu gyfleusderau rhagorach er cynnydd—graddol, efallai, ond yn sicr yn ymagoriad pellach i'n natur.

Yr wyf yn ystyried y ddau beth yna fel nodweddion tebygol y bywyd dyfodol hwnw o eiddo dyn, a allai berthynu iddo trwy syml ymweithiad allan ganlyniadau deddfau a nerthoedd cynhenid natur.

O blegid, yn y lle cyntaf, gan belled ag y gallwn ni amgyffred neu wybod dim am y bydysawd, y mae athroniaeth yn awgrymu, ac y mae gwyddiant yn dysgu, ei fod yn *un*;—yn gyfanwaith mawr, wedi ei glymu a'i rwymo yn nghyd, yn *cael* ei ddal a'i dreiddio gan yr un deddfau, y rhai sydd yn *ymestyn* ac yn gweithredu yn mhob man. Yr un deddfau

anianyddol, dan ba rai y gosodwyd y byd, a lywodraethant y planedau hefyd. Yr ydym yn berffaith gydnabyddus â rhai y maent hwy a ninnau yn cyd-ufuddhau iddynt, y naill a'r llall yn grugiau ymsymmudol yn yr eangder, ac yn rhanau o'r un gyfundrefn heulawg. Y tebygolrwydd yw, y gall fod gweithrediad yr un deddfau ar wyneb y bydoedd sydd o'n hamgylch, ag sydd yn gweithredu ar wyneb ein daiar ni, yn nghyd âg effeithiau ac ymddangosiadau yr un o ran natur, er efallai yn wahanol mewn ffurf,—yn gysson â'r cymmysgiad hwnw o unffurfiaeth ac amrywiaeth a ymddengys sydd yn rhan o drefn naturiol pethau. Fel planed, y mae ein byd ni yn gymmaint yn y nefoedd ag unrhyw fyd arall—rhan ydyw o'r cyfan mawreddig hwnw, yr hwn trwy yr eangder i gyd sydd yn hanfodol yn ymestyniad a mynychiad o'r un peth. Nid oes genym fwy o reswm dros feddwl fod y bydoedd planedawl ereill yn dra gwahanol i'r eiddom ni, nag sydd gan eu preswylwyr *hwy* i feddwl fod yr eiddom ni, (sydd yn gymmaint yn yr wybren a'r eiddynt hwythau), yn wahanol, mewn amlygiadau sylweddol neu drefn anianyddol, i'r eiddynt hwy. Drachefn, os oes dealldwriaethau ysbrydol mewn rhanau ereill o'r bydysawd, mae yn anmhosibl amgyffred y *gall* deddfau eu bodolaeth moesol—yr oll sydd yn gorchymyn ac yn rheoleiddio gweithred foesol—fod yn wahanol i'r gyfundrefn foesol sydd yn dwyn cyssylltiad â ninnau. Gall fod gwahaniaeth mewn gallu meddyliol; gwahanol ddulliau o ganfyddiad, o gyrhaedd, a chyfranu gwybodaeth; ond nid all fod yno safon wahanol o'r hyn sydd iawn a'r hyn sydd feius. Rhaid i gyfiawnder a gwirionedd, purdeb a haelfrydedd, fod yr un yn mhob man o ran egwyddor. Nid all fod byd yn yr hwn y mae yn iawn ysbeilio a dywedyd celwydd, ac yn feius a drygionus bod yn onest a diffuant. Mor sicr a bod holl gyfundrefn pethau yn cael ei rhwymo yn nghyd gan yr un dylanwadau, y rhai sydd yn ymestyn ac yn gweithredu trwy yr holl eangder, mor sicr a hyny (ïe, mwy sicr) ydyw, fod y byd moesol yn cael ei reoli yn mhob man gan yr un deddfau o weithrediad moesol. Os ydyw natur, gan hyny, i ddwyn allan fywyd dyfodol i ddyn, gallwn fod yn sicr y bydd y bywyd hwnw yn ddarostyngedig i'r un deddfau ag yr ydym danynt yma, ac sydd hefyd yn gofyn ufudd-dod genym. Hyny yw, a thybied y deuwn i

gyfeillach â natur. Nid yw gyfrwng sylweddol o ganfo
a gweithredu,—er i ni fod mewn gwirionedd, yn ysbrydio
heb gorff,—ni a [illegible] i gyfryddiad â chymmaint o ddedd
sylweddol ag a ddichon ein ffurf newydd o fodolaeth i ni. O
ydyw yn bosibl i ni gael ein gwahanu yn hollol oddi wr
sylwedd, gallem fod uwchlaw gweithrediad nerthoedd sy
weddol. Yn y naill achos neu y llall, gallem gael galluoed
newyddion, yn cael eu dwyn allan o honom, neu yn cael e
rhoddi i ni, a'n cyfaddasu o ran ein meddwl at ddulliau n
wyddion o ymwneyd â natur ac â gwirionedd; ond nid alle
gael amgyffredion *moesol* hanfodol wahanol; ac nid ell
meddwl mewn modd yn y byd y gallai fod rhestr newydd
ddeddfau—yn enwedig rhestr wrthwynebol—i reoleidd
bywyd rhinweddol, neu wneyd cyfnewidiadau pwysig yn e
syniadau am rinwedd.

Ond, yn yr ail lle, a barnu wrth yr hyn oll a allai athro
iaeth awgrymu, ac a gadarnhâai cyfatebiaeth—ymresyn
oddi wrth ffeithiau y meddwl, a hanes y byd—ac ymgo
oddi wrth hyny, nes y gallwn anturio ar dybiau gyda gol
ar ddeddf fawr y greadigaeth foesol—ar y seiliau hyn, y
ddangosai yn debygol y gellid ystyried ail fywyd dyn
welliant ar y cyntaf; y canfyddid mai cynnyddu ac ymag
y mae deddfau sefydledig bodolaeth; ac os na welai dyn f
ei sefyllfa wedi ei gwella, nad allai hyny godi ond oddi w
rywbeth trwy ba un y darfu iddo ef droseddu a myned
erbyn trefn pethau, a rhwystro nerthoedd natur yn eu gwei
rediadau rhydd a phriodol. Er gwaethaf yr hyn a ymdda
osai yn farbariaeth anobeithiol llwythau cynfrodorol;
ac er gwaethaf symmudiadau gwrthgerddol a helyntion
lwyddiannus rhai cenedloedd, ac hyd yn oed hollol ddyddy
iad rhai ereill;—er hyny i gyd, y mae y byd wedi bod b
amser ar gynnydd. Y mae cynnydd yn ddeddf gyffredi
dynoliaeth. Y mae bod yn iach mewn meddwl, moesold
a chymdeithas, yn crogi ar hyn. Ac y mae hyn, ar y cyf
wedi bod yn amlwg bob amser, ac yn mhob man, er f
personau yn sefyll ac yn llygru, a chenedloedd a phoblo
yn cael eu gwasgaru a'u dinystrio. Nid yw y pethau h
ond cynhwrf y tonau ar y traeth, y rhai a ymddangosant
yn myned yn ol, er fod gorlifiad y llanw yn dyfod i mewn
gysson yr holl amser, ac yn codi yr eigion dros ei holl wyne

Y mae cyfnodau mawrion yn hanes y ddaiar—yr adgofion o'r hyn a aeth heibio, y rhai sydd wedi eu hargraffu ar ei gwyneb, adgofion amser, cynnydd gwybodaeth—llenyddiaeth, gwyddoriaeth, moesoldeb cymdeithasol—oll yn amlygu ac yn dadgan yr un peth. Cynnydd yw deddf y greadigaeth—ymddadblygu yn berffeithiach a pherffeithiach, derbyn mwy, cyrhaedd golygiadau dyfnach, a mwynhau goleuni purach. Wrth reswm, fe fyddai y cyfnod pwysicaf a allai gyfarfod â pherson, neu â'r hiliogaeth, sef genedigaeth i ail fywyd, yn rhyw ysgogiad *yn mlaen*, neu yn rhywbeth a allai gyfansoddi symmudiad yn mlaen. Cefais beth anhawsder i ochel y gosodiad, y byddai iddo gael ei *fwriadu* neu ei amcanu at hyn; ond yr ydwyf wedi ei ochel, o blegid y mae y fath eiriau yn rhagdybied Dealldwriaeth i "fwriadu," ac y mae ein tybiaeth bresennol yn cau allan y syniad yna. Ni ddywedais ychwaith y byddai y bywyd nesaf yn welliant anffaeledig a sicr —yn fynediad yn mlaen yn ddilys ac o angenrheidrwydd yn amgylchiad pob person; o blegid ni byddai hyny yn gysson âg ammodau y byd presennol, yr hyn sydd yn ei ddynodi fel rhan (mae yn dra thebyg) o fydysawd ammodol. Wedi i ddynion unwaith dderbyn bywyd a gallu, y mae eu gyrfa ddyfodol yma yn cael ei gadael iddynt eu hunain, trwy gyfansoddiad yr hyn a elwir natur;—fe'n gorfodwyd, gan hyny, i ddefnyddio iaith gyda golwg ar y dyfodol, yr hon sydd yn gadael lle i achosion eithradol, tra y sicrha ei gymmeriad cyffredinol. Mewn perffaith gyssondeb, pa fodd bynag, â'n holl ofal rhag dangos dim yn fwy nac yn llai nag ydyw, yr ydym yn sicrhau, os bydd bywyd dyfodol i ddyn (yr hyn a allai fod) yn unol â'r gred atheistaidd, ei fod mor eglur ag y mae yn bosibl i ddim ei wneyd, y bydd yn ddarostyngedig i'r un deddfau ag yr ydym ninnau danynt yn awr, ac y gall fod yn welliant ar y bywyd presennol:—yn debyg fel y mae plentyn wrth ddyfod allan o'r groth yn cael ei gylchynu, yn ei ail sefyllfa o fodolaeth, gan yr un deddfau anianyddol ag oedd yn ymwneyd âg ef o'r blaen, wedi eu tymheru a'u cymhwyso at ei ffurf newydd o fywyd—ac yn dyfod allan hefyd i ymagoriad uwch o'r priodoliaethau hyny o eiddo ei natur, y rhai oedd ganddo yn hanfodol o'r dechreu. Dyma y *ddeddf*, er y gallai rhai plant gael eu geni yn fyddar a dall, yn annheimladwy o argraffiadau oddi wrth yr awyr a'r goleuni i ba rai y

maent yn dyfod; rhai yn hurt; yn analluog i wneyd unrhyw gynnydd neu welliant o gwbl; a rhai yn feirw, i ba rai y mae yr awyr yn achosydd llygredigaeth, yr hwn sydd i'r byw yn elfen bywyd.

Fel hyn, a sefyll gyda'n hathronydd yn eithafoedd isaf pob peth tebyg i grediniaeth, ymddengys fod yn bosibl, ïe, oddi yma, i ganfod uwch ben belydr gwanaidd o oleuni, a all fod yn seren euraidd byd arall, o ran dim a all *efe* ddywedyd! A thybied mai felly y mae—yna, gan fod yn rhaid i'r byd hwnw, o angenrheidrwydd, fod yn gyfryw ag a ddysgrifiasom, yr ydym yn sicrhau, yn nesaf, mai *hwnw* fydd wedi ei barotoi oreu i fyned iddo, yr hwn, trwy weithredu ar yr egwyddor o ffydd grefyddol, a dadblygu drwyddi bob rhinwedd bydol, sydd yn gyntaf oll wedi gwneyd y goreu o'r byd hwn. Hyny yw, fe fydd y Cristion duwiolfrydig, rhinweddol, yn yr ystâd uchaf sydd yn bosibl o barodrwydd i'r anfarwoldeb hwnw, yr hwn, yn unol â'r gred atheistaidd, *a all o bosibl* fod yn aros yr hiliogaeth. Telwch sylw am fynyd i'r prawf o hyn.

Os nad oes Duw, nid oes, wrth reswm, un Bod dwyfol i droseddu yn ei erbyn. Ni bydd camgymmeriad y dyn crefyddol, gan hyny, ar y pwnc o grefydd, yn debyg o wneyd un niwed iddo. Ar y dyb wrthwynebol o *fod* Duw—gallai gwaith ei greaduriaid yma yn ei wadu neu ei gablu achlysuro canlyniadau difrifol, pan ddelo y creaduriaid isel hyny i gyfarfyddiad ymwybodol â'r Goruchaf; ond os nad oes Duw, ni chynnyrcha y grediniaeth o fod un, mae'n debyg, ganlyniadau pwysig iawn i ddyn, pan y cenfydd, ar ol hyn, ei fod wedi camgymmeryd. Fe ymddangosai y camgymmeriad mor hawdd i'w wneyd—mor anocheladwy i ddynoliaeth, oddi wrth effaith nerthol a chynhyrfiad mawreddig greddf gyffredinol—mor berffaith naturiol, yn wir, fel mai prin y gallwn feddwl fod natur ei hun wedi ei chyfansoddi yn y fath fodd, fel y *gallai* y fath gamgymmeriad, yn y sefyllfa nesaf, weithio allan effeithiau hynod o drychinebus. Pa mor bell y gall fod llawenydd a gorfoledd yn nghadw i'r atheist ei hun, pan y cenfydd wirionedd ei dybiaeth—pan y bydd yn *berffaith sicr* mai y greadigaeth ydyw yr unig Dduw, a thybied y dichon i hyny gael ei brofi ar ol hyn—rhaid i mi adael i fy nghyfaill athronaidd ei benderfynu. Y mae yn *ddigon i* mi fy mod wedi diogelu y Cristion rhag niwed *yn y dyfodiant* atheistaidd.

Gan fyned yn mlaen, pa fodd bynag, oddi wrth y gosodiad nacaol yma, dymunaf arnoch sylwi fel y mae y mater yn sefyll gyda golwg ar beth allai fod dysgwyliadau teg a *phendant* dyn da crefyddol y bywyd hwn, mewn perthynas i'w gyfran yn y nesaf—y bywyd nesaf hwnw yn ddim ond dyfodiant natur, ond yn cael ei ddynodi gan y ddwy briodoledd at ba rai y cyfeiriais, a'i sefyllfa ynddo i gael ei phenderfynu trwy ei ystâd bersonol o gymhwysder a pharodrwydd at ei ddyledswyddau a'i fanteision.

Yn y lle cyntaf, gan fod daioni ymarferol y dyn crefyddol mewn gwirionedd yn gynnwysedig mewn bod yn byw yn ol natur, neu yn ol deddfau ei holl fodolaeth—y deddfau naturiol, moesol, a chymdeithasol, dan ba rai y gosodwyd ef, cydweddiad â pha rai ydyw rhinwedd—y mae yn eglur iawn ei fod ef yn hollol mewn sefyllfa i fyned yn mlaen mewn unrhyw le a thros byth, mewn cydffurfiad â'r un cwrs a threfn o bethau, mor bell ag y canfyddir fod yr un deddfau yn ymwneyd âg ef. Nid all dim fod yn eglurach. Nid yw o ddim gwahaniaeth beth sydd yn cynnyrchu neu yn cynnal ei rinwedd—dim gwahaniaeth ei fod yn cael ei feithrin a'i gryfhau gan ddrychfeddwl a gamystyrir yn ddwyfol. Y ffaith syml ei *fod* yn rhinweddol, yn yr ystyr a ddangoswyd, yw yr oll sydd yn angenrheidiol er sicrhau iddo "fynedfa helaeth" a rhwydd i sefyllfa arall o fodolaeth; dyledswyddau yr hon, beth bynag fyddont mewn ffurf, a raid fod, mewn egwyddor, yn hanfodol yr un a'r hyn oll yr arfera efe ei gyflawnu yma. Ond, yn y lle nesaf, fe fydd ffynnonell ac egwyddor grefyddol ei rinwedd—pa mor ddyeithr bynag y tery hyny ar ein clustiau—yn barotoad pellach i'r Cristion fwynhau yr anfarwoldeb atheistaidd. Crefydd, neu grefyddolrwydd, yn enwedig fel y mae yn seiliedig ar, neu yn llifo oddi wrth, Gristionogaeth, ydyw myfyrio yr Anfeidrol, dyfod i gyffyrddiad â'r oll sydd fawr a rhyfeddol, anrhydeddu y pur, derbyn argraffiadau o'r mawreddig, ac ymestyn at berffeithrwydd;—y mae yn tueddu i hiraethu am lwyddiant moesol, i ddyheu am gynnydd ysbrydol, i ymawyddu am oleuni, ac i obeithio yn galonog am berffeithrwydd dyfodol. Fe ofynir i'r dyn crefyddol amcanu at gynnydd a gwelliant beunyddiol yma, fel dechreuad o'r hyn y mae i'w ddilyn dros byth. Yn iaith yr Ysgrythyr, y mae i "anghofio y pethau sydd o'r tu ol, ac i

ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen;" i "gynnyddu i Grist yn mhob peth;" i chwanegu rhinwedd at rinwedd, a chyrhaeddiad at gyrhaeddiad; fel y gallo, yn y diwedd, gael ei "gyflawnu â holl gyflawnder Duw." Yn awr, yr wyf yn dywedyd yn mhellach, a thaflu ymaith ddygwyddiadau y peth, mai camgymmeriad tybiedig y dysgybl Cristionogol yn nghylch gwirionedd gwrthddrychau ei grediniaeth grefyddol —ei fywyd mewnol ei hunan, fel y cynnyrchir ac y cynnelir ef gan y rhai hyn—ydyw yr unig beth i'w gymhwyso at sefyllfa o fodolaeth a all ddyfod yn welliant mawr ar yr un bresennol, a'r hon a ganfyddir yn cael ei gosod allan gan ddeddf cynnydd. Ar ol yr ergyd gyntaf wrth ganfod na bydd Duw, a gweled mor afreidiol y gofalai yn nghylch crefydd, bydd yn hyfrydwch ganddo weled mai ei grefydd, er gwaethaf ei chamgymmeriadau, ydoedd y parotoad elfenol goreu a allasai gael i'w ddwyn dan ddeddf ei fywyd newydd.

Yn awr, mewn gwrthgyferbyniad i'r dyn yma, edrychwch ar barotoad personol Anffyddwyr eu hunain i'r sefyllfa nesaf. Sylwch pa mor bell yr ymddengys eu bod hwy wedi eu cymhwyso at y cyfryw ddyfodiant ag a all eu Duw eu hunain efallai weithio allan iddynt.

Cymmerwch yr amgylchiad goreu o gwbl,—amgylchiad un sydd mewn cydffurfiad ymarferol â deddfau ei gyfansoddiad a'r gyfundrefn gymdeithasol. Yr ydym yn addef y bydd efe fel hyn wedi ei barotoi, i raddau helaeth, at y dyfodol tybiedig hwnw a allai fod gan natur yn nghadw i ni. Y mae ei barotoad, pa fodd bynag, yn anmherffaith a hannerog; saif mewn perthynas â'r peth cyntaf a ellid ganfod yn dynodi yr anfarwoldeb Atheistaidd, ond nid â'r ail. Yr hwn a dreuliodd ei oes heb ffydd a brwdfrydedd; heb ddim o'i flaen i gynhyrfu nac i gynnal gobaith; heb un drychfeddwl am un bod mwy nag ef ei hun; heb ddim myfyrdod gwastadol ar yr Anfeidrol fel yn gyssylltiedig â rhinwedd; heb grediniaeth fod un perffeithiad pellach i ddynoliaeth tu hwnt i'r bedd, neu y gallai fod un gwelliant ar y bywyd hwn; yr hwn nad allai weled tu draw i'r llen ddu sydd yn amdoi y beddrod, a'r hwn nad allai amgyffred am weithrediad na chynnydd ar ol hyn; wel, nid all fod gan y dyn yma, gyda'i holl barotoad at anfarwoldeb posibl, can belled ag y cydwedda y dyfodol â'r presennol, ddim o gwbl ar ei gyfer gyda

golwg ar yr ail briodoledd, a'r un uchaf, yn ol pa un y gall fod yn gylch gwelliant a pherffeithiad chwanegol i'n natur. Fe fyddai ei arferion o deimlo, a'i ddulliau o feddwl, yn ei anghymhwyso i gydymdeimlo yn uniongyrchol a chalonog â'i amgylchiadau newyddion; ac er yr addefid y gallai gynnefino â hyn, eglur yw, yn lle bod yn barod at y math hyny o ddyledswyddau a fyddai yn eiddo iddo yn awr, y byddai yn rhaid i'r hyn oll a gyfansoddai ei fodolaeth feddyliol fyned dan gyfnewidiad cyflawn, cyn y gallai dderbyn, deall, nac ymarfer, hyd yn oed wersi cyntaf ei ail fywyd.

Pa fodd bynag, os cymmerwn yr amgylchiad gwaethaf a ellid gymmeryd yma, ac ystyried cyflwr y troseddwyr a'r drygionus,—pa un bynag a ydyw eu harferion yn deilliaw oddi wrth eu gwadiad o Dduw, ai oddi wrth eu hesgeulusdod o grefydd,—ymddengys anghymhwysder hollol at y dyfodiant posibl y soniwn am dano, mewn cymhariaeth i'r dyn crefyddol da, yn hynod o eglur. Mae y rhai drygionus o ba le bynag y deillia eu drygioni, yn byw gan droseddu deddf eu bodolaeth. Y mae aflendid, celwydd, meddwdod, lladrad, a phob drygioni a chamweddau ereill, yn droseddiadau yn erbyn y drefn naturiol, foesol, a chymdeithasol, yr hon sydd yn ein cylchynu ac yn ein hamgau o bob cwr. Mae y troseddiadau hyn yn taflu sarhad ar natur, yn darostwng dynoliaeth, yn llygru, yn halogi, ac yn diraddio yr enaid. Y canlyniad yw, fod dynion yn dyfod yn feirw i bob ymestyniad mawreddig, ac heb gael dim pleser ond yn yr hyn sydd isel ac aflan. Mae yr anifail neu y diafol yn cael y feistrolaeth ar y dyn; teflir ef ymaith oddi wrth bob cyffyrddiad â meddyliau uchel; cyll bob chwaeth at yr hyn fuasai yn dwyn yn mlaen ac yn dyrchafu ei natur foesol; daw y ffurf dlawd o fywyd a arweinia i'w foddloni, daw i fod heb un amcan uwch nag elw neu bleser y fynyd, ac i ymffrostio yn y meddwl—neu i'w groesawu, ac yn foddlawn i ddymuno ei fod yn wir—ei fod i orwedd i lawr yn y diwedd, ac i beidio a bod mwy! Fe fydd dynion o'r fath yma yn anmharod at anfarwoldeb natur yn y ddau ystyr;—canfyddant eu hunain mewn gwrthwynebiad i'r un deddfau ag y brwydrant â hwynt yma,—a chan eu bod yn gymmaint *islaw* yr hyn y dylai dynion fod yn awr, ni bydd ganddynt ond

parodrwydd gwael i ddechreu gyrfa sydd mewn gwirionedd yn rhagorach nag un math sydd yn bresennol yn ddichonadwy. Os oes rhyw wirionedd yn undod y greadigaeth,—unrhyw gyfatebiaeth rhwng yr hyn y mae natur yn ei wneyd yn awr, a'r hyn y gellid dysgwyl iddi wneyd bob amser,—y mae mor sicr ag y gall dim ei wneyd, os oes bywyd dyfodol i ddyn fel canlyniad deddfau naturiol yn unig, nid all y drygionus a'r troseddwyr gael eu geni iddo, ond fel y mae y dall, a'r mud, yr hurtyn, a'r marw, yn cael eu geni i'r byd hwn.

PENNOD IV.

WEDI sefyll, fel hyn, gyda'n hathronydd atheistaidd, wrth droed isaf ysgol crediniaeth, ac wedi profi y gellir, hyd yn oed oddi yma, weled uwch ben ryw oleuni gwanaidd ac aneglur, a ddichon, rywbryd, droi allan yn ail ac yn rhagorach preswylfa i'n hiliogaeth,—ac os felly y dygwydd, nad oes gan y dyn crefyddol ddim i'w ofni, ond pob peth i'w obeithio, oddi wrthi;—wedi gwneyd hyn, yr ydym yn awr am wneyd symmudiad pell yn mlaen, a gosod ein hunain wrth ochr yr ymlynydd proffesedig wrth *dduwiaeth bur*. Yr ydym yma yn cyrhaedd graddau llawer mwy dyrchafedig. Dysgir ni, wrth edrych yn mlaen o'r pwynt yma, i ddysgwyl am olygfa fawreddig, wirioneddol, ac eglur. Yn lle yr hyn sydd *bosibl*, ar y dybiaeth atheistaidd, yr ydym i weled yr hyn sydd yn *debygol* ar egwyddorion deistiaeth.

Y mae deistiaeth yn addef Duw personol. Cred yn ei fodolaeth, ei berffeithiau, a'i lywodraeth. Addefa wirionedd cyfundrefn foesol; cydnebydd ddeddf wedi ei hysgrifenu ar y galon, a hyny hefyd, gan law ddwyfol. Ystyria fod y ddeddf hon yn dirgymhell ufudd-dod, nid yn unig trwy wobrau presennol rhinwedd, a'r cospedigaethau a weinyddir ar yr euog trwy ganlyniadau trosedd, ond hefyd trwy yr ymsyniad o ad-daliad dyfodol. Amddiffyna anfarwoldeb yr enaid,—cyfrifoldeb dyfodol, a bywyd dyfodol. Y mae yn *gofyn* diwygiad, os bydd dynion wedi colli eu lle; y mae yn

dirgymhell edifeirwch; a gallai awdurdodi gweddi. Mae y drychfeddwl a ffurfia am fyd dyfodol, efallai, yn bur debyg yn ei nodweddion cyffredinol i'r un y cyfeiriasom ato eisoes; ond y mae yn dal golygiad mwy clir gyda golwg ar fynediad dyn iddo yn angeu; ac y mae wedi sefydlu y drefn, a gosod i lawr yr ammodau, ar ba rai y derbyn ganmoliaeth neu gondemniad.

Ei hathrawiaeth ydyw hyn:—Y mae Duw; y mae byd a dyn yn effeithiau ei fedr creawl, ei ddaioni, a'i allu; y mae y naill a'r llall yn debyg i'r hyn oeddynt ar y dechreu, ac a fuont bob amser, gyda'r eithriad, efallai, fod esamplau drwg a chynnydd rhifedi wedi ychwanegu drygioni; er fod dyn yn dda, fod dynion yn ddrwg; ac fel hyn y gallai fod rhinwedd yn cael ei chylchynu â mwy o anhawsderau nag mewn rhyw oesau pell a llai llygredig. Er hyny, rhaid talu sylw i rinwedd; dylai dynion fod yn gyfiawn, yn bur, yn uniawn, yn eirwir, yn anrhydeddus, a chymmwynasgar; dylent ochelyd ac ysgoi pob peth gwrthwynebol. Yna chwanega,—fe wna Duw gyfrif â dynion yn angeu; ymddangosant ger ei fron ef; ac wedi barn ddiwyrni, derbyniant o'i law wobrau am ufudd-dod, neu gosbedigaeth am bechod. Y mae efe yn drugarog, ac ni bydd yn llym; yn ystyriol, ac fe oddef ar gyfer gwendid natur, a grym temtasiwn; ond y mae efe yn gyfiawn, ac yn sicr o gollfarnu mewn achosion gwarthus. Fe aiff ei farn yn mlaen oddi ar olwg gynnwysfawr ar y cyfan o ymarweddiad a chymmeriad presennol dyn; fe gyfrifir ac fe gymherir rhinweddau a phechodau pob dyn,—fe osodir y naill beth ar gyfer y llall,—gweithredoedd da ar gyfer rhai drygionus a diffygiol,—ac yn ol fel y bydd y naill neu y llall yn gorbwyso y bydd y penderfyniad. Gwobrwyir y da, cosbir y drwg:—y cyntaf, mae yn debyg, trwy i'r dyn gael ei gadarnhau mewn rhinwedd, a'i berffeithio mewn dedwyddwch; yr ail, trwy i'r dyn gael ei ddedfrydu i amddifadrwydd neu ddyoddefiadau mwy neu lai llym; yr hyn fydd yn debygol o natur dysgyblaeth ddiwygiadol, a allo ddwyn y cyfan yn y diwedd i ufudd-dod a llawenydd.

Y mae hyn, yr wyf yn credu, yn esboniad teg ar y dyb Ddeistaidd—o leiaf, fel yr arferid ei dal, ac fel y delir hi eto, yr wyf yn meddwl, gan ei dilynwyr mwyaf parchus. Ni wnaf un sylw yn awr ar yr hyn a ymddengys i mi yn dywyll-

resymau yn ei chyfansoddiad. Nid allaf lai na sylwi, pa fodd bynag, nad all fod un ddadl nad oes llawer o ddynion, heb fod yn Ddeistiaid proffesedig, ond yn bur wahanol i hwynt, heb fod ganddynt, er hyny, ddim mwy o grefydd, na dim mwy o syniad am Gristionogaeth, na'r hyn sydd yn gynnwysedig yn y braslun yma o athrawiaeth sydd wedi ei seilio ar wadiad pendant o ddadguddiad.

Gan edrych ar yr athrawiaeth o'n blaen fel y mae, dywedwn eto,—pe caniatëid y bydd hyn yn troi allan yn y diwedd fel yr athrawiaeth gywir am fywyd dyfodol dyn, nid oes genym ofn na chanfyddir fod y credadyn crefyddol yn berffaith barod iddo. Yr hwn sydd wedi gwneuthur yn dda yn y byd yma, drwy amaethiad y rhinweddau a gynnyrchir ac a amaethir gan ffydd Gristionogol, a fydd yn barod i'r nesaf, ac i'r nesaf hwnw fod yr hyn a ddysgrifiasom, a hyny nid yn unig yn llawn cymmaint a'r Deist mwyaf rhinweddol, ond yn llawer iawn mwy felly.

I ganfod hyn, cymmerwch ddau ddyn, Deist a Christion: bydded y naill a'r llall yn anghraifft dda o'i ddosbarth; gosodwch hwynt o flaen eich meddyliau, ac yna ceisiwch sicrhau beth ydyw cymhwysderau moesol y naill a'r llall i fyned i mewn i, ac i fwynhau, y bywyd yna y mae y Deist yn ei ragddysgwyl. Dynodir y naill a'r llall gan rinweddau cyffelyb—cywirdeb, purdeb, uniondeb, caredigrwydd, a phob peth a ofynir yn gyffredin tuag at wneyd i fyny gymmeriad personol a chymdeithasol gwerthfawr. Ond y mae gan y Cristion, ar y dybiaeth, ryw bethau o'i amgylch nad ydynt gan y Deist. Ni bydd i'r pethau hyn, pa fodd bynag—er y gallai na byddant yn anghenrheidiol i'w dderbyniad ffafriol yn y byd hwnw, i ba un yr ydym yn tybied fod y ddau yn myned—ni bydd iddynt ei wneyd yn anghymhwys iddo, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb.

Yn y lle cyntaf, y mae yr hyn a alwn yn fywyd crefyddol neu ysbrydol o dan rinwedd bydol y dyn crefyddol; a rhaid i ni gael dywedyd, fod rhywbeth yn nghanfyddiadau a chynhyrfion y bywyd yna, sydd yn rhoddi dyfnder a phurdeb i'w deimladau moesol, cylch i'w gymmwynasgarwch, ac uchder i'w safon o uniondeb, y rhai a allent chwanegu cryn lawer at werth ei gymmeriad. Hyd yn oed, os ydyw ei grefydd, *fel egwyddor*, yn gamgymmeriad, y mae ei fywyd crefyddol

yn wirionedd yn ei enaid; y mae ei gymhellion a'i ddylanwadau yn cael eu teimlo ganddo; a gallant, gan hyny, feddu gwerth sylweddol. Heb ymhoni o gwbl y bydd ar un cyfrif yn fwy cyfiawn, teg, neu anrhydeddus, na'r dyn sydd heb feddu ei ffydd neillduol, yr ydym yn dyweyd y bydd, mae'n debygol, o'i amgylch ef fwy o fanylrwydd mewn ymadrodd ac ymddygiad, a mwy o ymattaliad oddi wrth ryddid ammheus; tra yn sicr y bydd mwy o awydd am addysg a dyrchafiad *ysbrydol* yr hiliogaeth. Nid ydwyf yn hoffi priodoli gormod o ragoriaeth i'r credadyn Cristionogol ar y Deist, yn y rhinweddau hyny a allant feddu, y naill fel y llall, er fy mod yn credu yn ddilys y bydd mwy o ragoriaeth oddi wrth yr elfen a dywelltir i bob gweithrediad oddi wrth gymhellion Cristionogol. Yn hytrach, pa fodd bynag, ni a gymmerwn y peth olaf a enwais, yr hwn yr addefir sydd yn rhywbeth perthynol i'r Cristionogion yn unig—gofal am lwyddiant ysbrydol y byd.

Gellid gweled caredigrwydd a dyngarwch mewn llawer o ffurfiau prydferth, dyddordeb yn lledaeniad gwyddiant a gwybodaeth, ymdrechion i estyn rhyddid gwladol, pryder am wella cyflwr cymdeithasol meibion a merched yn y dosbarthiadau isaf; gellir gweled y rhai hyn oll, a llawer yn ychwaneg, yn y rhai na chredant mewn dim ond a elwir crefydd naturiol. Ond fe wena y dynion yma wrth y drychfeddwl o unrhyw ysgogiad yn erbyn paganiaeth, wrth awyddfryd i symmud ymaith oddi ar wyneb y ddaiar drefniadau creulawn ac anmhur o goelgrefydd, ac yn achlysurol hefyd, wrth ofal Cristionogol difrifol a dwfn am y caeth a'r gorthrymedig. Nid wyf yn dywedyd dim am eu difaterwch at yr hyn a ddealla y Cristion wrth gariad at Dduw; ac nid ydwyf am sylwi ar eu hanalluogrwydd i deimlo dylanwad y cymhellion a'r teimladau ereill, y rhai y tybir eu bod yn dyfnhau, yn dyrchafu, ac yn puro rhinwedd yr Eglwys. Dywedaf gymmaint a hyn—Os oes Duw, fel yr ardystiant yn gryf eu bod yn credu fod, nid ellir yn sicr meddwl am ddim mwy adgas i'w natur Ef na'r ffurfiau o eilunaddoliaeth sydd yn lluosog yn y byd; a pha fodd bynag y rhoddir cyfrif am eu bodolaeth gan wyddoriaeth anghrefyddol, neu pa fodd bynag yr ymdawelir ynddo gan ddyngarwch oddefol, gan eu bod yr hyn ydynt, y mae yn rhaid, yn sicr, y bydd yn waa-

anaeth cymmeradwy gan Dduw i geisio eu halltudio o'r byd a halogant, ac achub ei blant oddi wrth y diraddiad a gynnyrchant. Ni chynnygir gwasanaeth o'r fath, pa fodd bynag, i Dduw nac i ddyn, gan un proffeswr, neu gan unrhyw nifer o broffeswyr o Ddeistiaeth bur; a gellid ofni yn fawr, pe buasai y byd wedi dysgwyl wrth athronwyr i'w waredu oddi wrth "ffiaidd eilunaddoliaeth," ac i alw ar y cenedloedd i "weled eu Duw," y buasem oll, y fynyd yma, er gwaethaf ein holl wareiddiad, yn addoli rhyw eilun o "aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd a dychymyg dyn"—fel y gwnaent yn Athen. Yn awr, beth bynag a all fod yr anwybodaeth, neu y gormodedd, yr ynfydrwydd, neu y penboethni, y tybir eu bod yn dynodi, neu a allant fod yn dynodi, ymdrechiadau Cristionogion i droi paganiaid, fe fydd yn anhawdd gwadu fod y ffaith noeth o fod y fath ymdrechiadau yn cael eu gwneyd yn chwanegu rhyw ychydig at rinwedd un dyn, mewn cymhariaeth i'r hwn nas gwna hwynt o gwbl. Gallem gredu yn hawdd, yr ymddangosai unrhyw fath o frwdfrydedd yn y fath achos yn nghyfrif Duw yn well na difaterwch. O leiaf, nid allai un dyn, mi feddyliwn, feiddio haeru, o ddau ddyn, fyddont yn gyfartal rinweddol mewn ystyriaethau ereill, a'r ddau yr un modd yn proffesu eu bod yn credu ynddo Ef "yr hwn yw yr unig wir a'r bywiol Dduw"—ni haera neb, gyda golwg ar y dyn yma, pan yn myned i wyddfod y Goruchaf, y bydd *efe* yn ai parod i'w gyfarfod, yr hwn a ymdrechodd i ledaenu y wybodaeth am dano yn y byd, na'r hwn nad oedd ei ddrychfeddwl am grefydd a dyngarwch yn cynnwys un syniad am y fath garedigrwydd Dwyfol.

Ond yn mhellach eto. Y mae peth arall i sylwi arno yn y fan yma. Er y gellid, yn briodol, ystyried Deistiaeth fel crefydd, ac er fod y drychfeddwl o grefydd yn cymmeryd i mewn y drychfeddwl o addoli—addoli yn neillduol a chymdeithasol, amaethiad y teimladau sanctaidd a defosiynol yn y dyn ei hun, ac undeb rhwng rhifedi mewn gwasanaeth crefyddol, fel yn arddangos ac yn cynnyddu duwioldeb cyffredin, yn ffynnonell o fantais i gymdeithas yn gyffredinol, ac yn foddion nesâd y difater at Dduw—er yr ymddengys fod unrhyw beth o natur crefydd yn cynnwys neu yn arwain *i hyn, nid* ydwyf yn gwybod fod amaethiad teimladau ac

arferion crefyddol yn perthyn i nodweddiad Deistiaeth athronyddol. Gwasanaeth cyhoeddus yn sicr nid oes yn eu plith, yr hwn a ystyrir fel y cyfryw. Am yr hyn sydd yn ddirgelaidd, nid wyf yn gwadu y posiblrwydd o hono; ond gwyddys yn dda fod y rhan fwyaf o Ddeistiaid yn proffesu athroniaeth sydd yn dysgu bod gweddi yn ddiddefnydd, neu yn dadleu yn erbyn ei harfer; a lle y delir y fath olygiadau, gellir ofni yn fawr nad ydyw un math o addoli yn gyffredin. Yn awr, y mae y credadyn Cristionogol, beth bynag ydyw ffurf neillduol ei gredo, a thybied ei fod yn gysson a difrifol, mewn modd arbenig yn addolwr Duw—yn "ŵr defosiynol." Y mae gweddi yn hanfodol i fywyd ei grefydd, ac i arddangosiad ei ffydd. "Yn mhob dim fe ddiolch." "Mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwna ei ddeisyfiadau yn hysbys ger bron Duw." Y mae yn "brefu" am gymundeb defosiynol âg Ef, "fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd." Fe dybia ei fod yn derbyn drwy hyn dangnefedd Dwyfol, —"tangnefedd Duw yr hwn sydd uwch law pob deall"—rhywbeth nad all y byd ei roddi, ac nad all dynion y byd ei amgyffred. Yn awr, pe addefid yn hollol, fel yr ydym yn barod i wneyd, *y gallai*, ar y dyb o Ddeistiaeth, ***nad oes angenrheidrwydd*** am yr holl amaethiad yma ar y teimladau ysbrydol, a'r gweithredoedd yma o addoli a charu, i sicrhau derbyniad i'r nefoedd a ddysgwylia; eto, pan fydd Duw mewn gwirionedd wedi ei ddadguddio ei hun, fel y tybiwn y gwna yn y byd nesaf, mewn rhyw ddull mwy dysglaer ac amlwg nag yn awr—gan y bydd, yn sicr, yn "addas a chyfiawn" ei addoli y pryd hyny—gan y bydd yn rhaid i'r Deist ei hunan ddechreu "addoli a chrynu," os na wnaeth erioed o'r blaen—nid all fod yn anghymhwysder yn y Cristion defosiynol ei fod wedi ceisio ei wasanaethu a'i addoli pan yma, er y gallai hyny fod gyda thrafferth afreidiol! Ni bydd yn ddarostyngiad iddo yn nghyfrif Duw, nac yn anghymhwysder iddo at ddyledswyddau ei fywyd newydd, ei fod wedi bod yn rhy awyddus i ddechreu yr hyn y bydd i fyned yn mlaen gydag ef yn dragywydd! Ni bydd Tad yr ysbrydoedd yn anfoddlawn wrth ei blentyn camsyniol am ei fod yn rhy awyddus i nesâu ato Ef;—am iddo ddymuno dadgan ei ymddiried a'i gariad, a cheisio amaethu teimladau teilwng tuag at yr Anfeidrol yn gynt nag y buasai raid iddo, a rhoddi i'r

teimladau hyny y fath leferydd ag a gymhellai ei ffydd, ac a ganiatâai ei iaith! Y mae y peth yn wir yn ymddangos mor eglur fel mai prin y goddefa ei eglurhau na'i brofi. O'm rhan i, yr ydwyf yn barod i sicrhau, gyda sicrwydd pendant, gyda golwg ar yr ail dybiaeth yma,[1] y bydd y dyn sydd yn byw mewn cyssondeb ymarferol â syniadau Cristionogol, nid yn unig mor barod, ond yn barotach, i'r dyfodol a ddysgwylir ganddi, na llawer, neu y rhan fwyaf o'i hamddiffynwyr eu hunain.

PENNOD V.

WEDI i ni yn awr daflu golwg ar ddyfodol tebygol yr athroniaeth Ddeistaidd, fel y taflasom olwg o'r blaen ar ddyfodol posibl Naturyddiaeth (*Naturalism*) athronyddol, ac wedi gweled nad oes gan ein cyfaill achos i ofni gyda golwg ar ei gymhwysder i'r naill neu y llall, pe byddai i un o honynt droi allan i fod yn wir athrawiaeth am anfarwoldeb dyn, yr ydym yn symmud eto i fyny, ac yn cyrhaedd goror *Crediniaeth Grefyddol, a elwir yn briodol felly.*

Yr ydym yn awr yn ystyried ein bod yn dyfod i gyffyrddiad â'r nifer luosocaf o'r hiliogaeth; o blegid fe gydnabydda pob dyn, beth bynag all fod ei olygiadau presennol ei hunan, fod dynion fel dynion, drwy bob oes ac yn mhob gwlad, ryw fodd, wedi syrthio i grefydd, ac edrych ar eu sefyllfa, eu dyledswyddau, a'u tynged, trwy gyfrwng drychfeddyliau crefyddol. Gadewch i mi sefyll, ynte, ar yr esgynlawr llydan hwn: gadewch i ni edrych pa fath olygfa a ganiatëir i ni oddi arno; pa wrthddrychau sydd yn weledig, ac yn mha ffurfiau a lliwiau yr ymddangosant pan y mae y goleuni sydd yn syrthio arnynt yn oleuni ffydd, ac nid yn oleuni athroniaeth—hwynthwy eu hunain yn ddadguddiedigaethau, neu yn ddadguddiedigaethau tybiedig, o'r deml, ac nid yn ddarluniau dychymygol yr ysgolion.

Yr ydym i edrych ar y dyfodol fel y mae yn gyffredin wedi ei ddadguddio ei hun i'r meddwl dynol trwy gyfrwng crefydd —ar y math o barotoad a ofynid ar ei gyfer, a thybied mai hon

[1] Sef Deistiaeth. Y gyntaf oedd Atheistiaeth.

yw y wir athrawiaeth am fywyd arall—ac yna, ar y tebygolrwydd, yn ol y dybiaeth hon, y byddai i'r credadyn Cristionogol ganfod ei hun yn barod gogyfer â'r fath anfarwoldeb.

Y mae yn anmhosibl yn bresennol gwneyd mwy na thaflu math o gipolwg ar ryw feddwl neu ddau ar y mater hwn. Y mae yn dygwydd, pa fodd bynag, yn y fath fodd, fel gan mai yr un peth neu ddau sydd wedi bod gan bob crefydd (heb law Cristionogaeth) yn debyg i'w gilydd, ydyw yr hyn sydd yn gwneyd i fyny y pethau sydd i'w cyferbynu rhyngddynt hwy a'r gyfundrefn Gristionogol, mewn perthynas i'r mater dan sylw, gellir gwneyd yr ymresymiad, i ateb ein hamcan uniongyrchol, yn bur gynnwysfawr ac yn bur fyr.

Dylid sylwi fod pob crefydd wedi bod bob amser yn dysgu, trwy ddefod neu athrawiaeth, bethau cyffelyb i hyn: nad oedd y natur ddynol yn ddiniwed, nad ydoedd yn yr un cyflwr ag yr ydoedd yn y dechreu, ond yn llygredig ac aflan —fod dynion i fyw mewn bywyd arall, ond fod rhwystrau, oddi wrth anfoddlonrwydd y duwiau o blegid eu drygioni, yn sefyll ar ffordd eu dedwyddwch dyfodol; fod y duwiau, gan hyny, i'w heddychu trwy aberth, a bod yr enaid i gael ei lanhau trwy ryw drefn o buredigaeth. I ateb y dybenion hyn, yr oedd allorau, ebyrth, offeiriaid, taenelliadau, a golchiadau, yn dyfod yn lluosog; cyfarfyddid â hwy yn mhob man, fel yn gwneyd i fyny hanfodolion gwasanaeth crefyddol. Yn awr, y drychfeddwl ysbrydol sydd yn gorwedd dan hyn oll, can belled ag y gofyna ein testyn presennol iddo gael ei ddwyn allan, y mae yn eglur, ydyw hyn:—Fe fydd i angeu ddwyn dynion i wyddfod y duwiau anfarwol; ond i'w parotoi at hyny, i'w galluogi i fyned i mewn i'r byd uchod heb ofn, y mae yn rhaid iddynt gael maddeuant am eu gweithredoedd drwg, trwy gyflwyniad o iawn digonol, a chael golchi eu heneidiau trwy rinwedd puredigaethau defodol, ac offerynoliaeth cyfryngdod yr offeiriaid. Ymddangosai fod sylfaen yr holl oruwchadeiladaeth hon o feddwl yn gorwedd yma—fod y syniadau am bechod ac euogrwydd wedi eu cymhlethu â'r greddfau hyny o eiddo dynoliaeth a roddasant fod i'r syniad am fywyd dyfodol. Yr oedd cydwybod yn cadarnhau gwirionedd traddodiad, ac yn mwyhau yr arswyd o ddigofaint dwyfol. Oddi yma y deilliai syniadau anmherffaith am annigonolrwydd rhinwedd dynol, am gyflwr truenus yr hil-

iogaeth, yr angenrheidrwydd am ryw drefniad i ddwyn pe
i'w lle rhwng daiar a nefoedd, ac am rywbeth fel dylai
sancteiddiol ar yr enaid, mewn trefn i adosod dyn eilw
yn ffafr y duwiau, a'i gymhwyso at y bywyd anfarwol h
y tybir sydd yn aros y pur a'r da.

Nis gall fod un ammheuaeth, yr wyf yn meddwl, n
rhai hyn, neu rywbeth tebyg iddynt, oedd y syniadau ell
a redent drwy y gwahanol drefniadau o grefydd oed
mewn bri yn yr hen fyd. Dyma y rhai a gorfforid yn n
man—yn yr allor a'r aberth, y taenelliad offeiriadol a'r f
sanctaidd. Y maent i'w cyfarfod eto, pa le bynag y
eilunaddoliaeth yn ffynu; hyny yw, pa le bynag y gwel
grefydd yn cael ei dangos gyda mwy neu lai o arbenigrw
yn mysg cenedloedd anniwylliedig. Fel hyn y mae deft
crefyddol arwyddocaol, a gorfforant y syniadau a awgry
yn sefyll fel deonglwyr meddyliau yr hiliogaeth, ac yn
guddio i ni argraffiadau dyfnion y ddynoliaeth gyda g
ar yr hyn a aeth heibio ac a ddaw. Ymddangosant fe
rhoddi llafar i ymwybodolrwydd dyn fod rhyw drychi
mawr wedi dygwydd iddo unwaith, ac i'w obaith y by
i'w effeithiau gael eu gwrthweithio yma, ac y dyrchefid y
i ddaioni a dedwyddwch mewn sefyllfa arall; gan eu
yn ymddangos fel math o oruchwyliaeth anorphenol t
at gyfarfod y trychineb ei hunan, a sicrhau y daioni dym
sydd yn mlaen.

Yr ydych, wrth gwrs, yn gwybod fod y ffurf hono o G
ionogaeth y tybir fod dyn crefyddol y ddarlith hon wed
chofleidio, yn cynnwys ynddi, yn ol ei ddull ei hun o'u
negu, yr holl syniadau hyn. Nid ydym yn awr yn ym
pa un ai gwir ai gau yw y syniadau yma ynddynt eu hun
neu pa un a ydynt y gwir neu y cam ddeongliad o'r lly
Cristionogol. Nid oes a fynom â'r naill na'r llall o'r c
tiynau hyn yn awr. Yr unig beth yr edrychwn arno y
ffaith, yr hon nad ammheua neb, fod yn ein plith y fath l
a'r efengyl, a'r fath beth a deongliad yr efengyl hono y
y ffurf Gristionogol o honi. Pa un a yw y peth ei hun
ddwyfol, neu pa un ai y ffurf neillduol yma o honi yw y
iawn, sydd ofyniadau na fydd i ni yn awr a wnelom â h
Mae yn ddigon i mi wybod fod dynion—a bod dyn crefy
ein darlith yn eu plith—y rhai y mae eu ffydd yn cofleid

syniadau y cyfeiriasom atynt—hyny yw, y rhai a gredant fod dynion yn bechaduriaid; nad ydyw dynoliaeth yn ei chyflwr cyntefig ond wedi ei thaflu o'i lle yn ysbrydol drwy y cwymp, a'i halogi yn foesol trwy euogrwydd gweithredol; fod ganddi o'i blaen fywyd anfarwol; y bydd angeu yn ei dwyn i wyddfod Duw; ac mewn trefn i sefyll ger ei fron Ef heb ofn, fod yn angenrheidiol i bechod gael ei ddiddymu trwy faddeuant, ac i'r enaid ei hunan gael ei buro a'i adferu: i'r dyben yma, i gyfarfod â helynt dybiedig yr hiliogaeth, bod yr efengyl yn dyfod gyda'i Phrynwr a'i phrynedigaeth, ei haberth digonol a'i Hysbryd sancteiddiol; ac yn rhinwedd yr hyn a wneir *erddynt* gan y naill, ac *ynddynt* gan y llall, y gallant lawenychu yn y meddiant o'r oll sydd arnynt ei eisieu fel parotoad i dragwyddoldeb. Ystyriant eu hunain yn wrthddrychau trugaredd Duw, ac yn wrthddrychau dylanwad sydd yn puro y galon, yn eu cynnorthwyo yn eu hymestyniad at "bob sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb," yn gwneyd rhinwedd yn angenrheidiol, yn darparu at eu cynnydd mewn daioni, ac yn cymmeryd fel ei amcan eithaf y fath ystâd o deimlad ac ymddygiad ag a'u gwnel yn "gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." "Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd." "Gwyn fyd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw." "Gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn glanhau oddi wrth bob pechod." "Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân." Yn y rhai hyn, ac mewn geiriau cyffelyb, y mae y dynion y soniwn am danynt yn dadgan eu crediniaeth.

Pe gallem yma gymmeryd yn ganiataol wirionedd a sylweddolrwydd y drefn Gristionogol, byddai raid i'n dadl fyned yn mlaen drwy gymharu aberthau, golchiadau, offeiriaid, a gwasanaeth paganiaeth â'r ffurf Gristionogol o'r un pethau, o ran eu gallu i sicrhau i ddyn y parotoad hwnw i ymddangos yn ngwyddfod, ac i fwynhau cymmundeb â Duw, yr hyn y mae y ddwy drefn, o'u hiawn ddeall, yn ei ddangos—y naill a'r llall yn eu ffordd eu hunain—fel yr hyn sydd yn gwneyd i fyny ogoniant y bywyd dyfodol y dysgwyl dyn am dano. Yr ydym yn cael ein hattal, pa fodd bynag, rhag gwneyd hyn, gan natur ac angenrheidiau y ddadl mewn llaw.

O ran dim y tybir ein bod yn ei wybod hyd yma, y 1
grefydd Gristionogol yn debyg yr un fath a phob c1
arall, can belled ag y mae a fyner â'i dilyarwydd a
Yr oedd gan y paganiaid eu syniadau *hwy* am y duwis
sefyllfa dyn, am yr hyn a wnai aberth cymmeradw
ei effeithiolrwydd, ac felly yn mlaen; ac yr oedd
Cristion ei syniadau *yntau* yn nghylch yr un pethau
nid oes dim *sylweddolrwydd allanol* yn bod mewn un
nac wedi bod erioed, yn cyfateb i syniadau y naill na'1
Nid ydys i ystyried y naill gyfundrefn na'r llall ond
graffiadau rhyw feddyliau fel yr effeithir arnynt yn dum
gan yr un math o syniadau—y dulliau yn mha rai yr
ddau ddosbarth yn corffori iddynt eu hunain argraffiad
nghylch yr hyn nas gallai y naill na'r llall *wybod* di
dano, a siarad yn briodol. Yr ydys i ystyried paganis
Christionogaeth, gan hyny, fel eu gilydd, a dim yn chw
sef, fel syniadau dau ddosbarth o bobl yn nghylch p
ysbrydol, yn nghyd â nifer o ffurfiau a gwasanaeth a
trwy ba rai y mae y syniadau hyn yn cael eu dangos
arwyddion, neu mewn cyssylltiad â pha rai y maent y
eu proffesu mewn geiriau.

Ac ymresymu ar y dybiaeth hon, chwi ganfyddw
gallwn ddyweyd y bydd y Cristion yn fwy parod i'r s
nesaf, yr hon y tybir ei fod ef a chrefyddwyr ereill
dysgwyl fel eu gilydd, o blegid eu bod hwy yn ymd
mewn celwyddau, ac yntau yn credu mewn ffeithiau ysb
y rhai ydynt mewn gwirionedd yn ddwyfol ac effeithiol
eu bwriadu a'u dadguddio gan Dduw ei hun i'r amcan
dant o gymhwyso dynoliaeth at y bywyd dyfodol hw
mae yn alluog i'w fwynhau, ac er mwyn pa un ei gwna
nis gallwn ddyweyd hyn, o blegid yr ydym i ymresyn
awr, ar y dybiaeth fod yr hyn a gredir gan y Paga
Cristion yr un fath, fel moddion i barotoi dyn at y dy
yn gyfartal *an*-sylweddol—y mae gan y naill a'r llall,
yn wir, eu syniadau am y drefn o barotoad; ond nid o
ond syniadau yn y ddau amgylchiad. Yr ydys i dd
gallai y ddau fod yn iawn gyda golwg ar *natur* bywy
fodol dyn;—gallai fod yn wir y bydd y bywyd hw
gyfryw fel ag i'w wneyd yn angenrheidiol mewn trefn
fwynhau—yn chwanegol at y gweithredoedd rhinwe

moesol, ar ba rai y dibyna y Deist am gymmeradwyaeth gyda Duw—fod rhyw drefniant trugarog, a rhyw buredigaeth mewnol, y fath ag a ystyria y ddau grefyddwr, yn angenrheidiol: ond gyda golwg ar wirionedd y fath drefniant trwy ryw fath o aberth neu gilydd, a chyda golwg ar wirionedd puredigaeth tufewnol trwy naill ai defodau allanol ai dylanwad dwyfol, nid ydyw hyn i'w dybied yn y naill achos mwy na'r llall. Nid ydys i ystyried y ddwy gyfundrefn ond fel y ffurf neillduol yn mha un yr oedd meddyliau a theimladau dynion yn ceisio ymgorffori.

Gan fod pob crefyddwyr, ynte, ar y dybiaeth hon, yn gydwastad, o ran gwirionedd y gyfundrefn o grefydd sydd ganddynt, er y gall droi allan fod eu syniadau am y *dyfodol* yn gywir, ein hymofyniad yn awr yw—a thybied i'r peth ddygwydd felly, *pa un* fydd debycaf, fel mater o ffaith, o ganfod ei hun yn barod at y dyfodol, fel ei darlunir i ni yn awr, ai y dyn sydd yn meddu bywyd ysbrydol Paganaidd ynddo, ynte y dyn sydd yn meddu bywyd ysbrydol Cristionogol ynddo? Pe addefid fod y ddwy gyfundrefn o grefydd, a'u hystyried yn allanol, yn gyfartal ansylweddol, gofynwn—pa un o honynt a fydd yn gyssylltiedig â'r fath ansawdd dufewnol yn ei hymlynwyr, o ran meddwl, teimlad, amcan, ac ymddygiad, ag a fydd debycaf o'u cymhwyso at y math hwnw o anfarwoldeb y maent oll, ar bob llaw, yn proffesu eu bod yn ei ddysgwyl?

Nis gall fod ond ychydig eiriau yn ofynol i ateb yr ymofyniad hwn. Pe addefid nad oes offeiriad neu aberth Dwyfol i'w wrthgyferbynu âg ebyrth anifeilaidd ac offeiriadaeth ddynol Paganiaeth; ac nad oes ddylanwad ysbrydol nefol, sydd yn uniongyrchol yn adgenedlu ac yn sancteiddio yr enaid, i'w wrthgyferbynu â thaenelliadau defodol a golchiadau gwasanaeth corfforol;—pe caniateid hyn oll, gellid rhoddi dau ofyniad, yr atebion i ba rai a allent daflu rhyw oleuni ar yr ymchwiliaeth gyffredinol yr ydym newydd gyfeirio ati: mae y gofyniadau hyn yn cyfeirio at ddylanwad *tebygol* y naill gyfundrefn a'r llall ar y meddwl a'r nodweddiad, ac at eu heffeithiau moesol, *fel mater o ffaith?*

Mae yr olaf o'r gofyniadau hyn yn un a oddef atebiad mor uniongyrchol yn ffafr yr hyn yr ydym yn barod i'w amddiffyn, ac mor ddiammheuol wir, fel mai prin y mae yn

werth i ni dalu sylw i'r cyntaf. Gallai, pa fodd bynag, y byddai gwneyd felly yn peri i'n dadl fod yn fwy cyflawn. Y pethau yr ydych i sylwi arnynt, ynte, mewn perthynas i'r gofyniad cyntaf, ydyw y rhai hyn :—Pa fath fywyd ysbrydol fydd yn debyg o gael ei gynnyrchu trwy i ddyn gredu, a gweithio allan mewn diffuantrwydd difrifol, yr hyn a ddysgir ac a argymhellir yn y llyfrau Cristionogol? Pa fath fywyd ysbrydol fydd yn debyg o gael ei gynnyrchu trwy i ddyn gredu mewn unrhyw gyfundrefn o Baganiaeth, a thrwy ei ymlyniad difrifol wrth ddefodau, ebyrth, a gwasanaeth y deml? Ac, yn olaf, pa un o'r ddau ddyn yma fydd wedi ei gymhwyso oreu, trwy ei fywyd ysbrydol tufewnol, at sefyllfa ddyfodol, i'w threulio, dywedwn, yn nghymdeithas anfarwolion Dwyfol neu wynfydedig?

Darllenwch y Testament Newydd, ac ystyriwch yn syml pa effeithiau ysbrydol a moesol yr ymddengys ei fod yn gyfaddas i'w cynnyrchu, o'i gredu yn ddiffuant a'i deimlo yn ddwys. A thybied nad ydyw yn wir fod dynion yn bechaduriaid—yr hon a gymmerir yn sylfaen yr angenrheidrwydd am yr efengyl—neu nad ydyw felly i'r graddau yr ymddengys fod y Testament Newydd yn sicrhau ei fod; a thybied nad ydyw yn wir fod Duw wedi ei ddigio, neu y gellir ei ddigio trwy gamwedd dyn; a thybied nad anfonodd efe Grist i brynu y byd—nad ydyw yn rhoddi yr Ysbryd Glân i adnewyddu a phuro y galon—nad ydyw yn gwrandaw gweddi, nac yn cyfranu gras bob dydd, nac yn gwneuthur dim arall y tybia Cristionogion ei fod yn ei wneyd, i achub eu heneidiau, a chwanegu eu sancteiddrwydd; eto, ai nid ydyw yn eglur y rhaid fod gallu yr hyn a gredant—pethau sydd i'r graddau hyny, yn dyfod yn wirioneddau iddynt *hwy*—ai nid yw yn eglur y rhaid fod gallu y pethau hyn arnynt *er daioni* yn fawr dros ben? Ai ni thuedda drychfeddwl y Testament Newydd am bechod i gadw dynion oddi wrtho? Ai nid allai ddiwygio y nodweddiad trwy arwain i edifeirwch, toddi y galon trwy beri galar am bechod, cynnyddu tynerwch cydwybod, ac mewn llawer o ffyrdd ereill, orfodi y dyn i gasäu y drwg a dewis y da? Ai nid allai y meddwl am "gariad Duw" yn "rhoddi ei Fab" er "iachawdwriaeth y byd," er mor anghyrhaeddadwy yw y drychfeddwl a gynnwysa y gosodiad—*eto*, fel rhywbeth yn arwain i syniadau mawrion ac

effeithiol a rhyfedd yn ei berthynas â Duw, ac o ddyddordeb dwfn yn ei berthynas â dyn—ai nid allai hyn, o'i gredu a'i deimlo yn briodol, weithredu ar yr enaid yn gymmaint braidd a phe buasai y grediniaeth allanol yn wirionedd? Meddyliwch y fath argraffiadau ysbrydol a gynnyrchir yn y dyn a gred yn y gwirionedd fod "Crist wedi marw dros ei bechodau, ac wedi cyfodi drachefn i'w gyfiawnhau;" ei fod wedi esgyn i'r nefoedd, ac yn "ymddangos ger bron Duw drosom ni," ac y gall yn gwbl iachäu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw;" ei fod yntau, fel Cristion, i ddangos fod "gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth......yn ei ddysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon;" os cyflawna unrhyw anwiredd, ei fod yn "elyn croes Crist;" y gofynir iddo fod yn sanctaidd fel y mae Duw yn sanctaidd;" ei fod yn "deml i'r Ysbryd Glân," oblegid fod "Ysbryd Duw yn trigo ynddo;" ei fod yn un o "offeiriadaeth ysbrydol," y rhai ydynt i "roddi eu cyrff yn aberth byw, sanctaidd, a chymmeradwy gan Dduw;" y byddai ei waith yn cyflawnu pechod yn ystyriol, yn fath o gyssegrysbeiliad, yn cynnwys ar unwaith halogiad teml a gwrthgiliad offeiriad; fod teimladau defosiynol, a meddyliau sanctaidd, ac amcanion cywir, a phob peth o'i fewn sydd yn dda, yn deilliaw oddi wrth Dduw—yn awgrymiadau ac yn effeithiau dylanwad ysbrydol, dylanwad sydd i'w gyrhaedd trwy weddi, a'i gadw drwy wyliadwriaeth? Meddyliwch, hefyd, am y teimladau â pha rai y gallai y Cristion ymroddgar, syml, a defosiynol groesawu y Sabboth—"Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd, gorfoleddwn a llawenychwn ynddo." Meddyliwch am y teimladau a ellid feithrin trwy addoli, trwy gydymdeimlad crefyddol, trwy gymundeb sacramentaidd, a thrwy fod yn nghymdeithas eu gilydd "yn tori bara ac mewn gweddïau." Gallai na byddai yr holl bethau hyn ond gwegi i eraill, ond pa mor wirioneddol ac effeithiol ydynt "i'r hwn sydd yn credu?" Pe addefid nad oes un o honynt yn gorphwys ar ddim gwirionedd cyfatebol y tu allan—y tu allan i feddwl y Cristion ei hun—eto *iddo ef*, yr hwn y mae ei natur dufewnol, ysbrydol a moesol, wedi ei moldio ganddynt oll—y mae yn eglur iawn y rhaid eu bod yn cynnyrchu effeithiau mawrion a phwysig. Y dyn y

dylanwadir arno gan y fath wirioneddau tybiedig, ac sydd yn wastad yn ymwneyd â gorchwylion penodol, yn neillduol a chyhoeddus, sydd yn cyfateb iddynt, y rhai y credir eu bod yn "foddion gras,"—y mae yn *rhaid* i'r cyfryw fod yn ddyn o feddyliau pur, o deimladau sanctaidd, o gydwybodolrwydd mawr, o foesoldeb dyrchafedig, a chanddo o'i fewn ac o'i amgylch bobpeth a ellwch feddwl am dano, nid yn unig i gymmeriad o rinwedd bydol cryf ac ymroddgar, ond i un a ddylai gael ei hynodi gan bresennoldeb elfen Ddwyfol, yr hon yr ymddengys fod ei dybiau a'i grediniaeth yn meddu cymmaint o gyfaddasrwydd i'w chreu. Nid ydwyf yn hòni fod pob un sydd yn proffesu Cristionogaeth yn gyfryw a hyn:—Yr wyf yn tybied am berson sydd mewn gwirionedd yr hyn y proffesa ei fod, wedi derbyn, megys, ar ei enaid (a defnyddio ffugr Paul) argraff gywir y "ffurf o athrawiaeth i ba un ei traddodwyd" trwy y weithred o gredu fod yr efengyl yn wir. Nid ydwyf yn gwadu ychwaith, y gallai fod llawer o bethau yn y Testament Newydd yn cael eu cyflwyno i ffydd y dyn, sydd yn ddychrynedig a dirgelaidd; ac yr wyf yn barod i addef fod pethau ereill y tybia rhai personau (ac nid yn annaturiol) y rhaid eu bod yn niweidiol i foesau: ond gyda golwg ar y pethau hyn, dymunaf sicrhau nad ydyw Cristionogion syml, duwiolfrydig, byth yn cael eu blino gan y naill ddosbarth o bethau y cyfeiriasom atynt, ac nad ydynt yn teimlo nac yn deall y pethau ereill *yn ystyr y gwrthddadleuwyr;* tra, gyda golwg ar y ddadl yn gyffredinol, mi a derfynaf trwy sicrhau fod tôn unffurf y llyfrau Cristionogol, a'u cymmeryd at eu gilydd, mor drwyadl a chyflawn yn ffafr rhinwedd, yn seiliedig ar, ac yn llifo oddi wrth dduwioldeb; a bod y fath bobl a'r dyn crefyddol dda, yn byw ac yn anadlu ac yn bod, mewn ystyr ysbrydol, yn y fath fodd, yn y goleuni a'r awyrgylch a gynnyrcha y dôn yma o eiddo y llyfr, fel nad all fod un ddadl mai yr hyn a ddysgrifiais ydyw effaith ymarferol credu Cristionogaeth mewn lluaws o amgylchiadau, mwy nag y gall fod dadl mai dyma fydd canlyniad *tebygol* unrhyw beth tebyg i ffydd ddiffuant, ddifrifol, a gweithgar. Nid ydwyf yn awr yn haeru gwirionedd Cristionogaeth, ond yr ydwyf yn haeru *rhagoriaeth* y bywyd tufewnol, a'r cymmeriad ymarferol hwnw, y mae Cristionogaeth, pa un bynag ai gwir ai gau

ydyw ynddi ei hun, yn gyfaddas i'w cynnyrchu—pan ei credir yn drwyadl ac y dangosir hi allan yn briodol.

Yn awr, pa fath ddyn ysbrydol neu dduwiol yr oedd Paganiaeth yn debyg o gynnyrchu? A thybied fod gan ei deiliaid y drychfeddwl am bechod, am anfoddlonrwydd Dwyfol, am iawn trwy aberth dyhuddol, am buredigaeth drwy ddefodau offeiriadol,—a oedd yno rywbeth yn debyg o gael ei effeithio mewn ffordd o argraff ddofn, ysbrydol, ar yr enaid a'r galon, drwy ddrychfeddyliau a gyfyngid at effeithiolrwydd tybiedig defodaeth allanol? A wyddom ni am rywbeth fel cyfundrefn ardderchog o athrawiaeth a gyssylltwyd erioed â choelgrefydd Baganaidd? A fu erioed mewn cyssylltiad â hwynt y fath olygiadau am gymmeriad Duw ag yr ymddengys fod Cristionogaeth yn eu dwyn ger bron? A ganfyddwyd yn un man, mewn unrhyw deml, neu fel cofnod o ffeithiau unrhyw grefydd, lyfrau crefyddol o'r fath duedd, gyda golwg ar yr hyn sydd bur, rhinweddol, a duwiolfrydig, ag ydyw llyfrau y Testament Newydd, y Prophwydi, neu y Salmau? A oedd gan Baganiaid, neu a oes ganddynt, ddefodau addoliad, gydag addysgiadau a chynghorion cyssylltiedig âg addoli, tebyg i gynnyrchu teimladau sanctaidd, i buro y galon, i annog at ddaioni, ac i attal oddi wrth ddrwg? Gadewch fod yr hen addolwyr yn y temlau gynt mor ddiffuant ag y byddent yn eu crêd,—gadewch eu bod mor gydwybodol ag y byddent yn cyflawnu yr hyn a alwn eu dyledswyddau crefyddol,—a oedd *natur* eu cred, a *natur* eu gorchwylion cyssegredig y fath ag oedd yn debyg o gynnyrchu, o feithrin, ac o gynnal bywyd ysbrydol ac ymarferiadau rhinweddol, wrth i'r dynion eu gweled fel gwirioneddau allanol a chyflawnu eu gwasanaeth beunyddiol?

Y pwnc o ffaith a all benderfynu hyn oreu. Beth bynag fyddo y drychfeddyliau, gan hyny, y rhai, a siarad yn athronyddol, y gellir dyweyd eu bod yn gorwedd dan bob trefniadau crefyddol, a'r rhai oeddynt, yn wir, mae'n dra thebyg, y drychfeddyliau a roddasant fod iddynt; a pha argraffiadau bynag yr ymddangosai fod defodau Paganiaeth yn gyfaddas i'w cynnyrchu gyda golwg ar bechod, edifeirwch, purdeb, ac felly yn mlaen—ai nid felly yr oedd, fod gwasanaeth y deml bron yn gyffredinol yn dyfod yn gyssylltiedig âg arferion gwaradwyddus? Ai nid oedd y duwiau eu hunain yn

wastadol yn cael eu dangos allan i'r meddwl fel pe b
yn noddwyr pob drygioni? Os ydyw yn wir, fod c
cenedl, yn gyffredin, yn rhoddi iddi ei safon o foe
ai ni chanfyddir fod yr hyn a roddid fel yma gan I
iaeth, mewn gwirionedd yn llawer is a mwy gwaradw
nag a allasai llawer pagan wneyd iddo ei hun? A
ydyw eilunaddoliaeth yn ymddangos, fel pe buasai y
gwaethaf wedi ymaflyd yn y nwydau gwaethaf a fe
wedi eu gwaethygu a'u hestyn i faintioli duw, ac yna w
taflu i'r ffurfafen i gyfansoddi yno gymmeriad duwia
y daeth y nefoedd uwch ein pen, yr hon a ymblyg
drych crogedig prydferth, i beidio ag adlewyrchu dim c
gelerderau ffieiddiaf y ddaiar? A ddarfu i Baganiae
crefydd, erioed gymmeryd arni ddysgu moesoldeb o
Ai nid oedd y paganiaid yn cael eu syniadau am rinw
yr ysgolion, yn hytrach nag yn y deml,—oddi w
athronydd, yn hytrach nag oddi wrth yr offeiriad?
gair, onid yw iaith Pedr yn gywir, pan ddywed fo
yddau y Cenedloedd yn "ffiaidd eilunaddoliaeth;" a
yw gosodiad Paul yn wir, mai "brwnt yw adrodd y pe
wneir ganddynt hwy yn ddirgel." Pa fath fywyd ys
a fyddai yr eiddynt hwy, y rhai nad oedd hyd yn c
crefydd, fel pwnc o ffaith, yn cynnyrchu ond "gweithr
anffrwythlawn y tywyllwch?" Nid cenfigen hunanol
wynebydd, nid anfoesgarwch meddwl isel nad oedd g
chwaeth at y cain a'r prydferth, ac nad allai werthf
amldduwiaeth brydferth y Groegiaid,—nid hyn a gy
odd yr hwn a lwyddodd i droi llawer o honynt at dd
ddyweyd y geiriau tanllyd hyn:—"Hyn gan hyny
yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu yn yr Arglwy
rodioch chwi mwyach fel y mae y Cenedloedd er
rhodio, yn oferedd eu meddwl; wedi tywyllu eu deall
ymddyeithro oddi wrth fuchedd Duw, trwy yr anwyb
sydd ynddynt; trwy ddallineb eu calon; y rhai wedi c
bodi, a ymroisant i drythyllwch, i wneuthur pob aflen
un chwant."

"*Eithr,*" chwanegai, "*chwychwi nid felly y dy Grist.*" Ac yn wrthgyferbyniol i'n harddangosiad o ff
au Paganiaeth, awn yn mlaen i ddyweyd fod Cristion
fel mater o ffaith, pa un bynag a ydyw yn Ddwyfol ai

ryw fodd neu gilydd, wedi cynnyrchu effeithiau mawrion a bendithiol yn y byd ar gymmeriad personol ac ar gymdeithas yn gyffredinol. Y mae wedi goleuo yr anwybodus, a dychwelyd y drygionus, a dyrchafu y syrthiedig, a phuro yr aflan, a chryfhau y llesg; ac yn mhob oes, lle bynag y caniatäwyd iddi weithredu drosti ei hun, ac fel hi ei hun, y mae wedi bod yn allu cynnyrchiol ac yn elfen amddiffynol i rinwedd. Lle y cafodd Cristionogaeth ei llygru a'i darostwng, nes dyfod yn offeiriadaeth, yn ddefodaeth, ac yn eilunaddoliaeth, fel y Baganiaeth a ddarostyngwyd ganddi, fe'i dilynwyd yn fynych gan effeithiau llawer o gyfeiliornadau boreuach, drwy eu hadferu mewn ffurf arall. Nid oes ganddi ddim i'w wneyd â hyn ond galaru uwch ei ben a'i gondemnio, ac nid oes genym ninnau ddim i'w wneyd âg ef ychwaith. Edrycher ar Gristionogaeth lle y gall "redeg," lle y caiff ffordd rydd, yn ol ei natur a'i hamcan cyntefig; lle y mae ei llyfrau yn agored i bawb; lle y cynnwysa ei gwasanaeth addysg yn gystal ag addoli; a lle y mae heb gael ei thrawsffurfio i arwyddluniaeth chwarëyddol. Pa le bynag yr ystyrir hi fel gwirionedd ysbrydol, mawr, a dwyfol, ac y gweithreda ar ddynion gyda y nerth hwnw, ai nid yw yn anwadadwy fod dynion yn cael eu gwneyd yn hynod o dda drwyddi—fod rhinwedd yr eglwys yn cael ei lywodraethu gan reolau a ystyria y byd yn afreidiol o fanwl; a bod safon rhinwedd yn cael ei ddyrchafu a'i buro, er hyny, mewn cymdeithas yn gyffredinol? Yn wir, y mae dylanwad ailraddol neu adlewyrchol yr efengyl wedi gwneyd llawer tuag at wella dynolryw. Mewn cenedloedd Cristionogol, y mae wedi dylanwadu er daioni ar ansawdd teimlad, ar egwyddorion moesau, ac ar arferion bywyd; y mae wedi achosi i'r hyn a wneid ac a oddefid yn mysg y Cenedloedd paganaidd i gael ei gondemnio a'i ochel fel peth drygionus a gwaradwyddus; y mae wedi lladd chwareuon gwaedlyd cyhoeddus, ac wedi dyfnhau a dyrchafu, eangu a phuro, rhinwedd personol. Mewn gwledydd Protestanaidd, o leiaf, y mae yr athronydd wedi bod yn dysgu moesoldeb oddi wrth yr offeiriad,—y mae athrawiaeth yr eglwys wedi bod yn burach nag athrawiaethau yr ysgolion. A sylwer hefyd! o blegid y mae yn ffaith eglur—pa sut bynag y gellid rhoddi cyfrif am dani—fod y rhai hyny a broffesasant yr hyn a elwir ffurf efengylaidd yr

efengyl, ac hyd yn oed y rhai a gynnwysasant yn hyny rai golygiadau a deongliadau o athrawiaeth a *ymddangosent*, mewn egwyddor, fel yn beryglus i foesau—sylwer fod yn mysg y cyfryw, yn fwy nag yn mysg pleidiau Cristionogol ereill, luaws o bobl, y rhai, er fod y peth yn ddigon hynod, a fuant y personau mwyaf crefyddol a sanctaidd yn eu bywyd, mwyaf manwl yn eu syniadau am ymarweddiad, mwyaf gofalus am eu hymddygiadau; ac yn mhob ystyr, y rhai mwyaf rhagorol, rhyddfrydig, a chymmwynasgar o holl feibion dynion.

Yn awr, os oes rhyw wirionedd yn hyn oll,—ac yr wyf fi, o'm rhan fy hun, yn credu ei fod, ar y cyfan, oll yn wir; os felly y mae,—os ydyw *tuedd* y ddau beth yr ydym wedi eu cymharu fel y dangosasom, ac os yw y *ffeithiau* mewn perthynas iddynt fel y dysgrifiasom, onid yw yn eglur—pe deuem eto at ein hymofyniad blaenorol—a *thybied* y try bywyd dyfodol dyn yn rhywbeth a ofyna, yn chwanegol at y rhinwedd a gyfaddasa ddyn at y byd hwn, burdeb calon, teimladau ysbrydol, effeithau galar am bechod, sancteiddrwydd, ffydd, a phob peth arall sydd yn myned i gyfansoddi bywyd gwirioneddol, tufewnol, dwyfol—bywyd dwfn o ran ei sylfeini yn hanfod ein bodolaeth, a mawr o ran ei ffrwythau yn ymddygiadau gweledig y dyn duwiol: os, meddaf, y canfyddir fod anfarwoldeb dyn o natur ag sydd yn gofyn hyn oll, ai ni fyddai yn wastraff ar eiriau i geisio profi, pa un bynag a ydyw Cristionogaeth ei hun yn wir ai peidio, y bydd y dyn sydd yn ffyddlawn iddi hi, nid yn unig *yn gystal* o ran ei barotoad at ddyledswyddau a mwynderau y fath fywyd, ond yn *llawer gwell* nag unrhyw grefyddwr arall yn yr holl fyd?

Yr wyf wedi cyfyngu y ddadl at gymhariaeth rhwng tuedd ac effeithiau yr efengyl, a thuedd ac effeithiau y cyfundraethau crefyddol hyny, y rhai y darfu iddi hi i'r fath raddau eu taflu o'r neilldu a sefyll yn eu lle. Ni thybiais yn angenrheidiol gyfeirio at Fahometiaeth, ac i gyferbynu ei syniadau am nefoedd, a'r ffordd a gynnygia i ymbarotoi iddi, âg eiddo Cristionogaeth. Os yw yr oll sydd yn cael ei ddyweyd yn gyffredin am "syniad" y Mahometiad am y baradwys a ddysgwylia yn wir, nid allai y Cristion cysson fod yn hynod o barod ar ei chyfer, rhaid addef. Byddai ganddo, pa fodd *bynag*, ynddo ei hun, trwy ddeddfau tragwyddol ac anghyf-

newidiol y greadigaeth, yr hyn a wasanaethai i'w ddedwyddwch mewn unrhyw fyd y gallai fyned iddo, neu y gellid ei anfon iddo, o blegid ei anghymhwysder i fwynhau cymdeithas y cynfrodorion nefol! Nid ydym yn aros ar hyn; o blegid, er y gellid canfod fod ychydig o ormodedd yn y syniad poblogaidd am baradwys y Twrc, prin y gall fod yn rhwymedig arnom ni, er mwyn gwneyd cyfiawnder â'r prophwyd Arabaidd, i ystyried ei grefydd fel rhywbeth i'w chymharu â Christionogaeth ar ei phen ei hun. Gwn yn burion, fodd bynag, y gallai rhai feddwl fod ganddi y fath hawl, nid yn unig o blegid rhai o hynodion tybiedig ei chred, ond oddi wrth y ffaith o'i bod, ar ei chychwyniad, wedi cymmeryd lle rhai ffurfiau o Gristionogaeth ddirywiedig. Yr wyf yn ei ystyried yn ddigon i ddywedyd ond un peth yma;—Pa beth bynag allai fod gwir natur a dylanwad ymarferol Mahometiaeth uniongred, prin y gallwn ddychymygu fod nodweddiad Duw neu gyfansoddiad pethau y fath, fel y collir ef, yn y cyfrif olaf, yr hwn yn ysbrydol a "wisgodd am dano yr Arglwydd Iesu Grist," os bydd i ddyn rhinweddol y Coran a'r *Mosque*[1] ddianc yn llwyddiannus.

PENNOD VI.

YR ydym yn awr wedi darfod â chymharu. Rhaid i'r ddadl gymmeryd gwedd arall. Gan i ni brofi, os buom hyd yma yn llwyddiannus, y bydd y Cristion sydd yn grefyddol rinweddol yn berffaith barod at anfarwoldeb posibl Atheistiaeth, ac anfarwoldeb tybiedig Deistiaeth, ac anfarwoldeb dysgwyliedig pob crefyddwyr; ac nad all efe, yn wir, ei gael ei hun yn anmharod i fywyd tragwyddol, pa un bynag o'r tair tybiaeth y cyfeiriasom atynt a brofa ei hun y wir dybiaeth, gan y bydd efe mewn gwell sefyllfa i wynebu y gwirionedd na'r ymlynwyr wrth y tybiaethau hyn eu hunain;—wedi profi hyn, y mae un peth eto yn aros heb ei wneyd.

Yr ydym wedi sefyll yma am beth amser, ar esgynlawr lydan crediniaeth grefyddol, gyda chynnrychiolwyr llawer crefydd; edrychasom allan i weled yr hyn oedd i'w weled, ac

[1] Y deml Fahometaidd.

yr ydym wedi dyfod i'r penderfyniad, y bydd y credadyn Cristionogol wedi ei gymhwyso yn well at anfarwoldeb perffaith bur a gogoneddus, os ydyw hwnw wedi ei fwriadu i ni, na dysgyblion unrhyw grefydd arall. Cynnygiwn, yn awr, gymmeryd un cam yn chwaneg a gwneuthur symmudiad arall tuag i fyny; ac fel hyn, i sefyll ar yr uchelder mwyaf dyrchafedig y credwn sydd yn bosibl ei gyrhaeddyd;—hyny yw, nyni a awn gyda'r Cristion i'w safle neillduol ei hunan, y pwynt o olygfa sydd yn perthyn yn unig iddo ef, a safwn yno am enyd gydag ef, a chydag ef yn unig. Cynnygiwn sefyll ar y fan y mae efe yn gwneyd ei sylwadau, gan ymofyn beth *yw* yr hyn a broffesa weled, a *pha fodd* y dysgwylia ei gyrhaeddyd. Yna, ni a ymchwiliwn—nid pa un a fydd ei barotoad Cristionogol at anfarwoldeb yn sicrhau oreu ei gymhwysder i'w fwynhau, yr hyn ni fyddai ond syrthio i'r twyllresymiad, yn erbyn pa un y cawsom ein rhybuddio: ond, yr hyn sydd yn ymofyniad cwbl wahanol—Onid oes rhyw beth o amgylch y cwbl—y drychfeddwl am y dyfodiant Cristionogol, a'r drychfeddwl Cristionogol am yr hyn sydd yn angenrheidiol er ei sicrhau—sydd yn ei wneyd yn anmhosibl, neu yn nesaf i anmhosibl, i ochel y casgliad, nad rhyw dybiaeth ddychymygol am fywyd arall yw efengyl Crist, ac nad corfforiad o syniadau tufewnol nifer o ddynion difrifol, er eu bod yn gyfeiliornus, ydyw; ond ei bod yn beth trwyadl wirioneddol a Dwyfol; yr unig wirionedd; yr unig sylweddolrwydd pendant a gwirioneddol yn ein byd ni a berthyna i fater y ddarlith hon; yr hon sydd wedi ei rhoddi gan Dduw, i'r dyben penodol o ddadguddio i ddyn "fywyd ac anllygredigaeth," ac estyn iddo y moddion i ymbarotoi ar ei gyfer?

Nid ydwyf yn myned i chwilio neu i drin yr holl brofion o wirionedd Cristionogaeth. Ni ofynir hyny gan y gorchwyl yr ymgymmerais âg ef. Cynnygiaf yn unig i hysbysu yn frysiog ychydig iawn o syniadau sydd yn dwyn perthynas agos â'r pwnc mewn llaw. Amcan y rhai hyn, fel yr awgrymwyd eisoes, fydd dangos fod pethau o amgylch yr efengyl, mewn perthynas i'r pwnc mawr yma o fywyd dyfodol—ac efallai y gallem ddywedyd, mewn perthynas i'r pwnc mwy fyth o sail ein parotoad ar ei gyfer — y rhai, pan edrychir arnynt yn ystyriol, a ymddangosant fel yn cenedlu math o *rag-*

dybiaeth ein bod mewn gwirionedd wedi cael gafael ar ryw beth tebyg i sicrwydd; y rhai a'n hawdurdodant i gredu fod genym mewn Cristionogaeth, nid yn unig offeryn a barotoa ddyn at unrhyw sefyllfa ddyfodol, ac felly a'i gwna yn ddiogel—ond fod ganddi y gwir ddrychfeddwl o'r sefyllfa hono, y dadguddiad Dwyfol o'r bywyd anfarwol hwnw sydd yn aros y byd. Os fel hyn y mae, gall droi allan, nid yn unig fod y Cristion yn fwy parod nag ereill at yr hyn a allai fod y tu cefn i'r orchuddlen ddu, ond y byddai yn ddoeth i ereill ymofyn a ydynt mewn gwirionedd yn barod iddo o gwbl.

Mi a gyfyngaf fy sylwadau at y ddau beth y cyfeiriwyd atynt yn barod; sef y drychfeddwl Cristionogol am fywyd dyfodol, a'r drychfeddwl Cristionogol am drefn i barotoi. Ac yma, dealler ar unwaith, fy mod yn cymmeryd y pethau hyn, nid yn ol rhyw ddeongliad newydd a mwy coeth o'r llyfrau Cristionogol, ond yn debyg fel y cawsant bob amser eu cymmeryd a'u dysgu; er, efallai, gydag ychydig o wahaniaeth yn y dull o'u gosod allan. Yr ydwyf yn arbenig yn cymmeryd i fewn yn y peth cyntaf y cyfeiriwyd ato, "adgyfodiad y meirw," yn ol ystyr eglur a llythyrenol y geiriau; ac yr ydwyf yn cymmeryd i fewn yn yr ail, athrawiaeth y cyfryngdod—"prynedigaeth y byd trwy Iesu Grist;" cyfryngiad uniongyrchol, goruchnaturiol, o eiddo Duw, trwyddo Ef, er "maddeuant pechodau," gwaredigaeth oddi wrth ei ganlyniadau, ac "agoriad teyrnas nefoedd i bawb a gredant."

Y mae y drychfeddwl Cristionogol am fywyd dyfodol, ar y cyfan, ar ei ben ei hun. Nid un athroniaeth ydyw nac un y crefyddau a lwyddent yn y byd cyn ymddangosiad Crist, neu yn yr amser hyny. Y mae anfarwoldeb yr efengyl yn rhyw beth heblaw anfarwoldeb yr enaid—y mae yn anfarwoldeb dynoliaeth. *Dyn* sydd i fyw ar ol hyn, yr hwn y mae ei holl natur, a siarad felly, i gael ei thragwyddoli. Y mae y Testament Newydd, yn wir, yn awgrymu y posiblrwydd o sefyllfa o ymwybyddiaeth yn union ar ol angeu; ond ei drychfeddwl mawr ydyw adgyfodiad y meirw. Gall y meirw, nid yn unig fyw fel ysbrydion heb gyrff, ond y maent i fyw drachefn fel dynion. Y maent i feddu yr hyn a elwir yn "gorff ysbrydol;" —cyfansoddiad, mae'n debyg, fydd yn fateraidd gan belled

droi ar y pwynt yma:—y drychfeddwl efengylaidd am yr *angenrheidrwydd am gyfryngiad grasol goruchnaturiol mewn trefn i faddeu pechod*, a sicrhau i'r pechadur fywyd tragwyddol gwynfydedig a gogoneddus.

Nid ydyw i'w wadu fod Cristionogaeth yn cyssylltu maddeuant pechod wrth farwolaeth Crist, gan ei bod yn dysgu fod Duw wedi ei "osod Ef i fod yn iawn, fel, trwy ffydd yn ei waed Ef, y derbynio dynion faddeuant pechodau, ac y byddo Duw yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau yr hwn sydd yn credu.' Gallai dynion wrthod Cristionogaeth ei hunan, o blegid ei bod mor bendant yn cadarnhau yr athrawiaeth hon; neu gallent ddethol yr hyn sydd foesol a defosiynol yn yr Ysgrythyrau, yn nywediadau yr Iesu, ac yn ysgrifeniadau yr apostolion, a gallent alw hyn eu Cristionogaeth *hwy;* ond ychydig iawn yn y dyddiau hyn a geisiant ammheu fod yr athrawiaeth o'n blaen yn sefyll fel rhan, ac fel rhan hanfodol yn y Testament Newydd, a'i gymmeryd gyda'i gilydd, a'i ddeongli yn ramadegol, o'r adeilad hono o feddyliau, yr hon yr oedd ysgrifenwyr y llyfr eu hunain yn credu ynddi, a'r hon y ceisient ei sicrhau yn y byd. Rhaid i mi osod yr hyn a ddymunaf ddwyn ger bron yma yn y ffurf fwyaf cyffredinol a chynnwysfawr a fyddo yn gysson âg eglurdeb, gan ddangos yn unig y llinell o feddwl, yr hon y gellwch yn hawdd ei dilyn yn mhellach. Y drychfeddwl Cristionogol, ynte, o faddeuant pechodau yw, ei fod yn rhywbeth a ofyna ymyriad uniongyrchol â chyfundrefn o gyfraith oedd wedi ei sefydlu yn flaenorol. Wedi i'r gyfundrefn yma gael ei sefydlu, y mae yn rhaid i bechod, neu droseddiad o honi, yn ol trefn naturiol pethau, gael ei ddilyn gan gospedigaethau—*mewn ffordd o ganlyniad anocheladwy.* Mewn trefn i'r canlyniad ofnadwy yma gael ei ochel—hyny yw, er mwyn i ffeithiau pendant perthynol i ddyn beidio a chael eu dilyn gan yr hyn a gynnyrchasent yn naturiol ac anocheladwy—rhaid i rywbeth gael ei wneyd, rhaid i'r cyssylltiad rhwng pechod a chanlyniadau pechod, y rhai sydd wedi eu rhwymo yn nghyd yn ol trefn y greadigaeth, gael eu ddattod, mewn geiriau ereill, rhaid fod yma ymyriad uniongyrchol â gweithrediad rheolaidd, unffurf, a phriodol, pob deddfau a sefydlwyd yn flaenorol;—gwyrth, mewn gwirionedd, neu rywbeth cyfartal i wyrth, nad all ddeilliaw ond oddi wrtho Ef, yr hwn

sydd yn Arglwydd y greadigaeth ei hunan. Sylwch sut y mae yr achos yn sefyll;—gellid ei osod, efallai, yn y modd mwyaf dealladwy, trwy ei ddwyn ger bron mewn ffugr. Y mae yn rhaid i beiriant mawr Deddf Natur, os ä yn mlaen gan weithredu yn gysson âg ef ei hun, o angenrheidrwydd weithio y defnydd crai o weithredoedd pechadurus i ryw wisg ddyfodol ddychrynllyd i'r pechadur. Os *maddeuir* pechod, mae yn rhaid i hyny olygu, os meddylia rywbeth cyfatebol i'r angen, y bydd i redfa naturiol pethau gael ei rhwystro,—y bydd effeithiau, a fuasent oni bai hyny yn anocheladwy, yn diflanu, ac y bydd pethau yn cael eu trin a'u plygu yn y fath fodd, fel *na* ddygwydd yr hyn a gynnyrchasid yn naturiol, ond rhywbeth hollol wahanol. Ni chaiff y pechadur ei ganfod ei hun wedi ei wisgo â'i bechodau, a'r rhai hyny wedi eu gweithio allan yn wisg wedi ei gwenwyno i fwyta i'w gnawd,—sef effaith gweithrediad naturiol y ddeddf: yn lle hyn, fe fydd yn rhaid i'w bechodau a'u canlyniadau gael, mewn effaith, eu dileu, a rhaid i'r *peth hwnw* ddyfod iddo a fuasai yn gynnyrch diniweidrwydd neu rinwedd.

Yn awr y mae y gallu newydd yma, yn ngweithrediad a dygiad allan drefn sefydledig pethau, yn ol Cristionogaeth, yn cael ei gyfranu iddi trwy *un weithred fawr oruchnaturiol o eiddo Duw*. Nid dygiad allan rhyw allu gwreiddiol oedd gynhenid ynddi ei hun ydyw, yr hyn ni buasai ond amlygiad arall o ddeddf naturiol; ac nid, ar y llaw arall, y rhoddiad allan o nerth goruchnaturiol yn amgylchiad pob dyn ar ei ben ei hun, yr hyn a fuasai bob tro yn wyrth wahanol, pa bryd bynag y buasai unrhyw ddyn yn derbyn maddeuant pechodau. Gan gymmeryd ei safle rhwng y ddau eithafnod yma — gan addef yr angenrheidrwydd am rywbeth uwchlaw natur, ond gochel y lluosogiad o weithredoedd goruchnaturiol—y mae yr efengyl yn dangos dygiad i fewn, mewn dull o ddyweyd, trwy gyfryngiad Dwyfol, beth newydd i'r gyfundrefn wreiddiol, sydd i gael ei weithio a'i wau er mantais y rhai hyny a ddelont i undeb âg ef; neu chwanegiad, os dewisir ei alw felly, o allu newydd, a chanddo fodd i ddinystrio—er mwyn y rhai a gymmerant nawdd ynddo rhag gweithrediad y cyntaf—canlyniadau naturiol eu troseddau personol; ac nid yn unig i ddi-

nystrio a diddymu y rhai hyn, ond i wau allan yn y pen draw ar ran ei gwrthddrychau, yn ol trefn sefydledig o'i eiddo ei hun, yr hyn a fyddai yn gyfartal i effeithiau gweithrediad y trefniant naturiol, pe buasent, nid yn unig erioed heb bechu, ond wedi cyflawnu yn berffaith bob cyfiawnder. Fe ddarfu i'r ymyriad goruchnaturiol yma â chyfundrefn deddf sefydlog —y dygiad yma o ddefnydd newydd i mewn iddi, y cyfraniad yma iddi o weithrediad newydd, neu osodiad y gallu newydd hwn o'i mewn, neu yr holl bethau hyn yn nghyd —gymmeryd lle, "unwaith am byth," trwy i Dduw "anfon ei Fab, yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac yn bechaberth," fel y byddai iddo Ef, "yr hwn nid adnabu bechod, gael ei wneyd yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef." Mewn canlyniad i hyn, gelwir dynion i edifarhau a chredu yr efengyl; "a phwy bynag a gred," a wneir, mewn dull o ddyweyd, yn un âg Ef yn yr hwn y creda;—fe ddinystrir canlyniadau naturiol ei bechodau, gan belled ag y mae a fyner â thragwyddoldeb; ac yn lle medi eu heffeithiau cospawl, caiff fedi y canlyniadau a ddeilliant oddi wrth yr hyn a wnaed erddo gan Grist. Ond yn chwanegol at y ffaith oruchnaturiol i "Grist farw dros ein pechodau ni," y mae trefn Ddwyfol wedi ei sefydlu yn y byd, mewn canlyniad i'w weithred brynedigol ef; sef goruchwyliaeth ysbrydol, o fewn ac yn mysg trefniadau y ddaiar, sydd yn cymmeryd i fyny, megys, bawb a ddel i gyffyrddiad â hi,—yr hon sydd gyfaddas hefyd i dynu dynion ati ei hun, a'r hon sydd yn gweithredu yn y fath fodd erddynt ac arnynt, fel y mae yn gyfaddas i weithio allan ganlyniad dedwydd yn *ol trefniant sefydledig*. Fe fu "unwaith" gyfryngiad goruchnaturiol uniongyrchol, arddangosiad gwyrthiol o allu Duw, mewn trefn i gyfarfod angenrheidrwydd anmhlygadwy:—ond wedi i hyna gael ei wneyd, y mae trefn raslawn o bethau wedi ei seilio arno,—yna y mae y goruchnaturiol yn peidio, gan belled ag y mae a fyner â gweithredoedd uniongyrchol,—ac y mae pechod yn cael ei faddeu (trwy ddiddymiad ei effeithiau) trwy weithrediad rheolaidd deddfau sefydledig y cyfansoddiad graslawn; sef yr oruchwyliaeth ysbrydol yna, yr hon sydd wedi ei gosod i fyny yn yr eglwys er iachawdwriaeth y byd. Sicrheir yn mhellach fod yr an*sawdd* meddwl a theimlad sydd yn dwyn dyn i gyffyrddiad

bywiol â'r hyn a wnaed trwy gyfryngiad trugaredd, a threfniant mawr dylanwad ysbrydol i ba un y del yn ddarostyngedig fel credadyn Cristionogol, a derbynydd iselfrydig o ras Duw;—sicrheir fod y pethau hyn yn nghyd wedi eu cyfaddasu a'u bwriadu i ladd cariad at bechod yn enaid dyn, i'w waredu oddi wrth ei allu, i buro ei galon, i gynnyrchu pob sancteiddrwydd ymarferol, ac i effeithio yn y fath fodd ar ei arferion a'i nodweddiad, fel y "cyflawnir cyfiawnder y ddeddf ynddo ef, trwy ei fod yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr ysbryd." Y canlyniad yn y pen draw yw, fod y fath gydgordiad yn dyfod rhwng ansawdd ei feddwl, ei serchiadau, a'i ymarweddiad, âg egwyddorion tragwyddol ac anghyfnewidiol trefn foesol, ag sydd yn cyfansoddi cymhwysder gwirioneddol, sydd yn cynnyddu yn barhaus, iddo fyned i mewn yn llawen i'r gwyddfod Dwyfol, a theimlo ei hunan gartref yn y byd fry!

Y mae yr ychydig syniadau hyn, er mor fyr ac anmherffaith ydynt, yn eglurhau yn ddigonol, fel yr ymddengys i mi, y golygiad Cristionogol am natur "maddeuant," yr angenrheidrwydd am i rywbeth gael ei wneyd gan Dduw er mwyn ei gyrhaeddyd; sef "cyfryngdod," "prynedigaeth," "cymhwysder i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni," ac felly yn mlaen. Mi a geisiais osod o'ch blaen ddrychfeddwl canolbwyntiol y gyfundrefn efengylaidd, a dim arall. Y mae duwinyddion wedi bod yn aros yn rhy fynych ar bethau allanol y meddwl,—ffugrau, a chyfatebion, â pha rai y mae yn cael ei wisgo mewn testynau penodol, neu â pha rai y cafodd ei egluro gan ereill, neu ganddynt hwy eu hunain. Ac oddi wrth hyn, ni a gawsom osodiadau mewn eglurhad ar ddyoddefiadau Crist, eu perthynas â phechod ac â chospedigaeth pechod—gyda golwg ar neillduolrwydd neu helaethder Ei iawn, yn ol rhifedi llai neu fwy y rhai a fwriedid eu llesäu trwyddo; mewn gwirionedd, ni gawsom gydbwysiad cyfreithiol, masnachol, neu ryw fath arall, o'r naill beth gyda'r llall, ag ydoedd yn boenus o wrthdarawiadol, yn cael ei ddilyn yn fynych yn y fath fodd, fel ag i orchuddio yn hytrach nag i ddwyn i'r golwg yr un gwirionedd syml a hanfodol. Yr un drychfeddwl yna yw yr oll a ddymunwn yn awr ei osod ger bron. Nid yw yn angenrheidiol i mi ymofyn *pa fodd* y mae, fod marwolaeth, neu fywyd Crist, neu

unrhyw beth a wnaeth Efe, yn gweithredu tuag at ddiddymu canlyniadau pechod. Y mae yn ddigon i ni wybod y *ffaith* ddadguddiedig, fod cyfryngiad Dwyfol yn angenrheidiol i hyn—fod y cyfryngiad yna wedi dyfod yn y ffurf o Waredwr yn dyoddef: a pha un bynag a ddeallwn, neu a ydym yn alluog i ddeall *modd* y peth, ai peidio, felly *y mae*. Y mae Duw, trwy y cyfryngiad goruchnaturiol yma, yn gwneyd rhywbeth a all dori y cyssylltiad rhwng pechod a'i ganlyniadau naturiol ac uniongyrchol;—"cyfiawnhëir *pob un sydd yn credu*, oddi wrth yr holl bethau y rhai nid allent gael eu cyfiawnhau oddi wrthynt" drwy weithrediad deddf wreiddiol sefydlog. Dyna yr athrawiaeth Gristionogol, pa un bynag ai gwir ai peidio, a pha fodd bynag y gellir ei deongli neu ei hesbonio. Rhaid i chwi fy neall fel wedi ceisio arddangos *hyn* yn unig—athrawiaeth yr efengyl ei hunan—nid athrawiaeth *am dani*. Nid ydwyf ond yn sicrhau, yr hyn y mae pob Cristion uniongred yn ei gredu—beth bynag *arall* a all gredu yn ei gylch—fod gwyrth yn eisieu i sicrhau maddeuant; ei bod wedi dyfod yn y ffurf y cyfeiriwyd ati eisoes; a bod pethau, trwyddi hi, wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel na wneir gwyrth yn amgylchiad pob pechadur edifeiriol. Yn awr, ac edrych ar hyn (a'i gymmeryd fel yma ar ei ben ei hun), fel drychfeddwl canolbwyntiol y gyfundrefn Gristionogol, a'i hystyried hi fel cynllun i barotoi y ffordd i ddyn gyrhaedd bywyd tragwyddol, fe'm tueddir i ddywedyd, fod cryn lawer o'i hamgylch sydd yn ei wneyd yn debygol mai hi yw yr un iawn;—fel y mae gan y drychfeddwl Cristionogol am y bywyd yna ei hunan gryn lawer o'i amgylch sydd yn ei wneyd yn debygol mai *yntau* hefyd yw y gwir olygiad. Gan belled ag y mae a fynom â phwnc y ddarlith bresennol, ni bydd yn angenrheidiol i ni ond cynnyg dau sylw mewn ffordd o eglurhâd ar y gosodiad hwn.

Yn y lle cyntaf, Ymddengys fod Cristionogaeth wedi ei chyfansoddi yn y fath fodd fel ag i gyfarfod awgrymiadau a dymuniadau anmhendant y duedd grefyddol, fel y mae wedi cael ei harddangos drwy yr holl oesoedd. Yr oedd crefydd, yn mhob man, fel y gwelsom, yn cymmeryd yn hanfodol yr un ffurf; yr ydoedd, yn mhob man, yn arddangos syniad *cyffredinol* am golled gyffredinol a pherygl cyffredinol, a drychfeddyliau cyffelyb am drefn gwaredigaeth. Y mae o

leiaf yn beth hynod, ac yn deilwng o'n sylw mwyaf astud—pan y mae holl ddefodau, arwyddion, a sefydliadau, yr hyn a ellid ei alw yn *grefydd naturiol* dynoliaeth, wedi gorphen eu gwaith, fe ganfyddir fod y grefydd sydd yn dyfod atom fel wedi ei dadguddio gan Dduw yn cynnwys yr un syniadau, ond yn unig eu bod dan ffurfiau dwyfol a goruchnaturiol. Yr wyf yn credu fod hyn yn beth y gellir rhoi cyfrif am dano, drwy y ffaith fod crefyddau y paganiaid yn ŵyrdroadau a llygriadau o sefydliadau cyntefig—o arwyddion a defodau o osodiad Dwyfol yn union ar ol y gwrthgiliad, y rhai a fwriedid o'r dechreuad i fod yn fath o brophwydoliaeth deimladwy am y Gwaredwr addawedig, ac i ragddangos hynodrwydd ei weithred brynedigol. Yr oedd greddfau natur yn canfod—yn y drychfeddyliau a ddygid allan yn anmherffaith mewn aberthau a golchiadau, er iddynt efallai fod yn cael eu diraddio gan amgylchiadau yn nglŷn â hwynt—rywbeth ag oedd yn cyfarfod ei hymwybodolrwydd tufewnol, ac yn ymddangos yn gyfaddas i'w hansawdd foesol. Y mae gan Gristionogaeth afael ar ddynion, oddi wrth ei chyfaddasrwydd teimladwy at eu sefyllfa, yn enwedig pan y mae eu meddyliau yn cael eu cynhyrfu a'u cyffroi gan ymofyniad difrifol "am wybodaeth iachawdwriaeth trwy faddeuant pechodau." Y mae yn y cymhwysder yma o eiddo yr athrawiaeth Gristionogol at natur dyn, heb law y ffaith o'i fod yn deilliaw oddi wrth fod y gyfundrefn ei hunan, megys, yn gynllun ysbrydol o'r hyn a geisid ac yr hiraethid am dano trwy yr holl oesoedd, ac yn mhob gwlad—y mae yn hyn rywbeth, yr wyf yn meddwl, sydd yn profi yn awdurdodol hawliau yr efengyl i gael ei derbyn fel crefydd awdurdodedig y byd.

Yn y lle nesaf, Y mae Cristionogaeth, nid yn unig yn cydsefyll â'r teimladau deillion a ymdrechent egluro eu hunain mewn hen goelgrefyddau, ond hefyd yn cydsefyll â syniadau, darganfyddiadau neu brofion, athroniaeth ddiweddar. Mae yr athroniaeth yna yn dysgu yn awr, wrth geisio ymresymu yn erbyn gweithredoedd a chrediniaeth grefyddol, nad all, a siarad yn briodol ac yn ol trefn sefydledig natur, mewn un modd fod maddeuant pechodau. Cyfeiria at gyfundrefn sefydledig; ymhelaetha ar y ffaith o fod pechod wedi ei gyssylltu yn annattadodwy wrth ei ganlyniadau; profa yn

eglur fod y drychfeddwl o faddeuant yn cynnwys llawer mwy na theimlad caredig a hynaws tuag at y troseddwr; gwel y rhaid ei fod yn cymmeryd i fewn weithred Ddwyfol, ymyriad goruchnaturiol â deddfau sefydledig ac anghyfnewidiol bodolaeth, diddymiad trwy wyrth o ganlyniadau anocheladwy ac angenrheidiol ymarweddiad; a thybia nad yw hyn yn beth i'w ddysgwyl. Y mae yn hyfdra gweddïo am dano, yn sarhad ar Dduw i ofyn iddo ef wneyd, er eich gwaredu oddi wrth ffrwythau eich gweithredoedd eich hunain, yr hyn a fyddai yn gyfryngiad goruchnaturiol ar eich rhan, ac yn dyrysu deddf neu drefn y greadigaeth. Na! y mae yn rhaid i bethau gymmeryd eu rhedfa eu hunain, ac y mae yn rhaid i'r pechadur gymmeryd canlyniadau ei bechod ei hun. Nid ellir wrtho. Y mae yn rhaid i ddrygioni, yn anocheladwy ei luosogi ei hun; ac estyna ei ddylanwadau ar y drwgweithredwr, mewn cospedigaethau nad all neb ddyweyd eu hyd. Rhaid iddo ymostwng i'w dyoddef cystal ag y gall, gan obeithio, os cenfydd hyny yn bosibl, yr hyspyddant eu hunain rywbryd, neu y gallai rywbeth ddygwydd neu gael ei ddadguddio, ryw amser dyfodol, trwy ba un y darganfydda fodd gan natur i'w esmwythau, neu trwy ba un y gellid ei ddysgu i esmwythau arno ei hun! Dyma efengyl athroniaeth ddiweddar. Ar ei hegwyddorion ei hun y mae yn berffaith gyfiawn. Y mae Cristionogaeth hefyd yn cadarnhau ei phenderfyniadau, drwy eu cymmeryd fel sail a rheswm y waredigaeth a osodir ganddi o flaen ffydd, a ddirgymhellir ganddi ar bechod, ac a gynnygir ganddi i edifeirwch. Mae maddeuant, ebe hi, yn gofyn—a hyny o blegid y ffaith o fod cyfundrefn sefydledig deddf naturiol—drefniant goruchnaturiol neu Ddwyfol, mewn trefn i ddiddymu canlyniadau trosedd; ac yna y mae yn dadgan fod yr hyn a ofynir mewn gwirionedd wedi ei wneyd,—"oblegid yr hyn sydd anmhosibl gyda dynion sydd bosibl gyda Duw." Gallai na byddai o'i le i ni fyned yn ol at y tybiau a fu o'n blaen am fyd a dyn, yn enwedig y ddwy gyntaf, gan sylwi am fynyd sut yr ymddangosant, pan edrychom arnynt trwy gyfrwng y goleuni a feddwn yn awr. Nyni a'u profwn trwy gyffyrddiad *yr un meddwl yma* â hwynt,—ymyriad goruchnaturiol, cyfryngiad Dwyfol, ymadawiad oddi wrth drefn a rhedfa natur, cyfryngdod gwyrth, neu pa enw bynag y dewiswch roddi arno,—y gwadiad o ba un ydyw sylfaen dybiedig pob

rhesymoliaeth (*rationalism*), a'r caniatad o ba un sydd hanfodol i wir feddylddrych Cristionogaeth.

Nis gall y dyb Atheistaidd, yr hon sydd yn gwadu bodolaeth Duw, a phosiblrwydd bywyd dyfodol i ddyn, wrth reswm gynnwys ynddi ddim gwyrthiol, sef yr hyn sydd oruchnaturiol, o blegid nad ydyw hi yn addef dim uwch law natur; ond gallai gynnwys ynddi yr hyn sydd annaturiol, a gwna felly, fel yr wyf yn meddwl, i'r fath raddau ag sydd yn llawer mwy nag un wyrth Gristionogol y clywyd erioed son am dani. Nid all rhai athronwyr gredu mewn maddeuant pechodau, o blegid y rhaid fod hyny yn golygu, os golyga rywbeth, hollol ddiddymiad canlyniadau gweithred; ond y mae Atheistiaeth yn myned lawer iawn yn mhellach na hyn, o blegid darpara ar gyfer diddymiad trwyadl y gweithredwyr! Y mae yn diddymu *meddwl*. Yn unol â'i syniad hi, y mae mater yn anfarwol, ond y mae meddwl yn marw. Y mae y naill yn cyfnewid ei ffurf, ond yn parhau i fod fel sylwedd hanfodol; ond y mae y llall yn cael ei ddiofrydu i ddiddymiad hollol. Ië, y mae mater yn cael ei ddefnyddio yn nghynnyrchiad meddwl; y mae mewn effaith yn ei greu; dwg i fod yr hyn a'i meistrola ef ei hun, a gynnwys y greadigaeth, a rifa ac a fesura y ser, sydd yn alluog i fwynhau bywyd ysbrydol ardderchog, a ddyfeisia Dduw, sydd yn gynhyrfydd meddyliau sanctaidd, ac yn ffynnonell gorchestion arwraidd! Y mae y llanw bythdreigledig o feddyliau newydd eu creu yn llifo allan trwy weithrediad mater; ac am y mater yma, nis diddymir byth, ond y mae, trwy gyfnewidiadau diorphwys, yn aros yr un, wedi ei wisgo â phriodoliaethau bodolaeth dragwyddol; nid oes un gronyn o hono byth yn myned ar goll, nid aeth un erioed, ac nid all un byth fyned:—ond am yr hanfodion rhyfedd a alwn yn *feddyliau*, er mwyn pa rai y gallai dyn feddwl fod pob peth arall wedi ei wneyd, ac i ba rai y maent yn wasanaethgar,—y mae y rhai hyn oll yn meirw! y maent wedi eu gwneyd i gael eu colli, eu diddymu, eu dinystrio! hyny yw, y maent yn cael eu *dyfetha*—y dyfethiant mwyaf gwastraffus a ellir ei amgyffred, a hyn hefyd mewn creadigaeth lle na wastreffir dim, a thrwy ysgogiadau a chyfansoddiad y natur hono yr ymddengys fod *cynnildeb* hyd yn oed yn enaid ac yn hanfod iddi! Yn mhob peth arall y mae yn grintach; nid

ydyw byth yn gwastraffu clwt nac edefyn; ceidw ei hen ddillad, ei gynau, a'i pheisiau, ei ffriliau a'i rhidens, ei gweddillion, ei thipynau a'i darnau—a gwna y cwbl i fyny drachefn, gan beri i'r gwisgoedd y byddo wedi eu troi heibio a'u gadael yn garpiau, ymddangos fel rhai newydd; ond y mae yn *dinystrio ei phlant i gyd!* Y mae yn ofalus dros ben am eu gwisgoedd budron, a'u carpiau rhwygiedig, a'u hysnodenau ystaenedig, ond llofruddia *hwynt*—lladd hwynt rhag blaen, dinystria hwynt am byth! A'r hyn sydd ryfeddach fyth, y mae yn trefnu yn y fath fodd fel mai y gwisgoedd mewn gwirionedd sydd *yn creu* y plant! Gellid gwneyd defnydd hefyd yn fynych o'r un pethau yn gwbl, yn yr un dull, mewn gwahanol oesau ac mewn gwahanol wledydd. Ond am y plant—y cynnyrch ysbrydol, deallgar, moesol—athrylith, cynneddf, gallu, mawredd—y mae y rhai hyn oll yn meirw ac yn darfod, yn peidio ac yn diflanu, ac nid allant gael un hanfod newydd, nac un ffurf wahanol o fywyd! Meddyliwch am dano, fy nghyfaill—efallai na tharawodd eich meddwl erioed!—chwi, tad y baban newydd eni yna, sydd yn syllu arno gyda'r fath olygon o syndod a serch; a ydych chwi yn gwybod fod pob gronyn yn y corff bychan yna, sydd yn ymddangos newydd ddyfod allan o fathfa (*mint*) bywyd, wedi ei foldio a derbyn ei argraff fel swllt newydd—a ydych chwi yn gwybod fod pob gronyn o hono mor hen, ïe, yn henach na Noah, ac nag Adda hefyd?—ei fod yn bodoli cyn y diluw, a chanddo breswylfod a lle, os nad enw, drwy holl gofnodau meithion daiareg, yn hanes y ddaiar? Y mae felly; ond y mae *meddwl* eich plentyn yn *beth newydd;* y mae yn fath o greadigaeth; y mae yn wir yn chwanegiad at swm presennol bodolaeth yn y bydysawd, yr hyn nad ydyw corff eich baban: ond eto! y peth rhyfeddol a newyddgrëedig yna—a allai ddyfod yn Newton, i amgyffred pob ffurfiau sylweddol; neu yn Bacon, i ddyfeisio dulliau newydd o erlyn ar ol athroniaeth; neu yn Plato, i wisgo y meddyliau ardderchocaf yn iaith y duwiau; neu yn Shakspeare, i ddysgrifio holl agweddion dynoliaeth, "hyspyddu bydoedd, ac yna dychymygu rhai newyddion;"—y mae yn rhaid i hwn yna golli; fe fydd farw, ac fe ddaw yn ddim; ac eto, gall rhai o ronynau y corff yna ddyfod yn amwisg *enaid arall,* a chynnorthwyo un dydd i'w ddwyn i'r byd—yma,

neu yn mysg y gwrthdroedwyr! Ac am i'r meddwl yna, pa fodd bynag, fyw eto?—NA FYDD BYTH! Yn awr, y mae yma y fath wyrth o ddiddymiad, neu y fath gyfres o wyrthiau —yr hyn os nad yw yn *oruch*naturiol, sydd yn *an*-naturiol;—rhywbeth sydd mor debyg i ymyriad â'r oll a berthyn i drefn arferol a sefydledig pethau, yr hyn nad ydyw yn achub, mae'n wir, ond yn llythyrenol yn dinystrio eneidiau dynion, ac yn myned yn mlaen gan wneyd felly yn dragwyddol, oes ar ol oes;—y mae rhywbeth yma, meddaf, mor wyrthiol groes i drefn y byd, fel yr ymddengys mewn gwirionedd yn myned tu hwnt i grediniaeth! Nid ydyw *yn debyg* i Natur mewn dim a wna. Gwn yn burion fel y gellid taflu y ddadl yn ol trwy ei chymhwyso at yr anifeiliaid. Yr ydwyf fi yn cael fy moddloni cymmaint, pa fodd bynag, gyda rhyfeddod digyffelyb yr ysbryd dynol, a'i ragoroldeb hanfodol wrth ei gymharu â'r eiddynt hwy, fel yr wyf yn foddlawn i adael grym yr hyn a ddywedais i ddedfryd anwrthwynebol eich synwyr cyffredin. Y drychfeddwl nad ydyw meddwl dyn ond yn unig yn ewyn, megys ar ymdoniadau ysgogiadol mater—ryw fodd wedi ei gynnyrchu ganddo—yn ddysglaer, yn gain, ac yn llewyrchu am fynyd, ac yna yn diflanu ymaith ac yn peidio a bod; tra y mae y mater ei hun yn aros yr un, yn cyfnewid mewn ffurf, ond ynddo ei hun yn hanfod anfarwol a bythbarhaol—nid all hyn fod! Nid oes genyf fi, o leiaf, ddigon o hygoeledd i gredu y rhyfeddod. Yr hwn a all ei dderbyn—derbynied ef.

Y mae yr ail dyb yn darpar at faddeuant pechod ar egwyddorion hollol naturiol. Nis oes eisieu dim, y mae yn ymddangos, ond tipyn o dristwch, gradd resymol o ddiwygiad, neu fwriad i ddiwygio, gyda chrediniaeth yn nhiriondeb cydymdeimladol Duw—a dyna y peth wedi ei wneyd! Y mae teimladau tyner y Tad Goruchaf yn ei dueddu ef yn y fath fodd i edrych heibio yr hyn fu o'i le, fel yr ymddangosai yn cael ei ystyried yn fath o gabledd i ddychymygu y gallai rhywbeth sefyll ar y ffordd i rwystro eu gweithrediad, yn enwedig os cyfeirir atynt gan blant crwydredig nwyd ac athrylith. Yn anffodus, nid all y dychymygion barddonol hyn, y tyner deimladrwydd esmwyth ac arwynebol yma—nid allant gael eu cyssoni âg unrhyw syniad teilwng am lywodraeth foesol yn ol deddfau sefydledig a phendant, a fyddo

yn amddiffyn ac yn gwylied dros rhinwedd; nag â rheolaidd weithiad allan ganlyniadau, trwy rywbeth tebyg i gyfundrefn sefydlog, ddianwadal, a threfnus. Nid ellwch lywodraethu teyrnas, ysgol, neu deulu, drwy dynerwch dall; trwy drefniadau a oddefant eu lleddfu wrth lef pob troseddwr; trwy reolau sydd eu hunain i gael eu goruchreoli yn feunyddiol, a bygythion sydd i gael eu hysgoi, fel pe na buasai gwir gyssylltiad rhwng trosedd a'i ganlyniadau. Y mae yn rhaid i frenin neu farnwr, neu hyd yn oed i dad, er gwaethaf ei deimladau ei hunan, a theimladau ac appeliadau y rhai y cydymdeimla â hwynt, gan mwyaf, adael i bethau gymmeryd eu ffordd; nid allai mewn un modd rwystro y peth heb fyned ar draws egwyddorion, y rhai y mae eu cadw yn eu purdeb o fwy pwysigrwydd i amcanion cyffredinol mawrion, nag a all berthynu i esmwythâd cyfyngder personol. Nid oes dim yn fwy eglur, yn y ffeithiau sydd yn dangos allan lywodraeth foesol y byd, nag arswydlonrwydd y canlyniadau a ddilynant weithredoedd penodol—yn fynych un weithred unigol, ac ymddangosiadol ddibwys—a'r rhai a adewir i weithio allan, neu a ydynt hyd yn oed *wedi eu gweithio allan* gyda math o anhyblygrwydd caled a llym, er gwaethaf llefau, diwygiad, a galar. Ac i bechod gael ei faddeu, mewn unrhyw ystyr dealladwy, ydyw, i'r canlyniadau a fuasent yn llifo oddi wrtho, yn naturiol ac anocheladwy yn ol rhediad rheolaidd pethau, gael eu tori ymaith, eu hysgoi, a'u dinystrio—yr hyn nid allai gymmeryd lle ond yn unig drwy beth a fyddai yn gyfartal i ymyriad goruchnaturiol â threfn y greadigaeth. "Pa un hawsaf ai dywedyd, *Maddeuwyd i ti dy bechodau*, ai dywedyd *Cyfod a rhodia?*" Y mae y naill yn gofyn *gallu* yn gystal a'r llall; gweithrediad priodoledd a all attal neu luddias, neu roddi cyfeiriad newydd i weithiad deddfau mor wirioneddol a dylanwadol a'r rhai a yrant ac a arweiniant y planedau. Y mae hyn, ynte, y mae yn ymddangos, ar y dybiaeth dan sylw, i'w ddysgwyl unrhyw fynyd—ar achlysuron pur ddibwys, os nad y rhai mwyaf dibwys! Ond fe fyddai ymyriad uniongyrchol o'r math hwn â deddfau a chanonau sylfaenol bodolaeth, â rheolau ac ammodau bod, yn mhob amgylchiad unigol yr ewyllysia dynion ddianc rhag canlyniadau cyfiawn ac angenrheidiol eu hymarweddiad, yn wyrth, a dim llai. Hyny yw,

y mae trefn naturiol pethau, er gwaethaf yr hyn a elwir ei rheoleidd-dra diwyrni, yn cael ei thrin neu ei gweinyddu yn y fath fodd, fel y gellid dysgwyl *gweithredoedd* goruchnaturiol i ymyryd â hi—heb ddim tebyg i reswm boddhaol iawn, na dim, y mae lle i ofni, tebyg i sylw dyladwy ar hawliau rhinwedd! Gall y dynion a allant gredu hyn, gredu unrhyw beth! O'i chario allan yn llawn, fe wnai y dybiaeth hon wyrth yn rheol, a deddf yn eithriad—hi siglai ein ffydd yn unffurfiaeth natur, a dinystriai ein hargyhoeddiad yn noethineb daioni. Os ydyw yn wir, y mae yn rhaid ein bod yn byw yn nghanol gwyrthiau gwastadol, a gellir ein hesgusodi am dybied nad oes dim yn sicr. Nid ydyw hwn yn debyg o fod yn syniad iawn am gyfansoddiad y byd. Gyda golwg ar siarad am "egwyddorion" y llywodraeth Ddwyfol, nid yw yn ymddangos, ar yr olwg yma, fod yn bosibl fod ryw lawer o *egwyddor* yn perthyn iddi; tra yr ymddangosai haeru yr angenrheidrwydd o wrthod Dadguddiad, oddi ar ofn caniatâu dim goruchnaturiol, fel peth pur ddiangenrhaid: o blegid, os deonglir yr hyn a gredant eisoes, ar seiliau hollol naturiol a gwyddorol, prin y gallai ffydd y dynion hyn gael ei threthu mor erwin gan Dduw ag y gwneir ganddynt hwy eu hunain. Gwrthodant gredu mewn un weithred fawr, oruchnaturiol, o eiddo Duw, i'r dyben o gyfarfod â'r sefyllfa annaturiol yn mha un y mae pechod yn gosod yr hiliogaeth (yr hyn, gan ei fod yn annaturiol, a ofynai rywbeth mwy na darpariadau cyntefig natur i'w gyrhaeddyd);—gweithred sydd, wedi iddi unwaith gael ei chyflawnu, wedi gosod i fyny drefn raslawn o bethau, sydd trwy ei hordeiniadau sefydlog a thrugarog ei hun, yn gwrthweithio canlyniadau a fuasent hebddi yn anocheladwy;—gweithred, hefyd, yr hon tra yn dwyn i fewn fel yma yr hyn a newidiai ddull gweithrediad y ddeddf gyntefig oedd wedi ei throseddu, ydoedd, fel y dangosir, yn cael ei gwneyd yn y fath fodd fel ag i fod yn gysson â'i hegwyddor a'i hysbryd, i amddiffyn ei huniondeb hanfodol, ac wedi ei bwriadu i gynnyrchu — trwy nerth rhywbeth cryfach na hi (gan ei bod wedi dyfod yn "wan trwy y cnawd")—yr hyn yr oedd *hi ei hunan* ar y dechreu wedi ei chyfansoddi i'w sicrhau;—a hyn oll mewn ffordd oedd yn cadarnhau ffyddlondeb creaduriaid ufudd, ac yn amddiffyn awdurdod a manteision rhinwedd yn mhob byd,

Dyma egwyddor yr athrawiaeth Gristionogol o faddeuant pechodau,—bu agos i mi ddyweyd, dyma ei hathroniaeth,—ond ei bod yn cael ei gosod allan mewn ffordd lai duwinyddol nag arferol. Nis gall amddiffynwyr athroniaeth esmwyth a thyner-deimladol, duwiaeth rwydd a hawdd, ei chredu;—nis gallant ei chredu am ei bod yn cynnwys y drychfeddwl o ymyriad trwy wyrth â deddfau Natur;—dynion, y mae ganddynt ffydd i gofleidio yr hyn a wna Natur ei hun yn oruchnaturiol!—yn darparu at wyrthiau bob eiliad!—ac yn gwneyd felly, hefyd, mewn ffordd, yr hon o'i harchwilio yn gywir, a ymddengys yn llawer tebycach o gefnogi pechod nag o'i attal; yn gyfaddas, yn ol pob golwg, i roddi hyder i euogrwydd, i fod yn "ddyrnod" i ddaioni bodau uchraddol; ac yn "brofedigaeth a magl" i ddaioni dynoliaeth.

Trwy wrthod fel hyn, y dyb Atheistaidd am bethau, ac eiddo Deistiaeth hefyd, am fod y naill fel y llall yn gofyn mwy nag a allwn gredu, yr ydym yn cael ein gorfodi i wneyd dewisiad pendant rhwng Tyngedfenaeth Athronyddol, a Christionogaeth Efengylaidd. Naill ai y mae pob peth yn sefydlog, yn gysson, yn anghyfnewidiol;—deddf *naturiol* yn mhob man, a phob amser, a dim *ond* deddf naturiol;—deddf, yn cyrhaedd ei hamcan gyda manylrwydd diwyrni, ac yn ei sicrhau gydag effaith ofnadwy;—*canlyniadau* pechod mor anmhosibl eu diddymu a *phechod ei hunan;*—pechod, yr hwn unwaith yn bod, sydd yn bod byth, ac y mae ei ganlyniadau mor sicr o ddilyn a llifo yn mlaen ag ydoedd y peth hwnw oddi wrth ba un y maent yn llifo;—naill ai hyn yw cyfansoddiad pethau, ac yr ydym fel yma yn byw dan gyfundrefn sefydlog, ystyfnig, anmhlygadwy, sydd mewn gwirionedd *ei hunan* yn dyfod yn Dduw i ni, er i ni broffesu credu mewn Personoliaeth anfeidrol—naill ai fel hyn y mae y peth yn bod, neu *y mae Duw wedi cyfryngu i achub y byd.* Ni bu yn anmhosibl iddo Ef wneyd rhywbeth i gyfarfod âg amgylchiad troseddwyr a thorwyr deddf;—deddf, dan ba un y mae pob bodau deallus a moesol, neu pob urdd newydd o'r cyfryw, yn eu canfod eu hunain o angenrheidrwydd; sef offeryn prawf syml, cyntefig, naturiol, yr hon y gellir ei throseddu am y gellir ufuddhau iddi;—naill ai y mae y gyfundrefn hon yn sefyll yn berffaith, ac y mae yn rhaid iddi *gymmeryd ei* chwrs yn mhob amgylchiad ac ar bob troseddwr,

neu y mae Duw wedi cyfryngu, ac o'i drugaredd a'i ras, ei dynerwch tadol a'i dosturi mawr, y mae wedi cael modd *uwch law* natur i ddwyn i ben yr hyn oedd ragorach na'i hamcan cyntefig. Nis gall deddf, fel deddf, sicrhau bywyd ond trwy gael ei hufuddhau yn gyflawn: wedi ei throseddu, y mae yn ddirym, ond i ddwyn yn mlaen ei chanlyniadau priodol o gosp; nis gall roddi bywyd;—y rhai y mae arnynt eisieu hyny, ac wedi dodi eu hunain yn ei gallu hi, nis gall ond "gweithio allan farwolaeth" i'r cyfryw. I'w gwaredu hwynt y mae yn rhaid cael rhyw drefn newydd, brynedigol, nad all neb ei sefydlu ond Duw, ac nad all dim ond gwyrth ei dwyn oddi amgylch. A ydyw hyn yn bosibl? A wnaed hyn? A wnaed hyn, fel y tystia Cristionogaeth, yn y fath fodd fel ag i uno yr ymyriad hwnw â deddfau naturiol anocheladwy, a hyny gyda chan lleied ag oedd yn bosibl o draul wyrthiol? Os felly, ynte, gan fod yr un peth mawr ar ba un y troai y cwbl wedi ei gyflawnu, a goruchwyliaeth gyfryngol drugarog wedi ei gosod i fyny, nid ydyw gwyrth neillduol yn angenrheidiol yn amgylchiad pob dyn a fyddo yn derbyn maddeuant; neu, mewn geiriau ereill, a fyddo yn cael ei waredu oddi wrth ganlyniadau naturiol trosedd; o blegid, i'r edifeiriol a'r crediniol, y mae hyn yn cael ei sicrhau yn ol deddf—deddf yr oruchwyliaeth ysbrydol. Y mae edifeirwch, galar am bechod, gweddi, a gobaith, yn fuddiol neu yn bosibl yn awr. Gellir maddeu pechod, chwanegu sancteiddrwydd, a rhagddysgwyl anfarwoldeb, a hyny ar egwyddor sydd yn uno crediniaeth yn unffurfiaeth natur gyda ffydd yn nhrugaredd Duw; sydd yn "mawrhau y gyfraith," ac eto yn dadguddio cariad; ac sydd, trwy y ffordd y mae yn darpar ar gyfer creadur pechadurus, yr hyn sydd yn cyflenwi eisieu ei gyflwr ef, yn cyfarfod ac yn boddloni petrusder a gofynion athroniaeth sydd braidd yn fanwl a llem.

Yr ydym, gan hyny, i wneyd ein dewisiad rhwng y ddwy gyfundrefn yma, yr hon sydd yn gwneyd Natur yn Dduw i Dduw, ac yn ein cyflwyno drosodd i'w thosturiaethau hi;—neu yr hon, tra yn addef sefydlogrwydd cyntefig cyfansoddiad naturiol pethau, sydd eto yn credu fod yn debyg fod yr Hwn a'i gwnaeth eto yn arglwydd arni—fod yn bosibl iddo Ef ymyryd â hi os dewisa, ac os byddai angenrheidrwydd yn gofyn, y gwnai Efe felly, er cyrhaedd dybenion

teilwng o hono ei hun. Y mae y gyfundrefn olaf yma, y ddamcaniaeth, y dyb, neu pa beth bynag arall y gallem am fynyd neu ddau barhau i'w galw, yn llawer mwy cytunol na'r gyntaf â'r oll a allwn dybied am y nodweddiad Dwyfol. Saif y naill a'r llall ar yr un tir, y mae y naill a'r llall yn dal yr angenrheidrwydd pendant am rywbeth fel gweithred oruchnaturiol o eiddo Duw, *os* ydyw pechod i gael ei faddeu mewn unrhyw ystyr wirioneddol neu effeithiol. Y mae un yn sefyll ar yr angenrheidrwydd profedig, ac nid all fyned yn mhellach. Ni wel ddim a gefnoga obaith; nis gall addef posiblrwydd ymwared yn y ffordd a ddangoswyd; y mae yn rhoddi ei hunan i fyny, gan hyny, i weithrediad naturiol y nerthoedd sydd o'i amgylch, i ddyoddef pa beth bynag a weithiant allan, ac i gymmeryd y fath ymwared ag a allant, ysgatfydd, rywbryd neu gilydd ei ddwyn. Y mae y llall yn addef fod yr angenrheidrwydd yn brofedig;—y mae yn ei osod i lawr ac yn ei dderbyn,—ond y mae yn ei dderbyn i'r dyben o fyned yn mlaen i sefydlu rhywbeth arno—rhywbeth wedi cael ei ddwyn i fewn gan ddoethineb, tosturi, a gallu yn gymhlethedig, i gyfarfod angenrheidiau hiliogaeth bechadurus. Nid ydym yn cael ein gadael mewn tywyllwch, anwybodaeth, anobaith, a thrueni; yr ydym yn cael ein sicrhau o gymmwynasgarwch, sylw, gras, bwriadau, a gweithredoedd ein Creawdwr trugarog. "Duw cariad yw." "Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau." "Anghyfraith yw pechod;" "chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod, pechod hefyd pan orphener a esgor ar farwolaeth;" ond—"hon yw y dystiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol, a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef." "Pawb a bechasant;" y mae "yr holl fyd yn euog ger bron Duw;" ond, "pan oeddym ni eto yn weiniaid, Crist mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol." "Yr hyn nad allai y ddeddf, am ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a wnaeth trwy anfon ei Fab yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac yn bech-aberth." "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." "Ein Iachawdwr Iesu Grist a ddiddymodd angeu, ac a ddug *fywyd ac* anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." "Yn

yr Hwn y mae i ni brynedigaeth, trwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau." "Yr oedd yn rhaid i Grist ddyoddef—fel y pregethid edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw Ef yn mysg yr holl genedloedd." Crist "a'i rhoddes ei Hun yn bridwerth dros bawb, i'w dystiolaethu yn yr amseroedd priod,"—"o blegid y mae Duw yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a dyfod o honynt i wybodaeth y gwirionedd." "Nesäwn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol." "Y mae yr Ysbryd yn cynnorthwyo ein gwendid ni." "Wedi ein cadarnhau â phob nerth yn y dyn oddi fewn," "trwy gynnorthwy yr Ysbryd," gallwn ddwyn "ffrwythau sancteiddrwydd," "cymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol," a sicrhau "mynediad helaeth i fewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Achubwr Iesu Grist."

Y mae yn afreidiol i luosogi dyfyniadau. Teflais y rhai hyn yn nghyd, fel y mae fy nghof yn eu dwyn yn mlaen, i egluro rhai o'r gosodiadau a wnaethom, a rhai o'r egwyddorion y buom yn eu hymresymu. Nid ellwch lai na sylwi, fel y mae yr Efengyl, yn ei hymadroddion cryfaf a mwyaf nodweddiadol, yn cydnabod yr angenrheidrwydd o'r hyn y mae Athroniaeth yn awr yn proffesu ei brofi, os nad ei ddarganfod. Lle nas gall gwyddoriaeth, pa fodd bynag, ond anobeithio, y mae Cristionogaeth yn dadguddio gwaredigaeth a gobaith. Fe ä yn mlaen i godi goruchwyliaeth ysbrydol i gyfranu ei bendithion ac i gyrhaedd ei hamcan. Nid yw yn ein dysgu y gall Natur ragori arni ei hun—gan ddarparu at wyrthiau yn ddiderfyn; ac nid yw yn cyfarwyddo pob un o honom i ddysgwyl ymyriad neillduol o eiddo Duw ar ein rhan. Hefyd, fel yr awgrymwyd eisoes, mae yn syrthio i fewn â dymuniadau diattal y duedd grefyddol mewn dyn, ac yn ymddangos fel yn cyflwyno iddi berffeithrwydd—yr hyn yr oedd yn "ymbalfalu" am dano bob amser. Gallem fyned yn mlaen a chyfeirio at yr amryw brofion allanol sydd o darddiad Dwyfol yr efengyl; ond äem drwy hyny allan o'n llwybr presennol. Yr ydym yn foddlawn, pa fodd bynag, i sefyll yn y fan a gyrhaeddasom yn awr, ac *i broffesu ein hargyhoeddiad*—ar sail yr hyn a ddysgrifiwyd ac y cyfeiriwyd ato—*ein bod o'r diwedd wedi canfod sicrwydd a gwirionedd.*

Gan sefyll yma, ynte, gyda'r dysgybl Cristionogol, ar ei

esgynlawr *ef* o grediniaeth a gobaith, nyni a ddaethom, dybygem, at rywbeth gwirioneddol a sylweddol. Yr Efengyl ydyw gwir grefydd dyn;—a'r anfarwoldeb a ddadguddia hi yw ei fywyd dyfodol. Ni a ddaethom allan o'r tywyllwch tew a dwfn, lle y safem ar y dechreu; gadawsom yn mhell o'n hol yr ail safle at ba un y cyrhaeddasom; ni a ymryddhasom oddi wrth y giwed o grefyddau a ymwthient o'n hamgylch yn ein hesgynfa nesaf; ac yn awr—dyma lle'r ydym—yn edrych ar y pell, yr ysbrydol, a'r dyfodol, yn mhell uwch law cyrhaedd pob ffydd arall, yn ngoleuni clir y dadguddiad Cristionogol, a chyda'r golwg sefydlog y mae hi ar unwaith yn ei ofyn ac yn ei ganiatau. Y mae yr edrych-fan yma, i ba un yr esgynasom pan symmudasom ddiweddaf, wedi dyfod yn grib un o'r "mynyddoedd hyfryd;" gallwn weled "y tir pell;"—"y wlad ogoneddus;" "y wlad nefol;" "y Ierusalem newydd;" "y ddinas âg iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Dacw fo!—yn hollol weledig i ffydd—yn brydferth ac yn eglùr fel byd newydd ei greu—"BYWYD TRAGWYDDOL;—*dawn Duw trwy Iesu Grist;*—Gogoniant, Anrhydedd, Anllygredigaeth, Anfarwoldeb; y maent oll wedi eu dadguddio i ni—y maent oll yna! Edrychwch arnynt fel y maent yn gorwedd yn y goleuni Dwyfol; yn y lle ysblenydd yna, sydd wedi ei ddwyn i gyrhaedd y pechadurus a'r colledig;—y cartref yna i'r prynedigion;—etifeddiaeth dragwyddol y rhai a achubwyd o fysg dynion—yr ailanedig, y sanctaidd, a'r da! Nid yw Cristionogaeth mwy yn ddamcaniad yn mhlith damcaniadau, yn dybiaeth yn y meddwl, yn un ffurf o feddwl yn mhlith llawer o feddyliau a theimladau sydd yn gyffredin i ddyn. Gwirionedd Duw ydyw! Trefniant dadguddiedig trugaredd a chymhorth ydyw. "Iesu yw y Crist—Mab Duw—Iachawdwr y byd." Y mae y dyfodol oll yn cyssylltu ei hunan wrtho Ef. Y mae "bywyd ac anfarwoldeb" i'w dirnad yn unig trwy ffydd grefyddol, a chan hono fel y maent yn cael eu cyfweddu gan syniadau Cristionogol. Y mae rhinwedd crefyddol—sancteiddrwydd yr eglwys—yn hanfodol i fwyniant o'r byd uchod. Yn awr, gan hyny, gallwn weled *pa fodd y bydd i'r un peth hwnw a all wneyd y bywyd hwn yn brydferth a mawr,* nid yn unig ein parotoi at unrhyw sefyllfa a all ein *cyfarfod,* ond *dyma ydyw yr unig barotoad at y sefyllfa*

hwnw sydd yn sicr o gael ei ddadguddio. Yr efengyl yw y peth goreu at y ddau fyd. Gall ein dysgu i wneyd y goreu o'r ddau. Y mae Duw yn ewyllysio dedwyddwch ei blant yma, ac ar ol hyn. "*Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth,*" a llesol yn mhob man—"a chanddi addewid o'r BYWYD SYDD YR AWR HON, AC O'R HWN A FYDD."

RHAN VI.

GEIRIAU YMADAWOL.

MI a dynais fel hyn, ac i ryw fesur mi a lenwais i fyny fraslun o ymresymiad ar y testyn gosodedig. Yr ydwyf yn ei gyflwyno i'ch ystyriaeth a'ch barn. Cynnwysa rai o gynnyrchion fy sylw ar fywyd, fy adnabyddiaeth o'r byd, a rhai o'r casgliadau y'm harweiniwyd iddynt gan ystyriaeth fynych a dyfal ar athroniaeth crefydd. Gallai, ysgatfydd, fod o ychydig ddefnydd i chwi, wŷr ieuainc, y rhai y mae genych y prawf mawr o fywyd eto i'w wneyd, ac efallai y gellwch gael eich galw i chwilio natur a sylfeini eich ffydd. Yr wyf yn teimlo fod yn rhaid i mi yn awr dynu at y terfyn. Gadewch i mi wneyd hyny trwy chwanegu dau neu dri o sylwadau eglurhaol, arddangosol, ac ymarferol.

Fy amcan oedd "dwyn fy meddyliau i ffurf traethawd bychan ar foesddysg bywyd y lluaws, a ffyrdd a moddion dedwyddwch cyffredin," — fel yr awgrymwyd gan Horner wrth Jeffrey. Nid ydwyf mor ffol a meddwl fy mod wedi cyflawnu dim cyfartal i'r hyn a gawsem pe buasai yr ysgrifenydd mawr y cyfeiriwyd ato wedi rhoddi i'r byd yr hyn yr oedd ei gyfaill yn galw ei sylw ato. Ond pa mor bell bynag yr wyf oddi wrth gyrhaedd hyny, nid ydwyf yn ei ystyried yn anaddas i mi ddywedyd, fy mod wedi cyssylltu "moes-

ddysg bywyd y lluaws," a "ffyrdd a moddion dedwyddwch cyffredin," wrth ffydd grefyddol, syniadau Cristionogol, a byd i ddyfod; yn fwy agos, efallai, nag y buasai hen olygydd hyglod yr *Edinburgh*[1] yn gwneyd. Pa un a wnaethum hyn yn ddoeth a llwyddiannus, ni pherthyn i mi benderfynu. Y mae yn ddigon ei fod, er mwyn y rhai a ddymunwn eu llesäu, yn beth iawn i geisio gwneyd hyny; ac yn wir, heb y fath ymgais, buasai unrhyw draethawd ar "foesddysg" a "dedwyddwch" yn hanfodol anmherffaith.

Mi a ddangosais drwy y traethawd oll, trwy fy null gwastadol o ymadroddi, a fy ffordd o ymresymu, fy mod yn cysylltu pob peth, mewn bywyd "cyffredin" a "chrefyddol," â'r drychfeddwl o ddeddf—â chwrs naturiol pethau, neu drefn arferol Rhagluniaeth, yn y naill achos; ac â threfniadau ysbrydol sefydledig a graslawn yn y llall. Dymunwn i chwi, wŷr ieuainc, ddeall hyn; a'i ddeall mewn perthynas i'r "ddau fyd." Gyda golwg ar y naill yn gystal a'r llall, gallai eich gwaredu rhag oediadau peryglus, pechodau rhyfygus, gobeithion llawn o dwyll, a difaterwch afresymol a phechadurus; ac oddi wrth ofnau a phryder heb fod yn seiliedig ar brofiad, nad awdurdodir gan yr Ysgrythyr, sydd yn anfoddloni Duw, ac yn rhwystr yr un modd i ffydd a heddwch, argyhoeddiad a rhinwedd.

Gan adael heibio yn yr ychydig sylwadau olaf hyn, bob peth o natur ymresymu ar dybiaeth, caniatewch i mi argraffu ar eich calon a'ch cydwybod, mewn geiriau difrifol, pendant, a chyfeiriol, rai o'r egwyddorion a sefydlasom neu a eglurhasom; ac, yn y ffordd yma, i arddangos a chymhell ar unwaith y casgliad ymarferol oddi wrth yr ymdriniaeth oll.

Trwy eich cyfansoddiad cymmysgedig fel bodau dynol, yr ydych wedi eich gosod dan dair cyfundrefn fawr o ddeddfau —y Naturiol, y Gymdeithasol, a'r Ysbrydol. Y mae pob un o'r rhai hyn yn sefydlog ac anmhlygadwy. Gellir eu troseddu oll; ac os bydd pethau yn cymmeryd eu cwrs yn un o honynt, nis gall hyny lai na chael ei ddilyn gan ganlyniadau cospawl.

Y mae troseddau ar y deddfau naturiol, yn niweidio y

[1] Yr *Edinburgh Review*.—Cyhoeddiad trimisol a gychwynwyd yn *Edinburgh*, yn y flwyddyn 1802, dan olygiad Jeffrey.

corff; troseddau ar y rhai cymdeithasol, yn niweidio y cymmeriad; troseddau ar y rhai ysbrydol, yn niweidio yr enaid. I'r dyben o gospi troseddau, fel yr awgrymwyd, nid yw yn angenrheidiol i unrhyw beth gael ei gyflawnu yn weithredol, neu ei weinyddu yn uniongyrchol gan Dduw. Y mae pethau yn cymmeryd eu cwrs naturiol, ac y maent yn gweithio allan, trwy ganlyniad angenrheidiol, ddyoddefaint, trallod, a marwolaeth. Y mae drygioni, neu droseddiad o drefn naturiol, yn dinystrio iechyd; y mae trosedd, neu doriad o drefn gymdeithasol, yn andwyo cymmeriad; ac y mae pechod, neu droseddiad trefn ysbrydol, yn gwahanu yr enaid oddi wrth Dduw. Gallai y cyntaf ddiweddu mewn bedd anamserol; yr ail, mewn gwarth, mewn alltudiaeth, neu ar y crogbren; y trydydd, mewn collfarniad dyfodol a thragwyddol. O ran y ddau gyntaf, nid yw o ddim gwahaniaeth beth y mae dynion yn ei gredu neu yn ei anghredu; neu, pa un a oes Duw i gredu ynddo ai peidio—y mae Natur a'i *ffeithiau* yma, ac y mae hyny yn ddigon: fel ffeithiau, y mae y pethau y cyfeirir atynt yn sefyll wedi eu dadguddio yn gyflawn a theimladwy o'n blaen. O ran y trydydd, er y sicrheir fod Duw yn bod, ac y gofynir ffydd grefyddol, nid yw yr effaith yn ymddibynu ar unrhyw weithred bendant o eiddo Duw; eto, nid ydyw pethau ond yn cymmeryd eu cwrs, ac yn myned yn mlaen i'w canlyniadau naturiol. I *rwystro* hyn, y mae yn angenrheidiol *gwneyd* rhywbeth.

Sylwch, hefyd, na wna ufudd-dod i un dosbarth o ddeddfau, a mwynhâd gwobrau naturiol y fath ufudd-dod, waredu dyn oddi wrth ganlyniadau cospawl dosbarth *arall* y mae efe yn ei droseddu. Gallai y penrhydd fod yn uniawn ac anrhydeddus mewn trafodaeth masnachol; fe'i perchir ac fe ymddiriedir ynddo mewn achosion felly:—ond gallai ei ddrygau ei ddinystrio er hyny. Gallai gwrthryfelwr, neu lofrudd, fod yn gymmedrol a diwair:—ond fe dorir ei ben, neu fe'i crogir er hyny. Gallai gwrthodwr Crist, neu un yn gwrthod credu yn Nuw, fod yn ddieuog o ddrygau a throseddau; gallai fyw yn hir, mwynhau llawer, a chael clod gan y byd am rinweddau ei fywyd:—ond, gall ddeffro mewn bywyd arall, bywyd perffaith ysbrydol, i'w ganfod ei hunan, fel ysbryd, yn analluog i gydymdeimlo â chymdeithas a gwrthddrychau, ac yn anghymhwys at ddyledswyddau byd y *goleuni!*

Yn awr, nid ydyw hyn oll, sylwch, ddim yn y byd ond y gweithiad allan yn y naill achos a'r llall o ddeddfau naturiol,—o blegid, chwi a gofiwch fod y deddfau ysbrydol sydd yn ein cylchynu ac yn ein cwmpasu fel creaduriaid, fel bodau wedi ein cynnysgaethu â'r gallu i fod yn grefyddol, a'u dynodi drwy y duedd grefyddol, mor *naturiol* ynddynt eu hunain, ac yn perthyn yn gymmaint i Natur, a rhai y trefniadau naturiol a chymdeithasol. Y mae perthynas dynion â Duw, fel bodau ysbrydol, *mor* wirioneddol a'u cyssylltiad â'u cyrff, neu eu perthynas y naill â'r llall; ac y mae hon yn ddyfnach ac yn fwy parhaus na'r naill na'r llall, o blegid gellid tybied am dani yn bodoli yn ei holl gyflawnder, pe buasai ond un ysbryd dynol, allan o'r corff, yn bod yn y greadigaeth gyda Duw. Sylwch, hefyd, nad all perthynas y trefniadau hyn o ddeddfau, y naill â'r llall, yn ol cyfansoddiad naturiol pethau, beidio a bod fel yma,—mai yr ysbrydol yw y fwyaf o'r tair, a'i bod yn cynnwys ynddi y ddwy ereill, ond nad allant hwy wrth reswm ei chynnwys *hi*. O ganlyniad, y mae troseddau o'r rhai lleiaf yn droseddau o'r fwyaf;—ond nid yw ufudddod iddynt hwy, ynddo ei hun, yn ufudd-dod iddi hi. Hyny yw, y mae drygioni a throseddau yn *bechodau;* ond *nid* yw bod yn rhydd oddi wrth un o honynt, neu oddi wrth y ddau, yn unig, yn "sancteiddrwydd."

Yn awr, sylwch beth a ddysg eich Beibl i chwi, a pha beth a dystiolaetha eich cydwybod. Ni ddywedir fod pob dyn yn ddrygionus neu yn droseddwyr; ond *fe* ddywedir fod "pawb yn bechaduriaid;" —o blegid "pawb a bechasant, ac a aethant yn ol am ogoniant Duw," ac y "mae yr holl fyd yn euog ger ei fron Ef." Gan fod annuwioldeb, neu droseddau, neu esgeuluso deddfau a dyledswyddau ysbrydol, yn groes i'r rhai hyn,—mae hyny yn cael ei osod yn erbyn pob dyn; er na ddarfu i bob dyn ar y ddaiar gyflawnu yn weithredol bob math o bechodau. Y mae llawer, yn wir, wedi chwanegu drygioni at annuwioldeb; ond y mae yn eithaf posibl i swm mawr o'r hyn sydd yn dra gwerthfawr yn ei berthynas â'r byd, ac yn hynod o brydferth hefyd ynddo ei hun, gydhanfodi âg amddifadrwydd hollol o fywyd ysbrydol. Gallai dyn da cymdeithas, wasanaethu ac addurno y ddaiar, ac eto gallai *ganfod* ei hun yn hollol allan o'i elfen yn y nefoedd. Gallai *y geiriau, "Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd,"* fod yn

llawn mor boenus a gwrthwynebol i'w deimladau, pe byddai yn bosibl iddynt gael eu llefaru wrtho, ag a fyddai y gair "*gweddïwn*," a'i lefaru mewn ystyr ddofn a difrifol, yn awr.

Yn awr, peidiwch âg ymgynhyrfu yn erbyn y gosodiadau hyn, fel pe byddent yn rhyw bethau creulawn ac annynol, neu yn ddallbleidiaeth gyfyng culni duwinyddol. Y maent yn ganlyniadau anocheladwy ymresymiad cywir a theg; a'r hyn sydd yn fwy pwysig, y maent yn dangos mawredd ein natur—y priodolaethau trwy ba rai y dynodir ni fel bodau ysbrydol a chrefyddol—y cylch uchel i ba un y perthynwn, fel y cyfryw—y dyledswyddau yr ydym yn alluog i'w cyflawnu—a'r amcan er mwyn pa un y'n gwnaethpwyd. Nid ydym yn greaduriaid wedi ein cynnysgaethu yn unig â dealltwriaeth, gallu, dyfais, chwaeth, neu hyd yn oed â'r gynneddf foesol—fel y gallom ddarostwng y ddaiar, adeiladu tai, a choginio ein hymborth, ac addurno bywyd, a byw mewn cymdeithas, a lluosogi cysuron a mwynderau presennol: ond yr ydym hefyd yn gyfryw, fel, pa beth bynag allom wneyd, neu pa beth bynag allom fwynhau, tra yn gweithredu yn gysson â threfniadau y deddfau naturiol a chymdeithasol, y mae yn bosibl i ni, er gwaethaf y cwbl, syrthio lawer yn fyr o'n bywyd dwyfol priodol ac ardderchog ein hunain;—o blegid "dyben *penaf* dyn ydyw gogoneddu Duw, a'i fwynhau yn dragywydd." Am fod y Presennol a'r Dyfodol i ddyn mor fawr, y mae camddealltwriaeth o'r naill mor beryglus i'r llall.

Gellwch sylwi yn nesaf, fod y gwahanol weithrediadau a ganfyddir yn y ddau gylch isaf o'r deddfau hyn, yn gynnorthwy i ni farnu pa beth a ellir ddysgwyl i gwrs a chyfansoddiad pethau fod yn yr uchaf. Dywed un,—"Mewn amgylchiadau eithafol iawn yn unig y cyfarfyddir â drygau naturiol, neu y mae dynion yn agored i gosp gyhoeddus. Y tebygolrwydd gan hyny yw, mai pechaduriaid mawrion iawn yn unig, o unrhyw fath, a ganfyddant eu pechodau yn eu herlyn ar ol hyn â chospedigaethau. Gyda golwg ar ereill, dylid sylwi, fod yn nghyfansoddiad naturiol y corff, ac yn mherthynasau naturiol bywyd cymdeithasol, allu adgyweiriol, sydd yn gwrthweithio yn effeithiol ganlyniadau troseddau cyffredin,—y mae yn eu taflu ymaith, yn y ddau gylch, pan y mae dynion yn newid eu harferion, neu pan yn

ymfwynhau mewn, ac yn dwyn i'r golwg deimladau gwahanol; y mae diwygiad neu ymesgusodion yn gosod pethau yn eu lle, gan attal yr hyn a allasai, oni b'ai hyny, ddyfod yn ddifrifol fel canlyniadau eithaf annoethineb personol neu niwed cymdeithasol. Gallai y peth fod yn debyg yn y cylch uchaf."

Gallai ereill ddyweyd, "Nid yw pechod yn beth dibwys; nid oes un dyn yn fyw nad yw ei gyflwr ysbrydol wedi derbyn ond argraff ysgafn ganddo. Dylid sylwi, gan hyny, nad ellir cael cyfatebion priodol iddo ond mewn amgylchiadau pwysig yn y cylchoedd isaf. Yn y rhai hyn, ynte, pan y mae troseddiadau pwysig ar ddeddf naturiol a chymdeithasol wedi cymmeryd lle, y mae yn eglur fod rhywbeth yn eisieu i attal eu canlyniadau fydd yn gyfartal i ymyriad uniongyrchol â Natur, er y rhaid iddo gael ei ddwyn yn mlaen mewn cyssondeb â'i hegwyddorion cyntefig:—yn y naill achos, mae eisieu rhyw gymhwysiad meddyginiaethol; yn y llall, rhyw drefniad cyfreithiol. Nid all tristwch neu ddiwygiad, yn y naill achos mwy na'r llall, fod o un lles eu hunain, heb y rhai hyn; hyd yn oed gyda hwynt, os llwyddir, gallai rhai effeithiau parhaus fod yn aros. Weithiau, ni ellir gwneyd dim—y maent *hwy*, hyd yn oed, yn aflwyddiannus —ac y mae pethau yn cymmeryd eu rhedfa, er gwaethaf pob peth. Yn awr, y mae fel hyn, neu fe allai fod felly, yn y cylch uchaf. Y mae pechod, mewn un ystyr, yn afiechyd, neu y mae yn cynnyrchu aflechyd; mewn ystyr arall, y mae yn gosod dyn yn agored i gyfiawn gollfarnedigaeth. I'r dyben o attal y canlyniadau a ddygai yn naturiol yn mlaen, y mae mwy yn angenrheidiol na thristwch neu ddiwygiad; y mae eisieu cymhwysiad meddyginaethol a threfniad cyfreithiol; a dyma y pethau y mae yr Efengyl yn eu dwyn yn mlaen,—y prynedigaeth trwy Grist ydyw sail y rhyddhad, a dylanwad yr Ysbryd sydd yn bywhau yr enaid, gan adferu a chynnyrchu iechyd tufewnol."

I hyn oll, eto, gallai ereill ateb,—"Y mae y gyfatebiaeth yn deg, gan belled ag y mae a fyno â natur pechod, ei ddylanwad, ei duedd, a'i ganlyniadau naturiol; ond y mae y feddyginiaeth a'r trefniad o fewn y dyn ei hunan. Y mae edifeirwch yn meddyginiaethu ac yn rhoddi iechyd i'r enaid *afiach;* y mae newid arferion, a diwygiad moesol, yn gwneyd

fyny am anwiredd. Fel hyn y rhoddir yn lle yr hyn a *uasai* yn canlyn oddi wrth weithredoedd wedi myned heibio, r hyn a ddeillia *yn awr* oddi wrth deimladau a gweithred-edd o natur wahanol."

Nid oes ddiwedd ar y cyfatebion, neu yr hyn a dybir felly, ellid eu cael allan fel hyn rhwng cyfansoddiad a chwrs ethau mewn un dosbarth o ddeddf naturiol, a chyfansodd-ad a chwrs pethau fel y gallo fod mewn un arall. Y mae hai o'r cyfatebion hyn, yr wyf yn meddwl, â chryn lawer nddynt; ereill â rhywbeth, ond nid cymmaint. Ond, a'u aflu oll o'r neilldu, neu eu gadael i sefyll am yr hyn a allant od o werth, y mae arnaf eisieu sefydlu eich meddyliau chwi, ŷr ieuainc, ar un ffaith fawr yn y gyfundrefn gymdeithasol, ad ellir ei gwadu—a'r hon, fel yn cymmeryd i fewn egwydd-r a allai, fe ddichon, berthynu i'n holl natur—a allai fod yn neddu ynddi ryw gyfaddasrwydd i addysgu, i rybuddio, i gynghori, ac i arwain.

Mi a gyfeiriais yn yr ymresymiad blaenorol, fod cyfansodd-iad pethau y fath, fel y mae 'n rhaid i bechod weithio allan, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, effeithiau cospawl; ac newn trefn i'r rhai hyn gael eu hysgoi, mae 'n rhaid i'r cys-ylltiad rhwng pechod a'i ganlyniadau angenrheidiol gael ei lori, yr hyn a ofyna ymyriad â threfn Natur, neu rywbeth *oruch*naturiol. Hyn a ddeliais, ac yr ydwyf eto yn ei ddal, yw athrawiaeth yr Efengyl—y newyddion da sydd yn dad-gan y ffaith o gyfryngiad grasol a thrugarog o eiddo Duw i achub y byd. Yn awr, tra yn addef gwirionedd y gosodiad cyntaf—y cyssylltiad angenrheidiol rhwng pechod a'i gan-lyniadau cospawl ar natur ysbrydol—gallai rhai gael eu tu-eddu i ddadleu, fel yr awgrymwyd yn awr, am y cyfryw gan-lyniadau, pa mor fawr bynag y gallant effeithio, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, ar gyflwr a dedwyddwch y natur hono, cyhyd ag y parheir mewn pechod, neu y byddys heb edifarhau o'i blegid; eto, os rhoddir pechod i fyny, ac os maethir an-sawdd newydd yn y teimlad, yna, mewn ffordd o ganlyniad naturiol, ni chynnyrchid y dosbarth cyntaf o ganlyniadau, a gweithid allan ddosbarth arall, ac un gwahanol, yn rheolaidd. Os felly, yna ymddangosai fod gan Natur ynddi ei hun yr oll sydd yn angenrheidiol; ac y buasai hi ei hun, yn ol ei

chyfansoddiad gwreiddiol, yn parotoi ar gyfer y peth hwnw, yr haera Cristionogaeth, ac y profa athronwyr, sydd yn gofyn rhywbeth goruchnaturiol i'w ddwyn oddi amgylch. Y mae rhywbeth yn y gosodiad yma, sydd, ar y dechreu, yn ymddangos yn rhesymol. Ond yn awr, y mae arnaf eisieu i chwi, wŷr ieuainc, edrych ar bechod mewn golygiad gwahanol i'r un a ddangoswyd hyd yma,—golygiad sydd yn enwedig yn hawlio sylw yr ieuainc, a'r hwn, tra yn llawn o addysg bwysig a phriodol iddynt, a allai daflu ychydig o oleuni chwanegol ar yr angenrheidrwydd a ddaliwn am ryw weithred uniongyrchol o ochr Duw, yn gystal ag am gyfnewidiad teimlad mewn dyn, os ydys i ochel canlyniadau naturiol pechod.

Yr hyn y cyfeiriaf ato yw, *fod pechod mewn un dyn, yn tueddu i gynnyrchu neu achlysuro pechod mewn un arall*, ac felly yn mlaen, yn annherfynol. Gall hyn fod yn effaith bwriad ystyriol, neu yn effaith dylanwad anfwriadol, ond sicr. "*Efe a rydd Israel i fyny*," ebe y prophwyd, "*o herwydd pechodau Ieroboam, yr hwn a bechodd, ac a wnaeth i Israel bechu.*" Am ddau gant o flyneddoedd, a chwaneg, wedi i Ieroboam fyned i'w fedd, yr oedd ei bechodau *ef*, yn gystal a'r eiddynt eu hunain, yn cael ymweled â hwynt ar ei bobl; yr oedd cyssylltiad addefedig rhyngddo ef a throseddau cenedlaeth oedd mewn cymhariaeth yn mhell,—yr oedd y cospedigaethau a weithid allan y pryd hyny yn gynnyrch y naill a'r llall. Y mae yma egwyddor y dymunwn i chwi ei gweled. Ystyriwch yn ddwys beth sydd genych o'ch blaen yn y gosodiad cymhlethol ac amlochrog hwn. Sylwch, nad all fod dim ammheuaeth yn nghylch y *ffaith*, fod pechod mewn un dyn yn cynnyrchu pechod mewn un arall; nis gall fod dim ammheuaeth chwaith, nad all y gweithrediad, wedi iddo unwaith ddechreu, fyned yn mlaen yn annherfynol—nid oes dim attal arno;—gallai dyn fyw yn y byd, yn mhell wedi iddo farw, yn ffurf dylanwad gweithgar a gwenwynllyd, yr hwn a ddifwyna ac a lygra genedlaethau olynol. Hefyd, y mae yn bwnc o ffaith syml ac eglur, nad ellid rhwystro hyn, yn ol cyfansoddiad naturiol pethau, ond trwy wyrth, neu gyfres o wyrthiau, o'r fath hynotaf. Beth bynag allai fod y cyfnewidiad yn y dyn ei hun, " yr hwn a bechodd, ac a wnaeth i *ereill bechu*,"—a beth bynag allai fod effeithiau y cyfnewid-

iad hwnw ar ei enaid, a'i sefyllfa ysbrydol ei hun—nid all *hyn* mewn modd yn y byd gyrhaedd ymdeithiad dinystriol yr hyn a osododd efe mewn ysgogiad,—gallu sydd o hyd yn cael ei uno âg *ef*—sydd yn myned rhagddo ar ei ffordd ofnadwy, yn twyllo, yn llygru, ac yn dinystrio ereill! Galwn y byd nesaf yn fyd y goleuni; credwn y bydd dynion ynddo yn cael darganfyddiadau cliriach a mwy treiddiol o'r hyn sydd uniawn a gwirioneddol nag sydd ganddynt yma; —y bydd ganddynt wybodaeth gyflawn (neu y gallant gael) o'r hyn a *wnaethant* yn y corff; ac y gallant hefyd wybod beth y maent yn *parhau* i'w wneuthur trwy eu dylanwad gwastadol. Heb bwyso ar y peth olaf yma—a dychymygu am ysbryd dynol yn myned i dragwyddoldeb a'r holl gynneddfau oedd ganddo yma yn alluog i'w dwyn i ymarferiad cyflawn ac effeithiol—mae yn anhawdd gweled, ar unrhyw egwyddor naturiol, sut y gallai y fath ysbryd,—yn ymwybodol o'i fod wedi twyllo a llygru ereill, ac fod yn rhaid fod canlyniadau ei bechod yn chwanegu yn wastadol trwy niweidiau olynol a weinyddir bob amrantiad ar drueiniaid o'r newydd,—mae yn anhawdd, meddaf, weled sut y gallai y fath ysbryd, pa gyfnewidiad bynag er gwell a all fod wedi cymmeryd lle o'i fewn ef ei hun, fwynhau mewn un modd, neu oddef ei hun i fwynhau, un amrantiad o orphwysdra neu dangnefedd, nes y byddai canlyniad olaf, a phellaf o gwbl, ei bechod wedi ei ddileu o'r greadigaeth! A pha bryd y gallai hyny fod? Os yw y byd i barhau yn dragwyddol, fe fydd y drwg yn myned yn ei flaen dros byth; os yw i ddyfod i derfyniad, ac os ydyw pob ysbryd dynol felly i gael y cyfleusdra o ail-ddylanwadu er gwell ar ei gydysbrydion ac arno ei hun, yn mha le mae y prawf o ddim tebyg i hyn yn cael ei barotoi gan *Natur?* Pa faint o amser a gymmerai, trwy y cynllun hwn, i adferu pob dyn i rinwedd a dedwyddwch? Ië, sut y gallai y peth *ddechreu* heb wyrth—gwyrth mor fawr a chreadigaeth disymmwth byd?

I ddangos nad ydwyf yn gyru pethau yn rhy bell trwy sylwi fel yma, cymmerwch amgylchiad diammheuol, fel un Ieroboam, er o natur wahanol, i ddangos yr egwyddor a ymddengys fel yn rhan o gyfansoddiad natur. Cymmerwch amgylchiad dyn o athrylith, penrhydd, ac wedi ymwerthu i ddrygioni. Tybiwch ei fod yn ysgrifenu ffugchwedlau a

phryddestau, penniflion a chaniadau, o'r gwneuthuriad godidocaf, ond oll yn ofnadwy ac yn drwyadl ddrwg—gweithiau o'r fath gymmeriad ag a fyddo yn hudoliaethus i'r eithaf yn eu dengarwch, ac yn llygredig hollol yn eu tuedd. Y rhai hyn, ynte, ydynt ffurfiau bywiol a pharhaus, corfforiadau aml-leisiol ei bechod. *Efe ei hunan* ydynt, fel y mae i'w adwaen gan, ac i ddyfod i gyffyrddiad â, dynion ac amserau ereill. Y maent yn deilliaw oddi wrtho ac yn gyssylltiedig âg ef; y maent yn byw trwy ei fywyd, yn gweithredu trwy ei nerth, yn llefaru yn ei eiriau. Trwyddynt hwy y mae yn dyfod i gyffyrddiad uniongyrchol â meddyliau ereill, a gwna felly tra pery y byd, neu iaith y wlad. Nid yw ei bechod yn cael ei chwanegu yn gymmaint o'r naill i'r llall, tra y mae ei gyssylltiad a'i gyfrifoldeb ef yn dyfod lai lai fel y mae cenedlaeth ar ol cenedlaeth yn dyfod i gael ei rhan benodol yn yr euogrwydd; ond y mae *efe*, trwy ei ysgrifeniadau, fel ei lafar gweledig a bythbarhaol, mewn cyffyrddiad *digyfrwng* â *phob* cenedlaeth, fel yr oedd gyda'i gydoeswyr, ac fel y mae yn twyllo ac yn llygru yn bersonol ac uniongyrchol. Ac nis gellir gochel hyn oll, sylwch! Nid yw yn ddichonadwy ei ysgoi, os nad trwy losgiad y byd; a gallai hyd yn oed hyny fod yn aneffeithiol. Nid all dylanwad dyn beidio pan fydd marw, na phan edifarha ac y dychwelir ef, ac y deffry i fyny i fywyd ysbrydol a dwyfol, pe byddai i *hyny* gymmeryd lle,—oddi eithr i Dduw wneyd gwyrth fyddo yn myned gan belled ag i ddiddymu ei holl lyfrau argraffedig, a'r holl argraffiadau a wnaethant erioed ar unrhyw berson—y geiriau a gyfleasant yn ei gof, y meddyliau y bu iddynt eu hachlysuro, y teimladau a gynhyrfasant, y gweithredoedd a gymhellasant, neu ganlyniadau y pethau hyn oll! Rhaid i'r byd gael ei wneyd y peth *fuasai* pe na buasai y dyn erioed wedi ei eni! Nid allai ei farwolaeth fel dyn, na'i "eni drachefn" fel dyn ailenedig, feddu y dylanwad lleiaf mewn gosod hollol attalfa ar yr hyn a osodasai mewn ysgogiad,—nid allai dim wneyd hyn ond dymchweliad cyflawn ar bob trefn naturiol a phob deddf sefydledig!

Yn awr, dymunaf arnoch sylwi, yr ydys i gymmeryd i fewn yn mysg canlyniadau ac effeithiau pechod y dyn yma, nid yn unig beth *ydoedd* ansawdd ei feddwl ef ei hun (yr *hwn y tybir* a allai fod wedi ei gyfnewid a'i buro trwy alar

am bechod, a thristwch, a chyfnewidiad teimlad), ond y mae yma effeithiau parhaus y *tu hwnt* iddo ei hun, nad all dim *sydd yn cymmeryd lle o'i fewn* eu cyrhaedd; ac yn ol tynerwch ei deimladau newyddion, a dillynder ei amgyffredion moesol, gellid meddwl, y teimla oddi wrth weithiad a gwrthweithiad y wybodaeth o'r ffaith hon oddi fewn iddo ac arno. Dywedwn hyn ar y dybiaeth o'i dröedigaeth yma: ond yn y byd nesaf, fe fydd ei natur foesol ac ysbrydol yn fwy byw fyth i bob argraff ac ysgogiad tyner; ei olygiadau am dano ei hun a'i weithredoedd ar y ddaiar yn eangach a dyfnach; *gallai* y bydd ei wybodaeth o'r hyn y parhâ i'w wneyd, yn glir a phendant,—nid all ei *dybiau* yn nghylch hyny, lai na bod yn lled gyflawn. Ar unrhyw egwyddor *naturiol*, yn ol unrhyw ddeddf, neu unrhyw gyfundrefn o ddeddfau a alwn yn naturiol, pa fodd y gall fod yn bosibl i'r dyn yma fwynhau un eiliad o orphwysdra, tra mae y canlyniadau hyn o eiddo ei bechod yn myned yn mlaen yn barhaus? Cyhyd ag y parhant *hwy* i orlifo yn y byd hwn, rhaid, gallem feddwl, o angenrheidrwydd, ac yn anocheladwy, y bydd gorlifiad cyfatebol yn meddwl a theimlad ei enaid yntau, fydd yn berffaith annysgrifiadwy; ac, nes i'r naill beidio, nid ymddengys fod un terfyniad *naturiol* yn bosibl i'r llall. Gyda golwg ar y byd hwn, y mae y dyn "wedi marw yn llefaru eto,"—yn llefaru gydag effaith, fel ag i wenwyno meddyliau, i lygru calonau, a dinystrio eneidiau miloedd yn mhob cenedlaeth, ac efallai mewn llawer o wledydd. Nid ydyw cyfleusderau gwell i gynnyrchu a lledaenu ei ymadroddion personol, yr hyn sydd yn cyfansoddi ei bresennoldeb bywiol a'i allu dylanwadol yn y byd—nid ydyw y rhai hyn ond yn chwanegu y drygioni a ddechreuodd, yn ei fwyhau ac yn ei waethygu: gellid dysgwyl i'w euogrwydd, sydd fel hyn yn wastadol ar gynnydd, gael ei brofi gan ryw gydymdeimlad cyfatebol ynddo ei hun. Po fwyaf yr edrychwch ar y mater yn y goleuni yma, mwyaf a welwch y fath ganlyniadau difrifol a allent ddeilliaw oddi wrth bechod, trwy ei duedd i'w genedlu a'i fytholi ei hunan.

Mi a gymmerais amgylchiad eithafol; ond y mae yr egwyddor sydd ynddo yn perthyn i bob amgylchiad. Y mae pechod pob dyn, yn fwy neu lai, wedi dylanwadu ar ereill, ac *arwain* i bechod. Nid ydyw swm y drygioni, y trosedd,

y pechadurusrwydd, a'r annuwioldeb, sydd ar unrhyw adeg yn bod yn y byd yma, yn gynnyrch y rhai sydd yn byw ar y pryd yn unig, ond perthyna mewn rhan i'r rhai oedd yma o'u blaen. Y mae dynion drwg yn gwneyd dynion drwg. Y mae temtwyr yn hudo, ac y mae y rhai a hudir yn temtio yn eu tro. Y mae llawer o bechodau yn gofyn cymdeithion; y mae y rhai oeddynt eto yn ddiniwed, yn cael eu denu yn wastadol gan y rhai profedig mewn anwiredd. Fel hyn y mae y gwaith yn myned yn mlaen. Wedi iddo unwaith gael ei gyflawnu, y mae pechod yn byw ac yn gweithredu dros byth. Y mae gan bob dyn gyssylltiad personol â'r canlyniad pellaf sydd yn deilliaw oddi wrth ei bechod. Y mae gan ereill eu cyfrifoldeb neillduol eu hunain, a'u heuogrwydd personol; ond, i lygad Duw, gallai fod y llinell yn weledig sydd yn cyssylltu y weithred a gyflawnir y fynyd hon, â dylanwad rhyw un sydd wedi bod yn ei fedd am gan mlynedd. Nid oes un gallu mewn natur a ddichon attal y rhedfa yma ar bethau. Nis gall moddion moesol ond ei lesteirio yn egwan, os gall o gwbl. Y mae pechaduriaid mawrion iawn, gan mwyaf, yn meirw heb feddwl am yr hyn a wnaethant, yn y fath fodd fel ag i ofalu am ei wrthweithio, neu sylweddoli yn eu meddwl y dylanwad a adawant yn fyw ar eu hol. Hyd yn oed pe deuai un o'r cyfryw i feddwl yn well, a throi yn benderfynol at Dduw, nid oes sail i feddwl y gallai, i unrhyw fesur helaeth, ddadwneyd yr hyn a wnaethai, *pe byddai iddo geisio.* Casgled y cyfryw ddyn yn nghyd bawb y dylanwadodd arnynt er drwg, y rhai y dymchwelodd eu ffydd, neu yr halogodd eu moesau; dyweded wrthynt am ei gyfnewidiad mewn barn a buchedd, am ei edifeirwch a'i ddagrau; bydded iddo erfyn ac atolygu arnynt edifarhau, a gweddïo, a dychwelyd at Dduw;—cyfarfyddid ef, mae'n debyg, â chwerthiniad a diystyrwch, gwatwerid ef am ei waeledd a'i ragrith, beiid ef o blegid y dylanwad a gydnabydda ac y galara am dano, ac fe genfydd fod yn anhawddach o lawer adferu na llygru. Ond y mae yn anmhosibl i un dyn wneyd ymgais fel hon. Cyn i'r cyfryw ddeffro i ymdeimlad o'r hyn a wnaeth, y mae y rhai a niweidiodd trwy ei bechod, gan mwyaf, tu hwnt i'w gyrhaedd. Y mae rhai wedi myned o'r golwg, rhai wedi eu hanghofio, rhai yn mysg y gwrthdroedwyr, a rhai wedi meirw; teimlir

fod y drychfeddwl o ddinystrio ei waith ei hun yn anobeithiol—y mae y peth yn anmhosibl; ond y mae y gwaith ei hunan yn y byd yn myned yn mlaen, beunydd yn gweithredu ac yn cynnyrchu effeithiau; gallai y gwna felly dros byth, a bydd bob amser yn ngolwg ac yn nheimlad ei gydwybod, mewn cyssylltiad pendant a gwirioneddol âg ef.

Yn awr, os ydyw maddeuant pechod i gynnwys ynddo ddiddymiad gwirioneddol holl effeithiau, a holl ganlyniadau gweithredoedd dyn, eu dylanwad ar ereill yn gystal ag arno ei hun, y mae mewn gwirionedd yn anhawdd gweled pa fodd y mae hyn yn bosibl heb y fath ymyriad â threfn pethau ag a fyddai yn attaliad hollol arni, os nad yn rhywbeth mwy. Y mae yn eglur iawn, hefyd, os nad ydym i gael ein rhoddi i fyny i anobaith, a thrueni, ac i fod yn agored dragwyddol i feddyliau poenus a chospawl, y rhaid fod rhyw gyfryngiad trugarog o eiddo Duw i'n gwaredu oddi wrthym ein hunain; rhywbeth a fyddo i'r fath raddau yn gyfartal i'r amgylchiad ag i'w wneuthur yn bosibl i bechadur, er gwaethaf natur anfarwol pechod, obeithio—myned i fewn i radd o orphwysdra a thangnefedd yma, a bod yn gyfaddas ar ol hyn i fwynhau gwynfyd a llawenydd. Yr ydym yn credu, fel y dywedasom, mai yr efengyl ydyw y peth yna. Nid wyf yn ceisio profi hyny;—yr wyf yn llefaru yn awr wrthych chwi ar sail y grediniaeth Gristionogol a addefir genych chwi a minnau. Y mae yr efengyl, gan hyny, ni a ddywedwn, yn cyfarfod ein hamgylchiad. Yr ydym yn credu fod, drwyddi hi, drefniad newydd, graslawn, goruchnaturiol, o ddeddfau wedi eu gosod, i gylchynu, i gau i fewn, neu i ymgymmysgu gyda y ddeddf naturiol; ac y gall—i'r rhai sydd yn ymlochesu dano ac yn dyfod yn ddarostyngedig i'w weithrediadau—wneyd yr hyn nad all dim arall, a'r hyn y *rhaid* i rywbeth ei wneyd, os ydyw dynion i gael eu hachub. Hyny yw, er na ddiddyma y canlyniadau a allant ddeilliaw i gyrff, i gyfoeth, neu hyd ynoed i fywydau dynion, oddi wrth ddrygioni neu droseddau yn y byd hwn; ac er na chyfrynga i attal canlyniadau eu pechod, fel y gweithiant eu hunain allan ar feddyliau ereill; eto, y mae, mewn rhyw ddull rhyfeddol, yn dyfod i mewn yn y fath fodd rhwng enaid y dyn pechadurus (pan yn edifeiriol ac yn credu) â chanlyniadau ysbrydol ei bechod iddo ei hun, fel ag i'w waredu oddi wrth ofn:—llon-

ydda ei feddwl terfysglyd, cyfrana iddo dangnefedd tawel a dwfn, a chalonoga ef i ddysgwyl, mewn "sicrwydd gobaith," am anfarwoldeb o wynfydedigrwydd mewn byd i ddyfod.

Yn awr, mi a'ch deliais chwi, wedi gorpheniad y ddadl ei hun, er na fwriedais fyned yn mhellach, nid i godi y' cwestiwn am wirionedd hyn, neu i ymresymu o'i blaid, ond, *gan gymmeryd yn ganiataol wirionedd* yr hyn a ddangosasom yn mhellach am natur pechod a goruchwyliaeth yr efengyl, mi a'ch deliais i'r dyben o argymhell atnoch chwi, wŷr ieuainc, ddau beth, mewn ychydig o eiriau ymarferol wrth ymadael.

Yn y lle cyntaf, *Ymogelwch rhag drygioni o bob math—pechod o bob natur:* o herwydd y ffaith brofedig hon fod y fath duedd mewn pechod i'w genedlu ei hun, a bod y fath gyssylltiad annattodadwy rhwng ei gyflawniad cyntaf a'i ganlyniadau eithaf. Ymogelwch rhag pob dylanwad bwriadol a dygwyddiadol, trwy ba un y gellwch ddyfod yn "gyfrangogion o bechodau rhai ereill." Ni wyddoch beth allech fod yn ei wneyd, pan, trwy air neu weithred, yr ydych yn effeithio er drwg ar enaid un arall. Gallai dyn trwy ymadrodd dibwys, trwy drem y llygad, trwy grychiad y wefus, trwy godi ei ysgwyddau neu wenu, ddeffroi ammheuaeth yn meddwl gŵr ieuanc dysyml o Gristion; neu awgrymu meddwl halogedig, neu ddyrysu a llethu gwroldeb moesol, ac mewn llawer o ffyrdd wneyd cam â diniweidrwydd, a pheryglu rhinwedd. Meddyliwch am yr hyn a allai unrhyw beth o'r natur yma ddyfod. Ystyriwch rhyngoch a chwi eich hunain, y fath ganlyniadau dirfawr, a'r fath linell hir o honynt, a allant ddeilliaw oddi wrth y fath ddechreuad bychan. Gallai gweithred ddrwg, fechan, gair ysgafn, diofal, osod hâd mewn rhyw galon a ddwg ffrwyth o bechod mwy o lawer na'r un a gyflawna hauwr yr hâd; a gallai *efe*, cofiwch, feddu cyfrif ofnadwy am y ffrwyth yma, ac am ei hâd a'i dyfiant hefyd, drwy amser oll! Meddyliwch, os niweidiwch ereill drwy eich dylanwad, mor anmhosibl y gallai fod i chwi byth ei ddadwneyd; ac mai y dagrau chwerwaf a dywelltwch ar eich edifeirwch fydd y rhai a ddeilliant oddi wrth y meddwl am y ffaith hon. Cofiwch, y gallai y meddwl yma dywyllu y byd i chwi cyhyd ag y byddwch byw; ac effeithio ar eich

mwynhâd o obeithion crefydd, a'ch gorfodi i "gerdded yn araf eich holl ddyddiau yn chwerwder eich enaid." Meddyliwch, fel y gallai y drychfeddwl am eich bod yn alluog i fwynhau gorphwysdra hyd yn oed yn y byd uchod, ymddangos, braidd yn anghredadwy — nad ellir coledd y gobaith am dano ond yn unig ar sail y fath gyfryngiad trugarog a rhyfeddol o eiddo Duw, ag sydd, pa fodd bynag yr addefir ef ac y llawenychir ynddo fel ffaith ddadguddiedig, sydd o hyd yn gadael y posiblrwydd o lawenydd yn ddirgelwch ac yn rhyfeddod!

Yn y lle nesaf, *Y mae arnaf eisiau i chwi beidio ymddiried dim i ddamwain.* Y mae arnaf eisieu i chwi deimlo yn eich eneidiau eich bod i ddwyn y drychfeddwl yma i'ch crefydd, yn gystal ag i faterion bywyd cyffredin. Gobeithiaf nad anghofiwch yr hyn yr ymdrechais ei ddangos i chwi, fel y mae llwyddiant bydol, iechyd, cymmeriad, dyrchafiad, cyfoeth, a phob peth arall sydd yn cyfranu at beri i ni wneyd y "goreu o'r bywyd hwn," yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfau sefydlog; a chan hyny, beth bynag fyddo nifer yr eithriadau ymddangosiadol, fod cwrs cyffredinol pethau y fath, fel wedi i un peth gael ei wneyd y mae un arall yn dilyn; ac o ganlyniad, gyda golwg ar yr hyn a *all* dyn ei wneyd, neu *a wna*, mewn bywyd, gellir gwneyd cyfrifiadau, ac hyd yn oed lefaru prophwydoliaethau, gyda chryn lawer o hyder. Y mae llawer, pa fodd bynag, yn meddwl fod pethau yn gwbl wahanol mewn crefydd. Tybir fod bendithion ysbrydol yn cael eu cyfranu i bersonau ar egwyddorion llawer llai unffurf a dealladwy na rhai tymmorol; a pha beth bynag a all fod y cyssylltiad rhwng moddion a dybenion yn helyntion bywyd, o blegid y deddfau sefydlog sydd yn eu llywodraethu, ei bod yn hollol wahanol mewn pethau crefyddol, o blegid *yno* "nad ydym dan y ddeddf, eithr dan ras."

Yr wyf yn addef fod arnaf eisieu i chwi, wŷr ieuainc, ddeall, ac y mae arnaf eisieu i chwi ei wneyd yn egwyddor eich ymarweddiad crefyddol, mai dysgeidiaeth yr efengyl yw, fod gras *wedi dyfod* yn ddeddf. Yr ydych i weithredu, gan hyny, yr wyf yn credu, mewn pethau ysbrydol, ar yr un egwyddor yn uniawn ag sydd i reoleiddio eich buchedd yn helyntion bywyd. Gan fod deddf naturiol, yn ei thair cyfundrefn o naturiol, cymdeithasol, ac ysbrydol, yr hyn a

ddysgrifiasom (ac fel deddf, mae'n gweithio allan ei chanlyniadau anocheladwy), y mae Duw yn cyfryngu er ein hymwared;—ond, nid trwy fympwy, pleidgarwch, caredigrwydd at bersonau, gweithredoedd a chyfryngiadau neillduol yn amgylchiad un ac arall, y gwna efe hyny. Drwy hyn oll, fe'n teiflid ni, mewn crefydd, naill ai ar luosogiad diddiwedd o wyrthiau, neu ar ddygwyddiadau ac ansicrwydd, nad allant ganiatäu i ni un sail resymol i weithgarwch neu obaith. Yn lle hyn, drychfeddwl ardderchog yr efengyl yw, *fod goruchwyliaeth rasol*, neu gyfundrefn *wedi ei sefydlu*, sydd yn cydymgymmysgu â, ac yn cysgodi y rhai naturiol,—yn dyfod ei hunan yn beth mor sicr a sefydlog ag un o honynt, wedi ei pharotöi i weithredu yn ol ei natur ei hun, ac i weithio allan effeithiau trwy weithrediad deddfau a threfniadau ordeiniedig. Cyfundrefn oruchnaturiol ydyw, wedi ei dwyn i mewn a'i sefydlu gan weithred Ddwyfol, yn gyssylltiedig â phob deddfau a sefydlwyd o'r blaen, wedi eu bwriadu i gynnysgaethu dyn â'r hyn nad ydoedd yn bosibl iddynt hwy ei ddwyn allan;—hyny yw, drwy ryw gytundeb dirgeledig â'u rheolau sylfaenol, ac yn gydsafol âg ymddiffyniad eu huniondeb, i'w wneuthur yn bosibl i'w troseddwyr i ddianc rhag, ac ysgoi canlyniadau naturiol a haeddiannol eu hymarweddiad. Y mae y gyfundrefn yma o gyfryngdod a gras wedi ei sefydlu a'i dwyn i weithrediad er mwyn dyn, er amser dyfodiad pechod. Y mae ei chanolbwynt yn Nghrist. Efe ydoedd yr "Oen wedi ei ladd er seiliad y byd." Y weithred Ddwyfol o sefydlu y gyfundrefn o drugaredd ynddo Ef, ac yna ei dadblygu yn raddol a'i dadguddio i'r eglwys, ydyw yr un peth yr ydym ni i'w ystyried fel yn cynnwys ynddo yr elfen wyrthiol. Wedi iddi gael ei sefydlu unwaith, y mae pethau yn myned yn mlaen yn ol deddfau a chanonau yr oruchwyliaeth. Y mae y goruchnaturiol yn peidio. Nid yw y gwahanol ranau sydd yn gwneyd i fyny weithrediad y gyfundrefn yn gynnifer o wyrthiau neillduol, er fod y gyfundrefn yn cael ei dechreu a'i dwyn i mewn trwy wyrth. Yr oedd creadigaeth y byd yn ymyriad uniongyrchol â'r cwrs hwnw ar bethau oedd yn bod yn flaenorol; ond wedi i hyny gael ei gyflawnu, y mae pob peth a ddygwyd i fewn fel yma yn rhyfeddol, yn myned yn mlaen ac yn gweithio *trwy ddeddf* briodol. Y "greadigaeth newydd," dygiad i

fewn "Gyfryngwr," yn yr hwn y rhoddwyd gras i ni er seiliad y byd—dyma oedd gweithred fawr oruchnaturiol Duw, yr hon oedd wyrthiol yn ol cyfansoddiad blaenorol pethau; ond, wedi unwaith ei sefydlu, sydd yn myned yn mlaen yn ol trefniadau pendant, ac nid trwy gyfres o weithredoedd gwyrthiol. Yn awr, yr wyf yn credu y dylech fyned yn mlaen mewn pethau crefyddol ar y ddealltwriaeth yma. Y mae genych, bob un o honoch, yn ol fel yr wyf fi yn deongli pethau, gyssylltiad mor wirioneddol â chyfundrefn oruchnaturiol gras, ag sydd genych â'r cyfundrefnau o ddeddfau naturiol, cymdeithasol, ac ysbrydol; a chwi a gewch hyn allan un diwrnod, beth bynag a feddylioch yn awr, pan fernir chwi fel rhai wedi bod dani, ac wedi eich anerch ganddi, a chael cynnyg o iachawdwriaeth drwyddi. Chwi a ddeallwch y pryd hyny pa fodd y mae Duw yn dyweyd hyn oll yn berffaith ddiffuant, yn ddigellwair, mewn gwir ddifrifwch, ac yn ystyr eglur a chyffredin y geiriau. Y mae Efe yn gweithredu yn ngoruchwyliaeth gras, fel y gwna yn ngoruchwyliaeth natur. Nid ydych i ddysgwyl i ddim gael ei wneyd mwy na'r hyn a wnaed eisoes; nid ydych i dybied fod un angenrheidrwydd i Dduw wneyd rhywbeth arall; nid ydych i ddychymygu, os ydyw Duw yn bwriadu eich achub, neu yn dewis i chwi gael eich achub, y gwna Efe y peth rywfodd—y daw yr amser; ac, hyd hyny, nad ellwch chwi wneyd dim. Y mae hyn oll am symmud elfen wyrthiol yr efengyl oddi wrth "brynedigaeth y byd trwy Iesu Grist," at y weithred sydd yn achub pob enaid ar ei ben ei hun. Gyda golwg ar fwriadau Duw, ei ewyllys, ei amser, ac felly yn mlaen, y mae y rhai hyn i'w dysgu oddi wrth yr hyn a wnaeth, ac oddi wrth yr hyn a ddywedodd Efe. "Fe garodd *y byd*, ac fe roddodd ei uniganedig Fab, fel na choller *pwy bynag* a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Fe "*ewyllysiai fod pob dyn yn gadwedig* trwy ddyfod i wybodaeth y gwirionedd." "*Yn awr* yw yr amser cymmeradwy, wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth." Eich dyledswydd chwi yw credu yn Nghrist, ymddiried yn Nuw, gweddïo, edifarhau, gobeithio, "rhoddi eich hunain" yn ol yr awgrymiadau tufewnol, ymochel rhag "diystyru Ysbryd y gras." Dylech fyw, symmud, a bod, yn awyrgylch yr oruchwyliaeth raslawn hono a osododd Duw i fyny, ac sydd yn eich

cylchynu, ac wedi ei gwneyd er eich mwyn, gyda'i holl gymhwysiadau sefydlog a bendigedig. Credwch hyn yn eich calon. Gweithredwch arno. O'i herwydd y mae edifeirwch, gweddi, ffydd, cymhorth Dwyfol, maddeuant, nefoedd—oll yn bosibl neu yn effeithiol, neu yn gyrhaeddadwy yn awr, neu ar ol hyn. Syrthiwch i fewn ynte â'r trefniadau o ras a thrugaredd, y rhai, trwy Grist, sydd yn eich cylchynu ac yn pwyso arnoch o bob cwr, fel y mae deddfau ereill yn gwneyd yn ol trefn natur. Dechreuwch ar unwaith. "Ofnwch Dduw o'ch ieuenctyd." "Ymgedwch yn eich llwybrau yn ol ei air Ef," fel y byddo iddynt gael eu cadw "yn lân." Gwell ydyw dechreu cyflawnu pob dyledswydd gyda bywyd; er i ddyn gael mor lleied ag a fyddo yn bosibl i'w ddadwneyd, i ofidio o'i blegid, i ymwrthod âg ef, neu i'w faddeu, gyda golwg ar bob peth. Peidiwch a gadael dim i bosiblrwydd ac ansicrwydd—i ddamwain a dygwyddiad. Peidiwch ag ofni nad ellwch weithredu mewn pethau crefyddol gyda'r un rhyddid a hyder ag y gwnewch mewn pethau ereill. Peidiwch ag oedi, oddi ar y drychfeddwl fod rhyw beth anarferol i ddygwydd i'ch swyno at grefydd, neu i fod yn warant i'ch ffydd. "Y mae pob peth yn barod." Y mae Duw "yn dysgwyl i drugarhau wrthych." Y mae wedi dadguddio i chwi fel y mae pob peth wedi cael ei drefnu a'i barotoi er sicrhau i chwi fywyd crefyddol dedwydd, os bydd i chwi ond rhoddi eich hunain yn fore i'w wasanaeth Ef; ac mai y parotoad goreu at "anrhydedd, ac anfarwoldeb, a bywyd tragwyddol," ydyw, "rhodio gydag Ef" *trwy yr oll o hwn*, trwy gymmeryd poen a "pharhau yn gwneuthur da." Credwch hyn! Gweithredwch arno o'r fynyd hon! Nac ymddiriedwch ddim i ddygwyddiadau dyfodol, am y bywyd hwn nac am y nesaf! Coeliwch chwi fi, y mae mor wir am y naill ag ydyw am y llall, mai "PENNOD DYGWYDDIADAU YDYW BEIBL YR YNFYD."

DINBYCH, ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.